# Asesiad Seilwaith Gwyrdd Sir Benfro

## Trosolwg o Gynlluniau Rheoli Anheddiad

## Cyngor Sir Penfro

**[Status]**

Paratowyd gan LUC

Chwefror 2023

| Fersiwn | Statws | Paratowyd | Gwiriwyd | Cymeradwywyd | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Drafft | S Crewe | S Crewe | M Parkhill | 03.03.2023 |

EMS566057 FS566056 OHS627041

**Land Use Consultants Limited**

Cofrestrwyd yn Lloegr. Rhif cofrestredig 2549296. Swyddfa Gofrestredig: 250 Waterloo Road, Llundain SE1 8RD. Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%

Asesiad Seilwaith Gwyrdd Sir Benfro

# Cynnwys


## Pennod 1 — 6
Cyflwyniad

Egwyddorion Seilwaith Gwyrdd 8

## Pennod 2 — 16
Abergwaun ac Wdig

Portread o Seilwaith Gwyrdd Abergwaun ac Wdig 16
Prosiectau Cicdanio 19
Rhestr Hir o Brosiectau 38

## Pennod 3 — 44
Hwlffordd

Portread o Seilwaith Gwyrdd Hwlffordd 44
Prosiectau Cicdanio 47
Rhestr Hir o Brosiectau 65

## Pennod 4 — 74
Aberdaugleddau

Portread o Seilwaith Gwyrdd Aberdaugleddau 74
Prosiectau Cicdanio 77
Rhestr Hir o Brosiectau 96

## Pennod 5 — 103
Arberth

Portread o Seilwaith Gwyrdd Arberth — 103
Prosiectau Cicdanio — 106
Rhestr Hir o Brosiectau — 126

## Pennod 6 — 132

Prosiectau Cicdanio — 135
Rhestr Hir o Brosiectau — 152

## Pennod 7 — 159
Neyland

Portread o Seilwaith Gwyrdd Neyland — 159
Prosiectau Cicdanio — 162
Rhestr Hir o Brosiectau — 179

## Pennod 8 — 186
Penfro

Portread o Seilwaith Gwyrdd Penfro — 186
Prosiectau Cicdanio — 189

## Pennod 9 — 218
Doc Penfro

Portread o Seilwaith Gwyrdd Doc Penfro — 218
Prosiectau Cicdanio — 221

Rhestr Hir o Brosiectau 241

## Pennod 10 248
Saundersfoot

Portread o Seilwaith Gwyrdd Saundersfoot 248
Prosiectau Cicdanio 251
Rhestr Hir o Brosiectau 268

## Pennod 11 272
Tyddewi

Portread o Seilwaith Gwyrdd Tyddewi 272
Prosiectau Cicdanio 275
Rhestr Hir o Brosiectau 294

## Pennod 12 300
Dinbych-y-pysgod

Portread o Seilwaith Gwyrdd Dinbych-y-pysgod 300
Prosiectau Cicdanio 303
Rhestr Hir o Brosiectau 322

## Cyfeiriadau 330

# Pennod 1

## Cyflwyniad

**1.1** Mae’r Cynlluniau Rheoli Anheddiad Seilwaith Gwyrdd (SG) yn integreiddio a diweddaru'r meddylfryd a'r mentrau cyfredol a gyflwynwyd yng Nghynllun Gweithredu SG Sir Benfro (a ddisodlwyd bellach).

**1.2** Mae pob un o'r 11 Cynllun Rheoli Anheddiad yn darparu dull symlach o adnabod a darparu ymyriadau SG. Eu nod yw helpu llunwyr polisi, datblygwyr, grwpiau cymunedol a thrigolion i ddarparu SG priodol, amlswyddogaethol a gwydn ar draws 11 anheddiad yn Sir Benfro.

**1.3** Ym mhob Cynllun Rheoli Anheddiad, mae rhestr hir o brosiectau wedi'u nodi drwy ymgynghoriad cyhoeddus, ymgynghoriad â rhanddeiliaid, ymweliadau safle a barn broffesiynol. Mae'r rhestr hir yn darparu amrywiaeth o fathau, graddfeydd a chostau prosiectau, a'r bwriad yw ei chyflawni gan bartneriaid amrywiol pan fydd cyllid ar gael. Drwy ddarparu amrywiaeth o brosiectau, bydd yr amrywiaeth o fuddion a gwasanaethau ecosystemau a geir ar draws pob anheddiad yn tyfu.

**1.4** Dewiswyd tri phrosiect 'cicdanio' o'r rhestr hir hon ar gyfer pob anheddiad. Bwriadwyd i’r tri phrosiect hyn fod yn esiamplau o SG a dylid eu cyflwyno'n gyntaf i'w cyflawni. Y gobaith yw y dylai darparu'r prosiectau cicdanio hyn sbarduno’r SG o fewn pob anheddiad, a hefyd helpu i fagu awydd y cyhoedd a rhanddeiliaid am brosiectau yn y dyfodol. Ar gyfer pob anheddiad, mae un o'r tri phrosiect cicdanio yn ymwneud â'r amgylchedd dŵr, gan amlygu bod angen dulliau rheoli llifogydd naturiol ac atebion seiliedig ar natur i ansawdd dŵr ledled Sir Benfro.

**1.5** Roedd y rhesymeg i nodi'r prosiectau cicdanio yn cynnwys:

- Poblogrwydd gyda'r cyhoedd

  - Gofynnwyd i'r cyhoedd sgorio eu hoff brosiectau trwy arolwg ar-lein. Adolygwyd y prosiectau mwy poblogaidd ar gyfer pob anheddiad a rhoddwyd blaenoriaeth iddynt.
- Natur amlswyddogaethol ac ystod o fuddion
  - Cyflwynwyd prosiectau sy'n darparu buddion lluosog ac sy'n cyd-fynd â nifer o’r egwyddorion SG (gweler isod).
- Amserlenni
  - Cyflwynwyd amrywiaeth o amserlenni, gan gynnwys camau cyflym ymlaen, prosiectau tymor canolig a hirdymor, i ganiatáu ar gyfer bodloni amrywiaeth o raddfeydd, mecanweithiau cyflenwi ac uchelgeisiau.
- Y Gallu i Gyflawni
  - Cyflwynwyd prosiectau y tybiwyd bod 'mwy o allu i’w cyflawni’, er enghraifft, bod ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor, bod yn gysylltiedig â ffrwd ariannu glir, neu gydredeg ag uchelgeisiau grŵp cymunedol presennol.
- Barn broffesiynol
  - Lluniwyd y rhestr derfynol o brosiectau 'cicdanio' gan ddefnyddio barn broffesiynol i sicrhau bod y meini prawf uchod yn darparu rhestr amlswyddogaethol a chynrychioladol o brosiectau i'w datblygu yn gyntaf.


**1.6** Mae'r Strategaethau Plannu Coed Trefol a Pheillwyr yn atodol i'r Cynlluniau Rheoli Anheddiad a dylid eu darllen ar y cyd â'r Cynlluniau. Bwriad eu rôl yw rhoi arweiniad ychwanegol wrth gyflawni prosiectau plannu coed trefol neu brosiectau sy'n ymwneud â pheillwyr.

**1.7** Dylid datblygu pob prosiect SG i sicrhau cysondeb â chynigion teithio llesol sydd wedi'u cynnwys ar y Mapiau Rhwydwaith Integredig (INM) **[Gweler cyfeiriad** 1**]** ar gyfer Sir Benfro.

# Egwyddorion Seilwaith Gwyrdd

**1.8** Datblygwyd cyfres o Egwyddorion SG sy'n berthnasol i’r holl SG ledled Sir Benfro, ac sydd felly’n rhychwantu pob un o'r 11 Cynllun Rheoli Anheddiad. Mae'r egwyddorion yn seiliedig ar '5 Egwyddor SG' Cyfoeth Naturiol Cymru, sydd wedi'u creu i sicrhau bod SG wedi ei ddylunio'n dda yn darparu amrywiaeth o fuddion i bobl a bywyd gwyllt fel ei gilydd. Mae egwyddor ychwanegol 'Cyflawni llwyddiannus' wedi'i chynnwys i sicrhau bod syniadau a dyluniadau o ansawdd da yn cael eu datblygu a bod eu hirhoedledd yn cael ei sicrhau trwy drefniadau stiwardiaeth wedi'u cynllunio'n dda. Rhannwyd y chwe egwyddor gyffredinol hyn yn is-egwyddorion er mwyn rhoi mwy o arweiniad ar brosesau penodol dylunio a chyflawni SG llwyddiannus o ansawdd da ledled Sir Benfro.

**Ffigur 1.1: Chwe egwyddor gyffredinol ar gyfer Seilwaith Gwyrdd llwyddiannus**




# 1. Amlswyddogaethol

**1.9** Sicrhau bod yr holl SG ledled Sir Benfro yn sicrhau cynifer o fuddion ag sy'n bosibl.

- 1a - Amlswyddogaethol
    - Wrth wraidd pob SG da mae natur amlswyddogaethol. Dylai pob SG fod yn amlswyddogaethol a darparu ystod o wasanaethau ecosystem i gefnogi bioamrywiaeth, targedau hinsawdd, iechyd a lles a ffyniant economaidd.
- 1b - Amrywiol
    - Dylai SG fod yn amrywiol a darparu cymysgedd o fathau o asedau, gan gynnwys cynefinoedd a hamdden. Dylai hyn hefyd fod ynghyd â'i gyflawni ar amrywiaeth o raddfeydd.
- 1c - Ymateb i gymeriad lleol
    - Dylai SG ymateb i'w gyd-destun lleol a chyfrannu tuag at ymdeimlad penodol o le, yn enwedig os yw'n rhan o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Dylai ystyried cymeriad tirwedd, golygfeydd allweddol, rhywogaethau brodorol, cynefinoedd a'r defnydd tir cyfredol.

# 2. Wedi'i addasu ar gyfer newid hinsawdd

**1.10** Sicrhau bod pob SG yn lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac yn addasu iddynt.

- 2a - Dal a storio carbon
    - Dylai pob SG gyfrannu tuag at dynnu carbon o'r atmosffer a'i storio yn y tymor hir, i ryw raddau.
- 2b - Annog bywydau egnïol
    - Dylai SG helpu i gyfrannu tuag at leihau'r ddibyniaeth ar gerbydau personol ac yn hytrach annog ffyrdd egnïol o fyw.
- 2c - Rheoli llifogydd yn naturiol
    - Dylai pob SG ddarparu rhai cyfleoedd ar gyfer rheoli llifogydd yn naturiol, gan gynnwys o darddiadau afonol, morol, dŵr daear a dŵr wyneb.

- 2d - Addasadwy a gwydn
    - Dylai cynigion SG fod yn addasadwy ac yn wydn i symud gyda phwysau newidiol newid hinsawdd. Dylid dylunio SG gyda rhagamcanion newid hinsawdd yn y dyfodol mewn golwg.

# 3. Iach

**1.11** Sicrhau bod pob SG yn cyfrannu tuag at greu cymunedau sy'n iachach yn gorfforol ac yn feddyliol.

- 3a - Ar gael i bawb
    - Dylid dylunio SG yn gynhwysol ar gyfer pob demograffeg, beth bynnag fo'u hoedran, rhywedd, mamolaeth, ethnigrwydd a gallu corfforol neu feddyliol. Dylai pob man gwyrdd ymateb i anghenion defnyddwyr llai symudol a demograffeg anghofiedig, megis merched yn eu harddegau neu bobl â dementia. Dylai mannau gwyrdd deimlo'n ddiogel i bawb a chysylltu gwahanol gymunedau.
- 3b - Cefnogi cymunedau llewyrchus
    - Dylid defnyddio SG fel offeryn ar gyfer buddsoddi ac felly dylid ei gynnwys fel rhan allweddol o unrhyw gynlluniau adfywio.
- 3c - Cysylltu pobl â natur
    - Dylid dylunio mannau gwyrdd a SG bob amser i ganiatáu rhywfaint o ryngweithio â natur, waeth pa mor fach, yn ogystal â llenwi bylchau diffyg mannau gwyrdd.
- 3d - Hyrwyddo tyfu bwyd cymunedol a lleol
    - Dylid hyrwyddo gerddi cymunedol, coridorau bwytadwy a thyfu bwyd lleol yn gynaliadwy am eu buddion iechyd meddwl a chorfforol, yn ogystal â'r effeithiau cadarnhaol y gallant eu cael ar fywyd gwyllt a chydlyniant cymunedol.
- 3e - Mynd i'r afael ag ansawdd aer gwael

- Lle nodir ansawdd aer gwael, dylid defnyddio SG fel ateb seiliedig ar natur i gael gwared ar ronynnau ochr yn ochr â lleihau dibyniaeth ar ddulliau trafnidiaeth llygredig.

# 4. Bioamrywiol

**1.12** Sicrhau bod pob SG yn cynnal amrywiaeth o rywogaethau brodorol wrth ddarparu cyfleoedd am fwyd, lloches a symudiad.

- 4a - Gwarchod
  - Yn bennaf oll, dylai prosiectau SG weithio i warchod a gwella asedau bioamrywiaeth pwysig presennol, gan gynnwys cynefinoedd dynodedig a rhywogaethau nodedig. Dylid rhoi blaenoriaeth i helpu cymunedau bywyd gwyllt sy’n cael trafferth a chynefinoedd sydd mewn cyflwr gwael i adfer.
- 4b - Cysylltiedig
  - Dylid defnyddio SG o bob maint i helpu i gysylltu cynefinoedd a lleihau darnio. Dylai hyn gynnwys adfer ac ail-gysylltu nodweddion cynefinoedd llinol, gan gynnwys ymylon ffyrdd, coridorau torlannol a gwrychoedd. Gweithio gyda thirfeddianwyr a ffermwyr lleol i hyrwyddo hyn, ochr yn ochr â chynlluniau amaeth-amgylchedd sy'n dod i'r amlwg.
- 4c - Cyfrannu tuag at ofynion dyletswydd Adran 6
  - Mae adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus i, "geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau... ac wrth wneud hynny hyrwyddo gwytnwch ecosystemau". Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Sir Benfro yn gosod y cyd-destun strategol ar gyfer camau gweithredu i warchod a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau yn y sir.
- 4d - Ansawdd dŵr
  - Dylid archwilio gallu SG i ddarparu atebion seiliedig ar natur i ansawdd dŵr bob amser, er enghraifft trwy wlyptiroedd gerllaw gorlif carthffos

gyfun, SDC a chlustogfeydd torlannol. Fodd bynnag, dylai rheoli ansawdd dŵr wrth darddiad y broblem fod yn flaenoriaeth bob amser.

- 4e - Blaenoriaethu rhywogaethau brodorol
  - Dylai dyluniad SG ddefnyddio rhywogaethau brodorol, yn enwedig rhai o darddiad lleol. Dylai bob amser gyd-fynd ag anghenion cynefinoedd a rhywogaethau lleol, yn ogystal ag archwilio opsiynau ar gyfer peillwyr bob amser.

# 5. Clyfar a chynaliadwy

Sicrhau bod pob SG yn mynnu cyn lleied â phosibl o waith cynnal a chadw, gan leihau llygredd a defnyddio cymaint â phosibl o ddeunyddiau o ffynonellau cynaliadwy.

- 5a - Dylunio ar gyfer cynnal a chadw isel
  - Dylid dylunio SG i sicrhau nad yw’n mynnu llawer o gynnal a chadw, ac i sicrhau y bydd yr atebion rheoli syml hyn yn parhau i ddwyn y buddion a fwriadwyd gan yr ased SG. Mae angen i'r gwaith rheoli fod yn hirdymor a chael ei sicrhau o ddechrau prosiect, er enghraifft trwy ymgysylltu â chymunedau.
- 5b - Defnyddio deunyddiau naturiol a chynaliadwy
  - Rhaid i ddeunyddiau a dodrefn stryd a ddefnyddir o fewn dyluniad SG, er enghraifft, meinciau ac arwyddion, ddefnyddio deunyddiau o ffynonellau cynaliadwy a naturiolaidd, sydd eto'n gadarn.

# 6. Darpariaeth a stiwardiaeth sicr

**1.13** Sicrhau bod gan bob prosiect SG ei darpariaeth lwyddiannus a'i stiwardiaeth hirdymor o'r cychwyn cyntaf.

- 6a - Cynnwys y gymuned o'r cychwyn

  - Cynnwys pob demograffeg o'r gymuned leol yn y broses o gyd-ddylunio a chyd-gynllunio prosiect SG, gan sicrhau bod ardaloedd yn yr angen mwyaf yn cael eu blaenoriaethu yn gyntaf. Lle bo'n bosibl, dylid archwilio perchnogaeth gymunedol.

- 6b - Cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid a phartneriaid cyflenwi

  - Ochr yn ochr â dinasyddion, dylid cynnwys yr holl dirfeddianwyr priodol, busnesau, datblygwyr, grwpiau amgylcheddol, awdurdodau lleol, aelodau a swyddogion cyngor, ymgyngoreion statudol ac anstatudol, a chwmnïau cyfleustodau priodol, a'r rhai sy'n gyfrifol am reoli asedau SG, o fewn y gwaith cynllunio, dylunio, darparu a stiwardiaeth barhaus SG. Sicrhau bod pob parti yn cyd-fynd â'r weledigaeth a rennir ac yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd.

  - Oherwydd ffabrig hanesyddol yr aneddiadau, argymhellir ymgynghori’n gynnar â Cadw, Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed (DAT), tirfeddianwyr a deiliaid tir er mwyn deall ystyriaethau amgylchedd hanesyddol allweddol safleoedd unigol. Dylai prosiectau SG sicrhau nad yw cynigion yn arwain at effeithiau niweidiol ar asedau treftadaeth, gan gynnwys newidiadau niweidiol i leoliadau henebion cofrestredig neu ardaloedd cadwraeth.

  - Am fod nifer o'r aneddiadau o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro neu gerllaw, argymhellir ymgynghori’n gynnar ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae hyn hefyd yn berthnasol i Cyfoeth Naturiol Cymru oherwydd nifer sylweddol y dynodiadau ecolegol cenedlaethol a rhyngwladol o fewn yr holl aneddiadau a gerllaw.

- 6c - Deall y buddion

  - Sicrhau bod parti dan sylw, gan gynnwys rhanddeiliaid a'r gymuned, yn deall buddion y prosiect, yn ansoddol ac yn feintiol. Gallai hyn hefyd ffurfio'r waelodlin ar gyfer monitro parhaus a mesur a yw prosiectau mor llwyddiannus â'r hyn a feddyliwyd gyntaf.

- 6d - Amrywiaethu mecanweithiau cyflenwi ac ehangu cynhwysiant mewn polisi

    - Sicrhau bod SG wedi'i integreiddio ar draws amrywiaeth o fachau cynllunio, gan gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol, Canllawiau Cynllunio Atodol dilynol, strategaethau iechyd, strategaethau newid hinsawdd, a chynlluniau economaidd neu adfywio.

- 6e - Cynllunio ar gyfer monitro parhaus

    - Wrth gynllunio ymyriadau SG, ystyried sut y bydd yr ased yn cael ei fonitro'n barhaus a sut y bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i gydnabod llwyddiannau neu ddiffygion.

# Pennod 2

Abergwaun ac Wdig

**Ffigur 2.1: Abergwaun ac Wdig**



## Portread o Seilwaith Gwyrdd Abergwaun ac Wdig


**2.1** Gefeilldrefi yw Abergwaun ac Wdig ar arfordir gogledd Sir Benfro ac fe’u gwahanir gan ddyffryn llydan isel sy'n cynnal Gwaun Wdig. Saif y trefi ar hyd y clogwyni ac o fewn yr harbwr isaf sy'n lapio o amgylch Bae Abergwaun. Mae'r aneddiadau'n cadw llawer o'u nodweddion morwrol sy'n deillio o'u lleoliad

arfordirol hanesyddol. Wedi'u ffinio gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro i'r dwyrain ac i'r gorllewin, mae gan yr aneddiadau gysylltiadau hamdden a thrafnidiaeth cryf â'r rhanbarth ehangach, gan gynnwys Llwybr Arfordir Penfro, gorsaf drenau Abergwaun ac Wdig, a phorthladd fferi Abergwaun.

**2.2** Mae ardaloedd o le agored o fewn yr aneddiadau wedi'u crynhoi'n agos at yr arfordir a rhostir isel, gyda choridorau nant yn dolennu tuag at yr harbwr o'r tir mewnol. Mae'r coridorau nant yn goediog iawn ac yn cynnwys nifer o ardaloedd o goetir hynafol neu led-naturiol. Ar draws ardal y gweundir isel rhwng y ddwy dref mae parciau cyhoeddus a gwarchodfa natur, yn ogystal â rhai ardaloedd coediog mawr. Ymhlith y mannau cyhoeddus nodedig mae Gwarchodfa Natur Rhos Wdig, Parc Lota a Pharc Phoenix. O'u hystyried gyda'i gilydd, mae'r mannau hyn yn cynnig cyfleoedd i gryfhau cysylltiadau hamdden a bywyd gwyllt rhwng y trefi a'r arfordir.

**2.3** Mae clogwyni arfordirol Abergwaun ac Wdig yn cynnal asedau hamdden ac ecolegol pwysig. Mae clogwyni ar y naill ochr i Harbwr Cwm Abergwaun wedi'u dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) am eu gwerth daearegol sylweddol. Mae'r coridor arfordirol hefyd yn cynnal rhan o Lwybr Arfordir Penfro sydd 186 milltir o hyd, sy'n Llwybr Cenedlaethol a hyrwyddir. Mae'r llwybr troed hwn yn mynd drwy'r trefi ac ar hyd eu hymyl ogleddol ac yn darparu cyswllt strategol ar draws creiddiau'r aneddiadau a'r mannau agored rhyngddynt. Ceir rhwydwaith o Hawliau Tramwy Cyhoeddus a llwybrau beicio oddi ar Lwybr Arfordir Penfro sy'n dilyn coridorau'r nant goediog i mewn i'r tir i ddarparu cyfleoedd hamdden pellach.

## Ffigur 2.2: Cyfleoedd SG yn Abergwaun ac Wdig




| | |
|---|---|
| FIS1 | Gwella Parc Lota |
| FIS2 | Adolygu gwaith rheoli safleoedd coetir yn Llwybr Pencowrw, y Slâd ac Afon Gwaun |
| FIS3 | Amrywiaethu lleiniau ymyl ffordd ar hyd y Parrog |
| FIS4 | Creu llwybr peillwyr yn Llwybr Pencowrw |
| FIS5 | Gwyrddu Ffordd yr Efail ymhellach |
| FIS6 | Hyrwyddo gwyrddu coridor yr A487 |
| FIS7 | Gwyrddu Parc Phoenix a Ffordd y Wern ymhellach |
| FIS8 | Gwella gwerth bioamrywiaeth y mannau gwyrdd a'r caeau chwarae presennol |
| FIS9 | Cryfhau'r rhwydwaith o goetiroeddsydd ar yr ymyl drefol |
| FIS10 | Hyrwyddo tyfu bwyd cymunedol yn Wdig |
| FIS11 | Gwella gwerth bioamrywiaeth y cae chwarae i'r de o Ros Wdig |
| FIS12 | Gwella Rhos Wdig |
| FIS13 | Ôl-osod gerddi glaw, coed stryd a phalmantau athraidd o fewn ardaloedd trefol presennol |
| FIS14 | Adolygu arferion rheoli tirwedd i sicrhau cadw golygfeydd o'r môr |
| FIS15 | Hyrwyddo coridor hamdden ar hyd Afon Gwaun |

# Prosiectau Cicdanio


## FIS8 – Gwella gwerth bioamrywiaeth mannau gwyrdd a chaeau chwarae presennol

**2.4** Mewn nifer o fannau gwyrdd, y brif nodwedd yw ystodau mawr o laswelltir mwynder wedi'i dorri'n fyr y dylid ychwanegu atynt i hyrwyddo mwy o fioamrywiaeth a gwerth hamdden. Ymhlith yr enghreifftiau mae Maesgrug, caeau chwarae Stop and Call, Heol Dewi, Canolfan Hamdden Abergwaun, man mwynder ym Mhen-y-bryn, Cae'r Santes Fair, Morfa Las ac o gwmpas Dan-y-bryn.

**2.5** Un o'r dulliau symlaf o gynyddu bioamrywiaeth yw torri glaswellt yn llai aml, torri gwair ar gylchdro a chasglu toriadau. Fodd bynnag, dylid ychwanegu hadau blodau gwyllt neu blanhigion plwg i wella gwerth bioamrywiaeth yn gyflymach. Dylid ystyried hau cymysgeddau hadau gyda chribell felen oherwydd ei gallu i wanhau glaswelltau grymus.

**2.6** Os defnyddir mannau gwyrdd ar gyfer hamdden, mae gwella'r borderi mewn mannau heulog neu greu borderi a gwelyau blodau sy'n denu peillwyr yn cynnig y cyfle i fannau gwyrdd wasanaethu'r ddwy swyddogaeth. Ymhlith yr opsiynau eraill mae plannu gwrychoedd brodorol, sy'n darparu bwyd a lloches. Byddai darparu ardaloedd i archwilio natur, fel llwybrau a dorrir drwy ddolydd llawn rhywogaethau, yn helpu i greu lle i bobl a byd natur.

## Ffigur 2.3: Prosiect FIS8




# Buddion y prosiect

**2.7** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 2.4 isod, mae:

- Buddsoddiad a gwell profiad i ymwelwyr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Chwarae, addysg a rhyngweithio â natur
- Rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant cymunedol
- Atgyfnerthu ymdeimlad o le
- Gwella iechyd a lles

**Ffigur 2.4: Buddion**




## Mecanweithiau cyflawni

**2.8** Mae cynefin dôl blodau gwyllt yn cwtogi'n sylweddol ar yr amser sy'n cael ei dreulio ar dorri glaswellt yn ystod y tymor tyfu. Dylid integreiddio toriadau blynyddol y ddôl i raglen waith Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd Cyngor Sir Penfro (CSP).

**2.9** Dylid darparu cynefin peillwyr yn unol ag adran gyflawni'r Strategaeth Peillwyr.

**2.10** Mae cyflawni cynlluniau plannu coed llwyddiannus yn gallu bod yn heriol ac yn gostus oherwydd yr amser sydd ei angen i goed aeddfedu. Mae dyluniad pyllau coed, y dyfnder a'r pridd a ddefnyddir a'r dyfrio a'r gwaith cynnal a chadw parhaus yn hanfodol er mwyn sicrhau sefydlu llwyddiannus.

## Partneriaid posibl

- Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP
- Wardeniaid Coed Sir Benfro
- Cyngor Tref Abergwaun ac Wdig

- Grŵp Gwyrddu Abergwaun
- Partneriaeth Natur Sir Benfro

## Cost amlinellol

### Cost isel = <£250k

**2.11** Mae'r gost o greu dôl blodau gwyllt yn dibynnu ar faint a graddfa'r safle. Ar gyfer ardaloedd bach, mae'n gymharol rad sefydlu dôl fechan o flodau gwyllt. Mae cost hadau (cymysgeddau lluosflwydd dôl iseldir) i orchuddio 50 metr sgwâr yn amrywio o £20 i £30.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

## Amserlen

### Cam cyflym ymlaen = <1 flwyddyn

**2.12** Gellid darparu dolydd blodau gwyllt mewn ambell leoliad allweddol yn y tymor plannu nesaf.

### Tymor canolig = 1-5 mlynedd

**2.13** Byddai creu gwrychoedd brodorol neu blannu coed yn cymryd mwy o amser i dyfu a sefydlu. Efallai y bydd angen gweithredu fesul dipyn ar y safle er

mwyn caniatáu'r addasiadau angenrheidiol mewn trefniadau rheoli gan Dîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP.

## Cyfyngiadau posibl

**2.14** Efallai y bydd gwrthwynebiad lleol i'r prosiect os yw gwelliannau'n tynnu oddi wrth olwg daclus a threfnus y stryd. Dylai arwyddion a byrddau dehongli helpu i liniaru hyn, ond byddai angen cyfleu cynlluniau'n glir i drigolion lleol cyn eu gosod.

**2.15** Daw heriau ynghlwm wrth blannu coed o ran sicrhau eu bod yn sefydlu'n llwyddiannus. Os na ellir cloddio pyllau coed i'r ddaear oherwydd gwasanaethau presennol, dylid ystyried defnyddio cafnau plannu o faint addas uwchlaw'r ddaear.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**2.16** Mae stiwardiaeth gymunedol yn arbennig o bwysig drwy gydol y blynyddoedd sefydlu cychwynnol (60 mis) i sicrhau bod coed yn cael eu dyfrio'n ddigonol yn ystod cyfnodau sych a bod y polion yn cael eu llacio pan fydd angen. Drwy sicrhau cefnogaeth grwpiau cymunedol lleol, er enghraifft Grŵp Gwyrddu Abergwaun, dylid hefyd cynyddu'r siawns y bydd coed yn sefydlu'n llwyddiannus.

**2.17** Mae angen torri a chodi dôl blodau gwyllt ar ddiwedd y tymor. Fel arfer ym mis Medi y mae hyn yn digwydd. Yn ddelfrydol, dylid gadael y sgil-gynhyrchion am saith diwrnod i daflu hadau cyn cael eu gwared. Efallai y bydd angen torri a chodi eildro tua dechrau'r gwanwyn i gael gwared ar dyfiant y gaeaf.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**2.18** Gall cyfradd oroesi planhigion ac ardaloedd newydd o gynefinoedd y ddôl a sefydlwyd fod yn ddangosyddion i fonitro llwyddiant. Ar ôl i'r holl welliannau bioamrywiaeth gael eu gweithredu, gellid trefnu BioBlitz cymunedol blynyddol i gofnodi amrywiaeth y bywyd yn y mannau gwyrdd. Gall ymgysylltu â phrosiectau gwyddoniaeth dinasyddion fel Cynllun Monitro Peillwyr y DU neu drefnu BioBlitz cymunedol blynyddol mewn mannau gwyrdd penodol helpu i gynnwys cymunedau lleol mewn ymdrechion monitro.

## Camau nesaf

**2.19** Adolygu adrannau cyflawni'r Strategaeth Peillwyr a'r Strategaeth Plannu Coed Trefol i adolygu opsiynau ar gyfer gwella gwerth bioamrywiaeth mannau gwyrdd.

**2.20** Ymgynghori â Thîm Rheoli Amwynderau / Gofal Stryd CSP i gytuno ar y safleoedd a fyddai'n cael eu rheoli'n wahanol a sut.

**Ffigur 2.5: Abergwaun ac Wdig**



# FIS10 – Hyrwyddo tyfu bwyd cymunedol yn Wdig

**2.21** Mabwysiadu dull a arweinir gan y gymuned o hyrwyddo tyfu bwyd cynaliadwy yn Wdig. Dylai'r cyfleuster ategu'r ddarpariaeth randiroedd bresennol yn Abergwaun, gan gynnig y cyfle i ddwyn budd i les corfforol a meddyliol pobl leol yn ogystal â gwell cydlyniant cymdeithasol a chymunedol. Arweiniodd pandemig COVID-19 at ymchwydd yn y nifer sy'n tyfu bwyd gartref, gyda'r galw am randiroedd yn cyfateb i'r duedd hon. Ar ben hynny, mae nifer o safleoedd rhandiroedd Sir Benfro yn llawn a chanddynt restri aros sylweddol. Felly, dylid ystyried dulliau newydd a dyfeisgar o ddarparu arferion tyfu bwyd cynaliadwy – gan gynnwys gerddi cymunedol, rhandiroedd neu gafnau plannu

cyhoeddus. Gallai hyn gynnwys cynlluniau sy'n cael eu harwain gan y gymuned, prosiectau bychain a phartneriaethau newydd yn y dref ei hun.

**2.22** Ceir cyfle i weithio gyda'r gymuned leol i nodi safle ar gyfer gardd gymunedol yn Wdig i ateb y galw cynyddol am dyfu yn yr awyr agored gan y gymuned. Dylid cefnogi gwaith dichonoldeb a chanfod safle presennol a wneir gan GRŴP Resilience. Dylid hefyd cyflenwi'r cyfleuster gyda mewnbwn gan Grŵp Gwyrddu Abergwaun ac Wdig a chynllun gwirfoddolwyr Wardeniaid Coed Sir Benfro. Mae sefydlu cyfleuster tyfu cymunedol yn cynnig y potensial i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion lleol er mwyn integreiddio tyfu bwyd cynaliadwy yn rhan o'r cwricwlwm. Gan weithio yn unol ag amcanion strategaeth peillwyr y dref, dylid hefyd archwilio’r rhan y gall mannau fel rhandiroedd ei chwarae mewn darparu lloches i fywyd gwyllt drwy greu cynefinoedd ac arferion rheoli ecolegol.

## Buddion y prosiect

**2.23** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 2.6 isod, mae:

- Buddsoddiad a gwell profiad i ymwelwyr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Chwarae, addysg a rhyngweithio â natur
- Rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant cymunedol
- Atgyfnerthu ymdeimlad o le
- Gwella iechyd a lles

### Ffigur 2.6: Buddion




## Mecanweithiau cyflawni

**2.24** Dyrannu tir nad yw'n cael ei ddefnyddio’n ddigonol yn Wdig ar gyfer man tyfu cymunedol, fel rhan o ddarparu tai neu nodi ardaloedd o fannau gwyrdd sy’n eiddo cyhoeddus i’w dyrannu ar gyfer menter tyfu gymunedol.

## Partneriaid posibl

- Grwpiau tenantiaid rhandiroedd
- GRŴP Resilience
- Grŵp Gwyrddu Abergwaun ac Wdig
- Wardeniaid Coed Sir Benfro
- Cyngor Sir Penfro (CSP)
- Timau Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP
- Rhwydwaith Bwyd Bendigaid
- Ffederasiwn Ffermydd Dinas a Gerddi Cymunedol – Gwasanaeth Cynghori Tir Cymunedol yng Nghymru a phrosiect Tyfu Gyda'n Gilydd
- Gwyllt am Sir Benfro

- Ysgolion lleol
- Datblygwyr

## Cost amlinellol

### Cost isel = <£250k

**2.25** Gellid darparu'r lle tyfu am gost gymharol isel pan fydd y tir wedi'i nodi.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Adran 106
- Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL)
- Cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

## Amserlen

### Tymor canolig = 1-5 mlynedd

**2.26** Gallai gwaith ymgysylltu â'r gymuned ddechrau'n gyflym, ond bydd nodi tir addas a chyflenwi'r lle tyfu yn cymryd blwyddyn neu ddwy.

## Cyfyngiadau posibl

**2.27** Byddai sicrhau buddsoddiad priodol, gwaith ar opsiynau safle, dod o hyd i safle ac ansicrwydd perchnogaeth tir yn creu heriau sylweddol wrth sefydlu'r cyfleuster tyfu bwyd cymunedol.

**2.28** Oherwydd yr heriau stiwardiaeth sy'n gysylltiedig â rheoli adnoddau cymunedol yn y tymor hir, mae'n hanfodol bod rheoli a chynnal a chadw yn cael eu hymgorffori mewn cyllid y tu hwnt i'r cyfnod sefydlu cychwynnol. Mae paratoi tir a phrofi pridd yn briodol hefyd yn heriau allweddol wrth gyflawni.

**2.29** Prin yw'r adnoddau sydd ar gael o fewn CSP a rhanddeiliaid eraill i hyrwyddo a chefnogi ymgysylltu ac ymwybyddiaeth gymunedol ar lefel leol. O ganlyniad, byddai ymgynghoriad cymunedol llwyddiannus yn hanfodol i sicrhau cefnogaeth leol a byddai'n ffurfio elfen allweddol o gyflawni'r prosiect hwn.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**2.30** Byddai'r prosiect yn dibynnu ar grwpiau cymunedol ar lefel leol i reoli a chynnal a chadw'r cyfleuster tyfu bwyd cymunedol yn y dyfodol. Ceir cyfle hefyd i reoli'r safle i wella bioamrywiaeth, gan gynnig buddion a gwelliannau sylweddol i fywyd gwyllt lleol.

**2.31** Dylid darparu cymorth ychwanegol gan Dimau Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP i sicrhau llwyddiant parhaus y lle, a hynny'n arddwriaethol ac ar gyfer bywyd gwyllt.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**2.32** Ceir cyfle i CSP integreiddio'r safle i ddiweddariadau i'r Cynllun Llesiant yn y dyfodol, a gynhyrchir mewn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a monitro ei ddefnydd yn y dyfodol.

## Camau nesaf

**2.33** Dylid cynnal astudiaeth ddichonoldeb i nodi safle priodol a chychwyn ymgynghoriad. Dylid cynnal profion pridd hefyd i lywio'r broses o ddewis safle.

**Ffigur 2.7: Abergwaun ac Wdig**.




## FIS13 – Ôl-osod gerddi glaw, coed stryd a phalmantau athraidd o fewn ardaloedd trefol presennol

**2.34** Mae Sir Benfro wedi dioddef o broblemau deuol yn y gorffennol, ar ffurf digwyddiadau llifogydd dŵr wyneb a hefyd digwyddiadau lle mae carthion budr wedi gorlifo ac arwain at lifogydd (sef Gorlifoedd Storm Cyfun). Mae'r gorlifoedd hyn yn tarddu o bwysau cynyddol ar systemau carthffosydd oherwydd dŵr storm yn dod i mewn i hen systemau carthion sy'n cymryd dŵr glaw ac elifion budr. Mae ardaloedd mawr o ddefnydd tir anathraidd, sy’n cael eu draenio'n uniongyrchol trwy bibellau i'r carthffosydd ac yna’r afonydd, yn gwaethygu'r ddau fater hyn. Gallai gweithredu ymyriadau Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) sy'n dargyfeirio dŵr storm o garthffosydd cyfun leihau'r pwysau ar seilwaith, gan helpu i leihau dylanwad afonol adeg llifogydd. Ymhlith y meysydd ar gyfer ymyrraeth bosibl mae:

- Maes Parcio Heol y Gorllewin
- Siop fwyd Co-op
- Maes Parcio Parc-y-Shwt
- Stryd Fawr, Heol y Gorllewin
- Main Street a Stryd Hamilton
- Y Parrog a Manor Way yn Wdig

**2.35** Ar hyn o bryd, dim ond 15.9% ydy holl orchudd canopi Abergwaun. Byddai ôl-osod ymyriadau SDC, megis coed stryd a gerddi glaw, felly'n cynnig buddion fel llai o ddŵr ffo wyneb, gwelliannau i olwg yr ardal a gwell ansawdd aer.

## Ffigur 2.8: Prosiect FIS13




## Buddion y prosiect

**2.36** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 2.9 isod, mae:

- Lleihau risg llifogydd
- Gwella ansawdd dŵr
- Mannau ar gyfer bywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Gwella ansawdd aer a rheoleiddio sŵn
- Atgyfnerthu ymdeimlad o le
- Oeri trefol
- Gwella iechyd a lles
- Dal a storio carbon a lliniaru newid hinsawdd.

### Ffigur 2.9: Buddion




## Darparu atebion seiliedig ar natur a gwasanaethau ecosystemau

**2.37** Mae ehangu diwydiannol a masnachol Abergwaun dros y degawdau diwethaf wedi arwain at fwy o ardaloedd o dirwedd galed. Byddai gweithredu

gerddi glaw, plannu coed a phalmantau athraidd o fewn yr ardaloedd hyn yn gwella cymeriad y dreflun ac yn cyflwyno dull cynaliadwy o ymdrin â dŵr glaw ffo.

**2.38** Mae ymyriadau SDC yn dynwared draeniad ym myd natur lle mae gwlybaniaeth yn cael ei hamsugno i'r ddaear, wedi'i harafu gan lystyfiant. Felly mae maint ac ansawdd y dŵr sy'n cyrraedd cyrsiau dŵr lleol yn y pen draw yn cael eu gwella, gan helpu i liniaru llifogydd a lleihau gorlifoedd storm cyfun. Mae rheoli dŵr yn gynaliadwy mewn ardaloedd trefol hefyd yn sicrhau bod trefi yn fwy gwydn rhag pwysau newid hinsawdd a thwf yn y boblogaeth.

## Mecanweithiau cyflawni

**2.39** Dylid sefydlu rhaglen blannu flynyddol er mwyn cynllunio, cyflawni a rheoli'n llwyddiannus yr ardaloedd o blannu coed, gerddi glaw a phalmantau athraidd newydd. Mae angen digon o gynllunio cyn y tymor plannu gwreiddiau moel (Hydref-Mawrth fan pellaf) i sicrhau bod archwiliadau o'r ddaear / profion pridd yn cael eu cwblhau.

**2.40** Dylid cyflenwi coed yn unol ag adran gyflenwi'r Strategaeth Plannu Coed Trefol.

## Partneriaid posibl

- Y gymuned leol
- Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth Cyngor Sir Penfro (CSP)
- Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP
- Busnesau lleol
- Wardeniaid Coed Sir Benfro
- Dŵr Cymru
- Asiant Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA)

- Grŵp Cadwraeth Abergwaun a Bae Wdig

## Cost amlinellol

### Cost isel = <£250k

**2.41** Mae pris yn gallu newid gan ddibynnu ar nifer y coed a blannwyd / gerddi glaw a grëwyd / ardaloedd palmant athraidd a osodwyd. Fodd bynnag, dylid defnyddio amcangyfrif bras o ~£10,000 i sefydlu coeden o fewn ardal o dirlunio caled.

**2.42** Byddai'r costau'n cynnwys rhywfaint o gyngor arbenigol cyfyngedig gan gynnwys chwiliadau cyfleustodau, ymgynghori â rhanddeiliaid a chostau plannu / cynnal a chadw. Byddai costau gosod palmant athraidd yn sylweddol uwch. O ganlyniad, dylid canolbwyntio i ddechrau ar weithredu gerddi glaw a phlannu coed.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Cyllid grant Transition Bro Gwaun (yn Abergwaun)
- Cronfa Prosiect Cyfeillion – Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Cyngor Sir Penfro (CSP)
- Dŵr Cymru
- Cyfraniadau datblygwyr
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Rhaglen Grant Cymunedau Cydnerth
- Cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
- Y Cyngor Coed
- Cronfa Rhwydweithiau Natur

- Cronfa Trawsnewid Trefi
- Grantiau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

## Amserlen

### Cam cyflym ymlaen = <1 flwyddyn

**2.43** Dylid plannu coed a chreu gerddi glaw mewn ambell leoliad allweddol yn y tymor plannu nesaf.

### Tymor canolig = 1-5 mlynedd

**2.44** Dylid gwneud mwyafrif y gwaith plannu coed, creu gerddi glaw ac agweddau palmantau athraidd ar draws y pum tymor plannu nesaf er mwyn caniatáu digon o gynllunio ac ymgysylltu.

**2.45** Ar gyfer plannu cychwynnol ac adeiladu palmantau, byddai hwn yn gam cyflym ymlaen a gellid ei weithredu mewn llai na blwyddyn. Prin y byddai’r coed a’r llystyfiant cysylltiedig yn dal a storio carbon wedyn i ddechrau ond byddai hynny'n cynyddu o fewn y degawd nesaf wrth i'r coed aeddfedu.

## Cyfyngiadau posibl

**2.46** Mae cryn nifer o randdeiliaid posib i ymgysylltu â nhw ar gyfer y prosiect hwn, gyda gwahanol ddeiliaid tir a'r broses ymgysylltu yn hanfodol i lwyddiant y cynllun. Rhaid i Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth CSP a SWTRA fod yn rhan o'r prosiect.

**2.47** Tirwedd galed sy’n nodweddu mwyafrif yr arwynebau yn y prosiect posibl. Mae'n ddrutach cloddio pyllau coed o fewn tirweddau caled nag o fewn

tirweddau meddal. Felly, wrth blannu coed newydd, rhaid sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cost, lle a swyddogaeth / dyluniad a ddymunir. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd llai o goed gyda mwy o gyfaint gwreiddio yn briodol.

**2.48** O fewn yr amgylchedd trefol, rhaid ystyried y posibilrwydd bod amrywiaeth o wasanaethau a chyfleustodau wedi'u gosod o fewn ardaloedd plannu posibl a bod angen osgoi'r rhain wrth gyfrif am blannu coed. Fel arfer mae angen dyfnderoedd basach o osodiadau ar erddi glaw ac felly byddent yn llai tebygol o wrthdaro â gwasanaethau. Efallai bod potensial i osod gerddi glaw yn lle plannu coed mewn ardaloedd y nodwyd bod  gwasanaethau'n debygol iawn o fod yno.

**2.49** Rhaid cynnal golygfeydd allweddol hefyd wrth blannu coed newydd. Felly, dylid paratoi pob cynnig plannu ar y cyd â CSP.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**2.50** Sefydlu gweithgor o breswylwyr neu bartneriaid masnachol ochr yn ochr ag Adran Gofal Stryd a Phriffyrdd CSP i gymryd perchnogaeth ar y gwaith plannu coed newydd. Gallai diwrnod hyfforddi roi'r offer a'r wybodaeth i'r gymuned i gynnal coed newydd yn llwyddiannus nes eu sefydlu, gan gynnwys dyfrio a chadw llygad ar bolion coed.

**2.51** Byddai angen dyfrio a gofal sefydlu ar gyfer y cyfnod sefydlu 60 mis er mwyn sicrhau y gall y coed ddod yn annibynnol yn y dirwedd.

**2.52** Byddai angen i ardaloedd palmantau athraidd gael eu mabwysiadu naill ai gan CSP neu gan y tirfeddiannwr perthnasol.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**2.53** Yn amodol ar argaeledd cyllid, dylid monitro llwyddiant y prosiect ar y cyd â data Dŵr Cymru o ran capasiti carthffosydd a gostyngiad mewn digwyddiadau Gorlif Storm Cyfun.

**2.54** Defnyddio'r gweithgor preswyl i fonitro sefydliad llwyddiannus coed a gerddi stryd newydd. Sefydlu sianel gyfathrebu ar gyfer adrodd am unrhyw faterion neu fethiannau.

## Camau nesaf

**2.55** Nodi deiliaid tir a phartneriaid masnachol ar unwaith ac ymgysylltu â rhanddeiliaid posibl, gan gynnwys SWTRA ac adrannau priodol CSP.

**2.56** Arolygu'r ardal i ganfod ardaloedd sy'n fwyaf addas ar gyfer ymyrraeth.

**2.57** Adolygwch adran gyflawni'r Strategaeth Plannu Coed Trefol i bennu'r broses ar gyfer plannu coed o fewn tirweddau meddal a deall y cydrannau allweddol ar gyfer sefydlu coed yn llwyddiannus.

**2.58** Ymgysylltu â thrigolion a grwpiau cymunedol i nodi lleoliadau ar gyfer plannu coed a dewis rhywogaethau, gan ddefnyddio'r canllaw dewis rhywogaethau o fewn y Strategaeth Plannu Coed Trefol.

**Ffigur 2.10: Abergwaun ac Wdig**



# Rhestr Hir o Brosiectau

## FIS1 – Gwella Parc Lota

**2.59** Cyflwyno plannu coed ychwanegol o fewn Parc Lota i wella cymeriad y dirwedd. Mae ymyriadau posibl yn cynnwys rhodfeydd coed ar hyd prif lwybrau, coed ffiniol mawr, coed parcdir sbesimen, coed perllan, coed blodeuol mewn pyrth allweddol, yn ogystal ag integreiddio coedlannau bach. Byddai plannu coed sy’n dwyn ffrwyth ar hyd llwybrau eilaidd, wedi'u hategu â phlannu plwg o amgylch gwaelodion coed, yn darparu coridor bwytadwy. Canolbwyntio ar blannu coed mewn ardaloedd sy'n dioddef o ddirlawnder. Dylid hefyd ystyried defnyddio'r arglawdd sy'n gwahanu gogledd a de'r parc fel dôl. Ceir cyfle hefyd i ategu cynigion ehangach ar gyfer cysylltiadau llwybr a rennir ar hyd y Stryd Fawr a Ropewalk, gan gynnwys cysylltiadau ehangach â Stryd y Gorllewin. Mae disgwyl i'r llwybrau hyn gael eu gweithredu drwy Gyllid Teithio Llesol.

## FIS2 – Adolygu gwaith rheoli safleoedd coetir yn Llwybr Pencowrw, y Slâd ac Afon Gwaun

**2.60** Creu cynlluniau rheoli ar gyfer y coetiroedd yn Llwybr Pencowrw, y Slâd ac Afon Gwaun i hyrwyddo eu rheoli yn y tymor hir. Dylid ystyried ymyriadau fel coedlannu i wella strwythur isdyfiant a theneuo coetir i gynnal golygfeydd / llinellau gweld. Dylid defnyddio teneuo dethol hefyd fel mecanwaith i wella datblygiad fflora daear amrywiol. Lle bo'n ymarferol, dylid plannu grwpiau coed mewn mannau eistedd presennol ac i ddarlunio mynedfeydd i Lwybr Pencowrw. Dylid ystyried gweithredu cynigion ar y cyd â gwelliannau a amlinellir ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol, sy'n ceisio gwella Llwybr Pencowrw a’r Slâd. Hefyd, cynigir llwybr defnydd a rennir sy'n ffinio ag Afon Gwaun er mwyn cynnig cysylltiadau rhwng Cwm Abergwaun a Llanychaer.

## FIS3 – Amrywiaethu lleiniau ymyl ffordd ar hyd y Parrog

**2.61** Mae'r lleiniau ymyl ffordd yn Rhos Wdig a Ffordd y Parrog yn cael eu nodweddu ar hyn o bryd gan laswellt mwynder o dywarch byr. Gan gydweithio ag Awdurdod y Priffyrdd, dylid creu dolydd blodau gwyllt sy’n goddef halen i ddarparu coridor peillwyr a gwella'r porth i Wdig. Dylid hefyd sefydlu dolydd blodau gwyllt tebyg ar ymyl ogledd-ddwyrain y Parrog, gan dorri’r borfa i greu llwybrau a llennyrch i ddarparu ar gyfer defnydd hamdden y promenâd. Ynghyd â'r ymyriad hwn, dylid plannu grwpiau coed bychain ac adnewyddu llwyni presennol a blannwyd. Dylid hyrwyddo a chynnal golygfeydd i Fae Wdig a Rhos Wdig.

## FIS4 – Creu llwybr peillwyr yn Llwybr Pencowrw

**2.62** Dynodi llwybrau’n well yn Llwybr Pencowrw, gan gynnwys arwyddion ar hyd y Slâd i ddarparu cysylltiadau uniongyrchol o ganol tref Abergwaun i

Harbwr Cwm Abergwaun. Mewn ardaloedd o laswelltir amwynder agored a mannau gorffwys, dylid gosod cafnau plannu yn ogystal â chloddiau glöynnod byw ardaloedd o ddaear foel. Gallai'r llwybr gael ei hyrwyddo'n lleol fel llwybr peillwyr cylchol 3km. Dylai uchelgeisiau’r dyfodol gynnwys estyn y llwybr a'r potensial i sicrhau Statws Caru Gwenyn yn debyg i Dyddewi.

## FIS5 – Gwyrddu Ffordd yr Efail ymhellach

**2.63** Ceir nifer o ardaloedd gwyrdd yn y system un ffordd newydd (gan gynnwys llwybrau troed i gerddwyr a llwybr cyd-ddefnyddio) gerllaw'r Co-op. Dylid archwilio ymyriadau sy'n amrywiaethu plannu ac yn gwella ardaloedd o laswelltir a dorrir yn fyr ochr yn ochr ag uwchraddio llinellau awydd yn llwybrau ffurfiol. Mae cyfleoedd posib hefyd yn cynnwys rheoli ardaloedd sy'n disgwyl cael eu datblygu fel 'mannau yn y cyfamser', gan wella eu gwerth i beillwyr trwy blannu blodau gwyllt. Dylid ystyried cyflwyno cafnau plannu uchel yn yr orsaf fysiau a defnyddio toeau gwyrdd ar gysgodfannau bysiau / blociau toiled.

## FIS6 – Hyrwyddo gwyrddu coridor yr A487

**2.64** Plannu coed ychwanegol o fewn lleiniau glaswellt presennol ar hyd yr A487 ar y ddynesfa dde-orllewin tuag at Abergwaun yn ogystal ag ar dir i'r de o Ddyffryn. Y nod ddylai fod darparu gwell cysylltedd â'r cefn gwlad ehangach a chreu porth i'r aneddiadau. Dylid ystyried plannu plygiau o amgylch gwaelod coed yn fodd o ddarparu diddordeb gweledol a pheillwyr ychwanegol.

## FIS7 – Gwyrddu Parc Phoenix a Ffordd y Wern ymhellach

**2.65** Cyflwyno plannu ffiniol gerllaw'r cae chwarae ac ar hyd ffyrdd / ymylon ffordd i ddarparu clustogfa ffisegol rhwng y man agored a'r cyd-destun diwydiannol. Byddai'r llystyfiant hwn hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth leddfu'r

canfyddiad negyddol o lygredd sŵn o gerbydau sy’n pasio. Dylid meddalu ardal y maes parcio i'r dwyrain drwy blannu coed a phantiau llinol, gyda phwyntiau mynediad allweddol wedi'u darlunio drwy blannu coed ychwanegol.

## FIS8 – Gwella gwerth bioamrywiaeth mannau gwyrdd a chaeau chwarae presennol

**2.66** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## FIS9 – Cryfhau’r rhwydwaith o goetiroedd sydd ar yr ymyl drefol

**2.67** Dylid archwilio cynigion sy'n atgyfnerthu'r patrwm a'r rhwydwaith presennol o goetir ar draws ardaloedd sy'n union gerllaw ardaloedd trefol, gan gynnwys sefydlu plannu ar hyd cyrsiau dŵr a rhwydweithiau draenio.

## FIS10 – Hyrwyddo tyfu bwyd cymunedol yn Wdig

**2.68** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## FIS11 – Gwella gwerth bioamrywiaeth y cae chwarae i'r de o Ros Wdig

**2.69** Ceir cyfle i wella ymylon glaswelltir y cae hwn, a ddefnyddir ar hyn o bryd fel cae chwarae. Dylai cynigion i wella'r safle ar gyfer peillwyr gynnwys llacio’r drefn torri gwair, a hau hadau blodau gwyllt. Dylid ymgynghori â thirfeddianwyr

cyfagos gyda'r nod o greu rhwydwaith cysylltiedig o ymylon glaswelltir i hyrwyddo cysylltiadau strategol ehangach tuag at Ros Wdig.

## FIS12 – Gwella Rhos Wdig

**2.70** Gan adeiladu ar welliannau diweddar i fynediad cyhoeddus yn Rhos Wdig, dylai cynigion anelu at wella'r ystod o beillwyr. Byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy gyflenwi pentyrrau o bren marw, rheoli rhywogaethau goresgynnol a gwella gwerth ecolegol ymylon cynefinoedd.

## FIS13 - Ôl-osod gerddi glaw, coed stryd a phalmantau athraidd o fewn ardaloedd trefol presennol

**2.71** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## FIS14 – Adolygu arferion rheoli tirwedd i sicrhau cadw golygfeydd o’r môr

**2.72** Dylid adolygu arferion rheoli tirwedd er mwyn adfer argaeledd golygfeydd môr, wrth gydbwyso ystyriaethau ecolegol a thirwedd. Mae'r lleoliadau allweddol yn cynnwys y llethrau sy'n wynebu'r de-ddwyrain sy'n edrych dros Gei Wdig, rhannau o Lwybr Pencowrw, Rhos Wdig, yn ogystal ag ardaloedd o fan agored cyhoeddus gerllaw Penslâd a'r Slâd. Mae gweithrediadau teneuo coetir dethol hefyd yn cynnig cyfle i sicrhau bod llwybrau mynediad i gerddwyr a seddi’n cael eu cadw a'u hadfer lle bo angen. Er mwyn cyflawni'r prosiect hwn yn effeithiol, byddai angen ymgynghori ag Asiant Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA) a Thîm Cynnal a Chadw Mwynderau / Gofal Stryd Cyngor Sir Penfro (CSP).

# FIS15 – Hyrwyddo coridor hamdden ar hyd Afon Gwaun

**2.73** Archwilio'r cyfle i greu coridor hamdden strategol sy'n estyn o Lwybr Arfordir Cymru yn Abergwaun tuag at Gwm Gwaun, gan ddilyn llwybr Afon Gwaun yn fras. Dylid cysylltu rhannau tameidiog o Hawliau Tramwy Cyhoeddus presennol i ddarparu coridor integredig i gerddwyr.

# Pennod 3

## Hwlffordd

**Ffigur 3.1: Hwlffordd**




## Portread o Seilwaith Gwyrdd Hwlffordd

**3.1** Hwlffordd yw'r dref fwyaf o fewn Sir Benfro a chanddi fwy na 15,000 o boblogaeth. Mae'r dref hynafol yn gartref i nifer o adeiladau rhestredig hanesyddol sy’n crynhoi yng nghraidd yr anheddiad, o fewn Ardal Gadwraeth Hwlffordd. Yng nghefn gwlad tuag at ganol y sir, nodweddir cyrion gwledig y dref gan gaeau bugeiliol a gwrychoedd o’u cwmpas.

**3.2** Mae afon Cleddau Wen, a ddynodwyd yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) ac yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), yn rhannu'r dref yn ddwy o'r gogledd i'r de, ac er bod ardaloedd o goridor yr afon yn gwbl drefol yng nghanol y dref, mae darnau ohoni'n parhau i fod yn gymharol agored. Mae'r rhannau hyn yn darparu cysylltedd cerddadwy ysbeidiol drwy graidd y dref ac allan i'r dirwedd wledig o'i chwmpas, gan gynnig cyfleoedd i gysylltu â gwahanol warchodfeydd natur a Henebion Cofrestredig ar hyd coridor yr afon. Mae llednentydd Cleddau Wen yn cynnwys Merlin's Brook i'r de a Fenton Brook i'r dwyrain o'r dref. Mae'r cyrsiau dŵr hyn yn darparu coridorau a chyfleoedd coediog ychwanegol i gael mynediad ehangach at fyd natur. Caiff coridor yr afon ei sianelu drwy ganol y dref ond mae'n agor i orlifdir ehangach yn y gogledd a'r de.

**3.3** Prin yw'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus yng nghanol y dref ac, ar y cyfan, maent ar hyd coridor yr afon ac o fewn mannau agored coediog. Yn gyffredinol, mae ardaloedd o fannau agored cyhoeddus o amgylch canol y dref ac yn ymledu tuag allan, gan ganiatáu rhywfaint o gysylltedd â'r cefn gwlad ehangach. Er bod y rhwydwaith presennol o hawliau tramwy cyhoeddus braidd yn ddigyswllt, mae cyfleoedd i wella cysylltedd cyffredinol. Daw llwybrau beicio drwy'r dref ar hyd y prif ffyrdd cyn ymuno â llwybr 4 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN) i'r de-orllewin o ganol y dref. Mae Llwybr Brunel, sydd hefyd yn rhan o lwybr 4 NCN, yn cynnig cyswllt beicio oddi ar y ffordd rhwng Hwlffordd a Neyland i'r de.

## Ffigur 3.2: Cyfleoedd SG yn Hwlffordd




| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| HAV1 | Cynnal a gwella'r rhwydwaith perllannau | HAV2 | Estyn a gwella amgylchedd torlannol Dôl y Bont | HAV3 | Sefydlu ardal dyfu gymunedol i bobl a bywyd gwyllt |
| HAV4 | Rheoli'r gerddi 'tir bwrdais' canoloesol fel hafan i fywyd gwyllt | HAV5 | Gwella Neuadd y Sir | HAV6 | Cynnal a gwella dôl Priory Saltings |
| HAV7 | Sefydlu llwybr coed parcdir cae ras a hyrwyddo sefydlu dôl blodau gwyllt | HAV8 | Cyflwyno coed perllan a pharcdir wrth ymyl y parc sgrialu | HAV9 | Estyn y mynediad gogleddol ar hyd Cleddau Wen |
| HAV10 | Cyflwyno llwybrau cerdded ar hyd llednentydd Cleddau Wen | HAV11 | Sefydlu llwybr beicio rhwng Hwlffordd ac Arberth | HAV12 | Hyrwyddo gwyrddu ardaloedd preswyl Hwlf-fordd |
| HAV13 | Ymgorffori cynigion o fewn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Hwlffordd | HAV14 | Hyrwyddo gwyrddu Sgwâr y Castell | HAV15 | Gwyrddu glannau afon ymhellach |
| HAV16 | Gwyrddu'r orsaf drenau | HAV17 | Gwella pyrth gwyrdd | HAV18 | Hyrwyddo gwyrddu a phresgripsiynu cymdeithasol yn Ysbyty Llwynhelyg |
| HAV19 | Cyflwyno croesfan ddeheuol dros afon Cleddau Wen a gwell mynediad i Warchodfa Natur Priory Saltings | HAV20 | Adolygu gofal coed stryd | HAV21 | Estyn a gwella Coetir Scotchwell |
| HAV22 | Creu gwlyptiroedd wrth ymyl y gwaith trin carthion | HAV23 | Meddalu llwybrau presennol allweddol i ganol y dref drwy blannu coed | HAV24 | Integreiddio ymyriadau SDC i'r strydlun |

# Prosiectau Cicdanio

## HAV7 – Sefydlu llwybr coed parcdir cae ras a hyrwyddo sefydlu dôl blodau gwyllt

**3.4** Mae Parc Cyhoeddus Cae Ras Hwlffordd yn ased cymunedol gwerthfawr ac yn gyfle gwych i ennyn diddordeb y cyhoedd ehangach yng ngwerth coed. Mae'r safle hefyd yn cynnig cyfle i ddarparu adnodd addysgiadol sy'n ymwneud â buddion, amrywiaeth a phwysigrwydd coed yn y dref. Dylid datblygu uwchgynllun llwybr coed ar draws y safle sy'n hyrwyddo manteision amlswyddogaethol coed, gan ddarparu lle ar gyfer llwybrau ffitrwydd a ffyrdd egnïol o fyw. Yn ogystal, dylid defnyddio tractor a pheiriant torri a chasglu gwair i gael gwared ar sgil-gynhyrchion a hyrwyddo sefydlu dolydd blodau gwyllt sydd newydd eu hau ar y safle.

**3.5** Dylid cyflwyno ymyriadau ar y cyd â dehongliad (gan gynnwys dehongliad digidol o bosibl) ar gyfer pob oedran. Gallai hyn gynnwys labelu coed yn fodd o ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud ag amrywiaeth rhywogaethau coed, pwysigrwydd coed i liniaru newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo bioamrywiaeth.

## Ffigur 3.3: HAV7




# Buddion y prosiect

**3.6** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 3.4 isod, mae:

- Lleihau risg llifogydd
- Buddsoddiad a gwell profiad i ymwelwyr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Chwarae, addysg a rhyngweithio â natur
- Gwella ansawdd aer a rheoleiddio sŵn
- Rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant cymunedol
- Atgyfnerthu ymdeimlad o le
- Oeri trefol
- Gwella iechyd a lles
- Dal a storio carbon a lliniaru effeithiau newid hinsawdd

## Ffigur 3.4: Buddion




# Mecanweithiau cyflawni

**3.7** Dylid datblygu strategaeth plannu coed ac uwchgynllun cyffredinol sy'n hyrwyddo cyflawni dros un tymor neu nifer o dymhorau plannu. Byddai angen i hyn ystyried amodau'r safle, y stoc goed bresennol, rhywogaethau glaswelltir, defnydd presennol o'r safle a mynediad yn ogystal â chyfleoedd i reoli'r ardaloedd presennol o goetir yn well.

**3.8** Dylid cynnal arolwg ecolegol rhagarweiniol i bennu ansawdd glaswelltir presennol ar y safle ac asesu addasrwydd i blannu coed a sefydlu dôl blodau gwyllt. Ni ddylid gwneud gwaith plannu coed ychwanegol mewn ardaloedd y nodwyd eu bod yn arddangos amrywiaeth flodeuegol uchel. Byddai'r opsiynau ar gyfer amrywiaethu ardaloedd glaswelltir ymylol yn debygol o gynnwys; trin a hadu ardaloedd arwahanol, addasu'r drefn torri gwair bresennol (gan gynnwys gwaredu sgil-gynhyrchion yn flynyddol) a phlannu plygiau i laswellt presennol (sy'n debygol o fod yn ymarferol dros ardaloedd bach yn unig).

**3.9** Dylid darparu coed yn unol ag adran gyflawni'r Strategaeth Plannu Coed Trefol.

## Partneriaid posibl

- Ymddiriedolaeth Parc Cyhoeddus Cae Ras Hwlffordd
- Y gymuned Leol
- Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth Cyngor Sir Penfro (CSP)
- Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP
- Busnesau lleol
- Wardeniaid Coed Sir Benfro

## Cost amlinellol

### Cost isel = <£250k

**3.10** Byddai'r costau yn cynnwys ychydig bach o gyngor arbenigol gan gynnwys datblygu uwchgynllun a strategaeth blannu, ymgynghori â rhanddeiliaid a chostau plannu / cynnal a chadw. Byddai costau datblygu dehongliad yn dibynnu ar hyfywedd ac uchelgeisiau Ymddiriedolaeth Parc Cyhoeddus Cae Ras Hwlffordd.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Cyngor Sir Penfro (CSP)
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
- Y Cyngor Coed
- Grantiau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

## Amserlen

### Cam cyflym ymlaen = <1 flwyddyn

**3.11** Gellid gwneud rhywfaint o blannu coed cychwynnol yn ystod y tymor plannu nesaf.

### Tymor canolig = 1-5 mlynedd

**3.12** Dylid gwneud y rhan fwyaf o blannu coed, datblygu dehongliad ac ymgysylltu â'r gymuned dros nifer o dymhorau plannu.

**3.13** Prin y byddai’r coed a'r llystyfiant cysylltiedig yn dal a storio carbon wedyn i ddechrau, ond byddai hynny'n cynyddu o fewn y degawd nesaf wrth i'r coed aeddfedu. Yn dibynnu ar y technegau a ddefnyddir ac amodau'r safle, byddai amrywiaethu ardaloedd glaswelltir yn debygol o ddigwydd dros nifer o dymhorau.

## Cyfyngiadau posibl

**3.14** Byddai angen cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid i lywio uwchgynllun a strategaeth blannu briodol ar gyfer y safle. Dylai hyn gynnwys defnyddwyr presennol, gan gynnwys grwpiau chwaraeon yn defnyddio'r caeau gwair.

**3.15** Byddai plannu coed yn debygol o ddigwydd ar raddfa fechan, ond dylid gofyn am gyngor ynghylch a fyddai angen unrhyw ganiatâd neu drwydded.

**3.16** Gan fod eisoes ardaloedd nodedig o goetir yn bresennol ar y safle, mae'n rhesymol tybio y byddai pob ardal ar y cyfan yn addas ar gyfer plannu coed. Fodd bynnag, dylai arolygon ecolegol a dichonoldeb lywio lleoliad coed ac unrhyw hadau glaswelltir.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**3.17** Mae'r prosiect yn gyfle nodedig i hyrwyddo stiwardiaeth gymunedol a rheoli coed / ardaloedd glaswelltir. Byddai'r prosiect yn ddelfrydol yn cynnwys hyfforddiant cymunedol ar adnabod, plannu a chynnal a chadw coed. Gan ddibynnu ar raddfa plannu coed, efallai y bydd rhywfaint o gymorth contractwyr i sefydlu coed, megis dyfrio, cadw llygad ar y polion ac ati, yn briodol a gellid ei gynnwys mewn unrhyw geisiadau am gyllid.

**3.18** Byddai angen dyfrio a gofal sefydlu ar gyfer y cyfnod sefydlu 60 mis er mwyn sicrhau y gall y coed ddod yn annibynnol yn y dirwedd. Yn ddelfrydol, byddai cynllun rheoli lefel uchel ar gyfer y plannu newydd yn cael ei fabwysiadu ac yn cynnwys cael gwared ar ddulliau diogelu coed (gardiau / polion coed) pan fydd coed yn gwbl annibynnol yn y dirwedd (ar ôl tua phum mlynedd). Dylid cymryd i ystyriaeth rai colledion coed newydd a darpariaeth ar gyfer plannu yn eu lle. Byddai angen addasu trefn torri glaswelltir i gyfrif am ardaloedd sy'n cael eu hamrywiaethu. Dylid tynnu a gwaredu'r sgil-gynhyrchion, naill ai oddi ar y safle, neu mewn ardal addas ar y safle ar gyfer compostio.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**3.19** Gellid monitro llwyddiant drwy arolygon rhywogaethau cynnar a dilynol ar gyfer ardaloedd glaswelltir, nifer y coed a blannwyd a'u sefydliad llwyddiannus. Dylai gwaith monitro ymgysylltu â'r gymuned gynnwys adolygiad o gyfranogiad gwirfoddolwyr, presenoldeb mewn diwrnodau hyfforddi a defnyddio'r safle drwy arolygon syml i ymwelwyr.

## Camau nesaf

**3.20** Ymgymryd ag arolygon dichonoldeb ac ecolegol o'r ardal i ganfod yr ardaloedd sy'n fwyaf addas ar gyfer y gwahanol ymyriadau. Dylai hyn gynnwys amodau'r safle, rhywogaethau coed a glaswelltir presennol.

**3.21** Adolygu adran gyflawni'r Strategaeth Plannu Coed Trefol i bennu'r broses ar gyfer plannu coed o fewn tirweddau meddal a deall y cydrannau allweddol ar gyfer sefydlu coed yn llwyddiannus.

**3.22** Ymgysylltu â thrigolion a grwpiau cymunedol i nodi lleoliadau ar gyfer plannu coed a dewis rhywogaethau, gan ddefnyddio'r canllaw dewis rhywogaethau o fewn y Strategaeth Plannu Coed Trefol. Dylid comisiynu cymorth ymgynghorol, lle bo angen, ar gyfer datblygu'r strategaeth a'r uwchgynllun plannu a’r dehongliad.

## Ffigur 3.5: Hwlffordd




# HAV11 – Sefydlu llwybr beicio integredig rhwng Arberth, Hwlffordd a Neyland

**3.23** Ceir cyfle i estyn llwybr presennol Llwybr Brunel, sy'n cysylltu Neyland â Hwlffordd, i ddarparu llwybr beicio oddi ar y ffordd yn bennaf sy'n cysylltu tua'r dwyrain tuag at Arberth. Ar hyn o bryd, mae llwybrau aml-ddefnyddiwr a uwchraddiwyd yn ddiweddar o faes parcio Gwaun y Dref yn Arberth yn darparu cysylltiad â Melin Pwll Du, drwy'r dirwedd iseldirol sy'n gyfochrog ag Afon Cleddau. Fodd bynnag, dylid gwneud ymarfer ar opsiynau ac astudiaeth dichonoldeb i bennu llwybr a ffafrir i ddarparu'r 'ddolen goll' yn y llwybr rhwng Melin Pwll Du a Hwlffordd. Gan gydweithio â Chyngor Sir Penfro (CSP), byddai angen i gynigion ddatrys problemau mynediad ar draws tir sy'n eiddo preifat ym Mharc Slebets, lle mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus presennol yn absennol ar hyn o bryd.

**3.24** Dylid ystyried ymgorffori ystod o ddodrefn stryd, dehongliad, arwyddion a nodweddion chwarae naturiol achlysurol ar hyd y llwybr i wella'r coridor fel ased hamdden. Fodd bynnag, byddai angen gweithredu unrhyw gynigion goleuo mewn cysylltiad ag ecolegydd i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng canfyddiad diogelwch ac ystyriaethau bioamrywiaeth. Byddai hyn yn cael ei wneud fel rhan o asesiad ecolegol ehangach i bennu sensitifrwydd ecolegol penodol y safle arfaethedig ac unrhyw ofynion ar gyfer lliniaru. Gan gydweithio â grwpiau cadwraeth a grwpiau gwirfoddol lleol, byddai gweithgareddau cadwraeth nid yn unig yn gwella gwerth natur y llwybr, ond hefyd yn hyrwyddo bywydau egnïol a lles meddyliol cadarnhaol drwy gydlyniant cymunedol.

**Ffigur 3.6: Llwybr rhwng Arberth, Hwlffordd a Neyland**




## Buddion y prosiect

**3.25** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 3.7 isod, mae:

- Darparu cyfleoedd teithio llesol
- Buddsoddiad a gwell profiad i ymwelwyr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Chwarae, addysg a rhyngweithio â natur
- Rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant cymunedol
- Atgyfnerthu ymdeimlad o le
- Gwella iechyd a lles

**Ffigur 3.7:Buddion**




## Mecanweithiau cyflawni

**3.26** Byddai angen cais am grant i sicrhau cyllid ar gyfer y gwaith cyfalaf sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn. Byddai angen i'r llwybr gael ei nodi ar y Map Rhwydwaith Integredig i gael ei ystyried yn gymwys i gael cyllid.

## Partneriaid posibl

- Y tîm Teithio Llesol, sy'n rhan o'r Uned Strategaeth Drafnidiaeth yn CSP

## Cost amlinellol

Cost uchel = <£1 miliwn

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Grant Cronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru
- CSP

- Trafnidiaeth Cymru

## Amserlen

Tymor canolig = >5 mlynedd

**3.27** I gwblhau'r llwybr i gyd, mae'n debygol y bydd yn cymryd dros 5 mlynedd i'w gyflawni.

## Cyfyngiadau posibl

**3.28** Mae'r prosiect yn debygol o fod yn gymhleth, gyda gofynion croes sy'n cynnwys y gofyniad am gyllid allanol sylweddol a chysylltu â thirfeddianwyr lleol. Byddai angen ymgysylltu â thirfeddianwyr a deilaiid tir er mwyn cyflwyno'r prosiect a thrafod unrhyw effeithiau ar ddefnydd tir presennol. Fodd bynnag, un agwedd anhysbys allweddol i'r prosiect fyddai'r amser sydd ei angen i gael caniatâd y tirfeddianwyr hyn.

**3.29** Byddai uwchraddio llwybrau presennol i ddarparu llwybr cyd-ddefnyddio ar gyfer beicwyr hefyd yn gofyn clirio llystyfiant lleol ar hyd rhai rhannau o'r llwybr. Byddai angen gwneud hyn er mwyn osgoi'r tymor nythu adar ac mewn cyswllt ag ecolegydd neu Glerc Gwaith Ecolegol (ECoW).

**3.30** Er mwyn bodloni meini prawf Grant Cronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, byddai angen i ddyluniad y cynllun sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a chanllawiau ategol y Ddeddf Teithio Llesol. Rhaid i gynlluniau sy'n cynnwys gwella priffyrdd, adeiladu, neu reoli traffig ddangos sut maent yn cydymffurfio'n benodol ag Adran 9 o'r Ddeddf (Darpariaeth i gerddwyr a beicwyr wrth arfer rhai swyddogaethau).

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**3.31** Byddai angen gwaith cynnal a chadw blynyddol parhaus ar arwynebau caled y llwybr er mwyn sicrhau bod mynediad yn cael ei gynnal drwy gydol y flwyddyn. Byddai angen gwaith rheoli tirwedd hefyd i sicrhau bod llinellau gweld yn cael eu cadw ar draws y llwybr.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**3.32** Ceir cyfle i osod synwyryddion neu rifyddion i fonitro'r defnydd o'r llwybr fel rhan o'r rhwydwaith teithio llesol ehangach o fewn y sir. Byddai'r dull hwn yn helpu i fesur llwyddiant y buddsoddiad sylweddol ac yn llywio strategaeth hirdymor a chyflawni prosiectau tebyg yn y dyfodol.

## Camau nesaf

**3.33** Cynnal astudiaeth ddichonoldeb ac ymarfer ar opsiynau i bennu llwybr arfaethedig. Dylai'r ymarfer hwn ymgorffori asesiad ecolegol ac arolwg coed i BS5837: 2012 i archwilio'r goblygiadau ar fioamrywiaeth leol a gorchudd coed presennol. Dylid datblygu strategaeth dodrefn stryd ac arwyddion ar gyfer y llwybr hefyd. Ar ben hynny, byddai angen proses gynhwysfawr o ymgynghori ac ymgysylltu er mwyn penderfynu ar yr awydd am ddiwrnodau cadwraeth ar hyd y llwybr.

**Ffigur 3.8: Hwlffordd**



## HAV22 – Creu gwlyptiroedd wrth ymyl y gwaith trin carthion

**3.34** I'r de o Hwlffordd mae gwaith trin carthion Dŵr Cymru wrth ymyl Merlin’s Brook. Mae'r safle hwn yn gorwedd o fewn Parth Llifogydd 2 a 3, gyda nifer o ddigwyddiadau gorlif storm cyfunol hanesyddol (lle mae elifion budr, wedi'u cymysgu â dŵr glaw, yn cael eu rhyddhau i'r afon oherwydd bod capasiti’r seilwaith wedi’i lethu). Cofnododd Dŵr Cymru gyfanswm o 847.25 o oriau o ollyngiadau yn 2021 yn unig. Mae'r gollyngiadau hyn yn bwydo i mewn i Merlin’s Brook sy'n draenio i Afon Cleddau Wen, sy’n Ardal Cadwraeth Arbennig ddynodedig sy'n methu'r meini prawf ffosffad newydd ar hyn o bryd. Gall ffosffad, er ei fod yn digwydd yn naturiol, hefyd ddeillio o weithgaredd dynol megis elifion carthion. Mae lefelau uwch o ffosffad yn arwain at orfaethu afonydd sy'n gallu achosi difrod ecolegol sylweddol. Mae afon Cleddau Wen yn cynnal poblogaethau o lampreiod y nant, lampreiod yr afon, silod a dyfrgwn, a’r cyfan ohonynt yn dirywio wrth i ansawdd dŵr waethygu.

**3.35** Byddai creu gwlyptiroedd newydd ar dir diffaith wrth ymyl y gwaith trin carthion yn darparu mwy o gapasiti trin i helpu i dynnu ffosffadau o'r elifion carthion wedi'u trin wrth iddynt adael y safle. Byddai'r ymyriad hwn hefyd yn darparu clustogfa ar gyfer lliniaru digwyddiadau llifogydd a gorlif storm cyfunol, gan leihau'r graddau y mae carthion heb eu trin yn llifo'n syth i'r nant. Byddai'r gwlyptiroedd yn cynorthwyo stripio maetholion yr ollyngfa a byddai hyn yn ei dro yn helpu i leihau lefelau ffosffad yn Afon Cleddau Wen.

### Ffigur 3.9: Prosiect HAV22




## Buddion y prosiect

**3.36** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 3.10 isod, mae:

- Lleihau risg llifogydd
- Gwella ansawdd dŵr
- Buddsoddiad a gwell profiad i ymwelwyr
- Mannau ar gyfer bywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol

- Gwella ansawdd aer a rheoleiddio sŵn
- Gwella iechyd a lles
- Dal a storio carbon a lliniaru newid hinsawdd.

**Ffigur 3.10: Buddion**




## Darparu atebion seiliedig ar natur a gwasanaethau ecosystemau

**3.37** Gall gwlyptiroedd gynorthwyo i liniaru llifogydd, gan storio dŵr gormodol mewn cyfnodau o law trwm, yn ogystal â'u prif swyddogaeth sef stripio ac ailgylchu maetholion. Mae'r cynefinoedd hyn hefyd yn darparu nifer o fanteision bioamrywiaeth.

**3.38** Gall gwlyptiroedd wedi'u hadeiladu, os cânt eu dylunio'n gywir, drin elifion yn gynaliadwy mewn modd sy’n lleihau crynodiad halogedig sy'n debyg i fecanweithiau cemegol neu fecanyddol mwy cymhleth. Fel arfer mae'r elifion o gyfleusterau trin carthion yn gyfoethog mewn maetholion a gall gwlyptiroedd helpu i leddfu'r mater hwn mewn ardaloedd sensitif fel ACA Afon Cleddau Wen.

## Mecanweithiau cyflawni

**3.39** Dylid ymgynghori â pheiriannydd dylunio priodol i ddarparu dyluniad o'r gwlyptiroedd. Dylid cyfrifo'r ardal bosibl ar gyfer y gwlyptiroedd a'i chytuno â thirfeddianwyr perthnasol. Dylid ymgynghori â'r gymuned leol er mwyn ei chynnwys gyda'r cynlluniau. Dylid cyflogi contractwyr y mae eu hangen i gwmpasu'r topograffi a chloddio ardaloedd dethol. Dylid hefyd ystyried deunyddiau sydd eu hangen i greu'r gwlyptiroedd fel deunyddiau swbstrad a llystyfiant mor lleol â phosib.

**3.40** Efallai y bydd modd ymgorffori atebion fel hyn i gyfraniadau datblygwyr (e.e. o dan gytundebau Adran 106) sy'n galluogi datblygwyr i wrthbwyso'r llwytho maethol cynyddol sy'n gysylltiedig â datblygiadau newydd, ac felly'n darparu mecanwaith ariannu ar gyfer adeiladu a chynnal a chadw'r gwlyptir.

## Partneriaid posibl

- Prosiectau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer Afonydd Cleddau – Lliniaru Llifogydd yn Naturiol
- Prosiect Pedair Afon LIFE
- Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru
- Bwrdd Cynllun Rheoli Maetholion ACA Cleddau
- Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru

## Cost amlinellol

Cost isel = <£250k

**3.41** Byddai'r costau'n cynnwys prynu tir neu rent, dylunio’r gwlyptiroedd gan beiriannydd arbenigol, caffael planhigion a chostau sy'n gysylltiedig â chloddio a gosod y gwlyptiroedd.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Dŵr Cymru
- Prosiect Pedair Afon LIFE
- Credydau maetholion gan ddefnyddio cytundeb Adran 106
- Cronfa Arloesi Ofwat

## Amserlen

Tymor canolig = <1-5 mlynedd

**3.42** Mae hyd y rhaglen hon a ragwelir yn cynnwys amser er mwyn dylunio'r gwlyptir, llunio cytundebau gyda pherchenogion tir, adeiladu a phlannu'r gwlyptir.

## Cyfyngiadau posibl

**3.43** Un o'r cyfyngiadau allweddol ar gyfer y prosiect fyddai sicrhau cytundebau tirfeddianwyr. Byddai'n hanfodol hefyd sicrhau bod y gwlyptiroedd gerllaw'r seilwaith trin carthion er mwyn osgoi ail-lwybro gollyngfeydd carthion a fyddai'n cynyddu amser a chostau'r prosiect. Mae bacteria sy'n gwrthsefyll gwrthfiotigau

yn cronni mewn gwlyptiroedd yn bryder a dylid ystyried hyn wrth ddylunio'r gwlyptiroedd.

**3.44** Byddai angen i asesiad ecolegol o'r safle gael ei gynnal gan ecolegydd gyda'r holl waith safle’n cael ei oruchwylio o bosibl gan Glerc Gwaith Ecolegol (ECoW).

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**3.45** Nid yw gwlyptiroedd yn mynnu llawer iawn o waith cynnal a chadw, a braidd dim costau rhedeg, gan nad oes angen pŵer arnynt ac maent yn gyffredinol yn systemau hunan-addasu dibynadwy. Fodd bynnag, byddai angen cynnal a chadw ychydig o weithiau'r flwyddyn i dynnu malurion o unrhyw ollyngfeydd, ailosod unrhyw bibellau sydd wedi'u difrodi, cael gwared ar unrhyw rywogaethau planhigion goresgynnol a allai fod yn drech na’r planhigion gwlyptir, lleihau croniad gwaddodion a chadw llygad ar uniondeb strwythurol agweddau strwythurol y dyluniad. Byddai cytundebau parhaus gyda Dŵr Cymru neu ddeiliaid tir ar gyfer mynediad yn hanfodol.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**3.46** Yn amodol ar argaeledd cyllid, dylid monitro llwyddiant y prosiect drwy wyddoniaeth dinasyddion syml. Gallai technegau gynnwys monitro ansawdd dŵr gan ddefnyddio offer llaw syml.

## Camau nesaf

**3.47** Byddai angen cydweithio â Dŵr Cymru ar y prosiect hwn ac felly’r cam cyntaf fyddai archwilio a gosod cytundeb cydweithio. Gall hyn helpu i ddatgloi cyllid gan Dŵr Cymru eu hunain, neu o Gronfa Arloesi Offwat neu ei thebyg. Wedi hynny, dylid cynnal ymarfer cwmpasu i ddiffinio gofynion y cynllun o ran yr

ystod o ollyngfeydd o'r gwaith carthion, y lle sydd ar gael ar gyfer adeiladu ac ystyriaethau tirfeddianwyr.

# Rhestr Hir o Brosiectau

## HAV1 – Cynnal a gwella’r rhwydwaith perllannau

**3.48** Parhau gwaddol prosiect ‘Orchard Mawr’ Transition Haverfordwest drwy barhau i reoli Perllannau Pont Fadlen, Perllannau Fleming Crescent a Pherllannau’r Cae Ras. Dylid hefyd ystyried sefydlu coed ffrwythau wrth ymyl y parc sgrialu ac estyn plannu ar hyd ymylon glaswelltog y Parêd / cyrtiau tenis.

## HAV2 – Estyn a gwella amgylchedd torlannol Dôl y Bont

**3.49** Ategu ardaloedd blodau gwyllt ar hyd rhannau Afon Cleddau Wen drwy estyn ardaloedd o ddolydd gwlyb ar hyd y gorlifdir. Byddai hyn yn cefnogi amcanion bioamrywiaeth ehangach drwy gynnwys gwalau rhydwyr ac ardaloedd o goetir gwlyb, gan atgyfnerthu'r coridor cynefin. Nodwyd yr ardal gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ardal ar gyfer potensial ailgysylltu gorlifdir a byddai'n helpu i ddarparu ardal naturiol i wanhau llifogydd i fyny'r afon o'r dref.

## HAV3 – Sefydlu ardal dyfu gymunedol i bobl a bywyd gwyllt

**3.50** Mae'r cyfle yn bodoli i greu ardal o randiroedd cymunedol, gan fodloni rôl hanfodol wrth gysylltu pobl â'r broses o gynhyrchu bwyd. Os oes modd, dylid

gadael ymylon plannu heb eu torri, gosod toeau byw ar siediau ac ychwanegu bwydwyr adar i ddenu bywyd gwyllt. Dylai'r ymyriad annog perchnogion lleiniau i ddefnyddio llai o blaladdwyr a chwynladdwyr, gan ddewis yn hytrach gweithio'r tir yn organig. Dylid edrych hefyd ar gyfleoedd plannu coed a pherllannau ychwanegol.

## HAV4 – Rheoli’r gerddi ‘tir bwrdais’ canoloesol fel hafan i fywyd gwyllt

**3.51** Ar hyn o bryd mae lleiniau bwrdais Castell Hwlffordd yn cael eu rheoli fel hafan bywyd gwyllt, gyda mwy na 18 math gwahanol o blanhigion blodau gwyllt, cuddfannau draenogod, a blychau adar ac ystlumod. Drwy gynnal amrywiaeth o rywogaethau, mae'r lleiniau bwrdais yn gyrchfan deniadol i ymwelwyr, ond maent hefyd yn helpu i ddangos pwysigrwydd gweoedd bwyd cydgysylltiedig. Argymhellir parhau i reoli er mwyn sicrhau bod y safle yn parhau i fod yn lle i bobl a bywyd gwyllt ei fwynhau.

## HAV5 – Gwella Neuadd y Sir

**3.52** Ceir cyfle i lenwi’r blychau ffenestri gwag yn Neuadd y Sir â blodau brodorol i wella bioamrywiaeth. Dylai hadau blodau gwyllt hefyd gael eu hau a phlanhigion plwg gael eu cyflwyno ar lefel y ddaear i roi gwerth ychwanegol i beillwyr. Dylid hefyd integreiddio cynigion plannu sy'n ceisio gwella bioamrywiaeth o fewn cynigion i wella'r cysylltiad rhwng Picton Place a Thŵr y Cloc.

## HAV6 – Cynnal a gwella dôl Priory Saltings

**3.53** Arferai fod yma ganolfan ailgylchu gwastraff cartref, ond mae Priory Saltings bellach yn warchodfa natur lewyrchus. Dylid parhau i reoli glaswelltir y ddôl drwy dorri gwair a chasglu gwair llawn hadau rhwng diwedd mis Awst a

mis Medi. Mae'r gweithrediad hwn yn annog gweirglodd draddodiadol i sefydlu sy'n llawn o blanhigion blodeuo lluosflwydd. Dylai'r safle hefyd barhau i hyrwyddo digwyddiadau fel Diwrnod Agored Dolydd Sir Benfro er mwyn annog ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad lleol. Dylid gwella ardaloedd o dir moel ac ardaloedd gwlypach i ddarparu ar gyfer peillwyr drwy gydol eu cylch bywyd. Dylid hefyd ystyried dynodi llwybrau'n well ac arwyddion dehongli, gan gynnwys y potensial i ddarparu cyswllt hygyrch ar gyfer pob tywydd rhwng y safle a'r Priordy.

## HAV7 – Sefydlu llwybr coed parcdir cae ras a hyrwyddo sefydlu dôl blodau gwyllt

**3.54** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## HAV8 – Cyflwyno coed perllan a pharcdir wrth ymyl y parc sgrialu

**3.55** Archwilio'r cyfle i gyflwyno plannu coed gerllaw'r parc sgrialu i gyd-fynd â'r rhwydwaith o goed ffrwythau sy'n bodoli eisoes. Byddai plannu coed parcdir hefyd yn helpu i atgyfnerthu cymeriad treflun a thirwedd yr ardal, gan ddarparu amrywiaeth o fanteision amlswyddogaethol. Gan gydweithio â Chymdeithas Parc Sgrialu Hwlffordd, mae'r cyfle yn bodoli i gyflwyno digwyddiad plannu coed cymunedol i annog pobl leol i gefnogi'r cynigion a hybu perchnogaeth gymunedol.

## HAV9 – Estyn y mynediad gogleddol ar hyd Cleddau Wen

**3.56** Estyn a chysylltu Gwarchodfa Natur Old Mill Ground er mwyn hwyluso mynediad sensitif at fyd natur. Gan adeiladu ar y bont droed ddiweddar sy'n

croesi Cleddau Wen yn y lleoliad hwn, dylid ystyried gosod mynediad ychwanegol tua'r gogledd (yn amodol ar gymeradwyaeth tirfeddianwyr). Dylai hyn fod ynghyd â mynediad uniongyrchol tuag at gymunedau yn Cashfield lle ceir cyfle i greu llwybr hamdden cylchol. Dylai plannu coed ychwanegol i gynyddu gorchudd canopi strategol, gan ddarparu atebion seiliedig ar natur i lifogydd, gael ei ymgorffori hefyd mewn cynigion tirwedd yn y dyfodol.

## HAV10 – Cyflwyno llwybrau cerdded ar hyd llednentydd Cleddau Wen

**3.57** Archwilio cyfleoedd am lwybrau cerdded cylchol sy'n cysylltu canol Hwlffordd gyda'r cefn gwlad cyfagos a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Dylai'r llwybrau ddefnyddio rhai o lednentydd Cleddau Wen (gan gynnwys Merlin's Brook, Cartlett Brook a Pelcomb Brook).

## HAV11 – Sefydlu llwybr beicio integredig rhwng Arberth, Hwlffordd a Neyland

**3.58** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## HAV12 – Hyrwyddo gwyrddu ardaloedd preswyl Hwlffordd

**3.59** Ategu a gwella clustogfeydd coetir presennol yng ngogledd-orllewin Hwlffordd, gan ddefnyddio ardaloedd mawr o laswelltir amwynder wrth ymyl ardaloedd preswyl. Dylid hefyd archwilio ymyriadau creu cynefinoedd ychwanegol, gan gynnwys dolydd blodau gwyllt, mewn lleoliadau fel Thomas Parry Way, Fleming Crescent, Trafalgar Road a'r ystâd yn Scotchwell View. Yn ogystal, dylid integreiddio mentrau gwyrddu o fewn y man gwyrdd yn Tan Bank ar y cyd â chynigion i gyflwyno troedffordd i gysylltu Ffordd Aberteifi ag Ysgol

Prendergast. Dylid hefyd edrych ar gyfle i adolygu gwaith rheoli tirwedd coetir Fleming Crescent.

## HAV13 – Ymgorffori cynigion o fewn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Hwlffordd

**3.60** Adolygu darpariaethau parcio er mwyn darparu lle i gafnau plannu uwch a phlannu coed stryd. Dylai'r ymyriad hwn fod ynghyd â'r potensial i blannu ar leiniau glaswellt, er enghraifft yn Milford Road. Dylid hefyd defnyddio coed i ddiffinio llwybrau allweddol rhwng cyrchfannau allweddol ac atyniadau ymwelwyr yn y dref.

## HAV14 – Hyrwyddo gwyrddu Sgwâr y Castell

**3.61** Cyflwyno ymyriadau tirwedd feddal o fewn Sgwâr y Castell i ddarparu man cyhoeddus deniadol. Dylid defnyddio coed stryd gyda seddi wedi'u hymgorffori i ddarparu cysgod, ochr yn ochr â chafnau plannu uchel gyda mannau parcio beiciau, gwefru beiciau trydan a threfniadau eistedd cymdeithasol wedi'u hymgorffori. Dylai nodweddion a ddefnyddir yn Sgwâr y Castell ffurfio rhan o gyfres ailadroddus o ddodrefn stryd ar draws y dref. Dylid defnyddio gwyrddu ac arwyddion trefol hefyd i greu llwybr mwy croesawgar i'r maes parcio. Dylid hefyd ystyried gosod cyfleusterau beiciau trydan a beicio ychwanegol.

## HAV15 - Gwyrddu glannau afon ymhellach

**3.62** Mae crynhoad o ddigwyddiadau Gorlif Carthffos Cyfun (CSO) yn agos at Ganolfan Siopa Glan yr Afon. Mae Ystâd Fanwerthu Bridge Meadow hefyd wedi cofnodi digwyddiadau llifogydd yn y gorffennol. Felly, dylid edrych ar osod coed, palmantau athraidd, cafnau plannu uwch, seddau a gerddi glaw o fewn yr amgylchedd cyhoeddus a'r meysydd parcio. Gyda chefnogaeth rhaglenni cynnal a rheoli priodol, dylid defnyddio gwelyau cyrs arnofiol hefyd i feddalu

ymyl sianelog yr afon gyda'r nod o wella ansawdd dŵr a darparu cynefinoedd torlannol. Dylid cyflenwi waliau gwyrdd, arosfannau bysiau gwyrdd a nodweddion gwyrddu ar hyd y maes parcio aml-lawr i'r gogledd-ddwyrain o'r ganolfan siopa.

## HAV16 – Gwyrddu'r orsaf drenau

**3.63** Gwella'r ymdeimlad o gyrraedd y dref drwy blannu coed stryd ar raddfa fach a nodweddion gwyrddu trefol; gan gynnwys cafnau plannu uwch, parcio beiciau gwyrdd a safleoedd bysiau gwyrdd. Dylid ategu hyn drwy ddynodi llwybrau’n well i hyrwyddo atyniadau allweddol y dref yn ogystal â darparu seddi a gorsafoedd gwefru beiciau trydan.

## HAV17 – Gwella pyrth gwyrdd

**3.64** Sicrhau pyrth gwyrdd deniadol sy’n denu peillwyr i Hwlffordd, wrth fynedfeydd, meysydd parcio a chylchfannau allweddol. Mae'r lleoliadau posibl yn cynnwys Cylchfan Llwynhelyg, Cylchfan Ffordd Aberteifi, Cylchfan Bridgend Square, Cylchfan Salutation Square, Cylchfan Pont Fadlen, Cylchfan y Slâd, a Chylchfan Scotchwell yn ogystal â meysydd parcio cyhoeddus a phreifat. Ochr yn ochr â gwelliannau plannu, dylid ystyried dynesfeydd cyffordd a sut y gellir gwella'r rhain i hyrwyddo defnydd cynyddol gan gerddwyr a beicwyr (gan ganiatáu ar gyfer lleiniau gweledd priodol).

## HAV18 – Hyrwyddo gwyrddu a phresgripsiynu cymdeithasol

**3.65** Gweithio mewn partneriaeth ag Ysbyty Llwynhelyg, Ysbyty De Sir Benfro, Wardeiniaid Coed Sir Benfro a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur i ddatblygu cynigion

dylunio tirwedd ar gyfer gerddi therapiwtig. Dylai'r mannau hyn geisio cyflwyno gerddi ar gyfer ymlacio'n dawel a hyrwyddo mwy o gysylltiad â byd natur i gleifion a staff. Dylid hefyd edrych ar gyfleoedd i arddio a thyfu bwyd ar raddfa fach. Ceir cyfle hefyd yn bodoli i gefnogi Coleg Sir Benfro i ddatblygu cynigion am ardal tyfu bwyd ar gyfer dysgwyr sgiliau bywyd yn ogystal â gardd les ar ei safle yn Llwynhelyg. Dylai uchelgeisiau hirdymor gynnwys cysylltiad teithio llesol uniongyrchol rhwng Ysbyty Llwynhelyg a Crowhill Road dros bont droed Cleddau Wen.

## HAV19 – Cyflwyno gwelliannau mynediad i wella cysylltiadau rhwng afon Cleddau Wen a Gwarchodfa Natur Priory Saltings

**3.66** Archwilio opsiynau yn y dyfodol ar gyfer gwelliannau mynediad i Warchodfa Natur Saltings Priory o afon Cleddau Wen. Ymhlith yr opsiynau mae gwelliannau i'r bont ffordd bresennol o gaeau Picton neu groesfan ddeheuol newydd dros afon Cleddau Wen. Byddai'r cysylltiadau hyn yn ceisio cysylltu Gwarchodfa Natur Priory Saltings, llwybr troed Frolic Fortune yn ogystal â'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus ehangach. Dylid edrych hefyd ar gysylltiadau o'r A4076 i Warchodfa Natur Saltings Priory, gan gynnwys darparu dewisiadau llwybr cylchol yn ne Hwlffordd. Ceir cyfle hefyd i archwilio cynigion llwybr cyd-ddefnyddio newydd sy'n cysylltu Pont Fadlen ar hyd Clay Lane ag Union Hill.

## HAV20 – Adolygu gofal coed stryd

**3.67** Adolygu safle coed stryd presennol a'u gofal parhaus. Er mwyn hyrwyddo eu sefydliad hirdymor, dylid torri ardaloedd presennol o goncrid asffalt wrth waelod y goeden stryd er mwyn caniatáu i aer a dŵr basio. Wrth osod coed stryd newydd, dylid dilyn arfer gorau sef defnyddio pyllau coed, gardiau a rhwyllau (lle bo hynny'n briodol).

## HAV21 – Estyn a gwella Coetir Scotchwell

**3.68** Adolygu gwaith rheoli Coetir Scotchwell i hyrwyddo arferion rheoli cadarnhaol; sicrhau teneuo, coedlannu a gwaredu rhywogaethau goresgynnol yn briodol. Dylid hefyd ystyried cyflwyno coed newydd yn y man gwyrdd amwynder yn Cherry Grove a Mill Bank i ehangu cysylltedd y coetir a gwella'r hierarchaeth ymyl coetir strwythuredig. Dylid hefyd sicrhau gwelliannau mynediad arfaethedig, yn unol â'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol.

## HAV22 – Creu gwlyptiroedd wrth ymyl y gwaith trin carthion

**3.69** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## HAV23 – Meddalu llwybrau presennol allweddol i ganol y dref drwy blannu coed

**3.70** Cyflwyno plannu coed ar hyd llwybrau allweddol i feddalu'r ddynesfa ar ganol y dref a mynd i'r afael â'r bylchau mewn gorchudd canopi strategol, gan hefyd feddalu ymylon trefol. Mae'r lleoliadau posibl yn cynnwys coridor yr A4076, B4341 Haven Road, B4327 Dale Road a'r Stryd Fawr. Dylid ailedrych hefyd ar waith rheoli coed stryd presennol, gan sicrhau bod polion, rhwyllau a gardiau coed yn cael eu gwaredu neu eu hail-glymu i wneud lle i dyfiant.

## HAV24 – Integreiddio ymyriadau Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) i'r strydlun

**3.71** Mae'r strydlun trefol yn cynnig cyfle i integreiddio gwahanol ymyriadau Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) a phlannu coed yn fodd o helpu i leihau

cyfaint y dŵr wyneb sy'n cael ei sianelu'n uniongyrchol drwy rwydwaith o bibellau. Ceir potensial hefyd i gydweithio â Chyngor Tref Hwlffordd i archwilio lleoliadau ar gyfer ymyriadau SDC yn y treflun.

# Pennod 4

## Aberdaugleddau

**Ffigur 4.1: Aberdaugleddau**



## Portread o Seilwaith Gwyrdd Aberdaugleddau


**4.1** Tref ddiwydiannol hanesyddol yn ne Sir Benfro yw Aberdaugleddau. Mae’r anheddiad ar lan ogleddol Aberdaugleddau, un o'r porthladdoedd naturiol dyfnaf yn y byd ac sy'n rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Forol Sir Benfro. Mae darnau sylweddol o arfordir yr aber hefyd wedi'u dynodi o dan Safle o

Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Dyfrffordd y Ddau Gleddau. Porthladd morfila oedd yno’n wreiddiol, ond mae Aberdaugleddau a'r aber ehangach wedi datblygu ers hynny'n ganolfan forgludiant o bwys cenedlaethol ar gyfer olew a nwy, gyda seilwaith mawr i'r gorllewin, i’r gogledd, ac i'r dwyrain o ffiniau'r dref. Yn sgil twf y diwydiant olew a nwy yn yr 20fed ganrif, cafwyd datblygiadau tai modern, sydd bellach yn meddiannu'r clogwyni i'r gogledd a'r gorllewin o ganol yr hen dref. Mae gan lawer o'r treflun olygfeydd ar draws y ddyfrffordd, gyda chyrn simnai o'r burfa olew yn torri'r nenlinell ar y lan ddeheuol.

**4.2** Dwy gilfach lanw yw Hubberston Pill a Castle Pill sy'n ymledu o Scotch Bay ac sydd o boptu i ganol y dref. Mae coridorau o fannau gwyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn ymestyn ar hyd yr arfordir ac yn dilyn y cyrsiau dŵr hyn tua'r tir. Gosodir Castle Pill, i'r dwyrain o ganol y dref, o fewn dyffryn nant droellog ac mae'n cysylltu â Deadman’s Lake yn y gogledd. Mae Hubberston Pill a'i ddyffryn coediog yn rhannu canol y dref oddi wrth y datblygiad preswyl modern i'r gorllewin. Mae coetir trwchus, a rhywfaint ohono'n hynafol, a llwybrau beicio a cherdded ar hyd y cyrsiau dŵr yn rhoi cyfleoedd am gysylltedd rhwng yr arfordir a'r cefn gwlad o'i amgylch ar gyfer pobl a bywyd gwyllt. Daw Llwybr Arfordir Penfro heibio ar hyd yr arfordir a thrwy rannau o'r dref, cyn cael ei ddargyfeirio i fyny i Bont Ddu yn Castle Pill.

**4.3** Y tu hwnt i'r mannau gwyrdd ar hyd y dŵr, ceir mannau agored cyhoeddus mwy o faint ledled y dref, a’r rheini’n bennaf mewn ardaloedd preswyl. Yn gyffredinol, mae'r rhwydwaith o fannau agored yn cynnwys caeau chwarae a defnyddiau hamdden eraill ond mae wedi'i ddatgysylltu braidd oddi wrth y rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus.

## Ffigur 4.2: Cyfleoedd SG yn Aberdaugleddau




| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| MIL1 | Trawsnewid y man gwyrdd y tu cefn i Ganolfan Hamdden Aberdaugleddau i fioamrywiaeth | MIL2 | Ehangu'r rhwydwaith dolydd blodau gwyllt ar y Rath | MIL3 | Gwella man gwyrdd a choetir Bae Gelliswick |
| MIL4 | Hyrwyddo rheolaeth well ar goedwig Hubberston Pill | MIL5 | Rheoli coedwig Castle Pill yn well | MIL6 | Cyflwyno dyfnant werdd yn cysylltu gorsaf drenau Aberdaugleddau â'r glannau |
| MIL7 | Hyrwyddo gwyrddu ystadau tai | MIL8 | Creu coridor natur Hubberston i Hakin | MIL9 | Cryfhau'r A4076 fel coridor gwyrdd |
| MIL10 | Gwyrddu Mackerel Quay a Chei Nelson ymhellach | MIL11 | Gwella'r Gerddi Dŵr | MIL12 | Cyflwyno plannu ffiniol yn y cae chwarae, Pill Lane |
| MIL13 | Gwyrddu Charles Street ymhellach | MIL14 | Gwella Coedwig Gelliswick | MIL15 | Cyflwyno gwyrddu strydoedd, gerddi glaw a phalmantau athraidd yn Hakin |
| MIL16 | Darparu gerddi glaw a phalmantau athraidd ym Mharc Busnes Havens Head | MIL17 | Gweithredu ymyriadau gwyrddu trefol, gerddi glaw a phalmantau athraidd yn Castle Terrace a Great North Road | MIL18 | Gwella gwerth hamdden a bioamrywiaeth y Glebelands |
| MIL19 | Hyrwyddo tyfu bwyd cymunedol yn Aberdaugleddau | | | | |

# Prosiectau Cicdanio

## MIL2 – Ehangu'r rhwydwaith o ddolydd blodau gwyllt ar y Rath

**4.4** Trawsnewidiwyd y man gwyrdd sy'n ffurfio tir blaen y Rath yn ddôl blodau gwyllt ar ôl llacio’r drefn torri gwair yn rhan o 'Dim Torri Gwair ym Mis Mai'. Dangosodd yr ymyriad hwn yr hyn y gellid ei gyflawni drwy waith cynnal a chadw wedi'i dargedu.

**4.5** Gan fod yr ardal hon yn cael ei nodweddu gan arglawdd llethrog, mae llawer o'r tir yn raddiant anaddas ar gyfer hamdden ac mae llwybrau palmant a meinciau wedi’u darparu i bobl gerdded a gorffwys. Prin yw’r swyddogaeth a ddarperir felly gan lawer o'r ardal hon, ac mae’n cynnig y cyfle i gael ei gwella er budd bioamrywiaeth.

**4.6** Byddai parhau â'r arferion torri gwair hyn i ymyl lethrog y Rath yn darparu cynefin peillwyr y mae mawr ei angen yng nghanol y dref. Er mwyn cynyddu amrywiaeth rhywogaethau, dylid hau hadau blodau gwyllt brodorol, neu osod tyweirch blodau gwyllt. Dylid hefyd ystyried mecanweithiau i leihau ffrwythlondeb uwchbridd er mwyn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd blodau gwyllt yn sefydlu. Dylid archwilio'r defnydd o rywogaethau blodau gwyllt sy'n goddef halen oherwydd agosrwydd y safle i'r arfordir.

**4.7** Gall arwyddion chwarae rhan bwysig wrth gyfleu i'r cyhoedd pam mae'r ddôl flodau gwyllt yn cael ei sefydlu. Gall hyn helpu i oresgyn canfyddiadau o 'annibendod' drwy gyfleu bod yr ardal yn cael ei blaenoriaethu ar gyfer natur.

**4.8** Ar y llethrau isaf, byddai’n briodol plannu coed ychwanegol ar raddfa fach. Fodd bynnag, dylid cadw golygfeydd ar draws Aberdaugleddau.

## Ffigur 4.3: MIL2




# Buddion y prosiect

**4.9** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 4.4 isod, mae:

- Buddsoddiad a gwell profiad i ymwelwyr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Chwarae, addysg a rhyngweithio â natur
- Atgyfnerthu ymdeimlad o le
- Gwella iechyd a lles

### Ffigur 4.4: Buddion




## Mecanweithiau cyflawni

**4.10** Dylid cynnwys toriadau blynyddol o ddôl blodau gwyllt yn rhaglen waith Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd Cyngor Sir Penfro (CSP).

**4.11** Dylid cyflenwi dolydd blodau gwyllt a'r berllan gymunedol yn unol ag adran gyflawni'r Strategaeth Peillwyr.

**4.12** Efallai y bydd gofyn lleihau ffrwythlondeb pridd er mwyn hyrwyddo sefydlu dolydd blodau gwyllt yn llwyddiannus. Gellid cyflawni hyn drwy dynnu'r 5-10 cm uchaf o bridd yn yr ardal lle byddai'r ddôl wlyb yn cael ei chreu. Yr hydref yw'r amser gorau posibl i hau hadau blodau gwyllt i ddarparu'r arddangosfa gynharaf o flodau gwyllt y flwyddyn ganlynol. Fodd bynnag, gellir plannu hadau blodau gwyllt drwy gydol y flwyddyn a byddent yn dechrau blodeuo ar ôl tua 60-80 diwrnod.

## Partneriaid posibl

- Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP
- Wardeniaid Coed Sir Benfro

- Cyngor Tref Aberdaugleddau
- Partneriaeth Natur Sir Benfro
- Grŵp Dolydd Sir Benfro

## Cost amlinellol

### Cost isel = <£250k

**4.13** Fel y'i disgrifiwyd yn adran gyflawni'r Strategaeth Peillwyr, gall dolydd blodau gwyllt mewn gwirionedd arbed arian drwy lai o dorri gwair. Gall buddsoddi mewn peiriant torri a chasglu hefyd helpu arbedion cyffredinol ar gostau llafur o gasglu toriadau. Mae cost hadau blodau gwyllt yn debygol o fod yn isel, ond byddai'r ffigur hwn yn uwch pe byddai planhigion plwg neu dyweirch blodau gwyllt yn cael eu defnyddio yn hytrach.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

## Amserlen

### Cam cyflym ymlaen = <1 flwyddyn

**4.14** Gan ddibynnu ar ffrwythlondeb pridd ac a ydy blodau gwyllt yn cael eu hau ar ôl yr Hydref, gall fod yn wir nad yw'r hadau'n blodeuo tan ar ôl eu tymor gaeaf cyntaf.

## Cyfyngiadau posibl

**4.15** Dylid ystyried sut i gasglu'r toriadau a'u gwaredu o'r ddôl flodau gwyllt er mwyn atal cyfoethogi'r pridd. Y ffordd fwyaf effeithlon o wneud hynny yw defnyddio peiriant torri a chasglu gwair ond mae angen buddsoddiad cyfalaf ar hyn. Fel arall, dylid casglu sgil-gynhyrchion yn gyntaf yn rhesi sydd wedyn yn cael eu casglu'n bentyrrau unigol. Gall hyn fod yn llafurddwys.

**4.16** Gall fod canfyddiad bod dolydd blodau gwyllt yn anniben neu'n flêr, yn enwedig cyn ac ar ôl i flodau flodeuo. Gallai hynny arwain at gwynion gan y cyhoedd. Gall arwyddion i gyfleu buddion tyfu dolydd blodau gwyllt helpu i gynyddu dealltwriaeth ac addysg ynghylch pwysigrwydd peillwyr.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**4.17** Mae angen torri a chodi dôl blodau gwyllt ar ddiwedd y tymor. Fel arfer ym mis Medi y mae hyn yn digwydd. Yn ddelfrydol, dylid gadael y sgil-gynhyrchion am saith diwrnod i daflu hadau cyn cael eu gwared. Efallai y bydd angen torri a chodi eildro tua dechrau'r gwanwyn i gael gwared ar dyfiant y gaeaf. Mae angen gofal wrth dorri gwair oherwydd gall fod mamaliaid bychain, amffibiaid ac ymlusgiaid fod yn cuddio yn y glaswellt. Mae rhai adar yn nythu mewn dolydd mwy o faint, felly ni ddylid torri gwair tan ar ôl dechrau mis Awst. Dylid rheoli rhywogaethau trech fel danadl poethion a dail tafol drwy bladurio neu hofio detholus.

**4.18** Dylid osgoi defnyddio gwrtaith, plaladdwyr a phryfleiddiaid.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**4.19** Dylai monitro gyd-fynd â chynlluniau cenedlaethol. Mae Cynllun Monitro Peillwyr y DU yn cynnal Cyfrifiadau Blodau-Pryfed wedi'u Hamseru (Cyfrifiadau FIT). Mae hyn yn golygu cyfrif y pryfed sy'n ymweld ag un o flodau targed y 14

rhywogaeth o flodau o fewn llain sgwâr 50cm wrth 50cm am 10 munud. Gellid annog trigolion ac ysgolion lleol i gymryd rhan yn hyn fel menter gwyddoniaeth dinasyddion. Fel arall, gellir cofnodi 'rhywogaethau dangosydd' planhigion o fewn sgwâr 1km i fonitro amrywiaeth rhywogaethau.

## Camau nesaf

**4.20** Adolygu adran gyflawni'r Strategaeth Peillwyr i benderfynu ar y broses ac adolygu astudiaethau achos yn ymwneud â chreu dolydd blodau gwyllt. Ymgysylltu â Thîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP i gyfleu'r drefn torri gwair arfaethedig.


### Ffigur 4.5: Aberdaugleddau



# MIL7 – Hyrwyddo gwyrddu ystadau tai

**4.21** Mae nifer o ardaloedd preswyl ac ystadau tai yn Aberdaugleddau yn cynnwys nifer o ardaloedd bychain o fannau gwyrdd sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Yn gyffredinol, mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys glaswelltir mwynder a dorrir yn fyr sy'n cynnig ychydig iawn o werth bioamrywiaeth. Gan gydweithio â'r gymuned leol a rhanddeiliaid ehangach, dylid plannu coed, dechrau tyfu bwyd ar raddfa fach, creu dolydd blodau gwyllt a gweithredu ymyriadau cynefin eraill er mwyn gwella gwerth hamdden a bioamrywiaeth y safleoedd hyn. Dylai hyn gynnwys pentyrrau boncyffion, gwestai pryfed a blychau adar / ystlumod o fewn ystadau tai sydd ar hyn o bryd yn cynnal ystodau eang o laswelltir mwynder a dorrir yn fyr, (e.e. Marble Hall, The Mount Estate, St Lawrence, o amgylch Nelson Avenue, ac o amgylch Woodbine Way a Haven Drive).

## Ffigur 4.6: Lleoliadau MIL7




# Buddion y prosiect

**4.22** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 4.7 isod, mae:

- Lleihau risg llifogydd
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Chwarae, addysg a rhyngweithio â natur
- Gwella ansawdd aer a rheoleiddio sŵn
- Rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant cymunedol
- Atgyfnerthu ymdeimlad o le
- Oeri trefol
- Gwella iechyd a lles
- Dal a storio carbon a lliniaru effeithiau newid hinsawdd

### Ffigur 4.7: Buddion




# Mecanweithiau cyflawni

**4.23** Byddai angen rhaglen gynhwysfawr o ymgysylltu â'r cyhoedd ar draws un neu ddau o safleoedd peilot ar raddfa fach i fesur awydd cymunedol ar gyfer y

prosiect. Gallai hyn gynnwys digwyddiad cymunedol am ddim i hyrwyddo'r cysyniad a magu cefnogaeth y gymuned (h.y. arolwg neu debyg). Mae’n debygol y byddai angen rôl swyddog prosiect wedi'i hariannu i ddatblygu rhaglen o brosiectau treigl gan ymgysylltu â'r gymuned dros sawl blwyddyn. Gallai hyn fod yn seiliedig ar fformat tebyg i’r un a fabwysiadwyd gan Ymddiriedolaeth Natur Gorllewin Cymru fel rhan o'i phrosiect 'Natur Drws Nesa' https://www.welshwildlife.org/about-us/what-we-do/wildlife-conservation/our-projects/nextdoor-nature.

**4.24** Byddai'n fuddiol pe bai gwaith cychwynnol i blannu coed ar raddfa fach yn cael ei wneud gan Gyngor Sir Penfro (CSP) i ddarparu enghreifftiau o'r hyn y gellid ei gyflawni a datblygu diddordeb y gymuned mewn prosiect hirdymor.

**4.25** Byddai angen asesu’n unigol y safleoedd unigol a nodwyd i’w cynnwys efallai. Dylai pob safle fod yn destun arolwg o'r safle i nodi gwasanaethau presennol, addasrwydd amodau pridd / daear ac ystyriaethau gweledodd (gan gynnwys golygfeydd o anheddau preswyl ac ati).

**4.26** Dylid darparu coed yn unol ag adran gyflawni'r Strategaeth Plannu Coed Trefol.

## Partneriaid posibl

- Y gymuned leol;
- Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth CSP;
- Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP;
- Busnesau lleol;
- Ysgolion lleol; a
- Wardeniaid Coed Sir Benfro

## Cost amlinellol

### Cost isel = <£250k

**4.27** Byddai'r costau'n ddibynnol ar ddefnydd y gymuned, ymgysylltu â chynigion a'r gallu i blannu coed. Byddai costau ar gyfer ymyriadau unigol o bosibl yn eithaf isel, a'r brif gost yn debygol o ddeillio o adnoddu gan y swyddog prosiect er mwyn ymgysylltu â'r gymuned. Gallai'r cynllun hefyd gynnwys darparu adnoddau (fel coed) i drigolion er mwyn gwella gerddi preifat er mwyn byd natur yn ardaloedd y prosiect.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Cyngor Sir Penfro (CSP);
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol;
- Cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur; a'r
- Cyngor Coed

## Amserlen

### Tymor canolig = 1-5 mlynedd

**4.28** Dylid gwneud mwyafrif y gwaith ymgysylltu â'r gymuned, plannu coed ac ymyriadau cynefinoedd dros nifer o dymhorau plannu. Byddai llwyddiant y cynllun yn dibynnu ar ymgysylltu'n effeithiol â'r gymuned o fewn nifer o ardaloedd, wedi'i gyflawni drwy rôl swyddog wedi'i hariannu.

**4.29** Prin y byddai'r coed a'r llystyfiant cysylltiedig yn dal a storio carbon wedyn i ddechrau, ond byddai hyn yn cynyddu o fewn y degawd nesaf wrth i'r coed aeddfedu.

## Cyfyngiadau posibl

**4.30** Oherwydd cyd-destun trefol ardaloedd prosiect posibl, byddai gwasanaethau a chyfleustodau tanddaearol / uwchben yn cyflwyno cyfyngiad sylweddol ar gyfer plannu coed. Felly, byddai angen addasu'r math hwn o ymyriad i weddu i'r cyfyngiadau lleol (h.y. canolbwyntio ardaloedd blodau gwyllt lle ceir cyfyngiadau gwasanaeth sylweddol sy'n cyfyngu ar opsiynau plannu coed). Byddai angen i unrhyw safleoedd a nodir ar gyfer tyfu bwyd ar raddfa fach fod yn destun profion pridd manylach er mwyn cadarnhau eu haddasrwydd, gan gynnwys unrhyw faterion posibl sy'n gysylltiedig â halogiad pridd.

**4.31** Byddai chwiliadau tir yn ofynnol i bennu perchnogaeth tir darnau unigol o fannau gwyrdd sy'n cael eu hystyried fel rhan o'r cynllun.

**4.32** Byddai plannu coed yn debygol o ddigwydd ar raddfa fechan, ond dylid gofyn am gyngor ynghylch a fyddai angen unrhyw ganiatâd neu drwydded. Mae'n debygol y byddai gofyn ymgysylltu ag Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth CSP i nodi unrhyw gyfyngiadau priffyrdd, gan gynnwys cynnal a chadw lleiniau gweledededd priodol.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**4.33** Oherwydd cyd-destun trefol ardaloedd prosiect posibl, byddai gwasanaethau a chyfleustodau tanddaearol / uwchben yn cyflwyno cyfyngiad sylweddol ar gyfer plannu coed. Felly, byddai angen addasu'r math hwn o ymyriad i weddu i'r cyfyngiadau lleol (h.y. canolbwyntio ardaloedd blodau gwyllt lle ceir cyfyngiadau gwasanaeth sylweddol sy'n cyfyngu ar opsiynau plannu coed). Byddai angen i unrhyw safleoedd a nodir ar gyfer tyfu bwyd ar raddfa fach fod yn destun profion pridd manylach er mwyn cadarnhau eu haddasrwydd, gan gynnwys unrhyw faterion posibl sy'n gysylltiedig â halogiad pridd.

**4.34** Byddai chwiliadau tir yn ofynnol i bennu perchnogaeth tir darnau unigol o fannau gwyrdd sy'n cael eu hystyried fel rhan o'r cynllun.

**4.35** Byddai plannu coed yn debygol o ddigwydd ar raddfa fechan, ond dylid gofyn am gyngor ynghylch a fyddai angen unrhyw ganiatâd neu drwydded. Mae'n debygol y byddai gofyn ymgysylltu ag Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth CSP i nodi unrhyw gyfyngiadau priffyrdd, gan gynnwys cynnal a chadw lleiniau gwelededd priodol.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**4.36** Byddai llwyddiant yn cael ei fonitro drwy nifer y preswylwyr sy'n cael eu cynnwys, nifer y coed a sefydlwyd ac amrywiaeth y nodweddion cynefin a grëwyd. Byddai sefydlu grŵp cymunedol annibynnol hefyd yn arwydd o lwyddiant y prosiect.

## Camau nesaf

**4.37** Datblygu cynnig prosiect manylach i gynnwys llywodraethu prosiectau arfaethedig a rhaglen. Dylai cwmpasu opsiynau cyllido fod yn addas ar gyfer rôl swyddog prosiect, neu fel arall drwy adnabod partneriaid cyflenwi posibl.

**4.38** Dylai darnau unigol o fannau gwyrdd fod yn destun arolwg ecolegol i ganfod y safleoedd sy'n fwyaf addas i'r gwahanol ymyriadau. Dylid hefyd datblygu cynlluniau ar gyfer digwyddiad ymgysylltu cymunedol cychwynnol i fesur diddordeb y gymuned / preswylwyr o fewn ardaloedd y prosiect. Dylid nodi ardaloedd ar gyfer prosiect plannu coed peilot yn dilyn ymgysylltu cychwynnol â'r gymuned hefyd.

**4.39** Dylid adolygu adran gyflawni'r Strategaeth Plannu Coed Trefol i bennu'r broses ar gyfer plannu coed o fewn tirweddau meddal a deall y cydrannau allweddol ar gyfer sefydlu coed llwyddiannus.

# MIL16 – Cyflwyno gwyrddu strydoedd, gerddi glaw a phalmantau athraidd yn Hakin

**4.40** Mae Hakin i'r gorllewin o ganol tref Aberdaugleddau, wedi'i nodweddu gan eiddo preswyl yn bennaf. Mae ardaloedd de a de-ddwyreiniol Hakin wedi dioddef o nifer o ddigwyddiadau Gorlif Storm Cyfun (lle mae elifion budr yn cael eu rhyddhau i afonydd am fod mwy na chapasiti'r seilwaith).

**4.41** Nodweddir yr ardal gan ymylon glaswelltog mawr sy'n cynnig cyfle i blannu coed o fewn yr ystâd feddal. Byddai cyflwyno palmentydd athraidd, gerddi glaw a phlannu coed yn yr ardal hon yn helpu i arafu dŵr ffo wyneb, gan helpu i leihau risg bosibl llifogydd dŵr wyneb a lleihau'r mewnbwn afonol i'r system garthffosiaeth ar adegau o law mawr. Mae hyn yn ychwanegol at gyfraniad cadarnhaol yr ymyriadau hyn at gymeriad treflun.

**4.42** Gan weithio gyda'r gymuned leol, dylid nodi lleoliadau ar gyfer plannu coed stryd. Mae Harbour Way yn cynnig y potensial i blannu coed, a hynny efallai ar y cyd â gerddi glaw llinol a pharciau bach cymunedol. Ar hyn o bryd, nid oes gorchudd coed o gwbl yn yr ardal chwarae yn Glebelands Road a byddai hefyd yn darged posibl ar gyfer ymyriad.

**4.43** Drwy weithio gyda thrigolion lleol i adnabod lleoliadau a dewis rhywogaethau sy'n cael eu ffafrio, hyrwyddir perchnogaeth gymunedol ar y coed. Ar ben hynny, dylid ystyried gweithredu rhaglen ailgyflenwi coed i fynd i'r afael â'r stoc goed sy'n lleihau yn y dref. Ar hyn o bryd mae'r gorchudd canopi yn Aberdaugleddau ychydig o dan 10%.

### Ffigur 4.8: Prosiect MIL16




## Buddion y prosiect

**4.44** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 4.9 isod, mae:

- Lleihau risg llifogydd
- Gwella ansawdd dŵr
- Buddsoddiad a gwell profiad i ymwelwyr
- Mannau ar gyfer bywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Gwella ansawdd aer a rheoleiddio sŵn
- Atgyfnerthu ymdeimlad o le
- Oeri trefol
- Gwella iechyd a lles
- Dal a storio carbon a lliniaru newid hinsawdd.

### Ffigur 4.9: Buddion




## Darparu atebion seiliedig ar natur a gwasanaethau ecosystemau

**4.45** Byddai gweithredu gerddi glaw, plannu coed a gosod palmantau athraidd o fewn yr ardaloedd hyn yn gwella cymeriad y treflun ac yn cyflwyno dull cynaliadwy o ymdrin â dŵr glaw ffo.

**4.46** Mae ymyriadau SDC yn dynwared draeniad ym myd natur lle mae gwlybaniaeth yn cael ei hamsugno i'r ddaear, wedi'i harafu gan lystyfiant. Felly mae maint ac ansawdd y dŵr sy'n cyrraedd cyrsiau dŵr lleol yn y pen draw yn cael eu gwella, gan helpu i liniaru llifogydd a lleihau gorlifoedd storm cyfun. Mae rheoli dŵr yn gynaliadwy mewn ardaloedd trefol hefyd yn sicrhau bod trefi yn fwy gwydn rhag pwysau newid hinsawdd a thwf yn y boblogaeth.

## Mecanweithiau cyflawni

**4.47** Dylid cynnal astudiaeth gychwynnol i nodi lle mae'r topograffi, y strydlun ac amodau rhwydwaith carthffosydd storm yn cyfuno i arwain at yr ymyriadau mwyaf effeithiol y gellir eu cyflawni. Dylai'r gymuned leol hefyd allu cyflwyno ceisiadau am ardd law a phlannu coed. Os yw'r lleoliad yn briodol a bod cyllid ar gael, dylid ychwanegu'r goeden at y rhaglen blannu flynyddol.

**4.48** Dylid sefydlu rhaglen blannu flynyddol er mwyn cynllunio, darparu a rheoli'n llwyddiannus y gwaith o blannu coed newydd, gosod gerddi glaw ac ardaloedd o balmantau athraidd. Mae angen digon o gynllunio cyn y tymor plannu gwreiddiau moel (mis Hydref i fis Mawrth fan pellaf) i sicrhau bod archwiliadau daear / profion pridd yn cael eu cwblhau.

**4.49** Dylid darparu coed yn unol ag adran gyflawni'r Strategaeth Plannu Coed Trefol.

**4.50** Dylai pyllau coed, gerddi glaw a nodweddion newydd eraill gael eu gosod a'u cynllunio fel eu bod yn gallu derbyn llwybrau llif trostir, gan ddargyfeirio llifoedd a fyddai fel arall yn mynd i rigolau storm a'r rhwydwaith carthffosydd ehangach.

## Partneriaid posibl

- Y gymuned Leol
- Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth Cyngor Sir Penfro (CSP)
- Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP
- Busnesau lleol
- Wardeniaid Coed Sir Benfro
- Dŵr Cymru
- Asiant Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA)

## Cost amlinellol

### Cost isel = <£250k

**4.51** Mae pris yn gallu newid gan ddibynnu ar nifer y coed a blannwyd / gerddi glaw a grëwyd / ardaloedd palmant athraidd a osodwyd. Fodd bynnag, dylid

defnyddio amcangyfrif bras o ~£10,000 i sefydlu coeden o fewn ardal o dirlunio caled.

**4.52** Byddai'r costau'n cynnwys rhywfaint o gyngor arbenigol cyfyngedig gan gynnwys chwiliadau cyfleustodau, ymgynghori â rhanddeiliaid a chostau plannu / cynnal a chadw.

**4.53** Byddai atebion adeiladu / mwy heriol yn dechnegol fel palmantau athraidd a rhyng-gipio ac ailgyfeirio carthffosydd dŵr wyneb presennol yn ddrutach (Cost Ganolig £250k – £1m).

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Cyfraniadau datblygwyr
- CSP
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Rhaglen Grant Cymunedau Cydnerth
- Cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
- Y Cyngor Coed
- Cronfa Rhwydweithiau Natur
- Cronfa Trawsnewid Trefi
- Grantiau CNC
- Dŵr Cymru

## Amserlen

### Cam cyflym ymlaen = <1 flwyddyn

**4.54** Dylid plannu coed a chreu gerddi glaw mewn ambell leoliad allweddol yn y tymor plannu nesaf.

### Tymor canolig = <1-5 mlynedd

**4.55** Dylid gwneud mwyafrif y gwaith plannu coed, creu gerddi glaw ac agweddau palmantau athraidd ar draws y pum tymor plannu nesaf er mwyn caniatáu ar gyfer digon o gynllunio ac ymgysylltu. Dylid gosod palmantau athraidd lle mae'r cyfleoedd i blannu coed a gosod gerddi glaw yn brin. Rhagwelir hefyd y bydd cyfleoedd i ryng-gipio ac ailgyfeirio llifoedd dŵr wyneb mewn carthffosydd yn mynnu llinell amser tymor canolig o 1 – 5 mlynedd.

## Cyfyngiadau posibl

**4.56** Mae cryn nifer o randdeiliaid posib i ymgysylltu â nhw ar gyfer y prosiect hwn, gyda gwahanol ddeiliaid tir a'r broses ymgysylltu yn hanfodol i lwyddiant y cynllun. Rhaid cynnwys Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth CSP a SWTRA yn y prosiect.

**4.57** Tirwedd galed yw mwyafrif yr arwynebau o fewn ardal y prosiect posibl. Mae'n ddrutach cloddio pyllau coed o fewn tirweddau caled nag o fewn tirweddau meddal. Felly, rhaid i waith plannu coed newydd sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cost, lle a swyddogaeth / dyluniad a ddymunir. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd llai o goed gyda mwy o gyfaint gwreiddio yn briodol.

**4.58** O fewn yr amgylchedd trefol rhaid ystyried y potensial i amrywiaeth o wasanaethau a chyfleustodau fod o fewn mannau plannu posibl a bod angen osgoi'r rhain wrth gyfrif am blannu coed. Fel arfer mae angen dyfnderoedd basach o osodiadau ar erddi glaw ac felly byddent yn llai tebygol o wrthdaro â gwasanaethau. Efallai bod potensial i blannu gerddi glaw yn lle plannu coed mewn ardaloedd y nodwyd bod gwasanaethau’n debygol iawn o fod yno.

**4.59** Wrth blannu coed newydd rhaid hefyd cynnal fistâu allweddol. Felly, dylid paratoi pob cynnig plannu ar y cyd â CSP.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**4.60** Sefydlu gweithgor o breswylwyr neu bartneriaid masnachol ochr yn ochr ag Adran Gofal Stryd a Phriffyrdd CSP i gymryd perchnogaeth ar y gwaith plannu coed newydd. Gallai diwrnod hyfforddi roi'r offer a'r wybodaeth i'r gymuned i gynnal coed newydd yn llwyddiannus nes eu sefydlu, gan gynnwys dyfrio a chadw llygad ar bolion coed.

**4.61** Byddai angen dyfrio a gofal sefydlu ar gyfer y cyfnod sefydlu 60 mis er mwyn sicrhau y gall y coed ddod yn annibynnol yn y dirwedd.

**4.62** Byddai angen i ardaloedd palmantau athraidd gael eu mabwysiadu naill ai gan CSP neu gan y tirfeddiannwr perthnasol.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**4.63** Yn amodol ar argaeledd cyllid, dylid monitro llwyddiant y prosiect ar y cyd â data gan Dŵr Cymru o ran gallu carthffosydd a lleihau digwyddiadau gorlif storm cyfun.

**4.64** Defnyddio’r gweithgor preswylwyr i fonitro sefydliad llwyddiannus coed a gerddi stryd newydd. Sefydlu sianel gyfathrebu ar gyfer adrodd am unrhyw faterion neu fethiannau.

## Camau nesaf

**4.65** Cynnal arolwg dichonoldeb o ardal Hakin, i benderfynu ar y lleoedd gorau i osod coed, pyllau coed a gerddi glaw newydd i dderbyn llif o ardaloedd llawr caled ac felly helpu i ddargyfeirio dŵr i ffwrdd o'r rhwydwaith carthffosydd storm.

**4.66** Nodi deiliaid tir a phartneriaid masnachol ar unwaith ac ymgysylltu â rhanddeiliaid posibl, gan gynnwys SWTRA ac adrannau priodol CSP.

**4.67** Adolygu adran gyflawni'r Strategaeth Plannu Coed Trefol i bennu'r broses ar gyfer plannu coed o fewn tirweddau meddal a deall y cydrannau allweddol ar gyfer sefydlu coed yn llwyddiannus.

**4.68** Ymgysylltu â thrigolion a grwpiau cymunedol i nodi lleoliadau ar gyfer plannu coed a dewis rhywogaethau, gan ddefnyddio'r canllaw dewis rhywogaethau o fewn y Strategaeth Plannu Coed Trefol.

# Rhestr Hir o Brosiectau

## MIL1 – Trawsnewid y man gwyrdd y tu cefn i Ganolfan Hamdden Aberdaugleddau i fioamrywiaeth

**4.69** Ar hyn o bryd, prin iawn yw swyddogaeth y tir hwn i bobl neu fywyd gwyllt. Dylid felly ceisio cyflwyno dolydd blodau gwyllt yn ogystal â chlawdd glöynnod byw ar y gefnen ganolog. Dylid ystyried hefyd yr ardal gyfagos o goetir i annog

fflora daear, a’r gofyniad i waredu clymog Japan ar yr ymyl ogleddol. Gan weithio gyda Chanolfan Ieuenctid Aberdaugleddau a Chanolfan Hamdden Aberdaugleddau, dylid edrych ar gyfleoedd i gynnig mynediad sensitif i natur drwy lwybrau cadw’n heini / llwybrau ffitrwydd i ategu’r llwybr cyd-ddefnyddio presennol sy'n croesi'r ardal.

## MIL2 – Ehangu’r rhwydwaith dolydd blodau gwyllt ar y Rath

**4.70** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## MIL3 – Gwella man gwyrdd a choetir Bae Gelliswick

**4.71** Gweithio gydag ysgolion a grwpiau cymunedol lleol i hyrwyddo cefnogaeth leol, hyrwyddo gwerth bioamrywiaeth y man gwyrdd o flaen Gelliswick Road a Thraeth Gelliswick drwy hau hadau dolydd blodau gwyllt sy’n goddef halen. Dylid agor y coetir cyfagos i fyny hefyd er mwyn i olau gyrraedd yr isdyfiant ac annog fflora daear amrywiol i sefydlu.

## MIL4 – Hyrwyddo rheolaeth well ar goedwig Hubberston Pill

**4.72** Creu cynllun rheoli coetiroedd i helpu i drawsnewid coedwig Hubberston Pill yn gyflwr o reoli cadarnhaol a gweithredol. Gwella'r ystod o gynefinoedd a lloches i fywyd gwyllt gan ddefnyddio teneuo i alluogi fflora'r ddaear i ffynnu. Hyrwyddo defnyddio pren marw fel cynefin hanfodol ar gyfer nythu peillwyr a datblygiad larfae. Dylid hefyd ystyried dynodi llwybrau’n well i gysylltu â Priory Inn a gweithredu cynllun gwirfoddol i fynd i'r afael â lledaeniad Jac y Neidiwr.

## MIL5 – Rheoli coedwig Castle Pill yn well

**4.73** Creu cynllun rheoli sy'n hyrwyddo arferion rheoli cadarnhaol, gan gynnwys coedlannu a gweithredu strategaeth blannu i leihau rhywogaethau goresgynnol a lliniaru effeithiau clefyd coed ynn (Hymenoscyphus fraxineus). Dylid hefyd ystyried teneuo detholus i ddarparu mwy o amrywiaeth o fflora daear. Ceir cyfle i wella mynediad a dynodi llwybrau'n well, gan wneud cysylltiadau â Llwybr Arfordir Cymru a chymunedau lleol, yn ogystal â dehongli wrth strwythurau fel argae Dead Man's Lake. Dylid cefnogi cynigion ehangach i ddarparu llwybr troed sy'n cysylltu Coombs Road â Vicary Crescent hefyd.

## MIL6 – Cyflwyno dyfnant werdd yn cysylltu gorsaf drenau Aberdaugleddau â'r glannau

**4.74** Cyflogwyd penseiri tirwedd a datblygwyd cynigion dylunio ar gyfer creu dyfnant werdd yn y man hwn. Byddai'r cysylltiad yn mynd at gefn y siopau masnachol a'r caffis oddi ar Victoria Road. Mae'r cynigion yn rhoi'r cyfle i wella coridorau teithio llesol, ochr yn ochr â darparu cynefinoedd gwell. Ceir cyfle hefyd i adolygu ymyriadau rheoli tirwedd ac adnewyddu ardaloedd o blannu addurnol ar hyd y llwybr hwn.

## MIL7 – Hyr wyddo gwyrddu ystadau tai
## MIL8 – Creu coridor natur Hubberston i Hakin

**4.75** Ceisio cysylltu ardaloedd o goetir i'r gogledd o Hubberston tuag at aber Aberdaugleddau gan ddefnyddio mannau gwyrdd a choridorau presennol. Dylid hefyd edrych ar y potensial i blannu coed ychwanegol a sefydlu dolydd blodau gwyllt ychwanegol ar hyd Gelliswick Road, gan gynnwys y llwybr cyd-ddefnyddio presennol. Gallai mannau gwyrdd amwynder rhwng Dale Road a Rectory Avenue hefyd gynnwys nifer o goed parcdir mawr, coed perllan a phlanhigion ffiniol. Dylid adolygu ffiniau mannau gwyrdd yng nghlwb pêl-droed

Hakin United ac Ysgol Gynradd Gelliswick am welliannau cynefin i ddarparu cyswllt uniongyrchol â choetir yn Fort Hubberston.

## MIL9 – Cryfhau'r A4076 fel coridor gwyrdd

**4.76** Mae'r A4076 yn borth a mynedfa allweddol i Aberdaugleddau ac mae'n cynnal darnau mawr o fan gwyrdd amwynder a lleiniau ymyl ffordd o laswellt a dorrir yn fyr. Byddai ymylon blodau gwyllt a phlannu ychwanegol, yn enwedig ar hyd darnau Steynton Road a Hamilton Terrace o'r A4076, yn gwella profiad defnyddwyr ac yn darparu coridorau gwyrdd uniongyrchol i galon Aberdaugleddau. Lle mae lle’n brinnach, dylid gosod cafnau plannu uchel gyda phlanhigion peillwyr brodorol. Dylid datblygu cynigion ar y cyd â chynlluniau i ddarparu llwybr cyd-ddefnyddio rhwng Johnston a Steynton (yn dilyn coridor yr A4076).

## MIL10 – Gwyrddu Mackerel Quay a Chei Nelson ymhellach

**4.77** Ar hyn o bryd mae Mackerel Quay yn Aberdaugleddau yn faes parcio gydag eangderau mawr o arwyneb caled. Dylid cynnwys cafnau plannu mewn mannau eistedd, mannau y tu allan i fwytai, mannau parcio beiciau a gorsafoedd gwefru beiciau trydan i ddarparu profiad mwy croesawgar a dymunol i ymwelwyr â'r harbwr, gan fanteisio ar olygfeydd eang ar draws Aberdaugleddau. Dylid hefyd estyn y gwaith plannu coed ar hyd Cei Nelson i ddarlunio llwybr rhwng yr orsaf a'r glannau.

## MIL11 – Gwella'r Gerddi Dŵr

**4.78** Cyflwyno gwelliannau pellach i waith rheoli tirwedd y Gerddi Dŵr, gan gynnwys atgyweirio'r basnau dŵr yn y dyfodol. Dylid ystyried ailgyflwyno

nodweddion dŵr yn fodd o wella apêl y safle i ymwelwyr gan ddarparu buddion bioamrywiaeth.

## MIL12 – Cyflwyno plannu ffiniol yn y cae chwarae, Pill Lane

**4.79** Gwella cymeriad y safle a'r strydlun cyfagos drwy gyflwyno plannu coed ar hyd y ffensys ffiniol a darparu llwybr cyd-ddefnyddio Pill Lane. Dylid ystyried plannu coed sbesimen ar gyfer darlunio a diffinio mynedfeydd a nodweddion porth.

## MIL13 – Gwyrddu Charles Street ymhellach

**4.80** Mae Charles Street yn ffurfio stryd fasnachol wedi’i lled-bedestreiddio gyda chilfachau parcio cyfochrog ar hyd y ddwy ochr gyda rhai coed stryd sefydledig presennol. Byddai adennill rhai mannau parcio ar gyfer nodweddion gwyrddu trefol; gan gynnwys coed stryd, parciau bach, lleoedd parcio beiciau, llogi beiciau trydan, cafnau plannu i ddenu peillwyr a seddi yn creu amgylchedd cyhoeddus mwy deniadol ac uchel ei ddefnydd, gan wella cymeriad treflun yr ardal siopa allweddol hon hefyd. Dylai uchelgeisiau tymor hwy gynnwys gosod gerddi glaw llinol i liniaru dŵr yn well.

## MIL14 – Gwella Coedwig Gelliswick

**4.81** Dylai cynigion geisio gwella mynediad i'r goedwig uwchben Gelliswick a chreu llwybr cylchol sy’n defnyddio'r hawl tramwy cyhoeddus presennol. Dylid hefyd dynodi llwybrau’n well o Hubberston Drive, Traeth Gelliswick ac Ardal Chwarae Hubberston a Hakin. Byddai creu cynllun rheoli ar gyfer y coetir i adfer y safle i gyflwr rheoli cadarnhaol yn helpu i greu mosaig mwy amrywiol o gynefinoedd; gan gynnwys teneuo detholus i ganiatáu i fflora daear ffynnu yn ogystal â sefydlu cynefinoedd torlannol yng ngwaelod y dyffryn.

## MIL15 – Cyflwyno gwyrddu strydoedd, gerddi glaw a phalmantau athraidd yn Hakin

**4.82** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## MIL16 – Darparu gerddi glaw a phalmantau athraidd ym Mharc Busnes Havens Head

**4.83** Effeithiwyd ar Havens Head gan lifogydd yn y gorffennol, yn enwedig yn 2018, gyda nifer o ddigwyddiadau gorlif carthffos cyfun yn effeithio ar y cyffiniau hefyd. Ceir cyfle i ôl-osod ymyriadau Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) o fewn ardaloedd mawr o lawr caled er mwyn dargyfeirio dŵr storm o garthffosydd cyfun ac arafu dŵr ffo wyneb. Byddai'r mesurau hyn yn lleihau'r pwysau ar seilwaith ac yn helpu i leihau dylanwad afonol mewn cyfnod o lifogydd.

## MIL17 – Gweithredu ymyriadau gwyrddu trefol, gerddi glaw a phalmantau athraidd yn Castle Terrace a Great North Road

**4.84** Ceir cofnod bod yr ardal o Castle Terrace tuag at Coombs Road mewn perygl oherwydd llifogydd dŵr wyneb. Cofnodwyd digwyddiad Gorlif Carthffos Cyfun hefyd ar Great North Road. Nodweddir Castle Terrace, Coombs Road a Steynton Road gan ymylon ffordd glaswellt sy'n cynnig y potensial i greu gwahanol ymyriadau SDC a phlannu coed. Dylid hefyd edrych ar ddefnyddio palmantau athraidd a gerddi glaw ar lethrau, gan gynnwys maes parcio Lidl ar Great North Road. Mae cyflawni'r ymyriadau hyn yn cynnig cyfle i gysylltu â mentrau teithio llesol ehangach, gan gynnwys llwybr cyd-ddefnyddio arfaethedig ar hyd Coombs Road i Bont Ddu.

## MIL18 – Gwella gwerth hamdden a bioamrywiaeth y Glebelands

**4.85** Archwilio cyfleoedd i wella ansawdd a gwerth y ddarpariaeth hamdden yn The Dome, Glebelands. Ac eiddo preswyl yn edrych drosto, mae'r safle'n darparu gwyliadwriaeth anffurfiol gyda'r potensial ar gyfer ymyriadau gwyrddu trefol, gan gynnwys plannu coed, i feddalu'r lleoliad trefol. Dylid hefyd ystyried gwelliannau bioamrywiaeth o fewn yr ardaloedd presennol o laswellt mwynder a dorrir yn fyr.

## MIL19 – Hyrwyddo tyfu bwyd cymunedol yn Aberdaugleddau

**4.86** Ceir cyfle i weithio gyda Chyngor Sir Penfro (CSP) i ddewis safle priodol er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth rhandiroedd yn y dref. Dylai'r ymyriad annog perchnogion lleiniau i ddefnyddio llai o blaladdwyr a chwynladdwyr, gan ddewis yn hytrach gweithio'r tir yn organig. Dylid edrych hefyd ar gyfleoedd plannu coed a pherllannau ychwanegol. Os oes modd, dylid gadael ymylon plannu heb eu torri, gosod toeau byw ar siediau ac ychwanegu bwydwyr adar i ddenu bywyd gwyllt.

# Pennod 5

## Arberth

**Ffigur 5.1: Arberth**



## Portread o Seilwaith Gwyrdd Arberth


**5.1** Tref farchnad fechan ag ychydig dros 2,000 o drigolion yw Arberth, yn ne-ddwyrain Sir Benfro. A'i wreiddiau'n dyddio'n ôl i'r Oesoedd Canol, mae canol y dref wedi'i ddynodi'n Ardal Gadwraeth ac mae'n cynnwys nifer o adeiladau rhestredig ar hyd y Stryd Fawr. Mae Castell Arberth o'r 13eg ganrif, a

ddynodwyd yn Heneb Gofrestredig, ychydig i'r de o ganol y dref o fewn man cyhoeddus coediog. Mae ehangder de-ddwyreiniol Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afonydd Cleddau yn tarddu i'r de o ganol y dref ym Mhont Arberth. Daw'r cwrs dŵr troellog bach hwn drwy gaeau bugeiliol a dyffrynnoedd afon coediog cyn ymuno ag afon Cleddau Ddu ym Mhont Canaston. Mae hyn yn ei dro yn uno ag ACA Forol Sir Benfro ym Mhont Pwll-du.

**5.2** Ceir mannau agored mawr tuag at ymyl canol y dref ac maent yn cynnwys caeau hamdden agored yn bennaf heb lawer o gysylltiadau i gerddwyr. Yn hytrach, mae llwybrau cyhoeddus yn ymestyn i'r de o ganol y dref, gan ymuno â'r ardaloedd coediog ar hyd afon Cleddau Ddu. Prin iawn yw cysylltiadau â’r dirwedd ehangach o fewn gogledd y dref. Er nad yw llwybrau'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN) yn cysylltu'n uniongyrchol â'r dref, bydd cynlluniau ar gyfer llwybr oddi ar y ffordd rhwng Arberth a Hwlffordd yn cysylltu'r dref â llwybr 4 NCN. Agorwyd darn cychwynnol yn ddiweddar, sy'n cysylltu gorllewin Arberth yng Ngwaun y Dref â Phont Canaston.

**5.3** Ceir crynhoad o flociau coetir mwy o faint i'r de o'r dref, ar ymylon mannau agored ac yn cysylltu â lleiniau coetir llinol ar hyd coridor yr afon. Mae'r ardaloedd coetir hyn yn cynnig cyfleoedd i gryfhau ymhellach y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar gyrion y dref.

## Ffigur 5.2: Cyfleoedd SG yn Arberth




| | |
|---|---|
| NAR1 | Gwella cysylltiadau a dehongliad yng Nghastell Arberth |
| NAR4 | Cyflwyno llwybr cerdded cylchol yng Nghastell Arberth |
| NAR7 | Hyrwyddo gwyrddu canol tref Arberth |
| NAR10 | Gwella gwerth bioamrywiaeth perimedr y cae rygbi |
| NAR13 | Sicrhau dulliau sy'n denu peillwyr yn Ysgol Gynradd Arberth |
| NAR16 | Ailblannu'r goeden sydd ar goll wrth ymyl Cofeb Ryfel Arberth |
| NAR2 | Cyflenwi cynefinoedd coetir yng Nghastell Arberth |
| NAR5 | Darparu llwybr cerdded cylchol i ogledd-orllewin Arberth |
| NAR8 | Gwella safle Canolfan Gymunedol Bloomfield |
| NAR11 | Hyrwyddo gwyrddu Parc Menter Ruchacre |
| NAR14 | Cyflwyno gwlyptiroedd a phlannu coed torlannol ym Mhont Arberth |
| NAR17 | Cyflwyno gerddi glaw, coed stryd a phalmantau athraidd ym maes parcio Gwaun y Dref |
| NAR3 | Gwella gwerth bioamrywiaeth Gwaun y Dref |
| NAR6 | Sefydlu perllan gymunedol |
| NAR9 | Creu cysylltiadau â Gorsaf Arberth |
| NAR12 | Creu porth gwyrdd wrth gyffordd yr A478 a Ffordd Kiln Park |
| NAR15 | Hyrwyddo plannu coed yn Cox Hill a Garfield Gardens |
| NAR18 | Sicrhau gwelliannau i Fynwent St Andrews |

# Prosiectau Cicdanio

## NAR3 – Gwella gwerth bioamrywiaeth Gwaun y Dref

**5.4** Mae Gwaun y Dref yn faes pentref cofrestredig ac yn lle hamdden a ddefnyddir yn helaeth, gan ddarparu offer chwarae, llwybrau teithio llesol a mannau gwyrdd hygyrch i'r cyhoedd.

**5.5** Ar hyn o bryd, nodweddir argloddiau mwy serth i'r de, sydd heb fawr o werth hamdden, gan laswellt hir. Fodd bynnag, prin yw amrywiaeth rhywogaethau'r glastir. Gellid gwella hyn drwy hau hadau blodau gwyllt neu blannu plygiau gyda phlanhigion brodorol sy’n cynnig llawer o neithdar i gynnal peillwyr, gan barhau â threfn torri gwair dôl blodau gwyllt. Gellid plannu planhigion blodeuol brodorol, fel cennin Pedr Dinbych-y-pysgod, hefyd o gwmpas gwaelod coed mawr aeddfed er mwyn cynyddu'r adnodd peillwyr ymhellach. Dylid ystyried llacio’r drefn torri gwair o fewn perimedr y maes parcio yn ogystal â defnyddio pren marw, llwybrau a llennyrch achlysurol wedi’u torri ar gyfer seddi a chwarae anffurfiol. Dylid canolbwyntio darparu amrywiaeth o gynefinoedd ar gyfer bwyd a chysgod i'r de o'r safle oherwydd llai o bwysau hamdden. Gallai gerddi glaw bioamrywiol gael eu gosod hefyd yn rhannau dirlawn maes y pentref i ddarparu cynefinoedd ychwanegol a chyfrannu at reoli llifogydd.

**5.6** Dylid plannu coed ychwanegol gan ddefnyddio teipoleg amrywiol; gan gynnwys plannu rhodfeydd coed, coed sbesimen, coed ffrwythau a chnau, gwrychoedd, gwrychoedd bwytadwy a llwyni, er enghraifft ar hyd llwybrau teithio llesol. Dylid plannu gwrychoedd a llwyni hefyd ar hyd yr ardaloedd anffurfiol gerllaw eiddo preswyl i'r gogledd-orllewin o Waun y Dref. Byddai hyn yn diffinio ffin Gwaun y Dref, gan wella ei golwg a chyfrannu at gysylltedd cynefinoedd. Byddai cysylltiadau â’r llain goetir i'r de-orllewin hefyd yn cael eu gwella, gan gryfhau ei rôl fel coridor fforio a chymudo ar gyfer ystlumod.

**5.7** Byddai'r ymyriadau hyn yn ategu cynigion i uwchraddio llwybrau presennol i lwybrau cyd-ddefnyddio yn ardal Gwaun y Dref.

### Ffigur 5.3: NAR3





## Buddion y prosiect

**5.8** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 5.4 isod, mae:

- Lleihau risg llifogydd
- Buddsoddiad a gwell profiad i ymwelwyr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Chwarae, addysg a rhyngweithio â natur
- Atgyfnerthu ymdeimlad o le
- Oeri trefol

- Gwella iechyd a lles
- Dal a storio carbon a lliniaru effeithiau newid hinsawdd

**Ffigur 5.4: Buddion**




## Mecanweithiau cyflawni

**5.9** Dylid cyflenwi dolydd blodau gwyllt, perllannau cymunedol a gwrychoedd llawn rhywogaethau yn unol ag adran gyflawni'r Strategaeth Peillwyr.

**5.10** Dylid plannu coed yn unol ag adran gyflawni'r Strategaeth Plannu Coed Trefol.

**5.11** Dylid cynnwys toriadau blynyddol o’r ddôl blodau gwyllt yn rhaglen waith Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd Cyngor Sir Penfro (CSP).

## Partneriaid posibl

- Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP
- Partneriaeth Natur Sir Benfro
- Arberth Gwyllt / Wild Narberth

## Cost amlinellol

Cost isel = <£250k

**5.12** Mae hadau blodau gwyllt yn gymharol rad a byddai arbedion yn cael eu gwneud oherwydd llai o dorri gwair. Mae nifer y coed a blannir gyda nhw yn cael dylanwad ar y gost gyffredinol.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

## Amserlen

Tymor canolig = 1-5 mlynedd

**5.13** Gall yr ymyriadau amrywiol gael eu gweithredu fesul dipyn dros dymhorau plannu i gydredeg â'r capasiti a'r adnodd sydd ar gael. Byddai blodau gwyllt yn sefydlu'n gyflym os yw ffrwythlondeb pridd yn isel.

## Cyfyngiadau posibl

**5.14** Byddai angen i ddyluniad y gwelliannau sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i adfer natur a darparu cynefin i fywyd gwyllt a'r gofyniad i gael mynediad i'r safle a'i fwynhau. Dylid cyflawni hyn drwy ddylunio'r lle'n sensitif i ddarparu llwybrau penodol ar gyfer mynediad teithio llesol, cyfleoedd i archwilio natur yn ogystal ag ardaloedd ar gyfer bioamrywiaeth.

**5.15** Byddai'n rhaid i raddau’r plannu blodau gwyllt sicrhau nad yw'n rhwystro digwyddiadau cymunedol o fewn y man gwyrdd presennol.

**5.16** Gall dôl blodau gwyllt ddenu cwynion gan aelodau'r cyhoedd o bryd i'w gilydd sy'n ystyried bod yr ardaloedd yn flêr neu heb eu rheoli. Gall arwyddion a dehongli helpu i gyfleu bwriad pwrpasol y ddôl a hybu ymwybyddiaeth am beillwyr.

**5.17** Mae angen ystyried sut i gasglu'r toriadau a'u gwaredu o ardal y ddôl er mwyn atal cyfoethogi'r pridd. Y ffordd fwyaf effeithlon o wneud hynny yw defnyddio peiriant torri a chasglu gwair ond mae angen buddsoddiad cyfalaf ar hyn.

**5.18** Byddai angen archwilio coed ar hyd llwybrau teithio llesol yn rheolaidd er mwyn sicrhau nad ydynt yn rhwystro mynediad nac yn achosi unrhyw bryderon iechyd a diogelwch.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**5.19** Mae angen torri a chodi dôl blodau gwyllt ar ddiwedd y tymor. Fel arfer ym mis Medi y mae hyn yn digwydd. Yn ddelfrydol, dylid gadael y sgil-gynhyrchion am saith diwrnod i daflu hadau cyn cael eu gwared. Efallai y bydd angen torri a chodi eildro tua dechrau’r gwanwyn i gael gwared ar dyfiant y gaeaf.

**5.20** Byddai angen gofal dyfrio a sefydlu fel rhan o gyfnod cynnal a chadw 60 mis er mwyn sicrhau y gall coed ddod yn annibynnol yn y dirwedd.

**5.21** Byddai angen archwilio a gwaredu gardiau coed pan nad oes risg o ddifrod bellach.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**5.22** Dylid monitro cyfradd oroesi planhigion newydd a sefydlu dolydd blodau gwyllt ar gyfer dangosyddion llwyddiant. Ar ôl i'r holl welliannau bioamrywiaeth gael eu gweithredu, gellid trefnu BioBlitz cymunedol blynyddol i gofnodi'r amrywiaeth o fywyd ar y safle.

## Camau nesaf

**5.23** Adolygu adran gyflawni'r Strategaethau Plannu Coed Trefol i bennu'r broses ar gyfer plannu coed ac i ddeall y cydrannau allweddol ar gyfer sefydlu coed yn llwyddiannus.

**5.24** Adolygu adran gyflawni'r Strategaeth Peillwyr i benderfynu ar y broses ac adolygu astudiaethau achos yn ymwneud â chreu dolydd blodau gwyllt.

**5.25** Canfod parodrwydd Arberth Gwyllt neu grŵp cymunedol arall i fod yn rhan o'r gwaith o reoli a chynnal a chadw coed newydd a blannwyd.

### Ffigur 5.5: Arberth



## NAR7 – Hyrwyddo gwyrddu canol tref Arberth

**5.26** Nodweddir canol tref Arberth gan gymysgedd ddeniadol o siopau, adeiladau ac asedau treftadaeth, gan gynnwys Neuadd y Dref neilltuol Arberth a Chofeb Ryfel Arberth. Ar hyn o bryd, cerbydau yw’r brif nodwedd ar y Stryd Fawr, gyda lleoedd parcio ar y stryd yn cael eu darparu'n rheolaidd ar ddwy ochr y stryd unffordd. Mae cyfle i hawlio rhywfaint o'r lle hwn yn ôl gan gerbydau a darparu amgylchedd mwy diogel a mwy deniadol i gerddwyr.


**5.27** Dylid ailddefnyddio neu uwchraddio cafnau plannu uwch presennol i greu ardaloedd mwy o faint a mwy effeithiol o blannu sy’n denu peillwyr, gyda mannau wedi’u cynnwys ar gyfer seddi a pharcio beiciau. Lle nad yw mannau a gwasanaethau tanddaearol yn gyfyngiadau, dylid gwaredu rhywfaint o dirwedd

galed i greu ardaloedd mwy o blannu a gerddi glaw. Gellid cael gwared ar leoedd parcio achlysurol er mwyn gwneud lle i blannu coed stryd ychwanegol neu barciau bach. Dylai hyn ganolbwyntio ar un ochr o’r stryd i greu mwy o le i gerddwyr a lle gorlif i fusnesau. Lle mae lle a gwasanaethau tanddaearol yn caniatáu, dylid ystyried cyflwyno coed stryd ychwanegol.

**5.28** Mae'r cyfleoedd hyn hefyd yn berthnasol ar gyffordd Heol yr Orsaf a'r A478 lle mae llawer iawn o dirlunio caled gyda chafnau plannu presennol. Mae gan Stryd y Farchnad a’r ardal o amgylch y Gofeb Ryfel hefyd y potensial i adennill lle o leoedd parcio ceir ac integreiddio ardaloedd o fannau gwyrdd o fewn amgylchedd cyhoeddus presennol. Dylid hefyd edrych ar gyflwyno safleoedd bws gwyrdd ledled Arberth drwy ddefnyddio toeau gwyrdd, planhigion dringo a chafnau plannu uwch.

**5.29** Dylid ymchwilio i'r Stryd Fawr fel lleoliad posibl ar gyfer llwybr cyd-ddefnyddio. Gallai hyn gysylltu â'r cysylltiad beicio a gyflwynwyd yn ddiweddar tuag at Goed Canaston a Hwlffordd.

## Ffigur 5.6: NAR7





# Buddion y prosiect

**5.30** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 5.7 isod, mae:

- Lleihau risg llifogydd
- Darparu cyfleoedd teithio llesol
- Gwella ansawdd dŵr
- Buddsoddiad a gwell profiad i ymwelwyr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Chwarae, addysg a rhyngweithio â natur
- Gwella ansawdd aer a rheoleiddio sŵn
- Rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant cymunedol

- Atgyfnerthu ymdeimlad o le
- Oeri trefol
- Gwella iechyd a lles
- Dal a storio carbon a lliniaru effeithiau newid hinsawdd

### Ffigur 5.7: Buddion




## Mecanweithiau cyflawni

**5.31** Dylid cyflawni ymyriadau fel plannu coed mewn cydweithrediad â thrigolion a busnesau lleol. Trwy ganiatáu i drigolion gael dweud eu dweud ym mha rywogaethau yr hoffent eu gweld y tu allan i'w cartrefi / busnesau, ac ymhle yr hoffent eu plannu, byddai'n annog mwy o stiwardiaeth o'r sbesimenau drwy'r cyfnod sefydlu a'r tu hwnt. Mae dyluniad pyllau coed, y dyfnder a'r pridd a ddefnyddir a'r dyfrio a'r gwaith cynnal a chadw parhaus yn hanfodol er mwyn sicrhau sefydlu llwyddiannus.

**5.32** Lle bo'n bosib, dylid cyrchu coed a deunydd plannu yn lleol.

**5.33** Dylai arferion plannu ddilyn y canllawiau cyflenwi sydd wedi'u nodi o fewn y Strategaeth Plannu Coed Trefol a'r Strategaeth Peillwyr.

## Partneriaid posibl

- Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd Cyngor Sir Penfro (CSP)
- Busnesau lleol;
- Y gymuned leol;
- Wardeniaid coed Sir Benfro; a
- Chyngor Tref Arberth

## Cost amlinellol

### Cost ganolig = <£250k - £1 miliwn

**5.34** Mae'r prosiect hwn yn agored iawn i newid a gellid gwneud gwelliannau am <£250k. Fodd bynnag, argymhellir bod y Stryd Fawr, Stryd y Farchnad a'r gyffordd â Ffordd yr Orsaf yn cael eu hadolygu a'u dylunio yn eu cyfanrwydd i helpu i greu canol tref mwy swyddogaethol a chydlynol.

### Cost uchel = >£1 miliwn

**5.35** Pe bai llwybr cyd-ddefnyddio yn cael ei weithredu ar hyd y Stryd Fawr, yna byddai hyn yn cynyddu costau.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
- Nawdd busnes
- Cyngor Sir Penfro
- Y Gronfa Ffyniant Gyffredin

## Amserlen

### Tymor canolig = 1-5 mlynedd

**5.36** Mae'r prosiect hwn yn agored i newid, a gellid gweithredu ymyriadau ar lawr gwlad yn gymharol gyflym. Fodd bynnag, os cymerir dull cydlynus sy'n edrych ar ganol tref Arberth yn ei gyfanrwydd, gallai'r prosiect gymryd nifer o flynyddoedd i'w gyflenwi.

## Cyfyngiadau posibl

**5.37** Gall busnesau wrthwynebu'r cynigion os ydyn nhw'n credu y byddai nifer yr ymwelwyr yn lleihau oherwydd prinder parcio. Felly, byddai angen i'r broses ddylunio fod yn gydweithredol, gan ddarparu enghreifftiau cynsail o fannau lle mae ymyriadau gwyrddu wedi arwain at effeithiau cadarnhaol yng nghanol pentrefi / trefi eraill. Byddai angen ymgysylltu tebyg gyda grwpiau hygyrchedd, a dylid egluro o'r cychwyn cyntaf y byddai lleoedd parcio bathodyn glas yn parhau.

**5.38** Gallai gwasanaethau a chyfleustodau tanddaearol gyfyngu ar faint yr ymyriadau 'yn y ddaear', gan gynnwys gerddi glaw a choed mewn tirweddau caled.

**5.39** Mae sefydlu llystyfiant, yn enwedig coed, o fewn tirweddau caled yn llawer anoddach nag mewn tirweddau meddal a byddai angen cynnal a chadw parhaus yn ystod y cyfnod sefydlu (60 mis) i sicrhau y gall y coed fod yn annibynnol yn y dirwedd. Dylid defnyddio adran gyflawni’r Strategaeth Coed Trefol i arwain y gwaith plannu a chynnal a chadw priodol.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**5.40** Dylai Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP fod yn gyfrifol yn y pen draw am sefydlu coed ac unrhyw ddeunydd plannu. Fodd bynnag, byddai cydweithio ac ymgysylltu â'r gymuned a busnesau o ddechrau'r prosiect yn helpu i gyflawni mwy o stiwardiaeth hirdymor o'r cynllun. Dylai busnesau allu noddi coed, cafnau plannu neu barciau bach a gallent hefyd gyfrannu tuag at eu gwaith cynnal a chadw parhaus. Gallai hyn gynnwys dyfrio yn ystod cyfnodau sych neu roi gwybod am unrhyw fethiannau i CSP.

**5.41** Adolygu adrannau ‘cyflawni’ y Strategaeth Coed Trefol a’r Strategaeth Peillwyr.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**5.42** Byddai deall effaith y prosiect gwyrddu hwn ar nifer yr ymwelwyr a ffyniant busnes yn arf defnyddiol i annog buddsoddiad mewn mannau eraill ac i benderfynu a ddylid efelychu cynlluniau fel hyn. Dylid defnyddio arolygon rheolaidd gyda busnesau lleol, arolygon traffig a chyfrifiadau cerddwyr er mwyn deall sut mae'r defnydd o ganol y dref yn newid cyn ac ar ôl gweithredu'r prosiect.

## Camau nesaf

**5.43** Ymgynghori â Thîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP.

**5.44** Ymgynghori â busnesau lleol, yn enwedig lle byddai lleoedd parcio ceir yn lleihau, er mwyn deall yr awydd am y cynllun ac i sicrhau bod unrhyw bryderon yn cael eu datrys cyn y broses ddylunio.

**5.45** Ymgynghori â grwpiau hygyrchedd.

**5.46** Cyfarwyddo pensaer tirwedd i ddatblygu dyluniadau cysyniadol ar gyfer canol y dref.

### Ffigur 5.8: Arberth




## NAR14 – Cyflwyno gwlyptiroedd a phlannu coed torlannol ym Mhont Arberth

**5.47** Mae ardal o dir pori rhwng Pont Arberth a Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Gorllewin Arberth yn cynnig cyfle i gynnal gwalau gwlyptir a phlannu coed torlannol ychwanegol. Byddai'r ymyriad hwn yn darparu gwell cysylltedd cynefinoedd o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) ehangach Afonydd Cleddau. Byddai manteision ychwanegol y prosiect yn cynnwys storio llifddwr a darparu clustog ar gyfer gollyngfa garthion mewn cyfnodau o law mawr.

Byddai'r cynnig hefyd yn arwain at well ansawdd dŵr, llai o risg o lifogydd yn ogystal â llai o risg siltio cyrff dŵr cyfagos.

**5.48** Byddai creu cynefin gwlyptir yn cynorthwyo i stripio maetholion o'r ollyngfa, gan helpu i leddfu rhyddhau'r llwyth maethol a lleihau'r effaith ar ACA ehangach Afonydd Cleddau. Mae Afon Cleddau ei hun yn destun prosiect parhaus 'Pedair Afon LIFE' a arweinir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i ddiogelu, gwella a helpu i adfer y cwrs dŵr. Mae cynigion i blannu coed torlannol a chreu gwlyptir, felly, yn cyd-fynd yn gryf ag amcanion y prosiect.

### Ffigur 5.9: NAR14




## Buddion y prosiect

**5.49** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 5.10 isod, mae:

- Lleihau risg llifogydd
- Gwella ansawdd dŵr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Atgyfnerthu ymdeimlad o le

- Dal a storio carbon a lliniaru effeithiau newid hinsawdd

### Ffigur 5.10: Buddion




## Darparu atebion seiliedig ar natur a gwasanaethau ecosystemau

**5.50** Mae rheoli defnydd tir am y 90 mlynedd ddiwethaf wedi golygu mwy o ddraenio'r tir, mewn ymgyrch i sicrhau bod tir fferm mor effeithlon ag sy’n bosibl. Arweiniodd hyn at leihau amrywiaeth cynefinoedd, a cholli gwlyptiroedd, glaswelltir gwlyb a chynefinoedd daearol gwlyb cysylltiedig. Mae hefyd wedi cynyddu risg llifogydd, am ei fod yn cynyddu cyflymder a chyfaint y dŵr sy'n llifo i lawr dalgylchoedd, gan leihau effaith glustogi'r dirwedd yn ystod glaw trwm a maith. Mae draeniad cynyddol priddoedd gwlyb hefyd yn cael effaith andwyol ar allu'r pridd hwnnw i ddal a storio carbon.

**5.51** Trwy ddefnyddio technegau megis lleiniau clustogi torlannol, sy’n lleihau erydu a sathru’r glannau gan dda byw, plannu lleiniau cysgodi ac ymylon caeau, gellir cynyddu’n sylweddol allu'r dirwedd i amsugno glawiad a chlustogi rhag glawiad. Byddai hyn yn cael effaith fuddiol ar risg llifogydd, ansawdd dŵr a dal a storio carbon. Byddai ail-wlychu'r priddoedd gwlyptir hefyd yn cynyddu eu gallu i amsugno a chloi carbon.

**5.52** Gellid defnyddio’r broses o greu gwlyptiroedd i gyfyngu ar y ffosfforws a nitrogen sy'n mynd i mewn i'r afon, drwy amsugno a dal a storio maetholion wrth i ddŵr basio trwy'r system, gan hidlo'r dŵr yn y bôn. Mae'r dŵr ffo o gyfleusterau trin carthion fel arfer yn llawn maetholion a gellir defnyddio gwlyptiroedd i helpu i leddfu'r mater hwn, yn ogystal â chyfrannu at wasanaethau ecosystem eraill.

## Mecanweithiau cyflawni

**5.53** Dylid cynnal arolwg cychwynnol o'r safle a chwmpasu gan wyddonwyr dinasyddion hyfforddedig, staff Cyngor Sir Penfro (CSP) neu ymgynghorwyr hyfforddedig. Byddai angen ymgysylltu â thirfeddianwyr a deiliaid / porwyr tir er mwyn cyflwyno'r prosiect hwn a thrafod unrhyw effeithiau ar ddefnydd tir presennol. Yn ogystal, byddai trafod gyda Dŵr Cymru (sef gweithredwr y gwaith trin carthion), Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru a CNC hefyd yn fuddiol. Byddai'r drafodaeth hon gyda phartneriaid posibl yn llywio natur y prosiect, gyda'r cydbwysedd posibl rhwng creu gwlyptir a phlannu coed i'w benderfynu gan gostau, dewisiadau rhanddeiliaid a buddion posibl.

**5.54** Rhagwelwn y gallai'r ymyriadau a'r newidiadau ffisegol arfaethedig i reoli tir gael eu darparu gan y tirfeddianwyr eu hunain, neu gan gontractwyr amaethyddol allanol.

**5.55** Ceir cyfle i ddefnyddio’r prosiect i greu credydau masnachu maetholion yn fodd o ariannu'r ymyriad yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gyda chynllun peilot yn cael ei weithredu gan EEP-Ecobank ar gyfer credydau maetholion sy'n gweithredu o fewn dalgylch Aberdaugleddau (er bod statws y prosiect hwn yn aneglur ar hyn o bryd).

## Partneriaid posibl

- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru;
- CNC;

- Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru;
- Deiliaid tir; a
- Dŵr Cymru

## Cost amlinellol

### Cost isel = <£250k

**5.56** Byddai'r costau'n cynnwys ychydig o gyngor arbenigol cyfyngedig, ffioedd asiantau tir, ffensio, costau plannu coed a pheiriannau posibl ar gyfer creu gwalau gwlyptir. Os bydd ateb gwlyptir wedi’i beiriannu’n fwy i helpu i wella elifion carthion yn cael ei ffafrio yn dilyn ymgynghoriad, byddai'r costau'n cynyddu.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru sy'n dod i'r amlwg
- Coedwig Genedlaethol Cymru – Y Grant Buddsoddi mewn Coetir (Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol – Cylch 1)
- Dŵr Cymru
- CNC
- Credydau maetholion mewn partneriaeth ag EEP Ecobank, Fforwm Arfordirol Sir Benfro neu CSP o bosibl.

## Amserlen

### Cam cyflym ymlaen (<1 flwyddyn)

**5.57** Gellid plannu coed torlannol a chreu lleiniau cysgodi ac ymylon caeau mewn ambell leoliad allweddol yn y tymor plannu nesaf, gyda gwaith cynnal a chadw tirwedd yn ofynnol ar draws y cyfnod sefydlu 60 mis. Un o'r prif bethau anhysbys ar gyfer y prosiect fyddai'r amser a gymerir i ennill cytundeb / caniatâd y tirfeddiannwr / deiliad / porwr a chyrchu cyllid.

### Tymor canolig (1-5 mlynedd)

**5.58** Dylid gwneud mwyafrif y gwaith plannu coed ar draws y pum tymor plannu nesaf er mwyn caniatáu ar gyfer digon o gynllunio ac ymgysylltu.

## Cyfyngiadau posibl

**5.59** Un cyfyngiad allweddol ar gyfer y prosiect fyddai cytundebau tirfeddiannwr / deiliad tir / porwr, gan y gallai fod risg canfyddedig i hyfywedd fferm sy'n gysylltiedig â cholli rhywfaint o dir i ymylon torlannol / lleiniau cysgodi / plannu ymylon caeau ac ati. Dylid gwrthddadlau’r pryderon hyn ag argaeledd taliadau amaethyddol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, ac felly mae'r oedi cyn lansio Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn gyfyngiad posibl yn hyn o beth.

**5.60** Byddai angen i asesiad ecolegol o'r safle gael ei gynnal gan ecolegydd gyda'r holl waith safle’n cael ei oruchwylio o bosibl gan Glerc Gwaith Ecolegol (ECoW).

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**5.61** Byddai angen cynnal a chadw'r gwaith meddal a’r gwlyptir yn rhan o'r cyfnod sefydlu 60 mis, gan gynnwys amnewid coed aflwyddiannus.

**5.62** Os cyflwynir gwlyptir wedi'i beiriannu fel rhan o'r prosiect, byddai hyn yn golygu mwy o ofynion cynnal a chadw, a fyddai'n gyfrifoldeb Dŵr Cymru.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**5.63** Yn amodol ar argaeledd cyllid, dylid monitro llwyddiant y prosiect drwy wyddoniaeth dinasyddion syml, gyda chymorth addas. Mae llwyddiant llain glustogi yn aml yn ddibynnol ar ddylunio cychwynnol ond hefyd gofal a rheolaeth ddilynol gan ddefnyddio technegau coedyddiaeth i gynnal y llain gysgodi y tu hwnt i ddisgwyliad oes y plannu coed gwreiddiol.

## Camau nesaf

**5.64** Ymgysylltu â thirfeddianwyr / deiliaid / porwyr ac ymrwymo i gytundebau i ddarparu ymyriadau ar eu tir. Dylid ymgynghori â CNC hefyd i ymchwilio i weld a yw manteision y prosiect yn cyd-fynd â phrosiect Pedair Afon LIFE a chyfleoedd ariannu posibl. Dylid edrych hefyd ar y potensial ar gyfer credydau maetholion i wrthbwyso costau'r prosiect.

# Rhestr Hir o Brosiectau

## NAR1 – Gwella cysylltiadau a dehongliad yng Nghastell Arberth

**5.65** Mae'r fynedfa bresennol i Gastell Arberth yn cael ei chuddio, yn aneglur ac yn cael ei defnyddio'n bennaf ar gyfer parcio cerbydau. Ceir cyfle i wella'r porth i'r safle trwy well arwyddion a phwyntiau mynediad dan reolaeth. Byddai dynodi llwybrau'n well o Stryd y Farchnad yn cynyddu ymwybyddiaeth am y safle a dylai hyn gynnwys arwyddion ar y palmant a ledwyd wrth gyffordd Stryd y Farchnad a Theras y Castell. Dylid ystyried gwell byrddau dehongli o fewn tir Castell Arberth hefyd.

## NAR2 – Darparu cynefinoedd coetir yng Nghastell Arberth

**5.66** Dylid gwella ffin Castell Arberth drwy ddarparu mynediad i goetir cyfagos sy'n eiddo i Gyngor Sir Penfro (CSP) i'r dwyrain o'r safle. Dylai gwell rheolaeth ar y coetir ddarparu lle ar gyfer ystod amrywiol o gynefinoedd, yn ogystal ag ardaloedd ar gyfer seddi cysgodol, chwarae naturiol a hamdden. Dylid darparu hefyd gysylltiadau â Safle Carafanau cyfagos Brookside a Castlewood. Byddai llacio'r drefn torri gwair a chadw pren marw ar draws rhannau eraill o Gastell Arberth yn darparu cynefinoedd ychwanegol i beillwyr.

## NAR3 – Gwella gwerth bioamrywiaeth Gwaun y Dref

**5.67** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

# NAR4 – Cyflwyno llwybr cerdded cylchol yng Nghastell Arberth

**5.68** Defnyddio hawliau tramwy cyhoeddus presennol i greu llwybr cerdded cylchol i'r de-ddwyrain o Arberth o Tabernacle Lane. Byddai'r llwybr yn symud i'r de ar draws y caeau tuag at Safle Carafanau Brookside a Castlewood cyn cysylltu'n ôl i fyny drwy Gastell Arberth tuag at Stryd y Farchnad. Dylid cynnwys gwell arwynebau a dynodi llwybrau'n well yn rhan o lwybr hamdden, gan ddarparu cysylltiad o Safle Carafanau Brookside a Castlewood i ganol y dref.

# NAR5 – Darparu llwybr cerdded cylchol i ogledd-orllewin Arberth

**5.69** Mae tir i'r gogledd-orllewin o'r anheddiad yn amddifad o gysylltiadau hawliau tramwy cyhoeddus â chefn gwlad ehangach. Ceir cyfle felly i greu llwybr cylchol newydd yn dilyn aliniad ffosydd coediog a lleiniau presennol o blanhigfa rhwng Ruchacre, Flimstone ac yn ôl tuag at Barc Jacob a Phlanhigfa Rushacre. Dylai'r cynnig hwn gefnogi cynigion i ddarparu llwybr cyd-ddefnyddio ar hyd Redstone Road i Arberth.

# NAR6 – Sefydlu perllan gymunedol

**5.70** Gan weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o randdeiliaid, nodi lleoliad ar gyfer perllan gymunedol yn y dref. Dylai cynigion geisio darparu rhandir / perllan gymunedol a fyddai'n cyflawni rôl hanfodol wrth gysylltu pobl leol â'r broses o gynhyrchu bwyd. Os oes modd, dylid gadael ymylon plannu heb eu torri, cyflwyno toeau byw ar siediau ac ychwanegu bwydwyr adar i ddenu bywyd gwyllt. Anogir pobl i beidio â defnyddio plaladdwyr a chwynladdwyr.

## NAR7 – Hyrwyddo gwyrddu canol tref Arberth

**5.71** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## NAR8 – Gwella safle Canolfan Gymunedol Bloomfield

**5.72** Dylid creu ystodau o ddôl blodau gwyllt i wella'r cloddiau gwyrdd a'r lleiniau o fewn cwrtil Canolfan Gymunedol Bloomfield. Byddai'r ymyriad hwn yn darparu cynefin a chysylltedd ychwanegol ledled Arberth ar gyfer peillwyr. Dylid hefyd plannu coed ychwanegol o fewn y lleiniau ymyl ffordd gwyrdd cyfagos o fewn y maes parcio.

## NAR9 – Creu cysylltiadau â Gorsaf Arberth

**5.73** Creu cysylltiad gwell i gerddwyr rhwng canol tref Arberth a Gorsaf Arberth. Dylai hyn gynnwys opsiynau ar gyfer lledu ffyrdd, estyn llwybrau troed a thawelu traffig ar hyd Ffordd yr Orsaf (megis parhau'r terfyn cyflymder 30mya heibio'r gyffordd â Kiln Park Road). Dylid hefyd ystyried opsiynau tawelu traffig gwyrdd ar hyd yr A478 a Kiln Park Road, gyda'r nod o ddarparu llwybr ychwanegol i'r orsaf ac Ysgol Arberth. Dylid defnyddio gwaith gwyrddu trefol a phlannu coed stryd ar raddfa fechan yng Ngorsaf Arberth i hyrwyddo porth mwy croesawgar.

## NAR10 – Gwella gwerth bioamrywiaeth perimedr y cae rygbi

**5.74** Paratoi’r ddaear ar gyfer hadau blodau gwyllt a llacio’r drefn torri gwair o amgylch cyrion y caeau rygbi. Byddai hyn yn cynnig cynefin ychwanegol i

beillwyr drwy greu dôl blodau gwyllt, heb gael effaith o gwbl ar weithgareddau chwaraeon a gwylwyr.

## NAR11 – Hyrwyddo gwyrddu Parc Menter Ruchacre

**5.75** Gweithio gyda thenantiaid a pherchnogion busnes ym Mharc Menter Ruchacre i nodi ardaloedd ar gyfer plannu coed ychwanegol a chyfleoedd gwyrddu. Plannu coed o fewn ardaloedd o laswellt wedi'i dorri'n fyr ac annog llacio'r drefn torri gwair. Archwilio cyfleoedd i amrywiaethu gwrychoedd drwy gyflwyno rhywogaethau ychwanegol a choed gwrychoedd lle mae digon o le. Archwilio defnyddiau 'yn y cyfamser' ar gyfer tir diffaith, er enghraifft, dolydd blodau gwyllt.

## NAR12 – Creu porth gwyrdd wrth gyffordd yr A478 a Kiln Park Road

**5.76** Datblygu lleiniau ymyl ffordd sy'n llawn blodau gwyllt ar gyffordd yr A478 a Kiln Park Road i hyrwyddo manteision i beillwyr a chreu porth croesawgar i Arberth, ar yr un pryd.

## NAR13 – Sicrhau dulliau sy'n denu peillwyr yn Ysgol Gynradd Arberth

**5.77** Gan gydweithio ag Ysgol Arberth, adeiladu ar ei Chod Eco a'i rhandir presennol i ddarparu cynefin ychwanegol i beillwyr. Dylai hyn gynnwys gwneud a phlannu bomiau hadau, creu pentyrrau boncyffion ac adeiladu gwestai pryfed. Dylid cyflwyno dolydd blodau gwyllt a llacio'r drefn torri gwair o fewn yr ardaloedd o laswellt a dorrir yn fyr wrth y fynedfa ac o fewn maes parcio'r ysgol.

## NAR14 – Cyflwyno gwlyptiroedd a phlannu coed torlannol ym Mhont Arberth

**5.78** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## NAR15 – Hyrwyddo plannu coed yn Cox Hill a Garfield Gardens

**5.79** Dylid edrych ar opsiynau ychwanegol ar gyfer plannu coed o fewn ymylon ffordd glaswellt a llwybrau cyd-ddefnyddio cyfagos ar Cox Hill a Garfield Gardens. Sicrhau bod rhywogaethau addas yn cael eu dewis os ydynt yn gyfagos i ffyrdd cerbydau e.e. bach i uchder canolig gyda chorunau unionsyth. Ynghyd â hyn dylid plannu bylbiau a phlygiau o dan y coed i ddarparu diddordeb gweledol a pheillwyr ychwanegol.

## NAR16 – Ailblannu'r goeden sydd ar goll wrth ymyl Cofeb Ryfel Arberth

**5.80** Ar hyn o bryd mae pwll coed yn wag gerllaw Cofeb Ryfel Arberth. Dylid llenwi hwn â choeden sbesimen newydd sy'n briodol i'r lleoliad trefol cyfyngedig e.e. cerddinen wen (Sorbus aria), masarnen fach (Acer campestre) a bedwen arian (Betula pendula).

## NAR17 – Cyflwyno gerddi glaw, coed stryd a phalmantau athraidd ym maes parcio Gwaun y Dref

**5.81** Llawr caled gan mwyaf sydd yn y maes parcio mawr o fewn Gwaun y Dref ac nid oes coed o gwbl nac ymyriadau gwyrddu trefol eraill. Ceir ychydig bach o blannu coed ar y maes ei hun ac mae mewn ardal sy'n dueddol o ddirlenwi. Dylid targedu'r ardaloedd hyn gyda phyllau gwanhau a fyddai'n ffurfio nodweddion dŵr i'r gymuned leol yn ogystal ag ymyriadau gwyrddu trefol eraill. Byddai ymyriadau Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) sy'n dargyfeirio dŵr storm o garthffosydd cyfun hefyd yn helpu i leihau'r pwysau ar y seilwaith yn Arberth adeg llifogydd. Dylai cynigion sicrhau integreiddio'r llwybr cyd-ddefnyddio arfaethedig sy'n cysylltu Moorfield Road â llwybr Arberth i Felin Pwll-du.

## NAR18 – Sicrhau gwelliannau i Fynwent St Andrews

**5.82** Gan gydweithio ag Eglwys St. Andrew's, Cyngor Tref Arberth a Chyfeillion Mynwent Arberth, dylid datblygu cynigion i wella'r safle er budd hamdden a bioamrywiaeth. Ceir cyfle i gynyddu hygyrchedd y safle trwy weithredu gwelliannau i'r rhwydwaith llwybrau a chyflwyno seddi ychwanegol. Dylai cynigion hefyd geisio mwyhau bioamrywiaeth y safle drwy welliannau gwaith meddal a sefydlu cynefin blodau gwyllt.

# Pennod 6

Trefdraeth

**Ffigur 6.1: Trefdraeth**



## Portread o Seilwaith Gwyrdd Trefdraeth

**6.1** Tref fechan yw Trefdraeth ar arfordir gogleddol Sir Benfro, wrth aber Afon Nyfer. A’i gwreiddiau yn y 12fed ganrif, mae'r dref yn cynnwys nifer o adeiladau rhestredig yn Ardaloedd Cadwraeth Trefdraeth a Pharrog Trefdraeth. Mae Ardal Gadwraeth Trefdraeth yn cwmpasu llawer o ganol y dref, tra bod Ardal Gadwraeth Parrog Trefdraeth yn dilyn y morglawdd yn y gogledd tuag at y Parrog. O fewn ardal isel yn agos at aber tywodlyd yr afon, mae'r dref yn meddu ar olygfeydd gogledd-ddwyreiniol ar draws Bae Trefdraeth. A hithau’n rhan o

Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro, mae gan y dref gysylltiadau hamdden cryf â'r dirwedd ehangach hefyd.

**6.2** Er bod llond llaw o fannau agored cyhoeddus o fewn craidd yr anheddiad, mae'r aber a'r morlin i'r gogledd yn cynnig coridor hamdden sylweddol. Mae hyn yn cynnwys rhan o Lwybr Arfordir Penfro, sy’n 186 milltir o Lwybr Cenedlaethol. I'r de o'r dref mae ardal fawr o dir mynediad agored ym Mynydd Carningli sy’n rhan o Fynyddoedd y Preseli ac sy'n boblogaidd ymysg cerddwyr. Mae nifer o lwybrau troed cyhoeddus yn cysylltu'r ardaloedd hyn o'r gogledd i'r de ac yn cynnig rhai cysylltiadau drwy ganol y dref a thuag at ymyl Aber Nyfer. Yn ogystal, mae llwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN) 82 yn cysylltu Mynyddoedd y Preseli ag ymyl ddwyreiniol Trefdraeth cyn parhau ymlaen tuag at dref Nanhyfer yn y dwyrain, gan gynnig mynediad i gefn gwlad ehangach.

## Ffigur 6.2: Cyfleoedd SG yn Nhrefdraeth




| | |
|---|---|
| NEW1 | Cyflwyno plannu ffiniol ar raddfa fach yn y parc sgrialu a'r lle chwarae |
| NEW2 | Gwella cysylltiadau rhwng darnau presennol o goetir, gan gynnwys coetir hynafol |
| NEW3 | Cyflwyno clustogfeydd coetir torlannol a chyfleoedd ymyl cae i liniaru llifogydd |
| NEW4 | Gwella llwybrau glan afon cylchol |
| NEW5 | Archwilio cysylltiadau teithio llesol â Thraeth Trefdraeth |
| NEW6 | Cyflwyno plannu coed stryd ac ymylon ffordd 'gwylltach' ar Ffordd y Parrog |
| NEW7 | Cyflwyno plannu ymyl ffordd ar raddfa fach ar y ddynesfa at Drefdraeth o'r A487 |
| NEW8 | Amrywiaethu'r plannu yn y Gerddi Cymunedol |
| NEW9 | Cyflwyno cafnau blodau brodorol wrth safleoedd bws a mannau gorffwys |
| NEW10 | Creu fflora daear coetir ar hyd hawl tramwy cyhoeddus Afon Nyfer |
| NEW11 | Hyrwyddo llai o dorri gwair ym man agored Barwniaeth Cemaes |
| NEW12 | Sefydlu rhandir cymunedol i bobl a bywyd gwyllt |
| NEW13 | Hyrwyddo dad-ddofi gerddi preifat |
| NEW14 | Cyflwyno dynodi llwybrau i Dir Comin Carningli a Mynyddoedd y Preseli |
| NEW15 | Cefnogi sefydlu gardd natur Ysgol Bro Ingli |
| NEW16 | Hyrwyddo Mynwent Brynhyfryd yn safle caru gwenyn |
| NEW17 | Creu gwlyptir wrth ymyl Gorsaf Pwmpio Carthion Cwm |
| NEW18 | Sefydlogi twyni a Thraeth Mawr Trefdraeth |
| NEW19 | Cyflwyno ymyriadau Systemau Draenio Cynaliadwy |


# Prosiectau Cicdanio

## NEW4 – Gwella llwybrau glan afon cylchol

**6.3** Gan adeiladu ar lwybr troed cyhoeddus Llwybr Pwll Cornel a agorwyd yn ddiweddar sydd yn dilyn ymyl ogleddol Afon Nyfer i'r dwyrain o Ben-y-bont, ceir cyfle i estyn llwybr presennol glan yr afon ar ochr ddeheuol y cwrs dŵr. Wedi'i greu yn 2021 gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP), mae'r llwybr hamdden newydd i'r gogledd o'r afon yn llwybr anffurfiol heb arwyneb wedi'i osod, wedi'i nodweddu gan lethrau serth yng nghoedwig Berryhill. Drwy sefydlu cysylltiadau â'r Hawl Tramwy Cyhoeddus newydd ym Mhont Newydd, byddai estyniad ar hyd glan y de yn creu cylchdaith ac yn hyrwyddo mynediad ehangach i gefn gwlad. Byddai cysylltiadau â Llwybr y Pererinion hefyd yn gwella cyfleoedd hamdden Afon Nyfer. Mae dyluniad y llwybr yn cynnig cyfle i hyrwyddo hygyrchedd a chynwysoldeb ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddwyr, yn cynnwys beicwyr, cerddwyr a defnyddwyr cadair olwyn.

**6.4** Byddai sefydlu'r llwybr cylchol yn gwella'r cynnig hamdden ar y raddfa leol a strategol. Byddai posibilrwydd integreiddio amrywiaeth o ddodrefn stryd cadarn, dehongliadau, arwyddion a nodweddion chwarae naturiol achlysurol nad oes angen fawr o gynnal a chadw arnynt ar hyd y llwybr hefyd yn helpu i drawsnewid y coridor yn ased hamdden. Fodd bynnag, byddai angen asesiad o'r cynefin naturiol ar y cynllun i benderfynu a yw cyflwyno mynediad i'r cyhoedd yn gynaliadwy ac a ddylid ei hyrwyddo. Byddai angen asesu gwrthdaro posib rhwng bioamrywiaeth a chyfleoedd mynediad hamdden. Dylid ystyried cyflwyno 'cod ymddygiad' ar gyfer ymddygiad priodol ar rannau ecolegol sensitif o'r llwybr i helpu i annog hamdden fwy cyfrifol.

## Ffigur 6.3: NEW4




# Buddion y prosiect

**6.5** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 6.4 isod, mae:

- Darparu cyfleoedd teithio llesol
- Buddsoddiad a gwell profiad i ymwelwyr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Chwarae, addysg a rhyngweithio â natur
- Rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant cymunedol
- Atgyfnerthu ymdeimlad o le
- Gwella iechyd a lles

### Ffigur 6.4: Buddion




## Mecanweithiau cyflawni

**6.6** Byddai angen cyllid allanol sylweddol a dyrannu adnodd staff, yn seiliedig ar dirfeddianwyr cydweithredol ac asesiad cynaliadwyedd i benderfynu pa mor briodol yw cyflwyno mynediad i'r cyhoedd.

## Partneriaid posibl

- APCAP
- Tirfeddianwyr
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

## Cost amlinellol

Cost uchel = >£1 miliwn

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- APCAP
- Trafnidiaeth Cymru

## Amserlen

Tymor hir = >5 mlynedd

**6.7** Yn dilyn ymgynghoriad, ymgysylltu â thirfeddianwyr, arolygon a phroses ddylunio gydweithredol, bydd y prosiect yn debygol o gymryd tua 5 mlynedd i'w gyflawni.

## Cyfyngiadau posibl

**6.8** Mae'r prosiect yn debygol o fod yn gymhleth, gyda gofynion sy'n cystadlu. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad am gyllid allanol sylweddol a chysylltu â thirfeddianwyr lleol i sicrhau ymrwymiad ar dir sydd dan berchnogaeth breifat. Byddai angen ymgysylltu â thirfeddianwyr a deiliaid tir er mwyn cyflwyno'r cyfleoedd hyn a thrafod eu heffeithiau ar ddefnydd tir presennol. Fodd bynnag, un agwedd anhysbys allweddol i'r prosiect fyddai'r amser sydd ei angen i gael caniatâd y tirfeddianwyr hyn.

**6.9** Byddai gofyn clirio llystyfiant lleol ar hyd rhai rhannau o’r llwybr hefyd ar y prosiect. Byddai angen gwneud hyn er mwyn osgoi'r tymor nythu adar ac mewn cyswllt ag ecolegydd neu Glerc Gwaith Ecolegol (ECoW).

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**6.10** Byddai angen gwaith cynnal a chadw blynyddol parhaus ar arwynebau caled y llwybr er mwyn sicrhau bod mynediad yn cael ei gynnal drwy gydol y flwyddyn. Byddai angen gwaith rheoli tirwedd hefyd i sicrhau bod llinellau gweld yn cael eu cadw ar draws y llwybr.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**6.11** Ceir cyfle i osod synwyryddion neu rifyddion i fonitro'r defnydd o'r llwybr fel rhan o'r rhwydwaith teithio llesol ehangach o fewn y sir. Byddai'r dull hwn yn helpu i fesur llwyddiant y buddsoddiad sylweddol ac yn llywio strategaeth hirdymor a chyflawni prosiectau tebyg yn y dyfodol.

## Camau nesaf

**6.12** Asesiad cynaliadwyedd fyddai'r dasg gychwynnol wrth ddatblygu'r prosiect. Os ystyrir eu bod yn dderbyniol yn dilyn canlyniadau'r asesiad, dylid cynnal astudiaeth ddichonoldeb ac ymarfer gwaith ar opsiynau. Dylai hyn hefyd ymgorffori asesiad ecolegol ac arolwg coed i BS5837: 2012 i archwilio'r goblygiadau ar fioamrywiaeth leol a gorchudd coed presennol. Gan weithio gyda'r gymuned, dylid edrych ar gyfleoedd ar gyfer gweithdai dylunio dan arweiniad y gymuned.

## Ffigur 6.5: Trefdraeth




# NEW9 – Cyflwyno cafnau blodau brodorol wrth safleoedd bws a mannau gorffwys

**6.13** Mae safle trefol canol y dref yn rhwystro peillwyr rhag symud o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae’r palmentydd cul o fewn patrwm presennol y strydoedd yn cyfyngu ar gyfleoedd i greu ymylon blodau gwyllt neu gynefinoedd mwy parhaus. Fodd bynnag, ceir cyfle i gyflwyno cafnau plannu gyda llwyni brodorol sy’n denu peillwyr wrth ymyl safleoedd bws (e.e. yng ngorllewin y dref, y Castle Inn a gwesty'r Golden Lion) a'r mannau gorffwys (e.e. wrth ymyl y fainc a'r rheseli beic wrth ymyl y Castle Inn, ar bwys Gwesty Llys Meddyg, y tu allan i'r Swyddfa Bost) i wella gwerth bioamrywiaeth. Dylid hefyd annog trigolion a

busnesau lleol i osod blychau ffenestri neu fasgedi crog yn llawn o flodau brodorol, a fyddai hefyd yn cynyddu apêl weledol eu cartrefi neu flaenau siopau.

**6.14** Mae mentrau fel 'Buzz Stops' yng Nghernyw, 'Bee Stops' mewn dinasoedd fel Derby a Chaerlŷr neu 'Edible Bus Stops' yn Stockwell, Llundain, i gyd wedi helpu i greu cynefin peillwyr a chynyddu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd peillwyr. Gallai brandio tebyg yn Nhrefdraeth helpu i ennyn cefnogaeth trigolion.

**6.15** Dylid gosod planhigion lluosflwydd mwy o faint yng nghanol cafnau plannu, gyda phlanhigion yn lleihau o ran maint tuag at y tu allan, gyda phlanhigion ymlusgol ar yr ymyl. Os yw'r cafn yn erbyn wal, dylid rhoi'r planhigion mwyaf yn y cefn. Os oes digon o le, gellid cyfuno'r rhain i weithredu fel gerddi glaw i helpu i reoli dŵr ffo wyneb.

### Ffigur 6.6: NEW9




## Buddion y prosiect

**6.16** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 6.7 isod, mae:

- Buddsoddiad a gwell profiad i ymwelwyr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol

- Chwarae, addysg a rhyngweithio â natur
- Atgyfnerthu ymdeimlad o le
- Gwella iechyd a lles

### Ffigur 6.7: Buddion




## Mecanweithiau cyflawni

**6.17** Dylid cyflenwi cafnau plannu a basgedi crog yn unol ag adran gyflawni'r Strategaeth Peillwyr. Efallai y bydd gan fusnesau lleol ddiddordeb mewn noddi cafnau plannu y tu allan i'w siopau yn gyfnewid am hysbysebu neu hyrwyddo.

## Partneriaid posibl

- Cyngor Tref Trefdraeth
- Grŵp Amgylchedd Trefdraeth
- Partneriaeth Natur Sir Benfro
- Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd Cyngor Sir Penfro (CSP)
- Perchnogion tai lleol
- Busnesau lleol

## Cost amlinellol

### Cost isel = <£250k

**6.18** O ystyried y prinder lle yng nghanol y dref, mae'n debygol y bydd cafnau plannu yn llai o ran maint ac felly'n gymharol rad. Byddai cost bylbiau neu blanhigion plwg brodorol yn lleihau pe bai busnesau lleol yn eu noddi.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur; a
- Nawdd busnesau lleol

## Amserlen

### Cam cyflym ymlaen = <1 flwyddyn

**6.19** Gellir darparu ymyriadau bron yn syth yn dilyn rhywfaint o ymgysylltu â busnesau a phreswylwyr.

## Cyfyngiadau posibl

**6.20** Er mwyn i'r cafnau plannu sefydlu'n llwyddiannus, byddai angen gwaith cynnal a chadw arnynt. Heb hyn, efallai y byddan nhw'n mynd yn anniben ac yn colli cefnogaeth y gymuned. Gan y byddai'r cafnau mewn lleoliadau cyhoeddus, gall ymddygiad gwrthgymdeithasol amharu arnynt hefyd neu eu difrodi.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**6.21** Drwy gydol y gwanwyn a'r haf, dylid dyfrio’r cafnau plannu bob dydd. Pan fydd y planhigion yn eu blodau gallent elwa ar fwyd hylif potasiwm uchel bob pythefnos. Dylai cynwysyddion neu botiau allu draenio’n dda i atal dirlawnder. Er mwyn atal planhigion rhag mynd yn rhy wlyb ac oer dros y gaeaf, dylid eu codi ychydig oddi ar y ddaear a'u gosod yn erbyn cysgod wal. Gallai busnesau lleol neu berchnogion tai sydd agosaf at y cafnau plannu gynorthwyo gyda'r gwaith cynnal a chadw hwn.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**6.22** Gallai llwyddiant y cafnau plannu gael ei gofnodi gan nifer y pryfed peillio sy’n cael eu denu ganddynt ac amrywiaeth y rhywogaethau. Datblygwyd methodoleg Cyfrifiadau Blodau-Pryfed wedi’u Hamseru (Cyfrifiadau FIT) gan Gynllun Monitro Peillwyr y DU. Mae hyn yn golygu cyfrif y pryfed sy'n ymweld ag un o flodau targed y 14 rhywogaeth o flodau o fewn llain sgwâr 50cm wrth 50cm am 10 munud mewn tywydd da. Gallai pobl leol gymryd rhan yn hyn fel rhaglen wyddoniaeth dinasyddion.

**6.23** Gallai llwyddiant hefyd gael ei fonitro drwy gofnodi sawl cafn plannu ychwanegol sydd wedi'u gosod gan drigolion neu fusnesau lleol.

## Camau nesaf

**6.24** Adolygu adran gyflawni'r Strategaeth Peillwyr i benderfynu ar y broses ac adolygu astudiaethau achos yn ymwneud â gosod cafnau plannu a basgedi crog.

**6.25** Ymgynghori ag Asiant Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA) a Thîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP.

**6.26** Ymgysylltu â thrigolion a busnesau lleol i ganfod diddordeb mewn noddi a/neu gynnal cafnau plannu yng nghanol y dref.

### Ffigur 6.8: Trefdraeth



## NEW17 – Creu gwlyptir wrth ymyl Gorsaf Pwmpio Carthion Cwm

**6.27** Mae Trefdraeth yn union i'r de o Aber Afon Nyfer, o fewn ffin Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ac yn agos at Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Clogwyni Trefdraeth ac Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Bae Ceredigion. Ar hyn o bryd mae'r dref yn defnyddio gollyngfa fôr hir sydd yn y Parrog i ollwng gormodedd gorlifoedd carthffos a storm.

**6.28** Mae Gorsaf Pwmpio Carthion Cwm i'r gogledd-orllewin yn gweithredu fel gorsaf derfynol sy'n derbyn yr holl lifoedd cyfun o ddalgylch Trefdraeth. Ar hyn o bryd caiff llifoedd o 14l/s eu cludo i Waith Trin Dŵr Gwastraff Trefdraeth 800m i'r

de. Mae'r elifion hyn wedi’u trin wedyn yn cael eu dychwelyd a'u rhyddhau drwy'r ollyngfa fôr hir. Er bod y system hon yn weithredol y rhan fwyaf o'r amser, pan fydd llif gormodol ceir digwyddiadau gorlif storm cyfun, lle mae elifion heb eu trin yn osgoi’r driniaeth ac yn llifo’n syth i'r ollyngfa fôr. Yn 2021, cafwyd cyfanswm o 2,423.25 o oriau o orlifiadau o'r fath yng Ngorsaf Pwmpio Carthion Cwm.

**6.29** Byddai troi tir fferm gerllaw seilwaith Dŵr Cymru yn gynefin gwlyptir yn darparu triniaeth eilaidd ar gyfer elifion wedi’u trin, a hefyd clustog ar gyfer llifoedd storm cyn iddynt ollwng i'r ollyngfa fôr. Byddai angen ystyried lleoliad arfaethedig hyn yn ofalus, gan gynnwys ymgynghori’n gynhwysfawr â rhanddeiliaid a’r gymuned.

**6.30** Mae posibilrwydd hefyd cydweithio â phrosiect CLEAN Afon Nyfer i ymgorffori monitro gwyddoniaeth dinasyddion o'r gwlyptiroedd er mwyn archwilio eu heffaith ar yr ollyngfa elifion ac ansawdd dŵr cysylltiedig.

## Ffigur 6.9: NEW17



## Buddion y prosiect

**6.31** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 6.10 isod, mae:

- Lleihau risg llifogydd
- Gwella ansawdd dŵr
- Buddsoddiad a gwell profiad i ymwelwyr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Chwarae, addysg a rhyngweithio â natur
- Gwella ansawdd aer a rheoleiddio sŵn
- Gwella iechyd a lles
- Dal a storio carbon a lliniaru effeithiau newid hinsawdd

### Ffigur 6.10: Buddion




## Darparu atebion seiliedig ar natur a gwasanaethau ecosystemau

**6.32** Gall gwlyptiroedd gynorthwyo i liniaru llifogydd, gan storio dŵr gormodol mewn cyfnodau o law trwm, yn ogystal â'u prif swyddogaeth sef stripio ac

ailgylchu maetholion. Mae'r cynefinoedd hyn hefyd yn darparu nifer o fanteision bioamrywiaeth.

**6.33** Gall gwlyptiroedd wedi'u hadeiladu, os cânt eu dylunio'n gywir, drin elifion yn gynaliadwy gan leihau crynodiad halogyddion mewn modd tebyg i fecanweithiau cemegol neu fecanyddol mwy cymhleth. Mae'r elifion o gyfleusterau trin carthion fel arfer yn llawn o faetholion a gellir defnyddio gwlyptiroedd i helpu i leddfu'r broblem hon mewn ardaloedd sensitif megis Aber Afon Nyfer ac ACA Bae Ceredigion.

## Mecanweithiau cyflawni

**6.34** Byddai cydweithrediad a chyfranogiad Dŵr Cymru yn hanfodol i lwyddiant y prosiect hwn, ac felly'r cam cyntaf fyddai ymgysylltu â hwy a llunio astudiaeth ddichonoldeb, gan edrych ar y cyfraddau trwylif gofynnol, y lle sydd ar gael a'r opsiynau sy'n gysylltiedig â dylunio gwlyptiroedd.

**6.35** Dylid ymgynghori â pheiriannydd dylunio priodol i ddarparu dyluniad o'r gwlyptiroedd. Dylid cyfrifo'r ardal bosibl ar gyfer y gwlyptiroedd a'i chytuno â thirfeddianwyr perthnasol. Dylid ymgynghori â'r gymuned leol er mwyn ei chynnwys gyda'r cynlluniau. Dylid cyflogi contractwyr y mae eu hangen i gwmpasu'r topograffi a chloddio ardaloedd dethol. Dylid hefyd ystyried deunyddiau sydd eu hangen i greu'r gwlyptiroedd fel deunyddiau swbstrad a llystyfiant mor lleol â phosib.

**6.36** Mae'n bosibl y gellid defnyddio'r prosiect hwn i greu credydau masnachu maetholion yn fodd o ariannu'r prosiect yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gyda chynllun peilot yn cael ei redeg gan EEP-Ecobank ar gyfer credydau maetholion sy'n gweithredu o fewn dalgylch Aberdaugleddau er bod statws y prosiect hwn yn aneglur ar hyn o bryd.

**6.37** Dylid defnyddio gwaith monitro gwyddoniaeth dinasyddion a monitro gorlif storm cyfun i helpu i lywio a monitro'r prosiect. Er bod astudiaethau gwyddonol y tu allan i gwmpas y cyfnod hwn o waith, byddai croeso hefyd i unrhyw

wybodaeth a geir gan wyddoniaeth dinasyddion sy'n ymwneud ag iechyd yr amgylchedd morol lleol i gefnogi'r prosiect hwn. Dylid cynnal asesiad ecolegol o safleoedd posib cyn eu dewis.

## Partneriaid posibl

- CLEAN Afon Nyfer
- Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru
- Dŵr Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
- Fforwm Arfordirol Sir Benfro
- Grŵp Bywyd Gwyllt Morol Bae Ceredigion

## Cost amlinellol

Cost isel i ganolig = <£250k – £1 miliwn

**6.38** Byddai'r costau'n cynnwys prynu neu rentu tir, dylunio’r gwlyptiroedd gan beiriannydd arbenigol, caffael planhigion a chostau sy'n gysylltiedig â chloddiad a gosod y gwlyptiroedd.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Dŵr Cymru
- Prosiect Pedair Afon LIFE
- Credydau maetholion gan ddefnyddio cytundeb Adran 106
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Cronfa Arloesi Ofwat

## Amserlen

Tymor canolig = 1-5 mlynedd

**6.39** Mae hyd y rhaglen hon a ragwelir yn cynnwys amser er mwyn dylunio'r gwlyptir, llunio cytundebau gyda pherchenogion tir, adeiladu a phlannu'r gwlyptir.

## Cyfyngiadau posibl

**6.40** Un o'r cyfyngiadau allweddol ar gyfer y prosiect fyddai sicrhau cytundebau tirfeddianwyr. Byddai'n hanfodol hefyd sicrhau bod y gwlyptiroedd gerllaw'r seilwaith trin carthion er mwyn osgoi ail-lwybro gollyngfeydd carthion a fyddai'n cynyddu amser a chostau'r prosiect. Mae bacteria sy'n gwrthsefyll gwrthfiotigau yn cronni mewn gwlyptiroedd yn bryder a dylid ystyried hyn wrth ddylunio'r gwlyptiroedd.

**6.41** Byddai angen i asesiad ecolegol o'r safle gael ei gynnal gan ecolegydd gyda'r holl waith safle’n cael ei oruchwylio o bosibl gan Glerc Gwaith Ecolegol (ECoW).

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**6.42** Nid oes fawr iawn o waith cynnal a chadw ynghlwm wrth wlyptiroedd, na llawer iawn o gostau gweithredu, os o gwbl, gan nad oes angen pŵer arnynt ac maent yn gyffredinol yn systemau hunan-addasu dibynadwy. Fodd bynnag, byddai angen cynnal a chadw ychydig o weithiau'r flwyddyn i dynnu malurion o unrhyw ollyngfeydd, ailosod unrhyw bibellau sydd wedi'u difrodi, cael gwared ar unrhyw rywogaethau planhigion goresgynnol a allai fod yn drech na’r planhigion gwlyptir, lleihau croniad gwaddodion a chadw llygad ar uniondeb strwythurol agweddau strwythurol y dyluniad. Byddai cytundebau parhaus gyda Dŵr Cymru neu ddeiliaid tir ar gyfer mynediad yn hanfodol.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**6.43** Yn amodol ar argaeledd cyllid, dylid monitro llwyddiant y prosiect drwy wyddoniaeth dinasyddion syml. Gallai technegau gynnwys monitro ansawdd dŵr gan ddefnyddio offer llaw syml.

## Camau nesaf

**6.44** Byddai cydweithio Dŵr Cymru yn hanfodol i sicrhau llwyddiant y prosiect hwn, ac felly’r cam cyntaf fyddai dechrau trafodaeth gyda Dŵr Cymru ac ymrwymo i gytundeb cydweithio. Gall hyn hefyd olygu bod modd cael at gyllid ar gyfer y prosiect, naill ai gyda Dŵr Cymru neu’n rhan o Gronfa Arloesi Ofwat.

**6.45** Ymgysylltu â thirfeddianwyr i ymrwymo i gytundebau i brynu neu rentu eu tir. Ymgysylltu â'r gymuned leol i greu cefnogaeth ac ymrwymiad i’r prosiect.

**Ffigur 6.11: Trefdraeth**



# Rhestr Hir o Brosiectau

## NEW1 – Cyflwyno plannu ffiniau ar raddfa fach yn y parc sglefrio a'r maes chwarae

**6.46** Ceir cyfle i blannu coed ar hyd ffiniau'r parc sglefrio, cae chwarae, y cae chwarae a'r ardaloedd rhwng y cyrtiau tennis a'r cae chwarae. Byddai hyn yn cynnwys plannu coed ffrwythau bychain. Dylai unrhyw blannu anelu at gynnal llinellau gweld da ar draws y safle er mwyn cynnal ymdeimlad o ddiogelwch a gwyliadwriaeth naturiol. Dylai unrhyw blannu newydd hefyd ystyried cyfyngiadau lleol, gan gynnwys yr agosrwydd at yr Heneb Gofrestredig.

## NEW2 – Gwella cysylltiadau rhwng darnau presennol o goetir, gan gynnwys coetir hynafol

**6.47** Mae nifer o leiniau o goetir yn uniongyrchol i'r de ac i'r gorllewin o'r anheddiad, gan gynnwys ardaloedd o orchudd coed gerllaw Castell Trefdraeth. Dylid datblygu cynigion i adfer a chysylltu ardaloedd o goetir darniog drwy sefydlu ardaloedd ychwanegol o blannu coed. Dylai cynigion fabwysiadu egwyddorion 'y goeden gywir yn y lle cywir' er mwyn hyrwyddo integreiddio i’r dirwedd a sicrhau bod coridorau coetir newydd yn sefydlu'n llwyddiannus.

## NEW3 – Cyflwyno clustogfeydd coetir torlannol a chyfleoedd ymyl cae i liniaru llifogydd

**6.48** Tra bod mwyafrif y dref yn gorwedd allan o'r parth llifogydd o amgylch Afon Nyfer, effeithiodd digwyddiadau llifogydd yn 2014 ar ffyrdd ac eiddo ar bwys y Parrog. Dylid gosod mesurau fel plannu coed i fyny'r afon a chynyddu ymylon caeau ar hyd cyrsiau dŵr i ddarparu clustogfa o dir amaethyddol cyfagos, yn ogystal â diogelu rhag ymchwyddiadau llanw a lleihau erydiad y glannau. Mae'r mater hwn yn arbennig o bwysig i'r gogledd o'r aber lle mae ffiniau caeau amaethyddol yn llai trwm eu llystyfiant. Mae gan y prosiect y potensial i ymateb i nifer o faterion niweidiol posib sy'n effeithio ar fywyd morol, gan gynnwys gwaddodion a llwythi maetholion yn ymuno â'r amgylchedd. Gallai rhagor o wybodaeth gael ei defnyddio i addasu'r prosiect i dargedu meysydd sy'n peri pryder posib.

## NEW4 – Gwella llwybrau glan afon cylchol

**6.49** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

# NEW5 – Archwilio cysylltiadau teithio llesol â Thraeth Mawr Trefdraeth

**6.50** Ar hyn o bryd, mae llwybr cerdded rhwng Trefdraeth a Thraeth Mawr ar gael ar hyd Llwybr Arfordir Cymru. Ceir cyfle i uwchraddio'r llwybr hwn i'r gogledd o Afon Nyfer ar gyfer cerddwyr i annog ei ddefnyddio a lleihau tagfeydd traffig yn Nhrefdraeth ei hun. Dylid hefyd gosod arwyddion dynodi llwybrau sy'n hysbysebu amseroedd teithio bras i gerdded, er enghraifft, 30 munud o daith rhwng Clwb Cychod Trefdraeth a Thraeth Mawr.

# NEW6 – Cyflwyno plannu coed stryd ac ymylon ffordd ‘gwylltach’ ar Ffordd y Parrog

**6.51** Ar y cyfan, mae’r strydoedd yn Nhrefdraeth yn gul, yn aml heb fawr o le ar y palmant a phrinder cyfleoedd plannu coed stryd. Fodd bynnag, mae rhai ardaloedd preswyl ar hyd Ffordd y Parrog a Maes Ingli yn rhoi cyfleoedd da i blannu coed stryd, gosod lle parcio beiciau ac ymylon ffordd 'gwylltach' o fewn ardaloedd presennol o dirwedd feddal. Byddai plannu ffiniau ychwanegol ym Maes Parcio Cyhoeddus Ffordd y Parrog yn cynnwys plannu mewn ardaloedd glaswellt, yn ogystal â mân ad-drefnu’r cilfachau parcio er mwyn gwaredu llawr caled.

# NEW7 – Cyflwyno plannu ymyl ffordd ar raddfa fach ar y ddynesfa at Drefdraeth o’r A487

**6.52** Yr A487 yw'r prif lwybr o fewn y dref, gyda llwybrau teithio llesol yn cael eu cynnig ar hyd y dynesfeydd dwyreiniol a gorllewinol. Dylid ystyried plannu coed ac addasiadau i'r drefn torri gwair er mwyn hyrwyddo tyfiant blodau gwyllt ar yr ardaloedd lletach o ymyl ffordd ar y ddynesfa at Drefdraeth o'r gorllewin a'r

dwyrain (y tu hwnt i'r arwyddion 'Croeso i Drefdraeth'). Byddai'r ymyriad hwn yn diffinio'r porth i'r anheddiad.

## NEW8 – Amrywiaethu'r plannu yn y Gerddi Cymunedol

**6.53** Mae Gerddi Cymunedol Trefdraeth ar groesffordd Stryd yr Eglwys Fair a Stryd y Castell yn darparu ardal 'wylltach' brin yng nghanol y dref. Byddai cael gwared ar y planhigion addurnol yn yr ardal o balmant is a phlannu blodau a llwyni brodorol yn eu lle yn rhoi mwy o werth i beillwyr. Dylid llacio trefn dorri'r ardal laswelltog uchaf gyda'r fainc a hau blodau gwyllt i greu ystod o gynefinoedd peillwyr. Dylid osgoi defnyddio plaladdwyr neu chwynladdwyr.

## NEW9 – Cyflwyno cafnau blodau brodorol wrth safleoedd bws a mannau gorffwys

**6.54** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## NEW10 – Creu fflora daear coetir ar hyd hawl tramwy cyhoeddus Afon Nyfer

**6.55** Wrth gydweithio â Grŵp Llwybrau Trefdraeth a phrosiect CLEAN, cyflwyno gwelliannau i waith rheoli coetir ar hyd Llwybr Arfordir Cymru rhwng Pen-y-bont a'r Parrog. Cynnal ardaloedd agored ac amrywiaeth strwythurol, gan gynnwys daear foel a phentyrrau boncyffion, er mwyn i olau gyrraedd blodau gwyllt brodorol a fflora daear coetir. Dylid edrych ar gyfleoedd i reoli a chael gwared ar glymog Japan a phidyn-y-gog.

## NEW11 – Hyrwyddo llai o dorri gwair ym man agored Barwniaeth Cemaes

**6.56** Mae'r borfa ar yr ardal agored sy'n eiddo i Farwniaeth Cemaes wrth ymyl Clwb Cychod Trefdraeth yn cael ei thorri'n fyr yn aml. Byddai newidiadau mewn arferion rheoli tirwedd i hyrwyddo sefydlu dôl blodau gwyllt yn cynnal y swyddogaeth fel man cymunedol, gan ddarparu cynefin y mae mawr ei angen ar gyfer peillwyr. Dylid cyflwyno trefn debyg i reoli dolydd ar draws ardaloedd glaswellt mwynder eraill o fewn y dref (fel sy'n briodol).

## NEW12 – Sefydlu rhandir cymunedol i bobl a bywyd gwyllt

**6.57** Gweithio gyda'r gymuned i ystyried lleoliad posib ar gyfer rhandir cymunedol, gan ateb y galw am le tyfu cymunedol. Byddai cyflawni'r prosiect hwn yn llwyddiannus yn ddibynnol ar ganfod safle addas a chynnal asesiad ecolegol. Dylid annog tenantiaid lleiniau i ddefnyddio llai o blaladdwyr a chwynladdwyr, gan ddewis gweithio'n organig yn hytrach. Mae cynnal rhandir yn gyfle gwerthfawr i gadw cynefinoedd bywyd gwyllt ac annog adar, gwenyn a pheillwyr eraill. Dylid hefyd edrych ar gyfleoedd ychwanegol am byllau, ymylon caeau sy'n denu peillwyr a choed perllan.

## NEW13 – Hyrwyddo dad-ddofi gerddi preifat

**6.58** Datblygu menter gwe wyllt ar draws gerddi preifat Trefdraeth gan ganolbwyntio'n benodol ar berchnogion ail gartrefi i ddangos sut mae dad-ddofi'n gallu lleihau gwaith cynnal a chadw. Dylid dosbarthu taflenni i gartrefi yn Nhrefdraeth yn nodi camau syml y gall deiliaid eu cymryd i wella darpariaethau bywyd gwyllt yn eu gardd. Er enghraifft, dylid annog trigolion i lacio'r drefn torri gwair a chymryd rhan yn 'Dim Torri Gwair ym Mis Mai', gosod ardaloedd bach o

ddŵr, pentyrrau boncyffion a blychau bywyd gwyllt. Dylid hefyd estyn y fenter i safleoedd carafanau (fel sy'n briodol).

## NEW14 – Cyflwyno dynodi llwybrau i Dir Comin Carningli a Mynyddoedd y Preseli

**6.59** Gweithio mewn partneriaeth â Grŵp Llwybrau Trefdraeth, ymchwilio i gynigion i ddynodi llwybrau'n well i gefn gwlad ehangach o amgylch Trefdraeth (gan gynnwys i Dir Comin Carningli a Mynyddoedd y Preseli). Dylid ymgorffori byrddau dehongli, gan gynnwys deunydd addysgol a mapiau llwybrau hamdden cylchol, i wella profiad ymwelwyr.

## NEW15 – Cefnogi sefydlu gardd natur Ysgol Bro Ingli

**6.60** Gweithio gydag Ysgol Bro Ingli i nodi darnau o dir ar gyfer gwella cynefinoedd; gan gynnwys ardaloedd o lai o dorri gwair, pentyrrau boncyffion a gwestai pryfed. Pe bai digon o le yn cael ei nodi, dylid cyflwyno gardd natur synhwyraidd gyda chyfleoedd ar gyfer lle ystafell ddosbarth awyr agored, offer addysg natur, tyfu bwyd ar raddfa fach a chwarae synhwyraidd.

## NEW16 – Hyrwyddo Mynwent Brynhyfryd yn safle caru gwenyn

**6.61** Ar hyn o bryd, mae Mynwent Brynhyfryd yn cael ei chydnabod fel lleoliad Caru Gwenyn oherwydd gwaith partneriaid yn rheoli'r lleoliad cyfagos ar gyfer peillwyr. Dylid cefnogi'r gwaith hwn er mwyn helpu i gynnal yr achrediad hwn drwy reoli dolydd blodau gwyllt a chynyddu cynefin peillwyr (megis daear foel a phren marw). Dylid hefyd edrych ar gyfleoedd i efelychu'r arfer da hwn ym mynwent Eglwys y Santes Fair.

## NEW17 – Creu gwlyptir wrth ymyl Gorsaf Pwmpio Carthion Cwm

**6.62** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## NEW18 – Sefydlogi twyni a Thraeth Mawr Trefdraeth

**6.63** Mae cynllun rheoli traethlin cyfredol Traeth Mawrth a'r twyni cysylltiedig tan 2025 yn hyrwyddo egwyddor 'dal y llinell' gydag 'adliniad wedi'i reoli' wedi'i gynllunio erbyn 2050 gydag erydiad disgwyliedig tafod tywod Bennet. Ceir cyfle i gynnwys technegau sefydlogi twyni tywod, fel plannu rhywogaethau lled-naturiol i gyfyngu ar erydiad a rheoli llwybrau cerdded i atal erydiad y twyni. Mae gan y dull hwn y potensial i fod o fudd i fywyd gwyllt, darparu buddion twristiaeth a lleihau effeithiau o dywydd garw ar yr amgylchedd lleol.

## NEW19 – Cyflwyno ymyriadau Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) i helpu i liniaru arllwysiadau Gorlif Carthffos Gyfun

**6.64** Byddai ymyriadau Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) sy'n gweithredu i ddargyfeirio dŵr storm o Orlifoedd Carthffos Cyfun yn helpu i leihau'r pwysau ar seilwaith yn Nhrefdraeth adeg llifogydd. Byddai integreiddio ymyriadau SDC yn helpu i leihau cyfaint y dŵr wyneb sy'n cael ei sianelu'n uniongyrchol trwy rwydweithiau o bibellau. Ceir cyfle hefyd i gydweithio â Chyngor Tref Trefdraeth i archwilio lleoliadau ar gyfer ymyriadau SDC yn y treflun.

# Pennod 7
## Neyland

**Ffigur 7.1: Neyland**



## Portread o Seilwaith Gwyrdd Neyland

**7.1** Mae tref fach Neyland wrth ben dwyreiniol Aberdaugleddau, ger aber Afon Cleddau. Amgylchynir y dref gan gaeau amaethyddol wedi’u ffinio gan wrychoedd i'r gogledd a'r gorllewin, ond mae'n cadw rhywfaint o gymeriad diwydiannol oherwydd yn hanesyddol roedd yn derfynfa bwysig i longau a threnau. Mae Ardal Gadwraeth Neyland wedi'i chynnwys ar hyd yr ymyl ddeheuol ac o fewn rhannau canolog o'r dref, gyda llawer o adeiladau


rhestredig yn ymwneud â'r seilwaith rheilffyrdd sydd bellach wedi peidio. Mae patrymau stryd llinol, rheolaidd yn gyffredin ar draws eangderau deheuol y dref, sy'n adlewyrchu'r topograffi llethrog wrth i'r tir gwrdd â'r arfordir. Oddi yma, ceir golygfeydd ar hyd strydoedd ac o eiddo ar draws yr aber a thuag at y porthladd yn Noc Penfro sydd ar y lan ddeheuol. O fewn gogledd y dref, nodweddir patrwm y strydoedd gan ffurf faestrefol lacach.

**7.2** Mae Neyland yn agos at ddwy ddyfrffordd bwysig, sef aber Aberdaugleddau, ar hyd ymyl ddeheuol y dref, a Westfield Pill, sy'n ffurfio ffin ddwyreiniol y dref. Mae aber Aberdaugleddau yn rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Forol Sir Benfro, yn ogystal â Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Dyfrffordd y Ddau Gleddau, y mae ei ehangder dynodedig yn parhau i'r gogledd, ar hyd coridor nant Westfield Pill.

**7.3** Mae mannau agored o fewn Neyland yn fach ac yn brin eu nifer, gyda chaeau hamdden yn gysylltiedig â'r ysgol a meysydd athletaidd ym mhen gogleddol y dref a man hamdden bach ym Mharc Harbour Close. Daw Llwybr Arfordir Penfro, sef Llwybr Cenedlaethol a hyrwyddir, ar hyd ymyl ddeheuol y dref cyn parhau ar hyd aber Aberdaugleddau i'r dwyrain a'r gorllewin. Diffinnir ffin orllewinol y dref gan goridor nant ym Mro Neyland. Mae'r dyffryn coediog hwn megis coridor bywyd gwyllt pwysig sy’n cysylltu'r cefn gwlad ehangach ag Aberdaugleddau a'i ddynodiadau bywyd gwyllt cysylltiedig. Mae Westfield Pill yn nodi ffin ddwyreiniol y dref ac yn cynnwys Hafan Hwylio Neyland, sef marina ar gyfer cychod pleser. Yno mae’r glannau hefyd yn cynnal rhan o Lwybr Arfordir Penfro yn ogystal â dechrau  cysylltiad beicio Brunel oddi ar y ffordd sy'n cysylltu Neyland â Hwlffordd i'r gogledd. Ynghyd ag ardaloedd o goetir hynafol trwchus, mae Westfield Pill hefyd yn cynnwys Gwarchodfa Natur Westfield Pill y mae’n hysbys ei bod yn cynnal dyfrgwn, ystlumod ac amrywiaeth gyfoethog o infertebratau, ymlusgiaid, amffibiaid ac adar.

**7.4** Mae ychydig o Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cysylltu gogledd yr anheddiad â'r dirwedd ehangach gyda'r rhan fwyaf o rwydwaith y dref ar hyd y dyfrffyrdd ac i'r gorllewin o'r dref o fewn y dirwedd fugeiliol i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae llwybrau beicio sy'n ymledu oddi ar Lwybr Arfordir Penfro ac yn ymestyn i'r dwyrain a'r gorllewin ar hyd yr A477 i gynnig cysylltedd ehangach.

## Ffigur 7.2: Cyfleoedd SG yn Neyland




- NEY1 — Gwyrddu Cei Brunel ymhellach
- NEY2 — Gwella mynediad o'r glannau i Westfield Pill
- NEY3 — Gwella Parc Harbour Close
- NEY4 — Defnyddio atebion seiliedig ar natur i fynd i'r afael â materion ansawdd dŵr
- NEY5 — Cyflwyno plannu coed yn Hyb Cymunedol a Maes Athletau Neyland
- NEY6 — Gwella mynediad i'r man gwyrdd sy'n eiddo i'r cyngor y tu ôl i'r Maes Athletau
- NEY7 — Creu llwybr peillwyr ar hyd Llwybr Brunel
- NEY8 — Gwella'r cynefin a'r mynediad yn Nhir Comin Bro Neyland
- NEY9 — Ehangu nifer y gwelyau blodau brodorol
- NEY10 — Gwella gwerth bioamrywiaeth man gwyrdd Westfield Drive
- NEY11 — Cyflwyno dolydd blodau gwyllt a choed yn Honeyborough Green
- NEY12 — Creu ymylon blodau gwyllt ar hyd y Promenâd
- NEY13 — Gwyrddu'r Stryd Fawr ymhellach
- NEY14 — Hyrwyddo gwyrddu Riverside Avenue
- NEY15 — Darparu mynediad a gwelliannau bioamrywiaeth i fan gwyrdd Cambrian Road
- NEY16 — Cyflwyno plannu coed a gwyrddu stryd yn Ysgol Gymunedol Neyland
- NEY17 — Estyn Gwarchodfa Natur Westfield Pill

# Prosiectau Cicdanio

## NEY4 – Defnyddio atebion seiliedig ar natur i fynd i’r afael â materion ansawdd dŵr


**7.5** I'r dwyrain o anheddiad Neyland mae Gwarchodfa Natur Westfield Pill, sydd o bwysigrwydd cenedlaethol ar gyfer y casgliad o infertebratau ac adar gwyllt sy'n gaeafu. Darpara’r safle amrywiaeth o gynefinoedd pwysig, a hynny yn y llyn ac ar y tir o'i gwmpas. Mae hefyd yn draenio i Aberdaugleddau, sydd wedi'i ddynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Nodweddir y tir fferm cyfagos gan gyfres o lethrau serth, ac mae prosiectau blaenorol wedi nodi'r cyfle i weithredu newidiadau i ddulliau rheoli tir a fyddai o fudd i ansawdd dŵr, yn lleihau risg llifogydd ac yn lleihau risg siltio. Dylid targedu dalgylch cyfan Westfield Pill ar gyfer ymyriadau, gan ganolbwyntio'n benodol i ddechrau ar fferm sy'n eiddo i Gyngor Sir Penfro (CSP) i'r dwyrain o Neyland.

**7.6** Cynhaliwyd eisoes broses o fapio cyfleoedd gan ddefnyddio data synhwyro o bell, gan nodi ardaloedd lle gallai newidiadau yn y dulliau rheoli tir ddwyn buddion. Byddai cam casglu data cychwynnol ar draws dalgylch Westfield Pill yn darparu proses dilysu daearol leol o'r cyfleoedd hyn. Yna, gallai'r cam casglu data a mapio cyfleoedd hwn gael ei ddatblygu’n gyflym i gyflwyno ystod o newidiadau ac ymyriadau defnydd tir, a allai gynnwys;

- Creu lleiniau clustogi torlannol, gan leihau pori'n agos at gyrsiau dŵr;
- Ffurfioli ardaloedd dyfrio da byw, er mwyn codi ffensys ar hyd cyrsiau dŵr i'w hamddiffyn rhag erydiad glannau, sathru’r glannau ac effaith tail;
- Plannu coed / prysglwyni ar ymylon caeau a lleiniau cysgodi er mwyn cadw mwy o ddŵr; a

**7.7** Chreu argaeau naturiol o fewn cyrsiau dŵr bychain, gan arafu llif a chynyddu amrywiaeth cynefinoedd o fewn y dirwedd

### Ffigur 7.3: NEY4




## Buddion y prosiect

**7.8** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 7.4 isod, mae:

- Lleihau risg llifogydd
- Gwella ansawdd dŵr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Dal a storio carbon a lliniaru effeithiau newid hinsawdd

## Ffigur 7.4: Buddion




## Darparu atebion seiliedig ar natur a gwasanaethau ecosystemau

**7.9** Mae dulliau rheoli defnydd tir ers yr Ail Ryfel Byd wedi golygu mwy o ddraenio tir, mewn ymgyrch i sicrhau bod tir fferm mor effeithlon ag sy’n bosibl. Mae hyn wedi arwain at leihau amrywiaeth cynefinoedd, a cholli gwlyptiroedd, glaswelltir gwlyb a chynefinoedd daearol gwlyb cysylltiedig. Mae hefyd wedi cynyddu risg llifogydd, am ei fod yn cynyddu cyflymder a maint y dŵr sy'n llifo i lawr dalgylchoedd, gan leihau effaith glustogi'r dirwedd yn ystod glaw trwm a maith. Mae draeniad cynyddol priddoedd gwlyb hefyd yn cael effaith andwyol ar allu'r pridd hwnnw i ddal a storio carbon.

**7.10** Trwy ddefnyddio technegau megis clustogfeydd torlannol, plannu lleiniau cysgodi ac ymylon caeau, byddai gallu’r dirwedd i amsugno glawiad a chlustogi rhag glawiad a dŵr ffo wyneb yn cael ei gynyddu’n sylweddol. Byddai hyn yn cael effaith fuddiol gydredol ar risg llifogydd, ansawdd dŵr a dal a storio carbon, gan y byddai ail-wlychu priddoedd gwlyptir yn cynyddu eu gallu i amsugno a chloi carbon.

## Mecanweithiau cyflawni

**7.11** I ddechrau, cynigir y gellid targedu'r prosiect ar lefel leol, safle-benodol drwy gynnal arolwg i ddilysu daear presenoldeb a graddfa'r ardaloedd cyfle a nodwyd hyd yma gan ddefnyddio technegau synhwyro o bell. Gellid cynnal yr arolwg hwn gan wyddonwyr dinasyddion hyfforddedig addas, staff Cyngor Sir Penfro (CSP) neu gan ymgynghorydd arbenigol allanol. Pan fydd ardaloedd o gyfle allweddol wedi bod yn destun dilysu daearol ac wedi'u diffinio, byddai angen ymgysylltu â thirfeddianwyr a deiliaid / porwyr tir er mwyn cyflwyno'r cyfleoedd hyn a thrafod eu heffeithiau ar ddefnydd tir presennol. Gall hyn arwain at golli rhai cyfleoedd am resymau cyfyngiadau amaethyddol masnachol a ffisegol.

**7.12** Gallai'r ymyriadau a'r newidiadau ffisegol arfaethedig i ddulliau rheoli tir gael eu darparu gan y tirfeddianwyr eu hunain, neu gan gontractwyr amaethyddol allanol.

## Partneriaid posibl

- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
- Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru
- Fforwm Arfordirol Sir Benfro

## Cost amlinellol

### Cost isel = <£250k

**7.13** Rhagwelir y gall y prosiect hwn gostio degau o filoedd neu lai, yn ddibynnol ar ardal y dalgylch sydd wedi'i dargedu ar gyfer ymyriadau. Byddai'r costau'n cynnwys rhai ffioedd cyngor arbenigol / asiant tir cyfyngedig, costau ffensio a

phlannu coed a chostau posibl sy'n gysylltiedig â gosod cyfarpar dyfrio da byw amgen.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru sy'n dod i'r amlwg
- Coedwig Genedlaethol Cymru – Y Grant Buddsoddi mewn Coetir (Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol – Cylch 1)

## Amserlen

### Cam cyflym ymlaen = <1 flwyddyn

**7.14** Gellid darparu ymyriadau ffisegol o fewn un flwyddyn. Un peth anhysbys allweddol i'r prosiect fyddai'r amser a gymerir i gael cytundebau / caniatâd gan y tirfeddiannwr / deiliad / porwr.

## Cyfyngiadau posibl

**7.15** Un cyfyngiad allweddol ar gyfer y prosiect fyddai cytundebau tirfeddiannwr / deiliad tir / porwr, gan y gallai fod risg canfyddedig i hyfywedd fferm sy'n gysylltiedig â cholli rhywfaint o dir i ymylon torlannol / lleiniau cysgodi / plannu ymylon caeau ac ati. Gall hefyd fod gwrthwynebiad i newid cyrsiau dŵr o ran pryderon draenio tir. Dylid gwrthddadlau’r pryderon hyn ag argaeledd taliadau amaethyddol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, ac felly mae'r oedi cyn lansio Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn gyfyngiad posibl yn hyn o beth.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**7.16** Byddai angen cynnal a chadw'r gwaith meddal a’r gwlyptir yn rhan o'r cyfnod sefydlu 60 mis, gan gynnwys amnewid coed aflwyddiannus.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**7.17** Yn amodol ar argaeledd cyllid, dylid monitro llwyddiant y prosiect drwy wyddoniaeth dinasyddion syml, gyda chymorth addas. Gallai technegau gynnwys monitro ansawdd dŵr gan ddefnyddio offer llaw syml, neu osod mesurydd ffrwd syml i fonitro llif ffrwd, er enghraifft.

## Camau nesaf

**7.18** Diogelu cyllid cyfyngedig (£1k i £10k) i gynnal proses dilysu daearol synhwyro o bell ar draws y dalgylch, gan greu rhestr flaenoriaeth o feysydd ar gyfer ymyriad.

**7.19** Ymgysylltu â thirfeddianwyr / deiliaid / porwyr ac ymrwymo i gytundebau i ddarparu ymyriadau ar eu tir.

## Ffigur 7.5: Neyland



# NEY12 – Creu ymylon blodau gwyllt ar hyd y Promenâd

**7.20** Mae graddiant y clawdd glaswelltog sy'n ffinio â'r Promenâd yn rhy serth i ddarparu swyddogaeth hamdden, gan gynnwys y tir rhwng Church Lakes a Riverside Avenue. Byddai llacio'r drefn torri gwair bresennol yn annog tywarchen hirach a mwy amrywiol a fyddai'n darparu cynefin i amrywiaeth o rywogaethau, sef peillwyr. Er mwyn cynyddu amrywiaeth rhywogaethau, dylid hau hadau blodau gwyllt brodorol, neu osod tyweirch blodau gwyllt. Dylid hefyd ystyried defnyddio rhywogaethau blodau gwyllt sy'n goddef halen am fod yr arfordir mor agos. Byddai cynnwys cribell felen o fewn y gymysgedd rhywogaethau yn helpu i reoli sefydliad glaswelltau grymus. Yn y gwanwyn a'r

haf, byddai sefydlu dolydd blodau gwyllt hefyd yn gwella golwg y dref i'r rhai sy'n gadael neu'n cyrraedd drwy'r B4325.

**7.21** Mae arwyddion yn chwarae rhan bwysig wrth gyfleu i'r cyhoedd fuddion sefydlu dôl blodau gwyllt. Gall hyn helpu i oresgyn canfyddiadau o 'annibendod' drwy hybu ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd peillwyr.

**7.22** Ar y llethrau isaf, byddai’n briodol plannu coed ychwanegol ar raddfa fach. Fodd bynnag, dylid cadw golygfeydd ar draws Aberdaugleddau.

### Ffigur 7.6: NEY12




## Buddion y prosiect

**7.23** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 7.7 isod, mae:

- Buddsoddiad a gwell profiad i ymwelwyr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol

- Chwarae, addysg a rhyngweithio â natur
- Atgyfnerthu ymdeimlad o le
- Gwella iechyd a lles

**Ffigur 7.7: Buddion**




## Mecanweithiau cyflawni

**7.24** Dylid integreiddio toriadau blynyddol o ddolydd blodau gwyllt i raglen waith Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd Cyngor Sir Penfro.

**7.25** Dylid cyflenwi dolydd blodau gwyllt a'r berllan gymunedol yn unol ag adran gyflawni'r Strategaeth Peillwyr.

**7.26** Efallai y bydd gofyn lleihau ffrwythlondeb pridd er mwyn hyrwyddo sefydlu dolydd blodau gwyllt yn llwyddiannus. Gellid cyflawni hyn drwy dynnu'r 5-10 cm uchaf o bridd yn yr ardal lle byddai'r ddôl wlyb yn cael ei chreu. Yr hydref yw'r amser gorau posibl i hau hadau blodau gwyllt i ddarparu'r arddangosfa gynharaf o flodau gwyllt y flwyddyn ganlynol. Fodd bynnag, gellir plannu hadau blodau gwyllt drwy gydol y flwyddyn a byddent yn dechrau blodeuo ar ôl tua 60-80 diwrnod.

## Partneriaid posibl

- Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP
- Wardeniaid Coed Sir Benfro
- Cyngor Tref Neyland
- Partneriaeth Natur Sir Benfro
- Grŵp Dolydd Sir Benfro

## Cost amlinellol

Cost isel = <£250k

**7.27** Fel y'i disgrifiwyd yn adran gyflawni'r Strategaeth Peillwyr, gall dolydd blodau gwyllt mewn gwirionedd arbed arian drwy lai o dorri gwair. Gall buddsoddi mewn peiriant torri a chasglu hefyd helpu arbedion cyffredinol ar gostau llafur o gasglu toriadau. Mae cost hadau blodau gwyllt yn debygol o fod yn isel, ond byddai'r ffigur hwn yn uwch pe byddai planhigion plwg neu dyweirch blodau gwyllt yn cael eu defnyddio yn hytrach.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

## Amserlen

### Cam cyflym ymlaen = <1 flwyddyn

**7.28** Gan ddibynnu ar ffrwythlondeb pridd ac a ydy blodau gwyllt yn cael eu hau ar ôl yr Hydref, gall fod yn wir nad yw'r hadau'n blodeuo tan ar ôl eu tymor gaeaf cyntaf.

### Cyfyngiadau posibl

**7.29** Dylid ystyried sut i gasglu'r toriadau a'u gwaredu o'r ddôl flodau gwyllt er mwyn atal cyfoethogi'r pridd. Y ffordd fwyaf effeithlon o wneud hynny yw defnyddio peiriant torri a chasglu gwair ond mae angen buddsoddiad cyfalaf ar hyn.  Fel arall, dylid casglu sgil-gynhyrchion yn gyntaf yn rhesi sydd wedyn yn cael eu casglu'n bentyrrau unigol. Gall hyn fod yn llafurddwys.

**7.30** Gall fod canfyddiad bod dolydd blodau gwyllt yn anniben neu'n flêr, yn enwedig cyn ac ar ôl i flodau flodeuo. Gallai hynny arwain at gwynion gan y cyhoedd. Gall arwyddion i gyfleu buddion tyfu dolydd blodau gwyllt helpu i gynyddu dealltwriaeth ac addysg ynghylch pwysigrwydd peillwyr.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**7.31** Mae angen torri a chodi dôl blodau gwyllt ar ddiwedd y tymor. Fel arfer ym mis Medi y mae hyn yn digwydd. Yn ddelfrydol, dylid gadael y sgil-gynhyrchion am saith diwrnod i daflu hadau cyn cael eu gwared. Efallai y bydd angen torri a chodi eildro tua dechrau’r gwanwyn i gael gwared ar dyfiant y gaeaf. Mae angen gofal wrth dorri gwair oherwydd gall fod mamaliaid bychain, amffibiaid ac ymlusgiaid fod yn cuddio yn y glaswellt. Mae rhai adar yn nythu mewn dolydd mwy o faint, felly ni ddylid torri gwair tan ar ôl dechrau mis Awst. Dylid rheoli rhywogaethau trechol fel danadl poethion a dail tafol drwy bladurio neu hofio detholus.

**7.32** Dylid osgoi defnyddio gwrtaith, plaladdwyr a phryfleiddiaid.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**7.33** Dylai monitro gyd-fynd â chynlluniau cenedlaethol. Mae Cynllun Monitro Peillwyr y DU yn cynnal Cyfrifiadau Blodau-Pryfed wedi’u Hamseru (Cyfrifiadau FIT). Mae hyn yn golygu cyfrif y pryfed sy'n ymweld ag un o flodau targed y 14 rhywogaeth o flodau o fewn llain sgwâr 50cm wrth 50cm am 10 munud. Gellid annog trigolion ac ysgolion lleol i gymryd rhan yn hyn fel menter gwyddoniaeth dinasyddion. Fel arall, gellir cofnodi 'rhywogaethau dangosydd' planhigion o fewn sgwâr 1km i fonitro amrywiaeth rhywogaethau.

## Camau nesaf

**7.34** Adolygu adran gyflawni'r Strategaeth Peillwyr i benderfynu ar y broses ac adolygu astudiaethau achos yn ymwneud â chreu dolydd blodau gwyllt. Ymgysylltu â Thîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP i gyfleu'r drefn torri gwair arfaethedig.

**Ffigur 7.8: Neyland**




# NEY16 – Cyflwyno plannu coed a gwyrddu stryd yn Ysgol Gymunedol Neyland

**7.35** Mae Ysgol Gymunedol Neyland a Hyb Cymunedol / Maes Athletau Neyland wedi'u lleoli'n eithaf canolog yn yr anheddiad ac yn ffurfio'r ardaloedd mwyaf o fannau gwyrdd yn y cyd-destun trefol. Mae gan Neyland ganran dipyn yn is o orchudd canopi o'i gymharu ag aneddiadau eraill yn Sir Benfro, sef tua 9.7%. Byddai cyfleoedd plannu coed, yn enwedig o amgylch ymylon caeau, yn cynnig manteision lliniaru llifogydd ac yn helpu i greu coridor bywyd gwyllt sy'n cysylltu'r safle â'r coetiroedd hynafol i'r dwyrain. Byddai'r ymyriad hefyd yn anelu at ddarparu cysylltiadau ehangach â Gwarchodfa Natur Westfield Pill, gan wella amrywiaeth ecolegol.

**7.36** Mae'r prosiect yn galluogi amrywiaeth o fuddion addysgol y gellid eu cysylltu â'r cwricwlwm ac a allai ddarparu cyfleoedd ymarferol i ymgysylltu â myfyrwyr. Gallai plannu coed hefyd gynnwys datblygu cysyniad ehangach o Ysgol Goedwig gyda'r bwriad o ddatblygu cysylltiadau â'r byd naturiol.

### Ffigur 7.9: FIS8




## Buddion y prosiect

**7.37** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 7.10 isod, mae:

- Lleihau risg llifogydd
- Gwella ansawdd dŵr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Chwarae, addysg a rhyngweithio â natur

- Gwella ansawdd aer a rheoleiddio sŵn
- Rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant cymunedol
- Atgyfnerthu ymdeimlad o le
- Oeri trefol
- Gwella iechyd a lles
- Dal a storio carbon a lliniaru effeithiau newid hinsawdd

### Ffigur 7.10: Buddion




## Mecanweithiau cyflawni

**7.38** Dylid cefnogi Ysgol Gymunedol Neyland i gyflawni ac arwain y prosiect, a hynny efallai mewn cydweithrediad â Chyngor Tref Neyland. Os oes modd, gall fod yn fuddiol ymgysylltu â gweithiwr proffesiynol Ysgol Goedwig i gefnogi cyflwyno sesiynau ysgol a helpu i gael yr effaith fwyaf posibl o ran addysg amgylcheddol ehangach.

**7.39** Dylid sefydlu rhaglen blannu flynyddol er mwyn cynllunio, darparu a rheoli'n llwyddiannus y gwaith o blannu coed newydd dros y cyfnod sefydlu 60 mis. Mae angen digon o gynllunio cyn y tymor plannu gwreiddiau moel (mis

Hydref i fis Mawrth fan pellaf) i sicrhau bod archwiliadau daear / profion pridd yn cael eu cwblhau.

**7.40** Dylid darparu coed yn unol ag adran gyflawni'r Strategaeth Plannu Coed Trefol.

## Partneriaid posibl

- Ysgol Gymunedol Neyland
- Cyngor Tref Neyland
- Hyb Cymunedol Neyland
- Y gymuned Leol
- Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd Cyngor Sir Penfro (CSP)
- Wardeniaid Coed Sir Benfro

## Cost amlinellol

Cost isel = <£250k

**7.41** Byddai'r gost yn debygol o fod yn isel ond yn ddibynnol ar allu’r ysgol i reoli'r prosiect. Dylid ceisio cyfleoedd i nodi 'rhoddion coed am ddim' i ysgolion sy'n aml ar gael rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth (e.e. Coed Cadw a’r Cyngor Coed).

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Coed Cadw ('rhoddion coed am ddim')
- CSP
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

- Cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
- Y Cyngor Coed

## Amserlen

### Cam cyflym ymlaen = <1 flwyddyn

**7.42** Er mwyn rhoi cyfle i ymgysylltu â'r nifer mwyaf o fyfyrwyr, mae'n debygol y byddai'n fuddiol estyn gwaith plannu dros nifer o dymhorau. Gellid gwneud rhywfaint o blannu cychwynnol o fewn y flwyddyn gyntaf.

### Tymor canolig = 1-5 mlynedd

**7.43** Byddai angen i waith plannu, cynnal a monitro coed estyn dros y cyfnod sefydlu 60 mis.

## Cyfyngiadau posibl

**7.44** Byddai angen i leoliadau plannu ystyried swyddogaeth bresennol y safle, gan gynnwys chwaraeon a defnyddio'r cae chwarae.

**7.45** Byddai angen hefyd ystyried diogelwch a chynnal llinellau gweld i mewn ac allan o'r safle.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**7.46** Dylai adran gyflawni'r Strategaeth Plannu Coed Trefol hysbysu’r gwaith sefydlu a chynnal a chadw. Dylai gwaith cynnal a chadw parhaus gynnwys cyfraniad gan fyfyrwyr, gan ddarparu cyfranogiad ymarferol mewn cyfleoedd

dysgu parhaus. Efallai y bydd gofyn ymgysylltu â grwpiau cymunedol neu gontractwr i sicrhau bod dyfrio'n parhau drwy gydol gwyliau'r ysgol, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf ar gyfer y cyfnod sefydlu o 60 mis.

### Monitro ar gyfer llwyddiant

**7.47** Byddai mesurau ar gyfer llwyddiant yn cynnwys nifer y coed a blannwyd a nifer y myfyrwyr a'r grwpiau cymunedol sy'n cymryd rhan.

**7.48** Gallai sefydlu cynnig Ysgol Goedwig newydd neu well fod yn uchelgais tymor hir.

### Camau nesaf

**7.49** Dylai ymgysylltu cychwynnol ag Ysgol Gymunedol Neyland gynnwys datblygu cynllun prosiect, rhaglen amlinellol a chyfleoedd i gysylltu â'r cwricwlwm. Dylid hefyd nodi arweinydd prosiect o fewn yr ysgol sydd yn gallu goruchwylio'r gwaith ymarferol.

**7.50** Dylid ystyried y gymysgedd rhywogaethau fwyaf priodol, wedi'i llywio gan adran gyflawni'r Strategaeth Plannu Coed Trefol. Byddai dewis rhywogaethau brodorol yn debygol o fod yn flaenoriaeth er mwyn cryfhau a gwella cysylltedd ecolegol â'r darnau o goetir presennol.

## Rhestr Hir o Brosiectau

## NEY1 – Gwyrddu Cei Brunel ymhellach

**7.51** Dylid adennill lle o'r maes parcio ar gyfer mannau gwyrdd ychwanegol a dylent gynnwys coed, cafnau plannu uwch, lleoedd parcio beiciau, gorsafoedd

gwefru beiciau trydan a llogi beiciau trydan. Dylai'r lle ar ei newydd wedd gynnwys plannu coed sbesimen, plannu morydol, mannau eistedd, dehongli treftadaeth, offer chwarae naturiol, ardaloedd o reolaeth lac ar ddolydd a dynodi llwybrau’n well gyda Llwybr Brunel. Dylid plannu coed o amgylch ymyl y man gwyrdd i ddarparu ardaloedd o gysgod. Dylid plannu planhigion plwg, gan gynnwys cennin Pedr Dinbych-y-pysgod, o dan ganopi coed i greu ffynonellau bwyd ychwanegol ar gyfer peillwyr.

## NEY2 – Gwella mynediad o’r glannau i Westfield Pill

**7.52** Yn dilyn aliniad cledrau’r hen reilffordd, dylid eglurhau'r mynediad drwy unedau diwydiannol glan y cei, darparu marciau arwyneb a chyflwyno dehongli i gyfeirio pobl drwy'r lle. Gan ffurfio rhan o Lwybr Brunel ehangach, ceir cyfle i greu llwybr cydlynol o Gei Brunel. Gellid edrych hefyd ar lwybrau mynediad ychwanegol ar hyd Ffordd yr Orsaf. Dylid addasu'r drefn torri gwair a hau dôl blodau gwyllt ar hyd y llwybr hwn i wella’r gwerth esthetig a bioamrywiaeth.

## NEY3 – Gwella Parc Harbour Close

**7.53** Dynodi llwybrau’n well a gwella mynedfeydd i Barc Harbour Close o Victoria Close, Belle Vue Street a Church Way drwy agor llinellau gweld a chael gwared ar driniaethau ffiniau anghroesawgar. Gwella darpariaeth chwarae o fewn y safle drwy ddarparu llwybrau chwarae naturiol a byrddau addysg ynghyd â gwelliannau cynefinoedd a gwestai pryfed. Dylid ystyried hefyd sut mae mannau eistedd yn darparu ar gyfer merched yn eu harddegau, sef demograffeg a anghofir yn aml. Dylid cyflwyno gwrychoedd, llwyni bwytadwy a blodau gwyllt ar hyd ffin y parc.

## NEY4 – Defnyddio atebion seiliedig ar natur i fynd i’r afael â materion ansawdd dŵr

**7.54** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## NEY5 – Cyflwyno plannu coed yn Hyb Cymunedol a Maes Athletau Neyland

**7.55** Ystyried ail-blannu'r pedwar cafn plannu uwch wrth fynedfa Hyb Cymunedol Neyland. Dylid plannu coed brodorol yn y rhain a'u hategu drwy blannu rhagor o goed o fewn y llain laswellt i'r cefn. Dylid plannu coed ychwanegol hefyd ar hyd ffiniau'r caeau chwaraeon i ehangu a gwella'r rhwydwaith gwrychoedd presennol.

## NEY6 – Gwella mynediad i’r man gwyrdd sy’n eiddo i’r cyngor y tu ôl i’r Maes Athletau

**7.56** Ar hyn o bryd, cyfyngir ar fynediad at y tir sy’n eiddo i Gyngor Sir Penfro (CSP) y tu ôl i'r Maes Athletau. Dylid ystyried gwella'r mynediad a'r arwyddion o Hyb Cymunedol Neyland ac o ddyraniad presennol y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) i'r gogledd i ddarparu lle hamdden gwerthfawr i gymunedau cyfagos. Byddai cyflwyno coed ffrwythau a llacio'r drefn torri gwair yn cynnig gwelliannau ychwanegol ar gyfer bioamrywiaeth. Dylai'r cynllun gynnwys cyfeiriad at y llwybr cyd-ddefnyddio arfaethedig sy'n cysylltu Poppy Drive gyda Sportsway.

## NEY7 – Creu llwybr peillwyr ar hyd Llwybr Brunel

**7.57** Dylid cyflwyno planhigion plwg ar hyd ymylon y llwybr hwn gan gysylltu Neyland â Hwlffordd, gan sicrhau bod stribed torri gwair yn cael ei gynnal yn gyfochrog ag ymyl y llwybr. Mewn ardaloedd agored ehangach, dylid creu dolydd blodau gwyllt. Dylid hefyd plannu coed ffrwythau ar hyd y llwybr er mwyn creu coridor bwytadwy. Dylid tynnu a dileu rhywogaethau goresgynnol lle bo hynny'n bresennol. Dylai cynigion gyd-fynd â'r cynlluniau presennol i ddileu rhwystrau yn fodd o wella mynediad i bawb.

## NEY8 – Gwella’r cynefin a’r mynediad yn Nhir Comin Bro Neyland

**7.58** Dylid creu llennyrch a llwybrau meirch yn y coetir er mwyn annog fflora daear amrywiol. Creu llwybr mynediad ar gyfer crwydro drwy'r coetir. Dylid dynodi llwybrau i gysylltu datblygiad preswyl newydd yn Victoria Close gyda Bro Neyland. Mae’r llystyfiant o gwmpas perimedr y pwll wedi tyfu’n wyllt ac yn tynnu oddi wrth werth y pwll ar gyfer bioamrywiaeth. O ganlyniad, dylid torri coed aeddfed a phrysgwydd yn ôl i gynyddu golau ac annog llystyfiant dyfrol ymylol i ffynnu. Dylid hefyd gwaredu coed mêl a chlymog Japan goresgynnol.

## NEY9 – Ehangu nifer y gwelyau blodau brodorol

**7.59** Plannu gwelyau, borderi a photiau blodau sy'n denu peillwyr mewn llecynnau heulog cysgodol i ddarparu bwyd o ddechrau'r gwanwyn i'r gaeaf. Mae plannu blociau o'r un math o flodau yn arbed amser i beillwyr gan y gallant symud o’r naill flodyn i’r llall yn gyflymach. Dylid osgoi defnyddio cemegau niweidiol. Gall fod lleoliadau addas yn yr ardaloedd eistedd ger Windsor

Gardens, y Promenâd ac yng Nghei Brunel. Byddai hyn yn darparu cysylltedd ychwanegol â'r gwelyau blodau trawstiau ar Neyland Terrace a Railway Terrace.

## NEY10 – Gwella gwerth bioamrywiaeth man gwyrdd Westfield Drive

**7.60** Estyn y planhigion gwrych sy'n ffinio â'r A477 a llwybr cyd-ddefnyddio drwy blannu coed brodorol a phrysgwydd i ddarparu cymhlethdod strwythurol ychwanegol, lloches, bwyd, a safleoedd nythu. Dylid cyflwyno hefyd stribedi blodau gwyllt o amgylch yr ymylon i ddarparu neithdar i beillwyr.

## NEY11 – Cyflwyno dolydd blodau gwyllt a choed yn Honeyborough Green

**7.61** Mae Honeyborough Green wedi'i ddynodi'n dir comin a gellid ei wella ymhellach trwy blannu coed ychwanegol. Dylid darparu ar gyfer olyniaeth coed yn y dyfodol, gan gynnwys cynllunio ar gyfer ailblannu oherwydd clefyd coed ynn (Hymenoscyphus fraxineus). Byddai'r ymyriadau hyn yn darparu ardaloedd ychwanegol o oeri a chysgod ym misoedd yr haf. Gellid plannu blodau gwyllt mewn ardaloedd o'r maes i ddarparu cynefinoedd peillwyr cysylltiedig a gwella golwg y man gwyrdd. Dylai cynigion ategu cynigion llwybr cyd-ddefnyddio ehangach sy'n cysylltu'r A477 â Neyland.

## NEY12 – Creu ymylon blodau gwyllt ar hyd y Promenâd

**7.62** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## NEY13 – Gwyrddu’r Stryd Fawr ymhellach

**7.63** Cyflwyno coed stryd mewn nodau allweddol neu drwy ail-ffurfweddu mannau parcio presennol ar hyd y Stryd Fawr. Dylid datblygu cynigion ar y cyd â chynigion ehangach i weithredu llwybr cyd-ddefnyddio ar hyd y Stryd Fawr. Dylid hefyd annog busnesau a thrigolion lleol i osod blychau ffenestri gyda phlanhigion ffrydiol sy'n denu peillwyr lle bo hynny'n bosibl.

## NEY14 – Hyrwyddo gwyrddu Riverside Avenue

**7.64** Ceir cyfle i ymgorffori plannu coed o fewn y llain ganolog bresennol ar Riverside Avenue (os yw gwasanaethau'n caniatáu). Dylid dewis rhywogaethau brodorol lle bo modd. Dylid plannu coed hefyd a llacio’r drefn torri gwair ar y lleiniau ymyl ffordd glaswellt yn Riverside Avenue a Harbour Close.

## NEY15 – Darparu mynediad a gwelliannau bioamrywiaeth i fan gwyrdd Cambrian Road

**7.65** Ceir golygfeydd gwych o'r aber o Cambrian Road. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae llethr serth y man gwyrdd yn cyfyngu ar fynediad i gerddwyr. Gellid ychwanegu grisiau a llwybr pren ar oleddf ysgafn yn y lleoliad hwn i ddarparu mynediad o Farina Neyland i ganol y dref. Dylid llacio’r drefn torri gwair ar y llethrau serth a hau blodau gwyllt yno i greu dôl ddeniadol. Gellid hefyd ystyried plannu coed ychwanegol, gan sicrhau bod golygfeydd pell yn cael eu cadw.

## NEY16 – Cyflwyno plannu coed a gwyrddu stryd yn Ysgol Gymunedol Neyland

**7.66** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

# NEY17 – Estyn Gwarchodfa Natur Westfield Pill

**7.67** Gorwedda Gwarchodfa Natur Westfield Pill o fewn Parth Llifogydd 3, sydd gerllaw cwrs dŵr Westfield Pill a llyn sy'n llifo i Aber y Ddau Gleddau. Byddai estyn y safle hwn, yn enwedig ar hyd yr ymylon dwyreiniol amaethyddol, yn gweithredu fel storfa gorlifdir gan amddiffyn rhag ymchwyddiadau llanw a gwella amrywiaeth ecolegol yr ardal.

# Pennod 8

Penfro

**Ffigur 8.1: Penfro**



## Portread o Seilwaith Gwyrdd Penfro


**8.1** Mae tref hynafol Penfro yn cadw cymeriad hanesyddol i raddau helaeth o fewn ei chraidd dwys ei aneddiadau. Ar dafod o dir sy'n ymwthio allan i Afon Penfro a’r Pwll Melin, mae hen ganol y dref yn cael ei amlinellu gan sylfeini muriau canoloesol, sy'n gysylltiedig â Chastell Penfro sydd wedi'i ddynodi'n

Heneb Gofrestredig ac yn adeilad Rhestredig Gradd I. Ar hyd Main Street sy'n arwain at y castell mae nifer o adeiladau rhestredig, sy’n cyfrannu at y cymeriad hanesyddol cyffredinol.

**8.2** O ganlyniad yn rhannol i statws treftadaeth Penfro, mae'r dref wedi'i chysylltu'n dda â'r rhanbarth ehangach. Yn ogystal â gorsaf drenau, mae nifer o lwybrau cerdded a beicio hamdden sy'n ymledu o ganol y dref. Mae llwybrau cerdded a beicio ar hyd Afon Penfro yn cadw golygfeydd ardderchog o'r castell a chanol hanesyddol y dref, gan eu gwneud yn boblogaidd ymysg twristiaid. Mae Llwybr Cenedlaethol, sef Llwybr Arfordir Penfro, yn dilyn glannau Afon Penfro ac ar hyd ymyl gorllewinol y dref. Daw llwybr 4 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN) drwy ganol y dref hefyd. Fodd bynnag, mae rhai ardaloedd o'r dref, gan gynnwys y cymdogaethau deheuol a gogledd-ddwyreiniol, heb fynediad i'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus, yn enwedig lle mae'r rheilffordd yn rhwystro symudiad.

**8.3** Ceir nifer o fannau agored yn y dref sy’n bennaf yn cynnwys tiroedd hamdden neu fannau gwyrdd mwynder. Mae’r Tir Comin Uchaf a’r Tir Comin Isaf yn barciau cyhoeddus llinol ychydig i'r de o ganol y dref ac maent hefyd wedi'u cysylltu'n dda â'r rhwydwaith o lwybrau hamdden. Ceir nifer o fannau agored llai o faint i'r dwyrain a'r gorllewin o'r parciau hyn ac maent yn creu cyfleoedd i fywyd gwyllt symud ymhellach.

## Ffigur 8.2: Cyfleoedd SG ym Mhenfro




- PEM1 – Gwyrddu Main Street ac Ardal Rheoli Ansawdd Aer Penfro ymhellach
- PEM2 – Gwella bioamrywiaeth a rheoli llifogydd naturiol yn Nhir Comin Penfro
- PEM3 – Gwella bioamrywiaeth leol a chymeriad tirwedd y Maes Glas
- PEM4 – Cyflwyno perllan gymunedol yn Devon Drive
- PEM5 – Rheoli maetholion yn well yn y Pwll Melin
- PEM6 – Cynyddu dehongliad a dynodi llwybrau yn y Pwll Melin
- PEM7 – Gwella amrywiaeth cynefinoedd yng nghoedwig Holyland
- PEM8 – Cryfhau'r rhwydwaith coed stryd lleol
- PEM9 – Gwyrddu Maes Parcio Common Road ymhellach
- PEM10 – Hyrwyddo gwyrddu Gorsaf Penfro
- PEM11 – Gwella potensial bioamrywiaeth a diddordeb esthetig safleoedd amwynder lleol
- PEM12 – Rheoli cyrchfan ymwelwyr
- PEM13 – Gwella Tŵr Barnard
- PEM14 – Creu gardd bywyd gwyllt ac oriel
- PEM15 – Gwella addysg a dehongliad ym Mhwll Castell Penfro
- PEM16 – Gwella bioamrywiaeth wrth gyffordd South Road / St Daniel's Hill / yr A4139
- PEM17 – Creu gwlyptiroedd wrth ymyl Gwaith Trin Carthion Llandyfái
- PEM18 – Rheoli rhywogaethau goresgynnol wrth ymyl Pwll Melin Penfro ac Afon Penfro
- PEM19 – Gwella gwerth bioamrywiaeth Llwybr y Pwll Melin

# Prosiectau Cicdanio

## PEM2 – Gwella bioamrywiaeth a rheoli llifogydd naturiol yn Nhir Comin Penfro


**8.4** Nodweddir y tiroedd Comin Uchaf ac Isaf gan fan agored llinol tuag 850m o hyd, a ddiffinnir yn bennaf gan fan gwyrdd amlswyddogaethol wedi'i rannu’n ddau gan nant. Gan fod y safle o fewn parth llifogydd, ceir cyfle i ad-drefnu rhai rhannau o sianel yr afon o fewn y Tir Comin Uchaf i greu gwalau gwlyptir ac ardaloedd cadw llifogydd. Mae gwalau’n cynnal amrywiaeth o fywyd gwyllt dyfrol, yn enwedig planhigion gwlyptir a phryfed fel chwilod dŵr, gweision y neidr a phryfed hofran sy'n peillio. Dylid hefyd ystyried cyflwyno isdyfiant prysg i wella bioamrywiaeth, gan sicrhau cadw llinellau gweld ar yr un pryd. Mae angen clirio cegid (Conium maculatum) hefyd ar hyd yr afon i hyrwyddo sefydlu fflora dyfrol a chaniatáu i ddŵr lifo'n effeithlon yn ystod digwyddiadau llifogydd.

**8.5** Mae cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi cefnogi sefydlu dolydd blodau gwyllt yn y Tiroedd Comin Uchaf ac Isaf. Mae'r cynefinoedd hyn wedi gwella'r ymylon a'r llwybrau drwy'r mannau gwyrdd yn sylweddol. Byddai estyn yr ymyriad hwn i greu dolydd gwlyb yn y Tir Comin Isaf yn helpu i greu ardal fawr o gynefin peillwyr parhaus ac yn helpu i gadw dŵr ar y safle.

**8.6** Dylid creu perllan gymunedol hefyd o fewn ymyl ddeheuol y Tir Comin Isaf, wedi'i gosod o fewn glaswelltir sy’n llawn rhywogaethau. Mae blodau afalau bwyta, afalau coginio ac afalau bach surion rhwng diwedd mis Ebrill a mis Mai yn darparu ffynhonnell fforio gynnar y mae mawr ei hangen ar gyfer gwenyn mêl, cacwn, gwenyn unig a phryfed hofran. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, byddai glöynnod byw (gan gynnwys mentyll cochion ac ieir bach tramor) yn bwydo ar suddion ffrwythau goraeddfed sydd wedi disgyn. Caiff afalau eu himpio fel arfer ar wreiddgyff sy'n pennu pa mor dal maen nhw'n tyfu a pha mor gyflym maen nhw'n dwyn ffrwyth. Gall tyfu mathau lleol hefyd helpu busnesau lleol i hyrwyddo eu cynnyrch.

**8.7** Er mwyn gwella mynediad ac apêl weledol, dylid ail-baentio rheiliau perimedr, ac adfer neu ddisodli pontydd adfeiliedig. Dylai gwaith arfaethedig ategu cynigion i uwchraddio'r rhwydwaith presennol o droedffyrdd i lwybrau cyd-ddefnyddio yn rhan o gyllid Llwybrau Diogel mewn Cymunedau.

### Ffigur 8.3: PEM2




## Buddion y prosiect

**8.8** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 8.4 isod, mae:

- Lleihau risg llifogydd
- Gwella ansawdd dŵr
- Buddsoddiad a gwell profiad i ymwelwyr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Chwarae, addysg a rhyngweithio â natur
- Gwella ansawdd aer a rheoleiddio sŵn
- Rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant cymunedol

- Atgyfnerthu ymdeimlad o le
- Gwella iechyd a lles
- Dal a storio carbon a lliniaru effeithiau newid hinsawdd

### Ffigur 8.4: Buddion




## Mecanweithiau cyflawni

**8.9** Dylid cyflenwi dolydd blodau gwyllt a'r berllan gymunedol yn unol ag adran gyflawni’r Strategaeth Peillwyr.

**8.10** Lle bo’n ymarferol, dylid integreiddio’r cyflenwi yn rhaglen waith Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd Cyngor Sir Penfro (CSP). Efallai y bydd contractwyr a / neu beiriannau ychwanegol yn ofynnol i greu'r gwalau gwlyptir a'r ardaloedd cadw llifogydd, ac i ailosod y pontydd adfeiliedig.

**8.11** Er mwyn osgoi tyfiant glaswellt grymus, efallai y bydd gofyn lleihau ffrwythlondeb pridd drwy dynnu'r 5-10 cm uchaf o bridd yn yr ardal lle mae'r ddôl wlyb yn cael ei chreu. Yr hydref yw'r amser gorau posibl i hau hadau blodau gwyllt i sicrhau'r arddangosiad cynharaf o flodau gwyllt y flwyddyn ganlynol. Fodd bynnag, gellir plannu hadau blodau gwyllt drwy gydol y flwyddyn a byddant yn dechrau blodeuo ar ôl tua 60-80 diwrnod.

## Partneriaid posibl

- Cyngor Tref Penfro
- Partneriaeth Natur Leol Sir Benfro
- Busnesau lleol
- Cwmni Buddiannau Cymunedol 21C Penfro

## Cost amlinellol

### Cost isel = <£250k

**8.12** Yn y gorffennol, amcangyfrifwyd mai £45k oedd cost paentio'r rheiliau a’r croesfannau pont newydd. Mae cost hadau blodau gwyllt yn debygol o fod yn isel, ond byddai'r ffigur hwn yn uwch pe byddai planhigion plwg neu dyweirch blodau gwyllt yn cael eu defnyddio.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur;
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol; a
- Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau

## Amserlen

### Tymor canolig (1-5 mlynedd)

**8.13** Gan ddibynnu ar ffrwythlondeb pridd ac a ydy blodau gwyllt yn cael eu hau ar ôl yr Hydref, gall fod yn wir nad yw'r hadau'n blodeuo tan ar ôl eu tymor gaeaf cyntaf. Yn yr un modd, gall gymryd nifer o flynyddoedd i goed afalau aeddfedu a

dwyn ffrwyth gan y byddai hyn yn ddibynnol ar y math o goeden afalau sy'n cael ei phlannu, amodau'r pridd a maint y stoc.

## Cyfyngiadau posibl

**8.14** Byddai sefydlu llystyfiant dyfrol ymylol a chreu ardaloedd cadw llifogydd yn bwysig i lwyddiant y ddôl oherwydd, fel arall, gallai cyfoethogi maethol yn ystod digwyddiadau llifogydd atal y ddôl rhag sefydlu.

**8.15** Efallai y bydd cefnogaeth busnesau neu'r gymuned leol yn ofynnol i sicrhau rheolaeth hirdymor ar y perllannau. Efallai y bydd angen dod i gytundebau ar gyfrifoldebau iechyd a diogelwch a buddiolwyr y ffrwyth sy'n tyfu. Mae perygl hefyd y gallai'r coed ffrwythau gael eu difrodi yn sgil ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**8.16** Planhigyn gwenwynig yw cegid. Gall torri neu ladd planhigion cegid achosi ail-egino ac allyrru mygdarthau gwenwynig os ydynt eisoes wedi aeddfedu. Mae angen gwaredu'r prif wreiddyn i gyd i atal y planhigyn rhag aildyfu.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**8.17** Efallai y bydd angen gwaith torri gwair sylfaenol, rheoli llystyfiant a chynnal a chadw cyffredinol ar yr ardal gadw. Yn ogystal, efallai y bydd angen trwsio erydiad ar ôl digwyddiad llifogydd. Byddai angen clirio llystyfiant sydd wedi tyfu'n wyllt neu sy'n hongian ar hyd y nant bob hyn a hyn hefyd. Byddai angen torri ardaloedd o ddôl wlyb ar ddiwedd y tymor blodeuo, gan adael y sgil-gynhyrchion yn eu lle am saith diwrnod er mwyn caniatáu i'r hadau ollwng.

**8.18** Dylid ymgysylltu â'r gymuned leol i fod yn stiwardiaid y berllan. Byddai angen gwaith tocio cynnal a chadw er mwyn cadw'r cydbwysedd rhwng cynhyrchu ffrwythau a thyfiant llystyfiant.

**8.19** Byddai gofyn i'r rheolwyr atal chwyn rhag cystadlu â choed a dôl sydd newydd eu plannu am ddŵr a maetholion.

**8.20** Dylid trefnu gwaith ar y nant yn ystod diwedd yr hydref a'r gaeaf pan fydd y rhan fwyaf o’r ffawna dyfrol yn gaeafu a / neu'n llai gweithgar drwy'r golofn ddŵr.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**8.21** Os bydd yn llwyddiannus, dylai'r prosiect ddarparu perllan draddodiadol wedi'i rheoli'n dda gydag amrywiaeth o hen goed a choed ifanc iach. Mae hyn yn cynnwys mosaig gwlyptir-glaswelltir sefydledig sy’n ferw o infertebratau, adar a blodau gwyllt. Dylid cynnal arolygon cyfoeth rhywogaethau i fonitro llwyddiant.

## Camau nesaf

**8.22** Adolygu adran gyflawni'r Strategaeth Peillwyr i benderfynu ar y broses ac adolygu astudiaethau achos o greu dolydd blodau gwyllt a pherllannau cymunedol. Adolygu adran gyflawni'r Strategaethau Plannu Coed Trefol i ddeall y cydrannau allweddol ar gyfer sefydlu coed yn llwyddiannus.

**8.23** Ymgysylltu ag aelodau'r cyngor, trigolion a grwpiau cymunedol i ganfod pwy fyddai â chyfrifoldeb cyffredinol am y berllan yn y Tir Comin Isaf.

## Ffigur 8.5: Penfro



# PEM3 – Gwella bioamrywiaeth leol a chymeriad tirwedd y Maes Glas

**8.24** Mae'r Maes Glas yn ffurfio darn siâp cilgant o fan gwyrdd mwynder wedi'i ffinio gan erddi cefn St Ann's Crescent a Golden Hill Road. Ar hyn o bryd, nodweddir y lle gan ystod fawr o laswellt a dorrir yn fyr gydag offer chwarae metel, a golwg flinedig ar rai ohonynt. Yn y rhyngwyneb rhwng y gerddi cefn a’r Maes Glas, y prif nodweddion yw llwyni wedi tyfu’n wyllt, mieri a waliau brisbloc noeth. Mae nifer o fonion coed o fewn y ffin hon, sy’n darparu nodwedd bwysig o ran cynefinoedd i infertebratau. Mae rhai bylbiau wedi’u plannu eisoes, gan gynnwys cennin Pedr, hefyd ar hyd y ffin. Er nad oes talcenni preswyl gweithredol yn wynebu'r lle, mae'r Maes Glas yn mwynhau gwyliadwriaeth

naturiol gymharol o ffenestri ail lawr cyfagos a Golden Hill Road, sydd hefyd yn llwybr bws.

**8.25** Dylai'r prosiect hwn weithio gyda thrigolion lleol i gyd-greu man newydd sy'n groesawgar ac yn hygyrch i bawb. Gallai hyn ymgorffori amrywiaeth o blannu coed megis perllannau, coed sbesimen, coedlannau bychain a rhai coed ffin ar hyd y ffordd (gan sicrhau bod gwyliadwriaeth naturiol o'r ffordd a'r tai cyfagos yn cael ei chynnal). Dylid cael offer chwarae naturiol, gan gynnwys clogfeini dringo, cerrig sarn a boncyffion cydbwyso, yn lle’r offer chwarae adfeiliedig. Gellid gosod setiau siglenni cymdeithasol, mannau perfformio, bariau dringo a seddi anffurfiol i greu lle mwy croesawgar ar gyfer demograffeg a anghofir yn aml, fel merched yn eu harddegau. Byddai ychwanegu ystodau o flodau gwyllt o amgylch ffiniau'r lle yn lleihau risg sathru, gan hefyd greu ardaloedd tawelach i bobl eistedd, mwynhau a rhyngweithio â byd natur, yn ogystal â darparu ar gyfer nodweddion cynefin ychwanegol fel pentyrrau boncyffion a gwestai pryfed.

**Ffigur 8.6: PEM3**




## Buddion y prosiect

**8.26** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 8.7 isod, mae:

- Lleihau risg llifogydd
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Chwarae, addysg a rhyngweithio â natur
- Rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant cymunedol
- Atgyfnerthu ymdeimlad o le
- Gwella iechyd a lles

**Ffigur 8.7: Buddion**




## Mecanweithiau cyflawni

**8.27** Mae'n hanfodol dylunio a chyflawni'r prosiect hwn ar y cyd â'r gymuned er mwyn sicrhau hirhoedledd a stiwardiaeth y lle.

**8.28** Mae dolydd blodau gwyllt yn lleihau mewnbynnau adnoddau yn sylweddol yn ystod y tymor tyfu. Fodd bynnag, dylid integreiddio toriadau blynyddol y ddôl i raglen waith Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd Cyngor Sir Penfro (CSP).

**8.29** Dylid darparu cynefin peillwyr yn unol ag adran gyflawni'r Strategaeth Peillwyr.

**8.30** Gall fod yn heriol a drud cyflenwi cynlluniau plannu coed llwyddiannus oherwydd yr amser y mae'n ei gymryd i goed aeddfedu a chost prynu stoc sefydledig. Mae dyluniad pyllau coed, y dyfnder a'r pridd a ddefnyddir a'r dyfrio a'r gwaith cynnal a chadw parhaus yn hanfodol wrth sicrhau sefydliad llwyddiannus ac felly dylid eu gwneud yn unol ag adran gyflawni'r Strategaeth Plannu Coed Trefol.

## Partneriaid posibl

- Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP
- Preswylwyr lleol
- Wardeniaid Coed Sir Benfro
- Partneriaeth Natur Sir Benfro
- Cyngor Tref Penfro

## Cost amlinellol

### Cost isel = <£250k

**8.31** Byddai cost hadau blodau gwyllt yn is, ond byddai hyn yn cynyddu os dewisir planhigion plwg neu dyweirch blodau gwyllt i greu effaith fwy sydyn. Byddai pris coed newydd yn dibynnu ar eu maint adeg eu prynu ac ar y rhywogaeth. Byddai'r buddsoddiad cyfalaf mwyaf ar gyfer y prosiect hwn yn ymwneud â gosod offer chwarae newydd. Dylid blaenoriaethu darparu nifer lai o ddarnau pwrpasol, gwydn a deniadol dros gyflenwi nifer fwy o ddarnau rhatach o offer.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

## Amserlen

### Tymor canolig = 1-5 mlynedd

**8.32** Gan ddibynnu ar ffrwythlondeb y pridd ac a ydy blodau gwyllt yn cael eu hau ar ôl yr Hydref, efallai na fydd yr hadau'n blodeuo tan ar ôl eu tymor gaeaf cyntaf. Yn yr un modd, gall gymryd nifer o flynyddoedd i goed ffrwythau aeddfedu a dwyn ffrwyth, gan ddibynnu ar y math o goeden sydd wedi'i phlannu, amodau'r pridd ac a yw eginblanhigion neu goed tal yn cael eu plannu.

**8.33** O ystyried yr agweddau amrywiol ar y prosiect a'r angen i ymgysylltu'n helaeth â'r gymuned, gall y gwaith ddigwydd fesul dipyn dros nifer o flynyddoedd.

## Cyfyngiadau posibl

**8.34** Byddai angen ymgysylltu â'r gymuned a chael cefnogaeth gymunedol i'r cynigion ar gyfer stiwardiaeth hirdymor y safle.

**8.35** Efallai y bydd cefnogaeth busnesau neu'r gymuned leol yn ofynnol i sicrhau rheolaeth hirdymor ar unrhyw goed perllan. Efallai y bydd angen dod i gytundebau ar gyfrifoldebau iechyd a diogelwch a buddiolwyr y ffrwyth sy'n tyfu. Mae perygl hefyd y gallai'r coed ffrwythau gael eu difrodi yn sgil ymddygiad gwrthgymdeithasol.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**8.36** Gallai'r lle fod yn ased a reolir yn y gymuned i raddau helaeth gyda rhywfaint o fewnbwn gan Dîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP pan fydd angen peiriannau neu fewnbwn garddwriaethol. Mae stiwardiaeth gymunedol yn arbennig o bwysig drwy gydol y blynyddoedd sefydlu cychwynnol

(60 mis) i sicrhau bod coed yn cael eu dyfrio’n ddigon aml yn ystod cyfnodau sych a bod polion yn cael eu llacio pan fydd angen.

**8.37** Dylid ymgysylltu â'r gymuned leol i fod yn stiwardiaid y berllan. Byddai angen gwaith tocio cynnal a chadw er mwyn cadw'r cydbwysedd rhwng cynhyrchu ffrwythau a thyfiant llystyfiant.

**8.38** Byddai gofyn i'r rheolwyr atal chwyn rhag cystadlu â choed a phlanhigion dôl sydd newydd eu plannu am ddŵr a maetholion.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**8.39** Gall cyfradd oroesi planhigion ac ardaloedd newydd o gynefinoedd y ddôl a sefydlwyd fod yn ddangosyddion i fonitro llwyddiant. Gellid trefnu BioBlitz cymunedol blynyddol i gofnodi'r amrywiaeth o fywyd o fewn ardaloedd o'r ddôl, sefydliad llystyfiant a nodweddion eraill ar y cynefin. Gall ymgysylltu â phrosiectau gwyddoniaeth dinasyddion fel Cynllun Monitro Peillwyr y DU neu drefnu BioBlitz cymunedol blynyddol mewn mannau gwyrdd penodol helpu i gynnwys cymunedau lleol wrth fonitro ymdrechion. Gellid gwneud hyn hefyd mewn partneriaeth ag ysgolion lleol.

## Camau nesaf

**8.40** Ymgynghori â Thîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP;

**8.41** Ymgynghori â thrigolion lleol i benderfynu beth maen nhw am ei gyflawni o'r lle a sicrhau bod proses o gyd-greu yn cael ei mabwysiadu; ac

**8.42** Adolygu adrannau cyflawni'r Strategaeth Peillwyr a’r Strategaeth Plannu Coed Trefol i adolygu opsiynau ar gyfer gwella gwerth bioamrywiaeth mannau gwyrdd.

**Ffigur 8.8: Penfro**



# PEM5 – Rheoli maetholion yn well yn y Pwll Melin

**8.43** Mae maetholion ffo a chroniad gwaddodion i’r Pwll Melin wedi arwain at broblemau gyda thyfiant algaidd. Defnyddir ardaloedd sylweddol o dir amaethyddol yn nalgylch Afon Penfro (sy'n bwydo'r pwll) ar gyfer cynhyrchu cnydau âr, gyda chyfnodau o bridd wedi’i aredig yn foel bob blwyddyn, a’r gwrtaith cysylltiedig a daenir. Gall dalgylch trefol uniongyrchol Penfro hefyd gyfrannu maetholion a gwaddodion drwy ryddhau dŵr storm, gyda Dŵr Cymru yn crybwyll pum Gorlif Storm Cyfun yn rhyddhau o amgylch ardal y Pwll Melin. Mae gwaith carthion Dŵr Cymru yn Llandyfái hefyd yn rhyddhau i Afon Penfro.

**8.44** Dylid mynd i'r afael â'r mater hwn ar ddau drac dwbl.

## Atebion seiliedig ar natur

**8.45** Dylid defnyddio'r rhain i fynd i'r afael ag achosion amaethyddol sylfaenol. Mae prosiectau blaenorol wedi nodi bod rhannau o dir lle mae cyfleoedd i weithredu newidiadau i ddulliau rheoli tir a fyddai o fudd i ansawdd dŵr, yn lleihau risg llifogydd ac yn lleihau risg siltio Afon Penfro ac felly'r Pwll Melin. Dylid targedu dalgylch cyfan y Pwll Melin ar gyfer ymyriadau, gan ganolbwyntio'n benodol i ddechrau ar ffermydd sy'n eiddo i Gyngor Sir Penfro (CSP) i'r dwyrain o Benfro, gan gynnwys rhwng Llandyfái ac Alleston Wood.

**8.46** Cynhaliwyd eisoes broses o fapio cyfleoedd gan ddefnyddio data synhwyro o bell, ac mae hyn wedi nodi ardaloedd lle gallai newidiadau rheoli tir ddwyn buddion. Byddai cam casglu data cychwynnol ar draws dalgylch Afon Penfro a'r Pwll Melin yn darparu dilysu daearol ar raddfa leol o ran y cyfleoedd hyn, ac yn nodi ardaloedd lle gallai ymyriadau sicrhau budd.  Yna, gallai'r cam casglu data a mapio cyfleoedd hwn gael ei ddatblygu'n gyflym i gyflenwi ystod o newidiadau ac ymyriadau defnydd tir, a allai gynnwys;

- Creu lleiniau clustogi torlannol, gan leihau pori'n agos at gyrsiau dŵr;
- Ffurfioli ardaloedd dyfrio da byw, gan alluogi codi ffensys ar hyd cwrs dŵr i'w hamddiffyn rhag erydu'r glannau, sathru'r glannau ac effaith tail;
- Plannu ymylon caeau a lleiniau cysgodi â choed / prysglwyni er mwyn cadw mwy o ddŵr o fewn coed a phrysglwyni a blannwyd;
- Creu argaeau naturiol o fewn cyrsiau dŵr bychain, arafu llif a chynyddu amrywiaeth y cynefinoedd o fewn y dirwedd; a
- Gweithredu cynllun rheoli ar gyfer ardaloedd o welyau cyrs yn y Pwll Melin.

## Mewnbwn carthion budr a dŵr ffo trefol

**8.47** Yr ail agwedd ar y prosiect yw gweithio gyda Dŵr Cymru i ymchwilio i'r graddau y mae dŵr storm, gorlifoedd storm cyfun a gwaith carthion Llandyfái yn

cyfrannu at gyfoethogi maethol yn y Pwll Melin a darparu gwaith gwella seilwaith i leddfu'r effaith hon.

### Ffigur 8.9: PEM5



## Buddion y prosiect

**8.48** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 8.10 isod, mae:

- Lleihau risg llifogydd
- Gwella ansawdd dŵr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Dal a storio carbon a lliniaru effeithiau newid hinsawdd

### Ffigur 8.10: Buddion




## Darparu atebion seiliedig ar natur a gwasanaethau ecosystemau

**8.49** Mae rheoli defnydd tir ers yr Ail Ryfel Byd wedi golygu mwy o ddraenio'r tir, mewn ymgyrch i sicrhau bod tir fferm mor effeithlon ag sy’n bosibl. Mae hyn wedi arwain at leihau amrywiaeth cynefinoedd, a cholli gwlyptiroedd, glaswelltir gwlyb a chynefinoedd daearol gwlyb cysylltiedig. Mae hefyd wedi cynyddu risg llifogydd, am ei fod yn cynyddu cyflymder a maint y dŵr sy'n llifo i lawr dalgylchoedd, gan leihau effaith glustogi'r dirwedd yn ystod glaw trwm a maith. Mae draeniad cynyddol priddoedd gwlyb hefyd yn cael effaith andwyol ar allu'r pridd i ddal a storio carbon.

**8.50** Trwy ddefnyddio technegau megis lleiniau clustogi torlannol, lleihau erydiad a photsian y glannau, plannu lleiniau cysgodi ac ymylon caeau a chreu argaeau naturiol o fewn cyrsiau dŵr bychain, gellir cynyddu’n sylweddol allu'r dirwedd i amsugno glawiad a chlustogi rhag glawiad. Byddai hyn yn cael effaith fuddiol gydredol ar risg llifogydd, ar ansawdd dŵr ac ar ddal a storio carbon, gan y byddai ail-wlychu priddoedd gwlyptir yn cynyddu eu gallu i amsugno a chloi carbon.

**8.51** Mae effaith cyfoethogi maethol gan orlifoedd storm cyfun a gollyngfeydd gwaith trin carthion yn niweidiol i gynefinoedd a rhywogaethau, ac mewn

achosion eithafol gallant arwain at farwolaeth yr ecosystem. Byddai mynd i'r afael â'r effaith hon felly yn fuddiol i fioamrywiaeth, gwytnwch yr ecosystem a gallu'r ecosystem i fod yn ddalfa net ar gyfer carbon.

## Mecanweithiau cyflawni

### Atebion seiliedig ar natur

**8.52** I ddechrau, cynigir y byddai'r prosiect yn cael ei dargedu ar lefel leol, safle-benodol drwy gynnal arolwg i ddilysu’n ddaearol bresenoldeb a maint yr ardaloedd cyfle a nodwyd hyd yma gan ddefnyddio technegau synhwyro o bell. Dylai'r arolwg hwn gael ei gynnal gan wyddonwyr dinasyddion sydd wedi'u hyfforddi'n addas, staff Cyngor Sir Penfro (CSP) neu ymgynghorydd arbenigol allanol. Pan fydd ardaloedd o gyfle allweddol wedi bod yn destun dilysu daearol ac wedi’u diffinio, byddai angen ymgysylltu â thirfeddianwyr a deiliaid / porwyr tir er mwyn cyflwyno'r cyfleoedd hyn a thrafod eu heffeithiau ar ddefnydd tir presennol. Gall hyn arwain at golli rhai cyfleoedd am resymau cyfyngiadau amaethyddol masnachol a ffisegol.

**8.53** Gallai'r ymyriadau a'r newidiadau ffisegol arfaethedig i ddulliau rheoli tir gael eu darparu gan y tirfeddianwyr eu hunain, neu gan gontractwyr amaethyddol allanol.

### Mewnbwn carthion budr a dŵr ffo trefol

**8.54** O ran cyflwyno gwelliannau ar yr agwedd hon byddai angen cydweithrediad a chyfranogiad Dŵr Cymru. Mae angen partneriaeth strategol rhwng CSP a Dŵr Cymru i ymchwilio i’r sefyllfa yn y dalgylch, ei hasesu a’i gwella.

## Partneriaid posibl

- Dŵr Cymru
- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
- CSP
- Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru
- Cyngor Tref Penfro

## Cost amlinellol

### Atebion seiliedig ar natur

### Cost isel = <£250k

**8.55** Rhagwelir y gall y prosiect hwn gostio degau o filoedd o bunnoedd neu lai, yn ddibynnol ar ardal y dalgylch sydd wedi'i dargedu ar gyfer ymyriadau. Byddai'r costau'n cynnwys rhai ffioedd cyngor arbenigol ac asiantau tir cyfyngedig, ffensio, costau plannu coed ac o bosibl costau sy'n gysylltiedig â gosod cyfarpar dyfrio da byw amgen.

### Mewnbwn carthion budr a dŵr ffo trefol

### Cost isel = <£250k

**8.56** Ymchwiliad cychwynnol ac astudiaeth ddichonoldeb.

### Cost ganolig i uchel = <£250k – £1 miliwn

**8.57** Rhagwelir y bydd darparu ymyriadau yn dwyn costau canolig i uchel, ochr yn ochr ag uwchraddiadau cysylltiedig i seilwaith.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru sy'n dod i'r amlwg
- Coedwig Genedlaethol Cymru – Y Grant Buddsoddi mewn Coetir (Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol – Cylch 1)
- Cyllideb Cynllun Rheoli Asedau Dŵr Cymru ar gyfer uwchraddiadau strategol

## Amserlen

### Atebion seiliedig ar natur

### Cam cyflym ymlaen = <1 flwyddyn

**8.58** Gellid darparu ymyriadau ffisegol o fewn un flwyddyn. Fodd bynnag, un peth anhysbys allweddol i'r prosiect fyddai'r amser a gymerir i ennill cytundebau / caniatad y tirfeddiannwr / deiliad / porwr.

### Mewnbwn carthion budr a dŵr ffo trefol

### Cam cyflym ymlaen = <1 flwyddyn

**8.59** Ymchwiliad cychwynnol ac astudiaeth ddichonoldeb.

### Tymor canolig = 1-5 mlynedd

**8.60** Rhagwelir y bydd ymyriadau'n cael eu cyflenwi yn y tymor canolig, ochr yn ochr ag uwchraddiadau cysylltiedig i seilwaith.

## Cyfyngiadau posibl

### Atebion seiliedig ar natur

**8.61** Un cyfyngiad allweddol ar gyfer y prosiect fyddai sicrhau cytundebau tirfeddiannwr / deiliad tir / porwr, gan y gallai fod risg canfyddedig i hyfywedd fferm sy'n gysylltiedig â cholli rhywfaint o dir i ymylon torlannol / lleiniau cysgodi / plannu ymylon caeau ac ati. Gall hefyd fod gwrthwynebiad i newid cyrsiau dŵr o ran pryderon draenio tir. Dylid gwrthddadlau'r pryderon hyn ag argaeledd taliadau amaethyddol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, ac felly mae'r oedi cyn lansio Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn gyfyngiad posibl yn hyn o beth.

### Mewnbwn carthion budr a dŵr ffo trefol

**8.62** Un peth allweddol sy'n cyfyngu ar gynnal asesiad a phrosiect dichonoldeb fyddai parodrwydd a chydweithrediad Dŵr Cymru. Byddai darparu ymyriadau i wella unrhyw faterion elifion carthion a gorlifoedd storm cyfun a nodwyd yn cael ei gyfyngu gan argaeledd cyllid Cynllun Rheoli Asedau drwy Dŵr Cymru ar gyfer uwchraddiadau, a blaenoriaethu'r dalgylch hwn.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**8.63** Byddai angen cynnal a chadw'r gwaith meddal fel rhan o'r cyfnod sefydlu 60 mis, gan gynnwys disodli coed aflwyddiannus. Os gosodir ffensys i gadw da

byw allan o gyrsiau dŵr, byddai gwaith cynnal a chadw parhaus cyfyngedig hefyd yn gysylltiedig â chynnal a chadw'r ffensys hyn.

**8.64** Byddai gwaith cynnal a chadw a stiwardiaeth ased ar gyfer unrhyw uwchraddiadau seilwaith yn perthyn i gylch gwaith statudol Dŵr Cymru.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**8.65** Yn amodol ar argaeledd cyllid, dylid monitro llwyddiant y prosiect drwy wyddoniaeth dinasyddion syml, gyda chymorth addas. Gallai technegau gynnwys monitro ansawdd dŵr gan ddefnyddio offer llaw syml, neu osod mesurydd ffrwd syml i fonitro llif ffrwd, er enghraifft.

**8.66** Dylid monitro gorlifoedd storm cyfun a pherfformiad Dŵr Cymru yn hyn o beth hefyd trwy ddefnyddio gwyddoniaeth y dinesydd.

**8.67** Mae gwaith monitro technegol a stiwardiaeth ased ar gyfer unrhyw uwchraddiadau seilwaith yn perthyn i gylch gwaith statudol Dŵr Cymru.

## Camau nesaf

**8.68** Diogelu cyllid cyfyngedig (£1k i £10k) i gynnal proses dilysu daearol synhwyro o bell ar draws y dalgylch, gan greu rhestr flaenoriaeth o feysydd ar gyfer ymyriad.

**8.69** Ymgysylltu â thirfeddianwyr / deiliaid / porwyr ac ymrwymo i gytundebau i ddarparu ymyriadau ar eu tir.

**8.70** Ymgysylltu â Dŵr Cymru i ganfod awydd a chyllideb i fwrw ymlaen â'r asesiad a’r astudiaeth ddichonoldeb.

**Ffigur 8.11: Penfro**



# Rhestr Hir o Brosiectau

## PEM1 – Gwyrddu Main Street ac Ardal Rheoli Ansawdd Aer Penfro ymhellach

**8.71** Dylid cyflwyno mesurau gwyrddu ar hyd Main Street i helpu i liniaru mater ansawdd aer gwael. Mae hafn drefol gul Main Street, ynghyd â chyfyngiadau ei ddefnydd ar gyfer digwyddiadau a llwybr cyd-ddefnyddio arfaethedig, yn pennu bod plannu coed yn addas mewn ardaloedd cyfyngedig yn unig. Ymgorffori sbesimenau pigfain, bach ar hyd y rhan o'r llwybr sy'n estyn o Northgate Street

tuag at gaffi Brown's. Gallai ailddefnyddio rhai mannau parcio i ddarparu parciau bychain ddarparu seddi ychwanegol a lle arllwys allan, yn ogystal â dal gronynnau'n rhagorol. Mewn mannau eraill, dylid gosod cafnau plannu uwch, blychau ffenestri a basgedi crog.

## PEM2 – Gwella bioamrywiaeth a rheoli llifogydd naturiol yn Nhir Comin Penfro

**8.72** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## PEM3 – Gwella bioamrywiaeth leol a chymeriad tirwedd y Maes Glas

**8.73** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## PEM4 – Cyflwyno perllan gymunedol yn Devon Drive

**8.74** Gan gydweithio â'r trigolion lleol i annog perchnogaeth gymunedol, sefydlu perllan gymunedol o fewn ardaloedd o laswellt amwynder presennol ar hyd Devon Drive. Dylai'r cynigion gynnwys hau dôl blodau gwyllt a llacio'r drefn torri gwair i greu dolydd blodau gwyllt gyda llwybrau wedi'u torri yn y borfa a seddi anffurfiol mewn llennyrch

## PEM5 – Rheoli maetholion yn well yn y Pwll Melin

**8.75** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## PEM6 – Cynyddu dehongliad a dynodi llwybrau yn y Pwll Melin

**8.76** Gwella cysylltiadau o ganol y dref i'r Pwll Melin i annog trigolion lleol ac ymwelwyr i fwynhau'r Warchodfa Natur Leol a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig i wylio bywyd gwyllt. Dylid gosod arwyddion a dynodi llwybrau i wella'r llwybr perimedr, gan gynnwys yn Blackhorse Lane sy'n arwain tuag at Dŵr Barnard. Dylid ystyried sefydlu digwyddiadau rheolaidd yn Mill Pond Walk, gan gynnwys marchnad fwyd fisol. Dylid archwilio'r potensial i integreiddio mentrau gwyrddu ar hyd y llwybr cyd-ddefnyddio arfaethedig o gwmpas y Pwll Melin ac yn cysylltu Tŵr Barnard â Phont y Felin. Dylid hefyd ymgorffori ymyriadau gwyrddu trefol ar gysylltiadau i gerddwyr sy'n arwain at Main Street ac ohoni.

## PEM7 – Gwella amrywiaeth cynefinoedd yng nghoedwig Holyland

**8.77** Dylid gwella amrywiaeth strwythurol y coetir a'r mosaig o gynefinoedd gwlyptir a glaswelltir. Dylai hyn gynnwys coedlannu mannau o ganopi trwchus i annog fflora daear i sefydlu a chadw pren marw. Dylid hyrwyddo adfywiad naturiol y coed ond gellid plannu coed ychwanegol ar hyd ymyl y coetir i weithredu fel rhyngwyneb rhwng coetir aeddfed a phrysgwydd. Dylid parhau i dynnu Jac y Neidiwr a Chlymog Japan. Dylid gosod ffensys o amgylch llwybrau pren i atal aflonyddwch gan gerddwyr cŵn.

## PEM8 – Cryfhau'r rhwydwaith coed stryd lleol

**8.78** Archwilio cyfleoedd i gyflwyno plannu coed stryd ychwanegol o fewn ardaloedd o balmant llydan ac ardaloedd glaswellt / ymylon ffordd glaswellt achlysurol. Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r bylchau mewn gorchudd canopi strategol, gan hefyd feddalu ymylon trefol. Mae'r lleoliadau posibl yn cynnwys Angle Rd, Long Mains, Golden Lane a Woodbine Terrace. Dylid hefyd ail-

archwilio gwaith rheoli coed stryd presennol, gan sicrhau bod polion, rhwyllau a gardiau coed yn cael eu tynnu neu eu llacio er mwyn i'r coed dyfu.

## PEM9 – Gwyrddu Maes Parcio Common Road ymhellach

**8.79** Ceir cyfle i feddalu maes parcio Common Road sy'n arwyneb caled yn bennaf. Dylid ystyried mân ad-drefnu rhai cilfachau parcio er mwyn caniatáu integreiddio coed stryd ac atebion gwyrddu trefol. Gallai cafnau plannu o amgylch safleoedd bysiau ac ar arwynebau caled segur, ochr yn ochr â mannau parcio beiciau gwyrdd diogel, gael eu cyflwyno hefyd. Byddai'r ymyriadau hyn yn creu porth mwy croesawgar i Benfro i ymwelwyr, ond hefyd yn lleihau dŵr wyneb ffo o'r ffordd tuag at gyrsiau dŵr cyfagos.

## PEM10 – Hyrwyddo gwyrddu Gorsaf Penfro

**8.80** Ystyried cyflwyno plannu coed a chafnau plannu uwch i greu ymdeimlad o gyrraedd a meddalu tirweddau / ffiniau caled yn ardal y maes parcio gerllaw'r orsaf. Ceir cyfle i integreiddio'r nodweddion hyn i gysylltiadau teithio llesol arfaethedig sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Dylid hefyd edrych ar fannau parcio beiciau diogel, darparu seddi a gorsafoedd gwefru beiciau trydan er mwyn annog pobl i fanteisio ar deithio llesol.

## PEM11 – Gwella potensial bioamrywiaeth a diddordeb esthetig safleoedd amwynder lleol

**8.81** Mae Penfro yn cynnal nifer o fannau gwyrdd amwynder sy'n cael eu nodweddu'n bennaf gan ystodau mawr o borfa a dorrir yn fyr heb fawr o orchudd coed ar hyn o bryd, os o gwbl. Dylid edrych ar gyfleoedd i gyflwyno plannu coed i ddarparu cysgod, cymeriad a bioamrywiaeth, gan hefyd gadw swyddogaethau hamdden. Mae enghreifftiau o safleoedd posibl yn cynnwys tir

yn Back Terrace / Monkton, pen deheuol Bridgend Terrace, Golden Hill Road / Elm Grove, Devon Drive, Gatehouse View a Buttermilk Drive.

## PEM12 – Rheoli cyrchfan ymwelwyr

**8.82** Creu nodwedd fynedfa newydd yn Banker Walk i ddarparu cyswllt uniongyrchol i ganol y dref o Faes Parcio’r Tir Comin, gan sicrhau’r defnydd mwyaf posibl. Dylai'r mynediad presennol gael ei ailraddio i greu graddiant mwy hygyrch a dylai ymyriadau gwyrddu trefol gael eu cyflwyno. Byddai wal werdd a rheoli cynefinoedd i glirio coed mêl goresgynnol ac annog sefydlu blodau gwyllt brodorol yn creu mynedfa groesawgar i'r dref. Dylid hefyd ystyried dynodi llwybrau’n well a gosod arwyddion 'Croeso i Benfro'.

## PEM13 – Gwella Tŵr Barnard

**8.83** Mae Tŵr Barnard yn gartref i nythfa o ystlumod, gan gynnwys ystlumod pedol mwyaf. Byddai mesurau dehongli, sy'n ymgorffori arwyddion a ffrwd fyw, yn helpu i ddarparu addysg gymunedol ar bwysigrwydd y rhywogaethau hyn a rôl lleiniau coetir a choridorau afonydd fel llwybrau fforio a chymunedol. Dylid creu amffitheatr er mwyn darparu lle i ddigwyddiadau awyr agored. Yn safle’r Tŵr, dylid sefydlu dôl blodau gwyllt a choed hefyd i barhau cysylltedd â Llwybr y Pwll Melin.

## PEM14 – Creu gardd bywyd gwyllt ac oriel

**8.84** Datblygu cynllun busnes ar gyfer Oriel Turner’s Reach ac ymgorffori gardd bywyd gwyllt brodorol. Byddai borderi neithdar glöynnod byw, gwenyn a gwyfynod, plannu coed, llwyni a gwrychoedd brodorol a blychau nythu a gorsafoedd bwydo ar gyfer adar yn darparu cysylltedd â’r plannu presennol ar hyd y Tir Comin a’r Pwll Melin. Byddai'r oriel yn cefnogi artistiaid lleol ac yn darparu atyniad ychwanegol i dwristiaid.

## PEM15 – Gwella addysg a dehongliad ym Mhwll Castell Penfro

**8.85** Creu canolfan ymwelwyr amgylcheddol lle gellir dangos fideos ffrwd fyw o nythfeydd ystlumod yn Nhŵr Barnard, tramwyfa’r dyfrgwn yn y Pwll Melin a bywyd gwyllt ar hyd coridor yr aber i hybu ymwybyddiaeth am asedau bioamrywiaeth pwysig Penfro. Dylid hefyd ystyried gwelliannau i lwybrau troed lleol, gan gynnwys llwybr cyd-ddefnyddio arfaethedig ar Westfield Hill, a rheiliau perimedr o amgylch Pwll y Castell. Gellid gwella'r atmosffer morydol trwy blannu ardaloedd ychwanegol o ddôl blodau gwyllt a phlannu bylbiau.

## PEM16 – Gwella bioamrywiaeth wrth gyffordd South Road / St Daniel’s Hill / yr A4139

**8.86** Plannu rhywogaethau coed parcdir mawr ychwanegol ar y man gwyrdd llethrog yn y gyffordd hon, gan ddarparu cyfleoedd bioamrywiaeth a chryfhau cymeriad tirwedd wrth borth canol y dref hon. Ystyried addasiadau tirffurf ar raddfa fach i leihau dŵr ffo wyneb a chreu cilfachau cynefin bach o ardaloedd sy’n dymhorol wlyb.

## PEM17  Creu gwlyptiroedd wrth ymyl Gwaith Trin Carthion Llandyfái

**8.87** Mae cynnwys maethol uchel ac arwyddion o ewtroffigedd i'w gweld ym Mhwll Melin Penfro. Gallai trosi tir diffaith gerllaw'r gwaith trin carthion i'r gorllewin o'r dref weithredu fel clustogfa ar gyfer gollyngfa garthion mewn cyfnodau o gyfaint uchel. Byddai cynefin gwlyptir yn creu cynefin newydd i fywyd gwyllt ac yn cynorthwyo stripio maetholion o'r ollyngfa, gan helpu i leddfu'r llwyth maethol sy'n cael ei ollwng ar hyn o bryd i'r cwrs dŵr (ac wedi hynny i ACA Forol Penfro sydd ymhellach i lawr yr afon).

## PEM18 – Rheoli rhywogaethau goresgynnol wrth ymyl Pwll Melin Penfro ac Afon Penfro

**8.88** Creu cynllun rheoli sy'n hyrwyddo arferion rheoli cadarnhaol, gan gynnwys rheoli Cyrs Cyffredin (Phragmites australis) / Llafrwyn (Typha latifolia) a gweithredu strategaeth i leihau rhywogaethau goresgynnol gerllaw Pwll Melin Penfro ac Afon Penfro. Yn ogystal ag amgylchedd y glannau, dylid cynnal arolygon ecolegol i bennu cyfansoddiad rhywogaethau presennol y coetir cyfagos i annog cadw a gwella fflora isdyfiant cyfoethog.

## PEM19 – Gwella gwerth bioamrywiaeth Llwybr y Pwll Melin

**8.89** Cyflwyno cynigion i wella bioamrywiaeth wrth droed y waliau bwrdais / waliau'r gogledd ar hyd Llwybr y Pwll Melin. Dylid datblygu cynigion ar y cyd â Cadw, Cyngor Sir Penfro (CSP) ac Ymddiriedolaeth Muriau Tref Penfro i gydnabod cyfyngiadau treftadaeth y safle a muriau canoloesol hanesyddol y dref. Ceir cyfle i gyflwyno fflora daear priodol lleol a phlannu bylbiau i wella peillwyr a diddordeb ymwelwyr.

# Pennod 9

Doc Penfro

**Ffigur 9.1: Doc Penfro**



## Portread o Seilwaith Gwyrdd Doc Penfro

**9.1** Tref gymharol fawr yw Doc Penfro ag ychydig o dan 10,000 o drigolion. Ar lannau deheuol Aberdaugleddau, mae aberoedd Afon Cleddau i'r gogledd ac Afon Penfro i'r de yn ffinio â'r dref. Tref bysgota oedd yma'n wreiddiol, ond trodd yn dref a chanddi gefndir diwydiannol a morwrol cryf, ynghlwm wrth ei dociau a

harbwr naturiol dwfn Aberdaugleddau, sy’n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA).

**9.2** Mae gan y dref gysylltiadau trafnidiaeth cryf â'r dirwedd ehangach, gyda rheilffordd, fferïau, a nifer o lwybrau hamdden pellter hir yn cysylltu â chanol y dref ac yn mynd drwyddi. Daw Llwybr Arfordir Sir Benfro, sy'n 186 milltir o hyd, ar hyd ochr dde-orllewinol y dref a thrwy'r canol, gan gysylltu dros Bont Cleddau ymhellach i'r gogledd. Daw llwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN) hefyd heibio o'r gogledd i’r de drwy ganol y dref, gydag amryw o lwybrau hamdden eraill yn cysylltu ac yn estyn i'r dwyrain i'r dirwedd ehangach. Crynhoir cyfran o'r rhwydwaith presennol o Hawliau Tramwy Cyhoeddus gerllaw ac o fewn cwrs golff mawr ar ymyl de-orllewin y dref, sydd â chysylltiadau lluosog â Llwybr Arfordir Penfro a chanol y dref. Mae rhannau eraill o'r llwybr troed ar ochr ddwyreiniol y dref yn fwy digysylltiad, ac mae cyfleoedd i wella cysylltedd cyffredinol.

**9.3** Nid oes llawer o le agored ar hyd y morlin morydol, yr adeiladwyd yn helaeth arno ar y cyfan yn rhan o’r dociau a'r porthladd, yn ogystal ag ardaloedd o anheddiad preswyl dwys. Fodd bynnag, mae mannau agored mwy o faint ar wasgar ledled canol y dref, ac maent wedi'u cysylltu drwy lwybrau beicio a cherdded. Yn gyffredinol, mae ardaloedd chwarae a chaeau hamdden wedi'u crynhoi yn nwyrain y dref, gyda rhannau llai o lwybr troed yn cysylltu rhyngddynt. Ceir cyfleoedd i wella mannau cyhoeddus ar hyd y morlin, yn enwedig i'r gogledd o'r dociau, a fyddai'n galluogi mwy o gysylltiadau cymunedol â'r aber a byd natur. Mae grid stryd rheolaidd Doc Penfro yn adlewyrchu hanes yr anheddiad fel iard longau allweddol y Llynges Frenhinol a defnyddio'r strydoedd ar gyfer gorymdeithiau milwrol; mae etifeddiaeth hyn wedi creu tref sydd heb fawr iawn o goed na SG trefol.

## Ffigur 9.2: Cyfleoedd SG yn Noc Penfro




Yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2022

CB:JT EB:Tomlinson_J LUC 11993_010_r0_BaseMapRequest221010 10/10/2022
Ffynhonnell: OS

- PED1 – Ailwampio lle chwarae Clwb Ieuenctid Doc Penfro
- PED2 – Creu hierarchaeth o blannu coed stryd
- PED3 – Gwella Western Way Green i bobl a pheillwyr
- PED4 – Creu coridor bywyd gwyllt ar hyd Military Road
- PED5 – Creu cerrig sarn i fywyd gwyllt yng Nghwrs Golff De Sir Benfro
- PED6 – Adfywio Carriage Drive
- PED7 – Creu gardd bywyd gwyllt yn Ysbyty De Sir Benfro
- PED8 – Gwella bioamrywiaeth yn Memorial Park
- PED9 – Gwella bioamrywiaeth Mynwent Doc Penfro
- PED10 – Gwyrddu'r tir y tu ôl i ASDA ymhellach
- PED11 – Ad-drefnu ac estyn Llwybr Arfordir Penfro
- PED12 – Gwella gwerth bioamrywiaeth cae chwarae Bush Street
- PED13 – Hyrwyddo gwerth bioamrywiaeth cynyddol Cwm Sykemoor
- PED14 – Gwyrddu meysydd parcio ymhellach
- PED15 – Creu dolydd blodau gwyllt ym Mhencadlys Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) ym Mharc Llanion
- PED16 – Lleihau risg llifogydd ar hyd Bush Street
- PED17 – Cyflwyno gerddi glaw, coed stryd a phalmantau athraidd yn London Street
- PED18 – Gwella gwerth bioamrywiaeth y Fynwent Filwrol
- PED19 – Gwella gwerth hamdden a bioamrywiaeth y man agored cyhoeddus ar Charles Thomas Avenue

# Prosiectau Cicdanio

## PED2 – Creu hierarchaeth o blannu coed stryd

**9.4** Mae patrwm stryd grid Doc Penfro yn cynnig y cyfle i blannu coed stryd er mwyn meddalu'r amgylchedd cyhoeddus presennol. Mae'r patrwm grid yn nodwedd ddiffiniol ar Ardal Gadwraeth Doc Penfro ac felly dylai plannu coed newydd atgyfnerthu hierarchaeth y strydoedd hyn. Byddai hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad y treflun, gan sicrhau bod asedau treftadaeth yn cael eu dathlu yn hytrach na'u sgrinio. Dylai cynigion hefyd osgoi unrhyw effeithiau niweidiol ar asedau treftadaeth.

**9.5** Gan gydweithio â thrigolion yn ogystal â'r Swyddog Cadwraeth Adeiladu Hanesyddol a'r Swyddog Tirwedd yng Nghyngor Sir Penfro (CSP), dylid nodi lleoliadau ar gyfer plannu coed stryd newydd. Dylai'r cynigion sicrhau bod cynigion plannu coed yn gwella safle'r patrwm grid hanesyddol unigryw ac nad ydynt yn arwain at effeithiau niweidiol ar asedau treftadaeth. Dylid sefydlu hierarchaeth o goed, er enghraifft, prif strydoedd a choed ar eu hyd (e.e. llain ganol ar hyd Meyrick Street neu leiniau ymyl ffordd ar Devonshire Road), strydoedd gyda choed wedi'u hymgorffori o fewn nodau parcio (e.e. Laws Street) a strydoedd gyda choed i fframio golygfeydd (e.e. Market Street). Drwy weithio gyda thrigolion i nodi lleoliadau a dewis rhywogaethau sy'n cael eu ffafrio, dylid annog perchnogaeth gymunedol ar y coed. Lle mae digon o le, gellid hefyd cyflenwi seddi achlysurol, cafnau plannu uwch a gerddi glaw llinol i greu parciau bach cymunedol. Ar ben hynny, dylid ystyried gweithredu rhaglen ailgyflenwi coed i fynd i'r afael â'r stoc goed sy'n lleihau yn y dref.

**9.6** Rhaid croesgyfeirio at Strategaeth Coed Trefol Doc Penfro wrth gyflawni'r prosiect hwn. Rhaid i gynigion ar gyfer plannu coed gyd-fynd â'r uchelgeisiau yn y dyfodol ar gyfer llwybrau cerdded a beicio integredig ar hyd Laws Street, Water Street, Apley Terrace a Gwyther Street yn rhan o Fapiau Rhwydwaith Integredig (INM) **[Gweler cyfeiriad** 2**]**.

## Ffigur 9.3: PED2




# Buddion y prosiect

**9.7** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 9.4 isod, mae:

- Buddsoddiad a gwell profiad i ymwelwyr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Chwarae, addysg a rhyngweithio â natur
- Rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant cymunedol
- Atgyfnerthu ymdeimlad o le
- Gwella iechyd a lles

### Ffigur 9.4: Buddion




## Mecanweithiau cyflawni

**9.8** Dylid sefydlu rhaglen blannu flynyddol ar gyfer Doc Penfro i gynllunio, cyflenwi a rheoli plannu coed newydd ar draws y dref yn llwyddiannus. Dylid datblygu cynigion cyn y tymor plannu gwreiddiau moel (mis Hydref i fis Mawrth fan pellaf) i sicrhau digon o amser ar gyfer archwiliadau daear a chyrchu stoc planhigfa.

**9.9** Dylai trigolion fod â'r gallu i gyflwyno ceisiadau am leoliadau a rhywogaethau plannu coed. Os yw'r lleoliad yn briodol a bod cyllid ar gael, dylid ychwanegu'r goeden at y rhaglen blannu flynyddol.

**9.10** Dylid darparu coed yn unol ag adran gyflawni'r Strategaeth Plannu Coed Trefol.

## Partneriaid posibl

- Trigolion
- Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth CSP
- Cyngor Tref Doc Penfro

- Busnesau lleol
- Ymddiriedolaeth Gymunedol Peter Hall
- Cyfeillion Parc Coffa Doc Penfro
- Wardeniaid Coed Sir Benfro
- Porthladd Penfro

## Cost amlinellol

### Cost ganolig i uchel = £250k – £1 miliwn

**9.11** Mae cost y prosiect yn gallu newid gan ddibynnu ar nifer y coed sy'n cael eu plannu. Fodd bynnag, mae angen amcangyfrif bras o ~£10,000 i sefydlu coeden yn briodol o fewn tirwedd galed (gan dybio cyfnod sefydlu o 60 mis).

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Cyfraniadau datblygwyr
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Rhaglen Grant Cymunedau Cydnerth
- Cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
- Y Cyngor Coed

## Amserlen

### Cam cyflym ymlaen = <1 flwyddyn

**9.12** Gellid plannu coed mewn ambell leoliad allweddol yn y tymor plannu nesaf.

### Tymor canolig = 1-5 mlynedd

**9.13** Byddai mwyafrif y gwaith plannu coed yn cael ei wneud ar draws y pum tymor plannu nesaf er mwyn caniatáu ar gyfer digon o gynllunio ac ymgysylltu.

## Cyfyngiadau posibl

**9.14** Un mater allweddol o ran coed yn sefydlu’n llwyddiannus o fewn tirweddau caled yw diffyg cyfaint pridd addas ar gyfer tyfiant gwreiddiau. O fewn yr amgylchedd trefol, fel arfer mae defnyddiau’n cystadlu am le tanddaearol, gan gynnwys cyfleustodau. Byddai angen asesiadau i nodi cyfyngiadau cyfleustodau tanddaearol cyn plannu. Hefyd, mae'n ddrutach cloddio pyllau coed o fewn tirweddau caled nag o fewn tirweddau meddal. Felly, rhaid i waith plannu coed newydd sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cost, lle a swyddogaeth / dyluniad a ddymunir. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd llai o goed gyda mwy o gyfaint gwreiddio yn briodol.

**9.15** Rhaid i'r cynigion ystyried eu lleoliad yn Ardal Gadwraeth Doc Penfro ac felly dylai pob gwaith plannu coed newydd wella safle’r patrwm grid hanesyddol unigryw, cynnal golygfeydd allweddol, a rhaid iddynt beidio ag arwain at effeithiau niweidiol ar asedau treftadaeth. Dylid paratoi pob cynnig plannu felly ar y cyd â'r Swyddog Cadwraeth Adeiladu Hanesyddol a’r Swyddog Tirwedd.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**9.16** Sefydlu gweithgor preswylwyr i gymryd perchnogaeth ar y coed newydd a blannir. Gallai diwrnod hyfforddi roi'r offer a'r wybodaeth i'r gymuned i gynnal coed newydd yn llwyddiannus nes eu sefydlu, gan gynnwys dyfrio a chadw llygad ar bolion coed.

**9.17** Byddai angen gofal dyfrio a sefydlu yn rhan o gyfnod cynnal a chadw 60 mis er mwyn sicrhau bod coed yn gallu dod yn annibynnol yn y tirlun.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**9.18** Defnyddio’r gweithgor preswylwyr i fonitro sefydliad llwyddiannus coed stryd newydd. Sefydlu sianel gyfathrebu ar gyfer adrodd am unrhyw broblemau gyda choed stryd.

## Camau nesaf

**9.19** Adolygu adran gyflawni'r Strategaeth Plannu Coed Trefol i bennu'r broses ar gyfer plannu coed o fewn tirweddau caled a deall y cydrannau allweddol ar gyfer sefydlu coed yn llwyddiannus.

**9.20** Ymgysylltu â thrigolion a grwpiau cymunedol i nodi lleoliadau ar gyfer plannu coed a dewis rhywogaethau, gan ddefnyddio'r canllaw dewis rhywogaethau o fewn y Strategaeth Plannu Coed Trefol.

**Ffigur 9.5: Doc Penfro**



# PED11 – Ail-ffurfweddu ac estyn Llwybr Arfordir Penfro

**9.21** Mae Llwybr Arfordir Penfro yn Noc Penfro yn rhannu canol y dref yn ddwy ac nid yw'n dilyn y morlin ar hyn o bryd. Mae'r llwybr yn ffurfio ffin ddwyreiniol Doc Penfro o fewn cyd-destun trefol yn bennaf, gan ddilyn rhan o'r B4322 Pembroke Street tuag at Presely View a Treowen Road. Yna, mae aliniad y llwybr yn symud tua'r de i Sykemoor a'r dirwedd isel sy'n gyfochrog ag Afon Penfro. Dylid ystyried ail-alinio'r llwybr ar hyd y glannau yn Llanreath, Parc Pennar a Phennar er mwyn ategu cymeriad arfordirol y llwybr ehangach. Byddai ail-alinio’r llwybr yn lleihau'r angen am gysylltiadau ar y stryd, gan hyrwyddo

mwy o wahanu cerddwyr a cherbydau. Gellid sicrhau cysylltedd gwell hefyd drwy wella llwybrau cangen eilaidd o ardaloedd preswyl cyfagos.

**9.22** Ceir cyfle i ddefnyddio rhannau o'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus presennol lle bo'n bosibl, gan gynnwys y llwybr cyhoeddus yn Military Road (sy'n cysylltu Parc Pennar a Phennar). Fodd bynnag, byddai angen ail-alinio’r llwybr hefyd. Byddai angen ymgysylltu â thirfeddianwyr a deiliaid tir er mwyn cyflwyno'r cyfleoedd hyn a thrafod eu heffeithiau ar ddefnydd tir presennol. Byddai unrhyw newidiadau i'r llwybr presennol yn golygu bod angen cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod unrhyw ad-drefnu'n cael ei wneud i safonau'r llwybrau cenedlaethol a bod arwyddion priodol arnynt. Byddai'r prosiect hefyd yn gofyn am welliannau i'r cyfryngau hyrwyddo sy'n gysylltiedig â Llwybr Arfordir Penfro er mwyn sicrhau bod newidiadau'n cael eu cyfleu i randdeiliaid a chanddynt fuddiant a'r cyhoedd yn ehangach. Oherwydd sensitifrwydd ecolegol y morlin yn y lleoliad hwn, byddai angen i'r prosiect sicrhau cydbwysedd rhwng darparu gwelliannau hamdden a phwysau bioamrywiaeth.

## Ffigur 9.6: PED11




# Buddion y prosiect

**9.23** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 9.7 isod, mae:

- Darparu cyfleoedd teithio llesol
- Gwella ansawdd dŵr
- Chwarae, addysg a rhyngweithio â natur
- Rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant cymunedol
- Atgyfnerthu ymdeimlad o le
- Gwella iechyd a lles

### Ffigur 9.6: Buddion




## Mecanweithiau cyflawni

**9.24** Er mwyn cyflawni'r prosiect byddai angen arian gan CNC i ymgymryd â'r gwaith cyfalaf. Byddai angen cymorth hefyd gan y Grŵp Llywio Llwybrau Cenedlaethol er mwyn bwrw ymlaen â'r cynllun. Byddai angen adnoddau amser ychwanegol gan na fyddai gan y Swyddog Llwybr Cenedlaethol presennol a gyflogir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) y gallu i ad-drefnu Llwybr Arfordir Penfro yn sylweddol.

## Partneriaid posibl

- Tirfeddianwyr;
- CNC;
- Cyngor Sir Penfro (CSP);
- APCAP; a’r
- Tîm Teithio Llesol, sy'n rhan o'r Uned Strategaeth Trafnidiaeth yn CSP

## Cost amlinellol

Cost uchel = >£1 miliwn

**9.25** Bydd creu llwybrau newydd neu uwchraddio llwybrau yn creu cost uchel. Bydd uwchraddio arwyddion a dodrefn stryd yn creu cost ganolig.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- CNC
- CSP
- Trafnidiaeth Cymru

## Amserlen

Tymor hir = >1 flwyddyn

**9.26** Mae'r angen i ymgynghori â rhanddeiliaid amrywiol, ymgysylltu â thirfeddianwyr, proses ddylunio gydweithredol a chyflawni ar lawr gwlad yn golygu y bydd y prosiect yn debygol o gymryd tua 5 mlynedd i'w gyflawni'n llawn.

## Cyfyngiadau posibl

**9.27** Mae'r prosiect yn debygol o fod yn gymhleth, gyda gofynion yn cystadlu i sicrhau ei weithredu'n llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad am gyllid allanol sylweddol a chysylltu â thirfeddianwyr lleol. Byddai angen cydweithrediad a chyfranogiad CNC fel rhanddeiliad allweddol er mwyn adlinio’r llwybr troed.

**9.28** Oherwydd cymhlethdodau'r cynllun, byddai angen adnodd staff sylweddol a mewnbwn ariannol parhaus ar y prosiect i gyrraedd ei lawn botensial. Byddai heriau ychwanegol hefyd yn cynnwys yr angen am ymgynghoriad cymhleth â rhanddeiliaid a’r cyhoedd i sicrhau cefnogaeth leol. Un agwedd anhysbys allweddol i'r prosiect fyddai'r amser sydd ei angen i gael caniatâd y tirfeddianwyr.

**9.29** Byddai gwaith ad-drefnu yn cynnwys clirio llystyfiant lleol ar hyd rhai rhannau o'r llwybr. Byddai angen gwneud hyn er mwyn osgoi'r tymor nythu adar ac mewn cyswllt ag ecolegydd neu Glerc Gwaith Ecolegol (ECoW). Byddai'r potensial ar gyfer erydiad a llifogydd yn y lleoliad hwn hefyd yn her allweddol wrth sefydlu llwybr yn y lleoliad arfordirol hwn.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**9.30** Byddai angen gwaith cynnal a chadw parhaus ar y llwybr er mwyn sicrhau bod mynediad yn cael ei gynnal drwy gydol y flwyddyn. Byddai angen gwaith rheoli tirwedd hefyd i sicrhau bod llinellau gweld yn cael eu cadw ar draws y llwybr.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**9.31** Ceir cyfle i osod synwyryddion neu rifyddion i fonitro'r defnydd o'r llwybr fel rhan o'r rhwydwaith teithio llesol ehangach o fewn y sir. Byddai'r dull hwn yn helpu i fesur llwyddiant y buddsoddiad sylweddol ac yn llywio strategaeth hirdymor a chyflawni prosiectau tebyg yn y dyfodol.

## Camau nesaf

**9.32** Cynnal astudiaeth ddichonoldeb ac ymarfer gwaith ar opsiynau i bennu’r llwybr a ffafrir ar gyfer adlinio’r llwybr. Dylid cychwyn sgyrsiau cychwynnol gyda thirfeddianwyr i ganfod opsiynau llwybrau posibl ar hyn o bryd hefyd.

**9.33** Dylid comisiynu asesiad ecolegol ac arolwg coed i BS5837: 2012 i archwilio'r goblygiadau ar fioamrywiaeth leol a'r gorchudd coed sy'n bodoli eisoes. Dylid bwrw ymlaen ag ymgynghoriad cychwynnol â rhanddeiliaid a chanddynt fuddiant,  grwpiau cymunedol a'r cyhoedd yn gyffredinol hefyd i lywio datblygiad cysyniadol cynnar y prosiect.

### Ffigur 9.7: Doc Penfro




## PED17 – Cyflwyno gerddi glaw, coed stryd a phalmantau athraidd yn London Street

**9.34** Mae perygl mawr o lifogydd dŵr wyneb ar rai rhannau o London Road yn Noc Penfro, gan gynnwys ardaloedd i'r gogledd o'r maes parcio mawr sy'n gysylltiedig â nifer o adwerthwyr masnachol. Cofnodwyd digwyddiad Gorlif Carthffos Cyfun (lle mae elifion budr heb eu trin yn ymuno ag afonydd am eu

bod yn fwy na chapasiti’r seilwaith carthffosydd) yn flaenorol hefyd yn Waterloo Road. Byddai ymyriadau Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) sy'n dargyfeirio dŵr storm o garthffosydd cyfun yn helpu i leihau dylanwad afonol adeg llifogydd.


**9.35** Mae nifer o gyfleoedd i ymyrryd. Dylid ystyried ôl-osod yr ardaloedd maes parcio mawr anathraidd â phalmantau athraidd, gerddi glaw a choed cadarn.

**9.36** Byddai cyflwyno'r mesurau hyn yn yr ardal hon yn cynorthwyo arafu dŵr ffo wyneb, gan helpu i leihau risg bosibl llifogydd dŵr wyneb a lleihau'r mewnbwn afonol i'r system garthffosiaeth ar adegau o law mawr. Byddai'r cynigion hyn hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad y treflun a bioamrywiaeth.

**9.37** Drwy weithio gyda thrigolion, partneriaid masnachol, Cyngor Sir Penfro (CSP) ac Asiant Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA), dylid nodi lleoliadau ar gyfer ymyriadau.

**9.38** Dylid croesgyfeirio at Strategaeth Coed Trefol Doc Penfro wrth gyflawni'r prosiect hwn. Mae'n rhaid i gynigion ar gyfer plannu coed hefyd gyd-fynd â llwybrau cerdded a beicio a nodwyd ar hyd London Road.

## Ffigur 9.8: PED17





## Buddion y prosiect

**9.39** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 9.10 isod, mae:

- Lleihau risg llifogydd
- Gwella ansawdd dŵr
- Buddsoddiad a gwell profiad i ymwelwyr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Gwella ansawdd aer a rheoleiddio sŵn
- Atgyfnerthu ymdeimlad o le
- Oeri trefol
- Gwella iechyd a lles

### Ffigur 9.9: Buddion




## Darparu atebion seiliedig ar natur a gwasanaethau ecosystemau

**9.40** Byddai gerddi glaw, palmantau athraidd a phlannu coed cyfochrog yn sicrhau gwelliannau i'r safle trefol ac yn cyfrannu tuag at ddull cynaliadwy o ymdrin â dŵr glaw. Mewn cynefin naturiol, mae gwlybaniaeth yn cael ei hamsugno'n araf i'r ddaear, wedi'i harafu gan lystyfiant. Fodd bynnag, mae arwynebau anathraidd mewn amgylcheddau trefol yn cyfeirio dŵr ffo i garthffosydd storm a allai gyfrannu tuag at Orlifoedd Carthffos Cyfun a llifogydd dŵr wyneb yn yr ardal leol.

**9.41** Byddai creu ardaloedd plannu coed a gerddi glaw yn effeithio'n fuddiol ar risg llifogydd, ansawdd dŵr ac ar ddal a storio carbon. Yn ogystal, mae'r potensial ar gyfer digwyddiadau Gorlif Carthffos Cyfun yn cael ei leihau trwy waredu rhywfaint o'r llwyth ar y rhwydwaith carthffosydd cyfun.

## Mecanweithiau cyflawni

**9.42** Dylai astudiaeth gychwynnol gynnal arolygon safle i nodi lle mae'r topograffi, y strydlun ac amodau'r rhwydwaith carthffosydd storm yn cyfuno i

wneud ymyriadau yn fwyaf effeithiol ac yn fwyaf cyraeddadwy. Yn rhan o hyn, dylai trigolion fod â'r gallu i gyflwyno ceisiadau am erddi glaw a phlannu coed. Os yw'r lleoliad yn briodol a bod cyllid ar gael, dylid ychwanegu'r goeden at y rhaglen blannu flynyddol.

**9.43** Dylid sefydlu rhaglen blannu flynyddol i Ddoc Penfro er mwyn cynllunio, cyflawni a rheoli'r gwaith plannu coed newydd, y gerddi glaw a'r mannau palmant athraidd yn llwyddiannus ledled ardal London Road. Mae angen digon o gynllunio cyn y tymor plannu gwreiddiau moel (mis Hydref i fis Mawrth fan pellaf) i sicrhau bod archwiliadau daear / profion pridd yn cael eu cwblhau.

**9.44** Dylid darparu coed yn unol ag adran gyflawni'r Strategaeth Plannu Coed Trefol.

## Partneriaid posibl

- Y gymuned Leol
- Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth CSP
- Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP
- Busnesau lleol
- Wardeniaid Coed Sir Benfro
- Dŵr Cymru
- Asiant Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA)

## Cost amlinellol

### Cost ganolig i uchel = <£250k - £1 miliwn

**9.45** Mae’r pris yn gallu newid gan ddibynnu ar nifer y coed a blannir / gerddi glaw a grëir / ardaloedd palmant athraidd a osodir. Fodd bynnag, dylid

defnyddio amcangyfrif bras o ~£10,000 i sefydlu coeden o fewn ardal o dirlunio caled.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Cyfraniadau datblygwyr
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Rhaglen Grant Cymunedau Cydnerth
- Cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
- Y Cyngor Coed

## Amserlen

### Cam cyflym ymlaen = <1 flwyddyn

**9.46** Dylid plannu coed a chreu gerddi glaw mewn ambell leoliad allweddol yn y tymor plannu nesaf.

### Tymor canolig = 1-5 mlynedd

**9.47** Dylid gwneud mwyafrif y gwaith plannu coed, creu gerddi glaw ac agweddau palmantau athraidd ar draws y pum tymor plannu nesaf er mwyn caniatáu ar gyfer digon o gynllunio ac ymgysylltu.

## Cyfyngiadau posibl

**9.48** Mae cryn nifer o randdeiliaid posib i ymgysylltu â nhw ar gyfer y prosiect hwn, gyda gwahanol ddeiliaid tir a'r broses ymgysylltu yn hanfodol i lwyddiant y

cynllun. Mae London Road (A4139) yn ffordd fawr, ac felly mae'n rhaid i Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth CSP a SWTRA fod yn rhan o'r prosiect.

**9.49** Er bod yna ardal fawr ar gyfer gwelliannau yn y meysydd parcio, mae'r lle ar hyd y ffordd gerbydau yn brin, gyda blaenoriaethau sy'n cystadlu gan gynnwys lonydd beicio a llwybrau i gerddwyr. Tirwedd galed yw mwyafrif yr arwynebau o fewn ardal y prosiect posibl. Mae'n ddrutach cloddio pyllau coed o fewn tirweddau caled nag o fewn tirweddau meddal. Felly, rhaid i waith plannu coed newydd sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng cost, lle a swyddogaeth / dyluniad a ddymunir. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd llai o goed gyda mwy o gyfaint gwreiddio yn briodol.

**9.50** O fewn yr amgylchedd trefol rhaid ystyried y potensial i amrywiaeth o wasanaethau a chyfleustodau fod o fewn mannau plannu posibl a bod angen osgoi'r rhain wrth gyfrif am blannu coed. Fel arfer mae angen dyfnderoedd basach o osodiadau ar erddi glaw ac felly byddent yn llai tebygol o wrthdaro â gwasanaethau. Efallai bod potensial i blannu gerddi glaw yn lle plannu coed mewn ardaloedd y nodwyd bod gwasanaethau’n debygol iawn o fod yno.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**9.51** Sefydlu gweithgor o breswylwyr neu bartneriaid masnachol ochr yn ochr ag Adran Gofal Stryd a Phriffyrdd CSP i gymryd perchnogaeth ar y gwaith plannu coed newydd. Gallai diwrnod hyfforddi roi'r offer a'r wybodaeth i'r gymuned i gynnal coed newydd yn llwyddiannus nes eu sefydlu, gan gynnwys dyfrio a chadw llygad ar bolion coed.

**9.52** Byddai angen dyfrio a gofal sefydlu ar gyfer y cyfnod sefydlu 60 mis er mwyn sicrhau y gall y coed ddod yn annibynnol yn y dirwedd.

**9.53** Byddai angen i ardaloedd palmantau athraidd gael eu mabwysiadu naill ai gan CSP neu gan y tirfeddiannwr perthnasol.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**9.54** Yn amodol ar argaeledd cyllid, dylid monitro llwyddiant y prosiect ar y cyd â data gan Dŵr Cymru o ran gallu carthffosydd a lleihau digwyddiadau gorlif storm cyfun.

**9.55** Defnyddio’r gweithgor preswylwyr i fonitro sefydliad llwyddiannus coed a gerddi stryd newydd. Sefydlu sianel gyfathrebu ar gyfer adrodd am unrhyw faterion neu fethiannau.

## Camau nesaf

**9.56** Nodi deiliaid tir a phartneriaid masnachol ar unwaith ac ymgysylltu â rhanddeiliaid posibl, gan gynnwys SWTRA ac adrannau priodol CSP.

**9.57** Arolygu'r ardal i ganfod ardaloedd sy'n fwyaf addas ar gyfer ymyrraeth.

**9.58** Adolygu adran gyflawni'r Strategaeth Plannu Coed Trefol i bennu'r broses ar gyfer plannu coed o fewn tirweddau meddal a deall y cydrannau allweddol ar gyfer sefydlu coed yn llwyddiannus.

**9.59** Ymgysylltu â thrigolion a grwpiau cymunedol i nodi lleoliadau ar gyfer plannu coed a dewis rhywogaethau, gan ddefnyddio'r canllaw dewis rhywogaethau o fewn y Strategaeth Plannu Coed Trefol.

# Rhestr Hir o Brosiectau

## PED1 – Ailwampio lle chwarae Clwb Ieuenctid Doc Penfro

**9.60** Cydweithio â Chlwb Ieuenctid Doc Penfro i gynllunio lle chwareus newydd sy'n gyforiog o fioamrywiaeth. Dylid gwaredu offer chwarae wedi'u difrodi a gosod yn eu lle nodweddion chwarae naturiol cadarn ac anturus. Dylid cyflwyno mannau cymdeithasol newydd, gan gynnwys siglenni, seddi a bariau dringo i apelio at ferched yn eu harddegau. Ceir cyfle i ddarparu gardd gymunedol o fewn perimedr ffens y Clwb Ieuenctid, gan ymgorffori coed perllan a gwrychoedd bwytadwy. Dylid plannu coed ffiniol ychwanegol a hefyd cyflwyno 'ymylon gwyllt' sy’n denu peillwyr ynghyd â gwelliannau mynediad ehangach ar hyd Bush Street.

## PED2 – Creu hierarchaeth o blannu coed stryd

**9.61** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## PED3 – Gwella Western Way Green i bobl a pheillwyr

**9.62** Nodweddir y man agored hwn gan dwmpath tonnog o laswellt amwynder. Gellid gosod cloddiau ar gyfer dringo anturus a seddi ochr yn ochr â'r llithren bresennol, yn ogystal â dolydd blodau gwyllt i greu lle croesawgar a chwareus. Dylid ymgorffori cyfleoedd ychwanegol am seddi ffurfiol ac anffurfiol yn y lle, gan helpu defnyddwyr (preswylwyr a thwristiaid) i fanteisio ar olygfeydd pell. Dylid gosod arwyddion dehongli, standiau beiciau a gorsafoedd gwefru beiciau trydan hefyd. Gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Tref Doc Penfro a Chyngor Sir Penfro (CSP), dylid hefyd ystyried ôl-osod ardal y maes parcio

mawr â phalmantau athraidd, coed stryd a gerddi glaw er mwyn lleihau'r dŵr ffo sy’n mynd i garthffosydd cyfun lleol.

## PED4 – Creu coridor bywyd gwyllt ar hyd Military Road

**9.63** Sefydlu dolydd blodau gwyllt a choed stryd ar y lleiniau llydan drwy ardaloedd preswyl i ddarparu cyfleoedd am gysgod, gan sicrhau nad yw cynigion yn gwrthdaro â chynigion ar gyfer llwybr cyd-ddefnyddio ar hyd Military Road. Dylid llenwi bylchau yn llain gysgodi’r coetir i glustogi unrhyw ddŵr ffo o'r cwrs golff cyfagos a'r tir amaethyddol sy'n llifo i mewn i Afon Penfro. Gellid cryfhau amrywiaeth rhywogaethau'r gwrych sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r ffordd gerbydau hefyd trwy blannu rhywogaethau fel drain gwynion (Crataegus monogyna) a drain duon (Prunus spinosa) i ddarparu cynefin pellach i adar sy'n nythu.

## PED5 – Creu cerrig sarn i fywyd gwyllt yng Nghwrs Golff De Sir Benfro

**9.64** Mae'r cwrs golff yn gwahanu cynefin lleol. Dylid ystyried ehangu'r ardaloedd presennol o goetir, ochr yn ochr â phlannu coed ar hyd yr hawl tramwy cyhoeddus sy'n cysylltu Victoria Road â Cross Park a pherimedr Ysgol Pennar. Dylid hefyd ystyried cadw ardaloedd o laswellt garw rhwng ffyrdd teg fel lle i adar ac infertebratau gysgodi. Dylid lleihau’r defnydd o blaladdwyr, neu gemegau eraill, sy'n cyfrannu at broblemau ansawdd dŵr o fewn Afon Penfro a'r dalgylch ehangach.

## PED6 – Adfywio Carriage Drive

**9.65** Amrywiaethu strwythur y coetir presennol i ganiatáu golau i amrywiaethu'r fflora daear, gan gynnal rhywogaethau peillwyr. Dylid cadw pren marw yn ei le i ddarparu cynefin ychwanegol. Dylai byrddau dehongli sy'n dathlu treftadaeth yr ardal gael eu cyflwyno hefyd.

## PED7 – Creu gardd bywyd gwyllt yn Ysbyty De Sir Benfro

**9.66** Gan gydweithio â gwirfoddolwyr, dylai creu bywyd gwyllt a gardd synhwyraidd gynnwys plannu coed brodorol, pentyrrau pren marw, dolydd blodau gwyllt a blychau adar. Gallai'r lle gael ei ddefnyddio gan gleifion, staff ac ymwelwyr i chwilio am le o heddwch a llonyddwch.

## PED8 – Gwella bioamrywiaeth yn Memorial Park

**9.67** Mae Memorial Park yn fan gwyrdd a ddefnyddir yn helaeth, sy'n cynnig llwybrau allweddol o ganol y dref i'r ardaloedd preswyl cyfagos. Fodd bynnag, dylid gweithredu ymyriadau i wella bioamrywiaeth y parc. Gan gydweithio ag Ysgol Gymunedol Doc Penfro, gallai cynigion gynnwys cynyddu'r fflora daear o dan goed mawr drwy blannu plygiau a sefydlu dolydd blodau gwyllt. Dylid hefyd ystyried plannu coed sbesimen er mwyn cynllunio ar gyfer olyniaeth coed. Mae'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol yn cynnwys cynigion ar gyfer gwelliannau hygyrchedd ychwanegol yn y lleoliad hwn.

## PED9 – Gwella bioamrywiaeth Mynwent Doc Penfro

**9.68** Mae mynwentydd yn cynnig cynefinoedd hanfodol bwysig i fioamrywiaeth leol. Dylid annog 'annibendod' a mwy o amrywiaeth strwythurol yn fodd o greu mannau bwydo, nythu, clwydo a gaeafgysgu. Dylid parhau i gynnal a chadw llwybrau presennol o fewn y safle a sicrhau bod mynediad at feddau y gofalir amdanynt ar gael drwy gydol y flwyddyn. Dylid gosod arwyddion addysgol i hyrwyddo'r newidiadau i'r drefn gynnal a chadw, gan gynnwys llacio’r drefn torri gwair mewn rhai ardaloedd, i helpu ymwelwyr i ddeall y sail resymegol i’r addasiadau.

## PED10 – Gwyrddu’r tir y tu ôl i ASDA ymhellach

**9.69** Mae’r tir y tu cefn i ASDA yn anwahoddgar ac nid yw'n darparu swyddogaeth gydlynol ar hyn o bryd ar gyfer pobl na bywyd gwyllt. Dylid gweithredu rhwydwaith o gafnau plannu uwch gyda phlanhigion brodorol sy'n denu peillwyr fel mesur i ddarparu diddordeb esthetig a gwerth bioamrywiaeth yn y tymor byr. Gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Tref Doc Penfro ac ASDA, dylid hefyd ystyried cyflwyno ymyriadau gwyrddu fel palmantau athraidd, coed stryd a gerddi glaw yn ardal y maes parcio.

## PED11 – Ad-drefnu ac estyn Llwybr Arfordir Penfro

**9.70** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## PED12 – Gwella gwerth bioamrywiaeth cae chwarae Bush Street

**9.71** Ar hyn o bryd mae'r cae chwarae ar Bush Street yn gartref i Glwb Pêl-droed Robinod Pennar a gellid edrych ar gyfleoedd i wella gwerth bioamrywiaeth y safle.  Gan weithio gyda'r tirfeddiannwr i gynnal defnydd hamdden y caeau chwarae, gellid trawsnewid y lleiniau glaswellt llethrog serth o amgylch y perimedr yn ddolydd blodau gwyllt drwy hau hadau blodau gwyllt ac addasu'r drefn torri gwair. Dylid plannu planhigion plwg hefyd ar hyd llain lydan St Johns Road i gynyddu ffynonellau bwyd peillwyr. Dylid hefyd ystyried gosod mwy o leoedd parcio beiciau er mwyn annog teithio llesol.

## PED13 – Hyrwyddo gwerth bioamrywiaeth cynyddol Cwm Sykemoor

**9.72** Mae Cwm Sykemoor yn cynnig cynefin peillwyr craidd o fewn y dref. Dylid creu llennyrch a llwybrau meirch agored yn y coetir er mwyn annog fflora daear amrywiol a chadw ardaloedd o bren marw yn eu lle. Byddai cyflwyno plannu coed ychwanegol ar Gaeau Sykemoor yn clustogi ac yn estyn y bloc coetir hwn. Dylid hefyd ystyried gweithredu ymyriadau Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) i helpu i reoli llifogydd yn naturiol.

## PED14 – Gwyrddu meysydd parcio ymhellach

**9.73** Cyflwyno cafnau plannu uwch a phlannu coed o fewn meysydd parcio o gwmpas y dref, er enghraifft yn Llanreath, Hobbs Point, Fort Road a Gordon Street i wella safle’r ardaloedd hyn a helpu i hyrwyddo cysylltedd peillwyr ehangach. Dylai cynigion plannu coed fod yn briodol yn lleol ac yn oddefgar o amlygiad a gwyntoedd llawn halen.

## PED15 – Creu dolydd blodau gwyllt ym Mhencadlys APCAP

**9.74** Dylid creu ystodau o ddolydd blodau gwyllt er mwyn gwella'r lleiniau o fewn cwrtil swyddfeydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP). Byddai'r ymyriad hwn yn darparu cynefin a chysylltedd ychwanegol ledled Doc Penfro ar gyfer peillwyr. Dylid hefyd plannu coed ychwanegol o fewn y lleiniau glaswelltog cyfagos ger y maes parcio, gan sicrhau y cedwir golygfeydd ar draws Aberdaugleddau ar yr un pryd.

## PED16 – Lleihau risg llifogydd ar hyd Bush Street

**9.75** Mae tir sy’n agos i Glwb Ieuenctid Doc Penfro mewn perygl o lifogydd dŵr wyneb. Argymhellir gweithredu mesurau i wanhau dŵr glaw yn naturiol. Ar ben hynny, dylid gosod palmantau athraidd yn y maes parcio cyfagos, gerddi glaw ymylol a phlannu coed er mwyn lleihau ehangder y llawr caled a hyrwyddo ymdreiddiad.

## PED17 – Cyflwyno gerddi glaw, coed stryd a phalmantau athraidd yn London Street

**9.76** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## PED18 – Gwella gwerth bioamrywiaeth y Fynwent Filwrol

**9.77** Gan weithio ar y cyd â'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD) fel perchnogion tir, datblygu cynllun rheoli hirdymor a strategaeth bioamrywiaeth i wella bioamrywiaeth a gwerth tirwedd y safle. Dylid ystyried sefydlu rhaglen ailgyflenwi coed a dôl blodau gwyllt i wella gwerth y safle i beillwyr. Ceir cyfle hefyd i wella cysylltiadau cynefinoedd drwy ddarparu coridorau bywyd gwyllt o fewn y cyd-destun cyfagos.

## PED19 – Gwella gwerth hamdden a bioamrywiaeth y man agored cyhoeddus ar Charles Thomas Avenue

**9.78** Ceisio gwella gwerth hamdden a bioamrywiaeth y man agored cyhoeddus presennol y tu cefn i'r is-orsaf drydanol ar Charles Thomas Avenue. Ar hyn o bryd, mae hwn yn adnodd nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol, felly ceir cyfle i ddefnyddio'r safle ar gyfer hamdden anffurfiol, chwarae naturiol neu ar gyfer gwelliannau bioamrywiaeth lleol. Dylid hefyd ystyried potensial y safle fel man tyfu cymunedol am ei fod mor agos at eiddo preswyl cyfagos.

# Pennod 10
Saundersfoot

**Ffigur 10.1: Saundersfoot**



## Portread o Seilwaith Gwyrdd Saundersfoot


**10.1** Pentref mawr ar arfordir de-ddwyrain Sir Benfro yw Saundersfoot, gyda thros 3,000 o boblogaeth ac o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae

Ardal Gadwraeth Saundersfoot yn anheddiad arfordirol cymharol isel gyda tharddiadau canoloesol ar ymyl ddwyreiniol y dref, ac mae'n cynnwys nifer o fythynnod ac adeiladau rhestredig â nodweddion morwrol. Mae datblygiad twristiaeth modern ar hyd yr arfordir hefyd, a hwnnw'n rhannol oherwydd traeth poblogaidd Saundersfoot a thraeth Coppet Hall. Caiff yr amgylchedd morol o gwmpas Saundersfoot ei gydnabod yn rhyngwladol am ei werth ecolegol drwy ddynodiadau Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Bae Caerfyrddin, ac Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Bae Caerfyrddin a'i Aberoedd / Dynesfeydd Môr Hafren. Mae'r ardal hefyd yn cael ei chydnabod yn genedlaethol trwy ddynodiadau Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Bae Waterwynch i Harbwr Saundersfoot a SoDdGA Saundersfoot i Arfordir Telpyn.

**10.2** Cymharol brin yw'r ardaloedd o le cyhoeddus agored yn Saundersfoot, gyda'r traethau a Llwybr Arfordir Penfro yn darparu'r ased hamdden mwyaf sylweddol i ymwelwyr a thwristiaid. Daw llwybr 4 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN) hefyd o'r gogledd i'r de trwy'r dref. Ceir rhwydwaith tameidiog braidd o Hawliau Tramwy Cyhoeddus yng nghymdogaethau preswyl gorllewinol Saundersfoot, ac ambell gysylltiad uniongyrchol â'r arfordir neu i Barc Cenedlaethol ehangach Arfordir Penfro. Gallai'r Llethr, sef Heneb Gofrestredig a llwybr cyhoeddus, gael ei hintegreiddio'n well i'r rhwydwaith presennol o hawliau tramwy cyhoeddus i wella cysylltedd rhwng ochrau gorllewinol a dwyreiniol y dref.

**10.3** Mae ardaloedd trwchus o goetir, sy'n aml yn hynafol, yn cwmpasu ardaloedd o Saundersfoot a'r cefn gwlad o'i amgylch, gan gynnwys yn Rhode Wood i'r de a'r Blanhigfa. Mae lleiniau dolennog o goetir yn dilyn dyffrynnoedd afonydd yn ymestyn o Gae'r Brenin Siôr ac yn gwahanu ardaloedd preswyl gogleddol a deheuol Saundersfoot. Cynigia'r coridorau coetir hyn gyfleoedd i greu cysylltiadau ar gyfer bywyd gwyllt a phobl rhwng y parth arfordirol dwys ei anheddiad yn y dwyrain i'r tirlun gwledig yn y gorllewin.

## Ffigur 110.2: Cyfleoedd SG yn Saundersfoot




- **SAU1** Dynodi llwybrau ar y Llethr yn well
- **SAU2** Creu rhwydwaith o lwybrau cylchol
- **SAU3** Cyflwyno mecanweithiau gwyrddu trefol ar hyd y Strand
- **SAU4** Gwella'r ddarpariaeth gynefinoedd yng Ngardd Synhwyraidd Saundersfoot
- **SAU5** Hyrwyddo gwyrddu meysydd parcio presennol
- **SAU6** Gwyrddu'r B4316 ymhellach
- **SAU7** Cyflwyno ac adfer cafnau blodau uchel yn Harbwr Saundersfoot
- **SAU8** Datblygu cynllun rheoli i Blanhigfa Saundersfoot
- **SAU9** Gwella tir diffaith ar Milford Street
- **SAU10** Cyfoethogi ymylon ffordd gwyrdd y tu allan i Ysgol Saundersfoot
- **SAU11** Estyn clustogfeydd torlannol ar hyd cyrsiau dŵr yn y gorllewin
- **SAU12** Estyn ardaloedd o goetir torlannol, lleiniau cysgodi a chyfleoedd ymylon cae yn y gogledd


# Prosiectau Cicdanio

## SAU2 – Creu rhwydwaith o lwybrau cylchol

**10.4** Ceir cyfle i greu cyfres o lwybrau cerdded cylchol a hyrwyddir i'r gorllewin o Saundersfoot, gan helpu i gysylltu ymwelwyr a thrigolion â thirwedd ehangach Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gan hefyd hyrwyddo ffyrdd o fyw egnïol. Ar hyn o bryd, mae gan yr anheddiad rwydwaith o Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd cerdded, gan gynnwys llwybr ceffylau ar Moreton Lane gyda llwybrau troed cyhoeddus cyfagos yn ymledu ar ei hyd. Mae'r prosiect hwn, felly, yn cynnig defnyddio'r llwybrau presennol hyn, wedi'u hategu â llwybrau newydd i greu llwybrau cylchol deniadol sy'n hwyluso rhyngweithio â natur. Dylid hefyd ymgorffori'r llwybr cyhoeddus presennol ar y Llethr, sef hen lwybr ffurfiant llethr tramffordd, o fewn y cynigion i ddarparu hierarchaeth o lwybrau cylchol. Cynigia dyluniad y llwybr gyfle i hyrwyddo hygyrchedd a chynwysoldeb ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddwyr, gan gynnwys cerddwyr a defnyddwyr cadair olwyn.

**10.5** Byddai sefydlu'r llwybrau cylchol hyn yn gwella'r cynnig hamdden ar y raddfa leol a strategol. Byddai posibilrwydd integreiddio amrywiaeth o ddodrefn stryd cadarn, dehongliadau, arwyddion a nodweddion chwarae naturiol achlysurol nad oes angen fawr o gynnal a chadw arnynt ar hyd y llwybrau hefyd yn helpu i wella eu cynnig hamdden. Fodd bynnag, er mwyn creu unrhyw rannau newydd o hawl tramwy cyhoeddus, byddai gofyn cynnal asesiad o'r cynefin naturiol i bennu a yw cyflwyno mynediad i'r cyhoedd yn gynaliadwy ac y dylid ei hyrwyddo. Byddai angen asesu gwrthdaro posib rhwng bioamrywiaeth a chyfleoedd mynediad hamdden. Dylid ystyried cyflwyno 'cod ymddygiad' ar gyfer ymddygiad priodol ar rannau ecolegol sensitif o'r llwybr i helpu i annog hamdden fwy cyfrifol.

### Ffigur 110.3: SAU2




## Buddion y prosiect

**10.6** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 10.4 isod, mae:

- Darparu cyfleoedd teithio llesol
- Buddsoddiad a gwell profiad i ymwelwyr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Chwarae, addysg a rhyngweithio â natur
- Rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant cymunedol
- Atgyfnerthu ymdeimlad o le
- Gwella iechyd a lles
- Dal a storio carbon a lliniaru effeithiau newid hinsawdd

### Ffigur 110.4: Buddion




## Mecanweithiau cyflawni

**10.7** Byddai angen cais am grant i sicrhau cyllid ar gyfer y gwaith cyfalaf, gan gynnwys cynhyrchu deunydd hyrwyddo, dodrefn stryd ac arwyddion, sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn.

**10.8** Fodd bynnag, byddai angen cyllid allanol sylweddol a dyrannu adnodd staff pe bai angen rhannau newydd o hawl tramwy cyhoeddus i gyflawni'r prosiect. Byddai angen i'r prosiect fod yn seiliedig ar dirfeddianwyr cydweithredol ac asesiad cynaliadwyedd i benderfynu pa mor briodol yw cyflwyno mynediad i'r cyhoedd.

## Partneriaid posibl

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP);
- Tirfeddianwyr; a
- Cyfoeth Naturiol Cymru

## Cost amlinellol

**10.9** Byddai costau'r prosiect yn dibynnu ar y graddau y byddai'r aliniadau llwybr arfaethedig yn ailddefnyddio'r rhwydwaith presennol o hawliau tramwy cyhoeddus yn ogystal â maint y dodrefn stryd arfaethedig ac arwyddion cysylltiedig.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- APCAP

## Amserlen

**10.10** Byddai'r amserlenni ar gyfer gweithredu cynigion sy'n cynnwys ailddefnyddio hawliau tramwy cyhoeddus presennol i greu llwybrau hamdden cylchol yn rhai tymor byr i dymor canolig o ran hyd. Fodd bynnag, lle mae angen dynodi hawl tramwy cyhoeddus newydd, byddai hyn yn fwy beichus a thymor hwy.

## Cyfyngiadau posibl

**10.11** Os yw'r prosiect yn ailddefnyddio hawl tramwy cyhoeddus presennol, y prif gyfyngiadau fyddai sicrhau'r arian angenrheidiol i gyflawni'r prosiect a sicrhau bod y gymuned yn cefnogi’r prosiect.

**10.12** Os yw'r prosiect yn creu darnau newydd o hawl tramwy cyhoeddus, byddai hyn yn debygol o fod yn gymhleth, gyda gofynion yn cystadlu. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad am gyllid allanol sylweddol a chysylltu â thirfeddianwyr lleol i sicrhau ymrwymiad ar dir sydd dan berchnogaeth breifat. Byddai angen ymgysylltu â thirfeddianwyr a deiliaid tir er mwyn cyflwyno'r cyfleoedd hyn a thrafod eu heffeithiau ar ddefnydd tir presennol. Fodd bynnag, un agwedd

anhysbys allweddol i'r prosiect fyddai'r amser sydd ei angen i gael caniatâd y tirfeddianwyr hyn.

**10.13** Efallai y bydd angen clirio llystyfiant lleol ar y prosiect hefyd ar hyd rhai rhannau o'r llwybr. Byddai angen gwneud hyn er mwyn osgoi'r tymor nythu adar ac mewn cyswllt ag ecolegydd neu Glerc Gwaith Ecolegol (ECoW).

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**10.14** Byddai angen gwaith cynnal a chadw parhaus ar arwynebau caled y llwybrau er mwyn sicrhau bod mynediad yn cael ei gynnal drwy gydol y flwyddyn. Byddai angen gwaith rheoli tirwedd hefyd i sicrhau bod llinellau gweld yn cael eu cadw ar draws y llwybr.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**10.15** Ceir cyfle i osod synwyryddion neu rifyddion i fonitro'r defnydd o'r llwybrau fel rhan o'r rhwydwaith teithio llesol ehangach o fewn y sir.

## Camau nesaf

**10.16** Ymgysylltu ag APCAP i ganfod awydd a chyllideb i fwrw ymlaen ag asesiad, astudiaeth ddichonoldeb ac ymarfer gwaith opsiynau i nodi'r rhwydwaith arfaethedig o lwybrau cylchol.

**Ffigur 110.5: Saundersfoot**



## SAU7 – Cyflwyno ac adfer cafnau blodau uchel yn Harbwr Saundersfoot

**10.17** Byddai Ocean Square yn elwa ar ychwanegu cafnau blodau uchel ar hyd Harbwr Saundersfoot tuag at Ganolfan Arfordirol Ryngwladol Cymru, gan ddilyn aliniad y llwybr beicio presennol yn fras. Dylid gwneud hyn ynghyd ag ailblannu'r cafnau plannu bric uchel presennol wrth ymyl y maes parcio â blodau lluosflwydd brodorol, sy’n goddef halen i ddenu peillwyr. Dylid hefyd ystyried plannu coed ychwanegol mewn ardaloedd o dirwedd galed i ddarlunio mynedfeydd allweddol i'r harbwr (e.e. o fynedfa'r Strand / y Stryd Fawr). Byddai hyn yn ategu'r cafnau plannu presennol ar Stammers Road. Dylid cynnal y cafnau plannu hyn gyda blodau brodorol llawn neithdar.

**10.18** Gan fod llawer o Harbwr Saundersfoot yn perthyn i Barthau Llifogydd 2 a 3, gallai'r cafnau plannu hefyd weithredu fel Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC). Mae cafnau plannu gerddi glaw yn cynnig nodweddion addasu deniadol y gellir eu defnyddio i reoleiddio llifoedd dŵr wyneb a lleihau risg llifogydd dŵr wyneb. Mae cafnau plannu gerddi glaw yn defnyddio dŵr glaw y gellir ei ddargyfeirio'n syth i'r cafn lle mae'r pridd yn amsugno ac yn storio'r dŵr glaw i'r planhigion ei ddefnyddio; gelwir hyn yn fioddargadwad.

**10.19** Dylid defnyddio arwyddion i gyfleu swyddogaeth y cafnau plannu a helpu i hybu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd peillwyr.

### Ffigur 110.6: SAU7




## Buddion y prosiect

**10.20** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 10.7 isod, mae:

- Lleihau risg llifogydd
- Buddsoddiad a gwell profiad i ymwelwyr

- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Chwarae, addysg a rhyngweithio â natur
- Atgyfnerthu ymdeimlad o le
- Gwella iechyd a lles

**Ffigur 110.7: Buddion**




## Mecanweithiau cyflawni

**10.21** Dylid cyflenwi cafnau plannu a basgedi crog yn unol ag adran gyflawni'r Strategaeth Peillwyr. Efallai y bydd gan fusnesau lleol ar hyd Harbwr Saundersfoot ddiddordeb mewn noddi cafnau plannu y tu allan i'w siopau yn gyfnewid am hysbysebu neu hyrwyddo.

## Partneriaid posibl

- Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd Cyngor Sir Penfro (CSP)
- Busnesau lleol

## Cost amlinellol

### Cost isel= <£250k

**10.22** Mae'r gwariant cyfalaf sydd ei angen ar gyfer cafnau plannu uchel yn gymharol isel. Fodd bynnag, byddai cafnau plannu gerddi glaw yn ddrutach ond yn darparu buddion ychwanegol ac arbedion posibl o ran lliniaru difrod dŵr wyneb.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
- Nawdd gan fusnesau lleol

## Amserlen

### Cam cyflym ymlaen = <1 flwyddyn

**10.23** Gellid gweithredu prosiectau ar lawr gwlad bron yn syth.

## Cyfyngiadau posibl

**10.24** Er mwyn i'r cafnau plannu sefydlu'n llwyddiannus, byddai angen gwaith cynnal a chadw arnynt. Heb hyn efallai y byddan nhw'n mynd yn anneniadol ac yn colli cefnogaeth y gymuned. Gan y byddai'r cafnau mewn lleoliadau cyhoeddus, gall ymddygiad gwrthgymdeithasol amharu arnynt hefyd neu eu difrodi.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**10.25** Drwy gydol y gwanwyn a'r haf, dylid dyfrio’r cafnau plannu bob dydd. Pan fydd planhigion yn eu blodau gallant elwa ar fwyd hylif potasiwm uchel bob pythefnos. Dylai cynwysyddion neu botiau allu draenio’n dda i atal dirlawnder. Er mwyn atal planhigion rhag mynd yn rhy wlyb ac oer dros y gaeaf, dylid eu codi ychydig oddi ar y ddaear a'u gosod yn erbyn cysgod wal. Gallai busnesau lleol neu berchnogion tai sydd agosaf at y cafnau plannu gynorthwyo gyda'r gwaith cynnal a chadw hwn.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**10.26** Gellid cofnodi llwyddiant y cafnau plannu yn ôl nifer y pryfed sy'n peillio y maen nhw'n eu denu ac amrywiaeth y rhywogaethau. Datblygwyd methodoleg Cyfrifiadau Blodau-Pryfed wedi’u Hamseru (Cyfrifiadau FIT) gan Gynllun Monitro Peillwyr y DU. Mae hyn yn golygu cyfrif y pryfed sy'n ymweld ag un o flodau targed y 14 rhywogaeth o flodau o fewn llain sgwâr 50cm wrth 50cm am 10 munud mewn tywydd da. Gallai pobl leol gymryd rhan yn hyn fel rhaglen wyddoniaeth dinasyddion.

**10.27** Gallai llwyddiant hefyd gael ei fonitro drwy gofnodi sawl cafn plannu ychwanegol sydd wedi'u gosod gan drigolion neu fusnesau lleol.

## Camau nesaf

**10.28** Adolygu adran gyflawni'r Strategaeth Peillwyr i benderfynu ar y broses ac adolygu astudiaethau achos yn ymwneud â gosod cafnau plannu a basgedi crog.

**10.29** Ymgynghori â Thîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP

**10.30** Ymgysylltu â thrigolion a busnesau lleol i ganfod diddordeb mewn noddi a/neu gynnal cafnau plannu yng nghanol y dref.

### Ffigur 110.8: Saundersfoot



## SAU12 – Estyn ardaloedd o goetir torlannol, lleiniau cysgodi a chyfleoedd ymylon cae yn y gogledd

**10.31** Mae gan Saundersfoot hanes o ddigwyddiadau llifogydd, a hynny fel arfer o ganlyniad i ymchwyddiadau storm sy'n tywallt i Fae Caerfyrddin o Fôr Hafren.

**10.32** Mae tir i'r gogledd o Ysgol Gynradd Saundersfoot a Pharc Gwyliau Scar Farm yn cynnig cyfleoedd llain gysgodi, ymyl cae a choetir torlannol. A'r tir hwn

yn ddiffaith ar hyn o bryd, caiff ei rannu’n ddwy gan gwrs dŵr bychan sy'n bwydo i Fae Saundersfoot o Draeth Coppet Hall. Byddai'r ymyriadau hyn yn helpu i leddfu risg llifogydd dŵr wyneb, gan ddarparu storfa ar gyfer llifddwr a helpu i gysylltu ardaloedd coetir sy'n amgylchynu Hean Castle ac yn ffinio â choedwig Peggy James i'r gogledd.

**10.33** Er bod y tir i'r gorllewin o'r safle arfaethedig wedi'i glustnodi yng Nghynllun Datblygu Lleol 2 **[Gweler cyfeiriad** 3**]** ar gyfer datblygiad preswyl (HA3 i'r gogledd o Whitlow), mae'r gofynion dylunio yn cynnwys clustogfa goetir i'r gogledd o'r safle a fyddai'n cysylltu plannu coetir torlannol ar draws yr ardal. Cynigir llwybr cyhoeddus hefyd o amgylch perimedr y safle. Ceir cyfle i estyn y llwybr hwn i'r safle ei hun i annog y gymuned i ddefnyddio’r coetir a’r llain gysgodi.

## Ffigur 110.9: SAU12



# Buddion y prosiect

**10.34** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 10.10 isod, mae:

- Lleihau risg llifogydd
- Gwella ansawdd dŵr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Gwella ansawdd aer a rheoleiddio sŵn
- Dal a storio carbon a lliniaru effeithiau newid hinsawdd

### Ffigur 110.10: Buddion




## Darparu atebion seiliedig ar natur a gwasanaethau ecosystemau

**10.35** Mae rheoli defnydd tir am y 90 mlynedd ddiwethaf wedi golygu mwy o ddraenio'r tir, mewn ymgyrch i sicrhau bod tir fferm mor effeithlon ag sy’n bosibl. Mae hyn wedi arwain at leihau amrywiaeth cynefinoedd, a cholli gwlyptiroedd, glaswelltir gwlyb a chynefinoedd daearol gwlyb cysylltiedig. Mae hefyd wedi cynyddu risg llifogydd, am ei fod yn cynyddu cyflymder a maint y dŵr sy'n llifo i lawr dalgylchoedd, gan leihau effaith glustogi'r dirwedd yn ystod glaw trwm a

maith. Mae draeniad cynyddol priddoedd gwlyb hefyd yn cael effaith andwyol ar allu'r pridd i ddal a storio carbon.

**10.36** Trwy ddefnyddio technegau amaeth-goedwigaeth megis clustogfeydd torlannol, plannu lleiniau cysgodi ac ymylon caeau, byddai gallu'r dirwedd i amsugno a chlustogi glawiad a dŵr ffo wyneb yn cael ei gynyddu'n sylweddol. Byddai hyn yn cael effaith fuddiol gydredol ar risg llifogydd, ansawdd dŵr a dal a storio carbon, gan y byddai ail-wlychu priddoedd gwlyptir yn cynyddu eu gallu i amsugno a chloi carbon.

## Mecanweithiau cyflawni

**10.37** Dylid cynnal arolwg cychwynnol o'r safle a chwmpasu gan wyddonwyr dinasyddion hyfforddedig, staff Cyngor Sir Penfro (CSP) neu ymgynghorwyr hyfforddedig. Byddai angen ymgysylltu â thirfeddianwyr a deiliaid / porwyr tir er mwyn cyflwyno'r prosiect hwn a thrafod unrhyw effeithiau ar ddefnydd tir presennol.

**10.38** Rhagwelwn y gallai'r ymyriadau a'r newidiadau ffisegol arfaethedig i reoli tir gael eu darparu gan y tirfeddianwyr eu hunain, neu gan gontractwyr amaethyddol allanol.

## Partneriaid posibl

- PLANED – Rhwydwaith Amaethyddiaeth Gynaliadwy Sir Benfro (PSAN)
- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
- Deiliaid tir

## Cost amlinellol

### Cost isel = <£250k

**10.39** Byddai'r costau'n cynnwys ychydig o gyngor arbenigol cyfyngedig, ffioedd asiant tir, ffensys a chostau plannu coed.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP)
- Cyfraniadau datblygwyr (oherwydd gofynion clustogi coetir Cynllun Datblygu Lleol 2 **[Gweler cyfeiriad** 4**]**)
- Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru sy'n dod i'r amlwg
- Rhaglen Grant Cymunedau Cydnerth
- Cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
- Y Cyngor Coed
- Coedwig Genedlaethol Cymru – Y Grant Buddsoddi mewn Coetir (Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol – Cylch 1)
- Grantiau CNC
- Cronfa Rhwydweithiau Natur

## Amserlen

### Cam cyflym ymlaen = <1 flwyddyn

**10.40** Gellid plannu coed torlannol a chreu lleiniau cysgodi ac ymylon caeau mewn ambell leoliad allweddol yn y tymor plannu nesaf, gyda gwaith cynnal a chadw tirwedd yn ofynnol ar draws y cyfnod sefydlu 60 mis. Un o'r prif bethau

anhysbys ar gyfer y prosiect fyddai'r amser a gymerir i ennill cytundeb / caniatâd y tirfeddiannwr / deiliad / porwr a chyrchu cyllid.

### Tymor canolig = 1-5 mlynedd

**10.41** Dylid gwneud mwyafrif y gwaith plannu coed ar draws y pum tymor plannu nesaf er mwyn caniatáu ar gyfer digon o gynllunio ac ymgysylltu.

## Cyfyngiadau posibl

**10.42** Un cyfyngiad allweddol ar gyfer y prosiect fyddai cytundebau tirfeddiannwr / deiliad tir / porwr, gan y gallai fod risg canfyddedig i hyfywedd fferm sy'n gysylltiedig â cholli rhywfaint o dir i ymylon torlannol / lleiniau cysgodi / plannu ymylon caeau ac ati. Dylid gwrthddadlau'r pryderon hyn ag argaeledd taliadau amaethyddol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, ac felly mae'r oedi cyn lansio Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn gyfyngiad posibl yn hyn o beth.

**10.43** Byddai angen i asesiad ecolegol o'r safle gael ei gynnal gan ecolegydd gyda'r holl waith safle'n cael ei oruchwylio o bosibl gan Glerc Gwaith Ecolegol (ECoW).

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**10.44** Byddai angen cynnal a chadw'r gwaith meddal a'r gwlyptir yn rhan o'r cyfnod sefydlu 60 mis, gan gynnwys amnewid coed aflwyddiannus.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**10.45** Yn amodol ar argaeledd cyllid, dylid monitro llwyddiant y prosiect drwy wyddoniaeth dinasyddion syml, gyda chymorth addas. Mae llwyddiant llain

glustogi’n dibynnu’n aml ar y dyluniad cychwynnol ond hefyd gofal a rheolaeth ddilynol gan ddefnyddio technegau coedyddiaeth i gynnal y llain gysgodi y tu hwnt i ddisgwyliad oes y coed gwreiddiol a blannwyd.

## Camau nesaf

**10.46** Ymgysylltu â thirfeddianwyr / deiliaid / porwyr ac ymrwymo i gytundebau i ddarparu ymyriadau ar eu tir. Dylid ymgynghori â CNC hefyd i ymchwilio i weld a buddion y prosiect yn cydredeg â phrosiect Pedair Afon LIFE a chyfleoedd ariannu posibl. Dylid edrych hefyd ar y potensial ar gyfer credydau maetholion i wrthbwyso costau'r prosiect.

### Ffigur 110.11: Saundersfoot



# Rhestr Hir o Brosiectau

## SAU1 – Dynodi llwybrau ar y Llethr yn well

**10.47** Gan ffurfio rhan o fenter ehangach i ddarparu cysylltiadau â Gorsaf Saundersfoot, dynodi llwybrau’n well, gwella arwyddion, seddi a nodweddion ffiniol ar hyd y Llethr o Brooklands Place, Westfield Road a The Ridgeway. Dylid ystyried gwella’r dehongliad o nodweddion treftadaeth wrth fynedfeydd ac ar hyd y llwybr ei hun. Dylid gosod arwyneb newydd hefyd, gan ganolbwyntio ar y mannau uchaf lle mae'r llwybr wedi’i dreulio ac wedi tyfu’n wyllt. Mae'r lleoliad hwn yn goridor pathewod pwysig. Felly, dylai cynigion anelu at gryfhau'r strwythur gwrychoedd presennol, gan ddarparu cynefin ymyl sy'n llawn rhywogaethau ar gyfer peillwyr.

## SAU2 – Creu rhwydwaith o lwybrau cylchol

**10.48** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## SAU3 – Cyflwyno mecanweithiau gwyrddu trefol ar hyd y Strand

**10.49** Adolygu darpariaethau parcio ar hyd y Strand ac adennill rhai cilfachau parcio ar gyfer gwyrddu trefol, gan sicrhau bod digon o le’n cael ei gadw ar gyfer llwytho a pharcio i’r anabl. Ceir cyfle i ddefnyddio'r lle hwn wedi'i adennill ar gyfer plannu coed stryd, parcio beiciau, parciau bychain, seddi ac ardaloedd ychwanegol i gaffis.

## SAU4 – Gwella’r ddarpariaeth gynefinoedd yng Ngardd Synhwyraidd Saundersfoot

**10.50** Mae'r ardd synhwyraidd / parc poced presennol yn darparu ardal ar gyfer plannu addurnol ac ymlacio tawel o fewn Harbwr Saundersfoot. Byddai'r lle yn elwa ar well plannu gyda rhywogaethau blodeuol brodorol, sy’n goddef halen, yn ogystal â nodweddion cynefin ychwanegol fel pentyrrau boncyffion a gwestai pryfed i gynyddu manteision bioamrywiaeth y safle.

## SAU5 – Hyrwyddo gwyrddu meysydd parcio presennol

**10.51** Mae meysydd parcio Saundersfoot, gan gynnwys Brooklands Close a'r Harbwr, yn cynnwys darnau helaeth o dirlunio caled. Fodd bynnag, dylid edrych ar fân waith ad-drefnu er mwyn rhoi'r cyfle i blannu coed a gosod arwyddion dehongli o fewn y safleoedd hyn. Byddai gwyrddu ychwanegol yn y lleoliadau hyn hefyd yn dargyfeirio dŵr storm o garthffosydd cyfun ac yn helpu i leihau dylanwad afonol adeg llifogydd.

## SAU6 – Gwyrddu’r B4316 ymhellach

**10.52** Y B4316 yw’r prif lwybr drwy Saundersfoot, felly byddai ei wyrddu’n helpu i greu porth croesawgar i'r anheddiad ac yn darparu cysylltiadau â'r llwybr cyd-ddefnyddio arfaethedig. Byddai ailddefnyddio cafnau plannu segur ar hyd y llwybr yn darparu cynefin a choridorau cymudo ychwanegol i beillwyr hefyd. At hynny, byddai creu dolydd blodau gwyllt ar y llain laswellt wrth y gyffordd â'r A478 yn New Hedges yn helpu i greu porth croesawgar sy'n cysylltu â'r lleiniau ymyl ffordd presennol ar hyd Ffordd Arberth.

# SAU7 – Cyflwyno ac adfer cafnau blodau uchel yn Harbwr Saundersfoot

**10.53** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

# SAU8 – Datblygu cynllun rheoli ar gyfer Planhigfa Saundersfoot

**10.54** Annog sefydlu grŵp diddordeb / grŵp cymunedol a datblygu cynllun ar gyfer rheoli'r safle yn y dyfodol, gan gynnwys darparu gwelliannau mynediad drwy Sandyhill Road. Byddai arolygon coed ac ecolegol o fudd i lywio arferion rheoli yn y dyfodol os nad ydynt eisoes ar gael.

# SAU9 – Gwella tir diffaith ar Milford Street

**10.55** Gellid defnyddio’r ardal bresennol o dir diffaith yng nghornel Milford Street a Brooklands Close efallai i wella'r cynefinoedd a ddarperir yn lleol. Byddai angen ymgysylltu â thirfeddianwyr i helpu i ddeall uchelgeisiau’r dyfodol ar gyfer y safle a'r potensial ar gyfer 'defnyddiau yn y cyfamser' fel dolydd blodau gwyllt.

# SAU10 – Cyfoethogi ymylon ffordd gwyrdd y tu allan i Ysgol Saundersfoot

**10.56** Nodweddir y lleiniau ymyl ffordd gwyrdd y tu allan i Ysgol Saundersfoot ar gyffordd y B4316 a Church Terrace gan laswelltir mwynder a dorrir yn fyr a llwyni nad oes angen fawr o gynnal a chadw arnynt. Byddai ailosod yr ardaloedd hyn â gerddi glaw sy'n denu peillwyr a rhywogaethau coed bach yn cynnig porth mwy croesawgar i'r ysgol, gan ddarparu ar gyfer peillwyr.

## SAU11 – Estyn clustogfeydd torlannol ar hyd cyrsiau dŵr yn y gorllewin

**10.57** Archwilio cyfleoedd i ehangu plannu coed torlannol ar hyd y ddau gwrs dŵr i'r gorllewin o Saundersfoot, gan gynnwys o amgylch Moreton Lane. Dylid defnyddio clustogfeydd ymyl cae ychwanegol ar dir amaethyddol i wella ansawdd dŵr a rheoli maetholion ffo i mewn i gyrsiau dŵr cyfagos, yn ogystal ag arafu llif dŵr i fyny'r afon o Saundersfoot.

## SAU12 – Estyn ardaloedd o goetir torlannol, lleiniau cysgodi a chyfleoedd ymylon cae yn y gogledd

**10.58** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

# Pennod 11

Tyddewi

**Ffigur 11.1: Tyddewi**



## Portread o Seilwaith Gwyrdd Tyddewi


**11.1** Dinas fechan, wledig yng ngogledd-orllewin Sir Benfro yw Tyddewi, ychydig i mewn i'r tir ar Benrhyn Tyddewi ac o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Gorwedd craidd hanesyddol y ddinas o fewn Ardal Gadwraeth, sy'n cynnwys nifer o strwythurau rhestredig Gradd I a II. Mae nifer o Henebion

Cofrestredig sy'n gysylltiedig ag Eglwys Gadeiriol a Llys Esgob Tyddewi, sy'n adeiladau rhestredig Gradd I, wedi'u crynhoi i'r gorllewin o graidd yr anheddiad.

**11.2** Daw Afon Alun heibio ar hyd ymyl orllewinol Tyddewi gan ddarparu coridor bywyd gwyllt coediog gyda Hawliau Tramwy Cyhoeddus ysbeidiol a thir mynediad agored ar hyd ei lwybr. I'r gogledd-ddwyrain o'r ddinas mae Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Tiroedd Comin Gogledd-orllewin Penfro, sef un o safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n cynnal coetir, rhostir a glaswelltir o bwysigrwydd biolegol, ac sydd hefyd wedi’i dynodi'n dir mynediad agored. O fewn craidd y ddinas sydd wedi’i anheddu’n ddwys, cymharol brin yw’r mannau agored a’r gorchudd coed.

**11.3** Cryfheir cysylltedd cyffredinol o amgylch y ddinas gan y rhwydwaith o Hawliau Tramwy Cyhoeddus a grynhoir i'r gogledd ac i'r de o graidd yr anheddiad. Mae'r rhain yn cysylltu'r ddinas i lawr at Lwybr Arfordir Sir Benfro yn y de ac ACA Tiroedd Comin Sir Benfro yn y gogledd. Mae nifer o lwybrau beicio hamdden a llwybr 4 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN) hefyd yn cysylltu'r ddinas â'r arfordir a'r traethau cyfagos. Fodd bynnag, mae cysylltiadau rhwng y llwybrau cerdded a beicio presennol hyn braidd yn ddigyswllt ac mae cyfleoedd i wella cysylltedd ar gyfer bywyd gwyllt a phobl ar draws y ddinas.

## Ffigur 11.2: Cyfleoedd SG yn Nhyddewi




Yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2022

CB:JT EB:Tomlinson_J LUC 11993_010_r0_BaseMapRequest221010 10/10/2022
Ffynhonnell: OS

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| STD1 | Cyflenwi rhandiroedd / lle tyfu cymunedol newydd ar Ffordd Glasfryn | STD2 | Cyflwyno gwyrddu trefol o fewn ardaloedd preswyl presennol | STD3 | Gwella cysylltiadau â Llwybr Arfordir Penfro |
| STD4 | Darparu cyswllt teithio llesol i Draeth Mawr | STD5 | Gwella mynediad sensitif i ACA Tiroedd Comin Gogledd-orllewin Sir Benfro a Thir Comin Dowrog | STD6 | Gwella safle Eglwys Gadeiriol a Llys Esgob Tyddewi, a'r Fynwent i beillwyr |
| STD7 | Datblygu darpariaeth peillwyr yng Nghanolfan Groeso ac Oriel y Parc | STD8 | Gwella potensial cynefin caeau chwarae yn Ysgol Penrhyn Dewi | STD9 | Cyfoethogi'r cynefin presennol ym Maes Parcio Merivale / Llys yr Esgob |
| STD10 | Mynd i'r afael â'r bylchau yn Llwybr Peillwyr Tyddewi | STD11 | Gwyrddu Heol Non ymhellach | STD12 | Hyrwyddo cyfleoedd i dyfu bwyd cymunedol yn lleol |
| STD13 | Cyflwyno rhwydwaith o goed stryd ar Heol Newydd a Stryd Fawr yr A487 | STD14 | Creu gwlyptiroedd wrth ymyl Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Tyddewi | STD15 | Ailgysylltu gorlifdiroedd a phlannu coed |
| STD16 | Creu cyswllt i gerddwyr sy'n cysylltu Tyddewi a Phorthclais wrth ymyl Afon Alun | STD17 | Datblygu rhwydwaith o lwybrau cerdded cylchol ar y tir o amgylch Llys yr Esgob | | |

# Prosiectau Cicdanio


## STD2 – Cyflwyno gwyrddu trefol o fewn ardaloedd preswyl presennol

**11.4** Mae strydoedd yn ffurfio agwedd bwysig ar le cyhoeddus. Gall atyniad strydoedd gael effaith sylweddol ar les trigolion, gyda strydoedd gwyrddach a choed ar eu hyd yn darparu gwell lleoliadau ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, chwarae anffurfiol a balchder lleol.

**11.5** Mae nifer o ardaloedd preswyl Tyddewi yn cynnal lleiniau ymyl ffordd glaswellt, palmentydd eang a lle segur ar ffyrdd cerbydau sy'n cynnig y cyfle i gynnal mwy o amrywiaeth o ymyriadau gwyrddu trefol. Ymhlith y cymdogaethau mae'r ardal o gwmpas Heol Dewi, Mount Gardens a Maes Dyfed yng ngogledd Tyddewi, ac o amgylch Heol y Bryn, Maes yr Hedydd, Pen y Garn, Brynteg a Ffynnon Wen yn ne'r ddinas. Perchenogaeth breifat sydd ar rai o'r mannau hyn sy'n wynebu'r stryd, a byddai angen ymgysylltu â thrigolion i'w hannog a'u cefnogi i ymgymryd â rhai gweithgareddau gwyrddu ychwanegol fel plannu coed, llwyni a blodau lluosflwydd.

**11.6** Lle nodir mannau, dylid sefydlu coed stryd ychwanegol, coed sbesimen, gerddi glaw a dolydd blodau gwyllt. Gellid grymuso trigolion hefyd i wyrddu eu mannau preifat eu hunain sy'n wynebu'r stryd, gan ganolbwyntio'n benodol ar blannu'r 'goeden gywir yn y lle cywir', dewis planhigion sy'n denu peillwyr a darparu cynefinoedd ar raddfa fach ar gyfer bywyd gwyllt. Dylid annog trigolion i weld yr argymhellion ac egwyddorion rhywogaethau a nodir yn y Strategaeth Plannu Coed Trefol a'r Strategaeth Peillwyr. Gallai ymyriadau preswylwyr hefyd ddefnyddio cafnau plannu uchel, palmantau athraidd a nodweddion dŵr ar raddfa fechan o fewn eu mannau preifat eu hunain sy'n wynebu'r stryd. Dylid hau lleiniau mwy o ymyl ffordd laswellt â blodau gwyllt i gysylltu â llwybr peillwyr Tyddewi, er enghraifft ar hyd Heol y Bryn a Brynteg.

## Ffigur 11.3: STD2




# Buddion y prosiect

**11.7** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 11.4 isod, mae:

- Lleihau risg llifogydd
- Gwella ansawdd dŵr
- Buddsoddiad a gwell profiad i ymwelwyr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Chwarae, addysg a rhyngweithio â natur
- Gwella ansawdd aer a rheoleiddio sŵn
- Rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant cymunedol
- Atgyfnerthu ymdeimlad o le

- Oeri trefol
- Gwella iechyd a lles
- Dal a storio carbon a lliniaru effeithiau newid hinsawdd

### Ffigur 11.4: Buddion




## Mecanweithiau cyflawni

**11.8** Gallai cyflwyno dolydd blodau gwyllt, ar ôl eu sefydlu, leihau'r gofynion amser ar gyfer torri glaswellt yn ystod y tymor tyfu. Gallai toriadau blynyddol o ddolydd gael eu hintegreiddio yn rhaglen waith bresennol Tîm Gofal Stryd / Cynnal a Chadw Amwynderau Cyngor Sir Penfro (CSP).

**11.9** Dylid darparu ymyriadau fel plannu coed mewn cydweithrediad â thrigolion lleol, a gellid cysylltu hyn â diwrnod plannu coed yn y gymuned. Trwy ganiatáu i drigolion gael dweud eu dweud ym mha rywogaethau yr hoffent eu gweld y tu allan i'w cartrefi, ac ymhle yr hoffent eu plannu, anogir mwy o stiwardiaeth o'r sbesimenau drwy gydol y cyfnod sefydlu a’r tu hwnt. Mae dyluniad pyllau coed, y dyfnder a'r pridd a ddefnyddir a'r dyfrio a'r gwaith cynnal a chadw parhaus yn hanfodol er mwyn sicrhau sefydlu llwyddiannus.

**11.10** Lle bo'n bosib, dylid cyrchu coed a deunydd plannu yn lleol.

**11.11** Dylai arferion plannu ddilyn y canllawiau cyflenwi sydd wedi'u nodi o fewn y Strategaeth Plannu Coed Trefol a'r Strategaeth Peillwyr.

**11.12** Drwy'r gweithgareddau hyn i ymgysylltu â'r gymuned, gellid dosbarthu gwybodaeth sy'n addysgu trigolion am y pethau pellach y gallent fod yn eu gwneud yn eu mannau preifat eu hunain, gan gynnwys gerddi blaen a chefn.

## Partneriaid posibl

- Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP
- Wardeniaid Coed Sir Benfro
- EcoDewi
- The Bug Farm
- Cyngor Dinas Tyddewi
- Gwyllt am Sir Benfro

## Cost amlinellol

### Cost isel = <£250k

**11.13** Byddai costau'n gallu newid gan ddibynnu ar nifer yr ymyriadau. Dylid ystyried gwaith cynnal a chadw a sefydlu parhaus wrth bennu costau.

**11.14** Mae'r gost o greu dôl yn dibynnu ar faint a graddfa'r safle a'r opsiynau o ran hadau sydd ar gael. Ar gyfer ardaloedd bach, mae'n gymharol gost-effeithiol sefydlu dôl fechan o flodau gwyllt. Mae cost hadau (cymysgeddau lluosflwydd dôl iseldir) i orchuddio 50 metr sgwâr yn amrywio o £20 i £30.

**11.15** Byddai cost y coed yn amrywio gan ddibynnu ar faint y goeden sydd ei hangen a'r rhywogaeth, ond byddai'n llawer rhatach plannu mewn tirluniau meddal nag i arwynebau caled.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Codi arian yn y gymuned
- Cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP)
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Nawdd busnes

## Amserlen

### Cam cyflym ymlaen = <1 flwyddyn

**11.16** Gellid gweithredu ymyriadau'n eithaf cyflym, cyhyd â'u bod yn cael eu cynnal ar adeg gywir y flwyddyn e.e. mae'r tymor plannu coed gwreiddiau moel yn para o fis Hydref i fis Mawrth. Gellir efelychu ac ailadrodd ymyriadau llwyddiannus fel y daw'r cyllid ar gael, neu wrth i awydd y gymuned dyfu.

## Cyfyngiadau posibl

**11.17** Efallai y bydd gwrthwynebiad lleol i'r prosiect os yw gwelliannau'n tynnu oddi wrth olwg daclus a threfnus y stryd. Gallai arwyddion a byrddau dehongli helpu i liniaru rhag hyn, ond rhaid cyfleu ymyriadau yn glir i drigolion lleol cyn eu gosod.

**11.18** Byddai'r prosiect hwn yn gofyn am gefnogaeth y gymuned i sicrhau bod yr ymyriadau'n boblogaidd, a hynny ar dir cyhoeddus a phreifat. Mae'n hanfodol

bod y gymuned yn cymryd rhan yn y prosiect ar gyfer stiwardiaeth barhaus plannu newydd, yn enwedig plannu coed newydd o fewn y cyfnod sefydlu 60 mis.

**11.19** Byddai angen adnoddau ychwanegol gan Dîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP ar y sefydlu cychwynnol. Fodd bynnag, ar ôl i ddolydd gael eu sefydlu a phan ddaw coed yn annibynnol yn y dirwedd, dylai ymyriadau leihau gofynion amser rheoli.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**11.20** Dylai Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP fod yn gyfrifol yn y pen draw am sefydlu dolydd a choed sydd ar dir cyhoeddus. Fodd bynnag, byddai cynnwys y gymuned a'i galluogi i gymryd perchnogaeth ar y prosiectau yn gwneud stiwardiaeth hirdymor yn fwy tebygol, yn enwedig o ran dyfrio coed, cadw llygad ar bolion ac adrodd am unrhyw broblemau.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**11.21** Gall cyfradd oroesi planhigion newydd ac ardal newydd o gynefinoedd y ddôl a sefydlwyd fod yn ddangosyddion monitro ar gyfer llwyddiant. Gellid trefnu BioBlitz cymunedol blynyddol i gofnodi'r amrywiaeth o fywyd o fewn ardaloedd ymyrraeth. Gall cysylltu â phrosiectau gwyddoniaeth dinasyddion fel Cynllun Monitro Peillwyr y DU neu drefnu BioBlitz cymunedol blynyddol mewn mannau gwyrdd penodol helpu i gynnwys cymunedau lleol mewn ymdrechion monitro.

## Camau nesaf

**11.22** Adolygu adran gyflawni Strategaeth Peillwyr a Strategaeth Plannu Coed Trefol Sir Benfro i adolygu opsiynau ar gyfer gwella gwerth bioamrywiaeth lleoedd gwyrdd.

**11.23** Ymgysylltu â Thîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP i benderfynu pa safleoedd y gellid eu rheoli'n wahanol a sut.

**11.24** Ymgysylltu â Chyngor Dinas Tyddewi a thrigolion.

### Ffigur 11.5: Tyddewi




## STD4 – Darparu cyswllt teithio llesol i Draeth Mawr

**11.25** Mae Traeth Mawr yn draeth poblogaidd ymhlith ymwelwyr a thrigolion. O ganlyniad, gall y B4583 ffurfio coridor prysur yn ystod cyfnod prysur yr haf. Dylid edrych ar gyfleoedd i greu cyswllt beicio a cherdded diogel ac uniongyrchol

rhwng Tyddewi a Thraeth Mawr (tua 10 munud i’w feicio a 40 munud i’w gerdded). Gallai'r llwybr ddefnyddio lonydd bychain presennol a'u blaenoriaethu ar gyfer cerddwyr a beicwyr; er enghraifft, gellid dynodi naill ai Feidr Chwech-Erw neu Ben Rhiw (sy'n cynnal Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN) 4 ar hyn o bryd) yn lonydd tawel lle mae cyflymder cerbydau wedi'i gyfyngu i 20mya neu cânt eu defnyddio ar gyfer mynediad yn unig. Byddai creu darn oddi ar y ffordd ar hyd y B4583 yn creu llwybr diogel rhwng Tyddewi a'r traeth. Er mwyn gwneud hyn, byddai angen archwilio ac ymgysylltu ymhellach â thirfeddianwyr i benderfynu sut y gellid gwahanu'r llwybr o'r ffordd ac efallai y bydd angen cymryd rhywfaint o dir.

**11.26** Byddai'r llwybr i Draeth Mawr yn rhan o'r cam cychwynnol i gysylltu Tyddewi yn well â Llwybr Arfordir Penfro a chreu llwybrau cerdded arfordirol cylchol i ymwelwyr a thrigolion eu mwynhau i'r gogledd, i'r de, i'r dwyrain a'r gorllewin o'r ddinas. Gellid gwneud hyn ynghyd ag ystod newydd o arwyddion a chelfi stryd i helpu pobl i gael pen eu ffordd o gwmpas Penrhyn Tyddewi ar droed ac ar gefn beic, yn ogystal â dehongli rhai o'r asedau bioamrywiaeth a threftadaeth o bwys cenedlaethol.

## Ffigur 11.6: STD4



# Buddion y prosiect

**11.27** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 11.7 isod, mae:

- Darparu cyfleoedd teithio llesol
- Buddsoddiad a gwell profiad i ymwelwyr
- Chwarae, addysg a rhyngweithio â natur
- Gwella ansawdd aer a rheoleiddio sŵn
- Rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant cymunedol
- Gwella iechyd a lles

### Ffigur 11.7: Buddion




## Mecanweithiau cyflawni

**11.28** Byddai angen cais am grant i sicrhau cyllid ar gyfer y gwaith cyfalaf sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn. Byddai angen i'r llwybr gael ei nodi ar y Map Rhwydwaith Integredig i gael ei ystyried yn gymwys i gael cyllid.

## Partneriaid posibl

- Y tîm Teithio Llesol, sy'n rhan o'r Uned Strategaeth Trafnidiaeth yng Nghyngor Sir Penfro (CSP)
- Cyngor Dinas Tyddewi
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP)
- Tirfeddianwyr perthnasol

## Cost amlinellol

Cost uchel = <£1 miliwn

**11.29** Byddai'r costau i drawsnewid naill ai Feidr Chwech-Erw neu Ben Rhiw yn lonydd tawel yn gymharol fach, ar yr amod nad oes mynediad na chamerâu cyflymder yn cael eu gosod. Byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol ar waith cyfalaf ar gyfer rhan o lwybr oddi ar y ffordd ar hyd y B4583.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Grant Cronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru
- CSP
- Trafnidiaeth Cymru

## Amserlen

Tymor hir = >5 mlynedd

**11.30** Byddai amserlenni'n debygol o fod yn hir am fod angen casglu tyniant y tu ôl i'r prosiect, cysylltu â rhanddeiliaid a pherchnogion tir allweddol, cynnal arolygon, codi arian a gwneud y gwaith cyfalaf.

## Cyfyngiadau posibl

**11.31** Byddai'r prosiect yn debygol o fod yn gymhleth oherwydd nifer o ofynion a chyfyngiadau sy'n cystadlu â'i gilydd. Byddai llawer o hyn yn deillio o'r ffaith bod gofyn cyllid allanol sylweddol ac ymrwymiad gan dirfeddianwyr lleol. Byddai rhan o'r llwybr yn gofyn am ymrwymiad tirfeddiannwr os oes rhannau oddi ar y

ffordd am gael eu darparu, er enghraifft ar hyd y B4583, neu gellid archwilio Gorchmynion Prynu Gorfodol.

**11.32** Os cytunir ar ateb oddi ar y ffordd, byddai angen clirio llystyfiant lleol, ond dylid gwneud cyn lleied â phosibl o hyn a dylai’r llwybrau gofleidio'r ffordd gerbydau bresennol gymaint â phosibl. Byddai angen asesiad ecolegol ar y prosiect er mwyn llywio gwaith opsiynau llwybr. Byddai angen gwneud unrhyw waith adeiladu y tu allan i'r tymor nythu adar ac mewn cyswllt ag ecolegydd neu Glerc Gwaith Ecolegol (ECoW).

**11.33** Yn ddelfrydol, dylai rhannau ar hyd y B4583 gael eu gwahanu o'r ffordd gan y gallai'r llwybr fod yn anniogel i feicwyr a cherddwyr yn ystod cyfnodau brig prysur yr haf. Gall hyn gael ei waethygu gan barcio amhriodol.

**11.34** Mae rhai rhannau o'r llwybr yn eithaf serth ac felly ni fyddai'n hygyrch i bob defnyddiwr.

**11.35** Er mwyn cyflawni meini prawf Grant Cronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, rhaid i ddyluniad y cynllun sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a Chanllawiau ategol y Ddeddf Teithio Llesol. Rhaid i gynlluniau sy'n cynnwys gwella priffyrdd, adeiladu, neu reoli traffig ddangos sut maent yn cydymffurfio'n benodol ag Adran 9 o'r Ddeddf (Darpariaeth i gerddwyr a beicwyr wrth arfer rhai swyddogaethau).

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**11.36** Byddai angen cynnal a chadw blynyddol parhaus ar unrhyw arwyneb caled ar hyd y llwybr, gan gynnwys unrhyw glirio llystyfiant er mwyn cadw'r llwybr yn hygyrch. Dylid cadw llinellau gweld bob amser ar draws y llwybr cyfan.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**11.37** Ceir cyfle i osod synwyryddion neu rifyddion i fonitro'r defnydd o'r llwybr fel rhan o'r rhwydwaith teithio llesol ehangach o fewn y sir. Byddai'r dull hwn yn helpu i fesur llwyddiant y buddsoddiad sylweddol ac yn llywio strategaeth hirdymor a chyflawni prosiectau tebyg yn y dyfodol.

## Camau nesaf

**11.38** Cynnal astudiaeth ddichonoldeb ac ymarfer gwaith opsiynau i benderfynu ar y llwybr arfaethedig.

**11.39** Datblygu strategaeth celfi ac arwyddion stryd ar gyfer y llwybr y gellid ei chyflwyno fesul dipyn ledled Tyddewi a'r cyffiniau.

**11.40** Dylid ymgysylltu'n gynhwysfawr â'r gymuned a thirfeddianwyr i fesur awydd am y prosiect.

**11.41** Dylid ymgysylltu'n agos â thirfeddianwyr penodol y mae'r llwybr yn debygol o effeithio arnynt  cyn unrhyw gyhoeddiadau cyhoeddus.

**11.42** Dylid cynnal asesiad ecolegol i archwilio unrhyw effeithiau tebygol gwaith clirio llystyfiant sydd ei angen i gefnogi'r llwybr.

**Ffigur 11.8: Tyddewi**



## STD15 – Creu gwlyptiroedd wrth ymyl Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Tyddewi

**11.43** Byddai troi tir diffaith gerllaw Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Tyddewi yn wlyptir yn gweithredu fel clustogfa ar gyfer gollyngfa garthffosiaeth mewn cyfnodau o gyfaint uchel. Byddai cynefin gwlyptir yn creu cynefin newydd i fywyd gwyllt ac yn cynorthwyo stripio maetholion o'r ollyngfa. Byddai hyn yn helpu i leddfu'r llwyth maethol sy'n cael ei ryddhau ar hyn o bryd i Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Forol Penfro i lawr yr afon ym Mhorthclais, sy'n broblem barhaus. Yn 2021, digwyddodd mwy na 1,573 awr o orlifoedd storm cyfun (lle mae elifion budr heb eu trin yn cael eu gollwng i'r afon am eu bod yn fwy na chapasiti'r seilwaith) yng Ngorsaf Pwmpio Carthion Tyddewi. Byddai'r

ymyriad hwn yn helpu i storio llifddwr yn ogystal â gwella ansawdd dŵr, lleihau risg llifogydd a lleihau risg siltio cyrff dŵr cyfagos.

### Ffigur 11.9: STD15




## Buddion y prosiect

**11.44** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 11.10 isod, mae:

- Lleihau risg llifogydd
- Gwella ansawdd dŵr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Dal a storio carbon a lliniaru effeithiau newid hinsawdd

## Ffigur 11.10: Buddion




# Darparu atebion seiliedig ar natur a gwasanaethau ecosystemau

**11.45** Gall gwlyptiroedd gynorthwyo i liniaru llifogydd, gan storio dŵr gormodol mewn cyfnodau o law trwm, yn ogystal â'u prif swyddogaeth sef stripio ac ailgylchu maetholion. Mae'r cynefinoedd hyn hefyd yn darparu nifer o fanteision bioamrywiaeth.

**11.46** Gall gwlyptiroedd wedi'u hadeiladu, os cânt eu dylunio'n gywir, drin elifion yn gynaliadwy mewn modd sy'n gostwng crynodiad halogyddion sy'n debyg i fecanweithiau cemegol neu fecanyddol mwy cymhleth. Fel arfer mae'r elifion o gyfleusterau trin carthion yn llawn maetholion a gellir defnyddio gwlyptiroedd i helpu i leddfu'r mater hwn mewn ardaloedd sensitif fel ACA Forol Sir Benfro.

# Mecanweithiau cyflawni

**11.47** Byddai cydweithrediad a chyfranogiad Dŵr Cymru yn hanfodol i lwyddiant y prosiect hwn, ac felly'r cam cyntaf fyddai ymgysylltu â hwy a llunio astudiaeth ddichonoldeb, gan edrych ar y cyfraddau trwylif gofynnol, y lle sydd ar gael a'r opsiynau sy'n gysylltiedig â dylunio gwlyptir.

**11.48** Dylid ymgynghori â pheiriannydd dylunio priodol i ddarparu dyluniad o'r gwlyptiroedd. Dylid cyfrifo'r ardal bosibl ar gyfer y gwlyptiroedd a'i chytuno â thirfeddianwyr perthnasol. Dylid ymgynghori â'r gymuned leol er mwyn ei chynnwys gyda'r cynlluniau. Dylid cyflogi contractwyr y mae eu hangen i gwmpasu'r topograffi a chloddio ardaloedd dethol. Dylid hefyd ystyried deunyddiau sydd eu hangen i greu'r gwlyptiroedd fel deunyddiau swbstrad a llystyfiant mor lleol â phosib.

**11.49** Dylid defnyddio gwaith monitro gwyddoniaeth dinasyddion a monitro gorlif storm cyfun i helpu i lywio a monitro'r prosiect. Er bod astudiaethau gwyddonol y tu allan i gwmpas y cyfnod hwn o waith, byddai croeso hefyd i unrhyw wybodaeth a geir gan wyddoniaeth dinasyddion sy'n ymwneud ag iechyd yr amgylchedd morol lleol i gefnogi'r prosiect hwn. Dylid cynnal asesiad ecolegol o safleoedd posib cyn eu dewis.

## Partneriaid posibl

- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
- Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru
- Fforwm Arfordirol Sir Benfro
- Dŵr Cymru
- Grŵp Bywyd Gwyllt Morol Bae Ceredigion

## Cost amlinellol

### Cost isel i ganolig = <£250k i £1 miliwn

**11.50** Byddai'r costau'n cynnwys prynu neu rentu tir, dylunio'r gwlyptiroedd gan beiriannydd arbenigol, caffael planhigion a chostau sy'n gysylltiedig â chloddiad a gosod y gwlyptiroedd.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Dŵr Cymru
- Prosiect Pedair Afon LIFE
- Credydau maetholion gan ddefnyddio cytundeb Adran 106
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Cronfa Arloesi Ofwat

## Amserlen

### Tymor canolig = 1-5 mlynedd

**11.51** Rhagwelir y bydd y rhaglen hon yn cynnwys amser i ddylunio'r gwlyptir, dod i gytundebau gyda thirfeddianwyr, gwneud gwaith adeiladu a phlannu'r gwlyptir.

## Cyfyngiadau posibl

**11.52** Un o'r cyfyngiadau allweddol ar gyfer y prosiect fyddai sicrhau cytundebau tirfeddianwyr. Byddai'n hanfodol hefyd sicrhau bod y gwlyptiroedd gerllaw'r seilwaith trin carthion er mwyn osgoi ail-lwybro gollyngfeydd carthion a fyddai'n cynyddu amser a chostau'r prosiect. Mae bacteria sy'n gwrthsefyll gwrthfiotigau yn cronni mewn gwlyptiroedd yn bryder a dylid ystyried hyn wrth ddylunio'r gwlyptiroedd.

**11.53** Byddai angen cynllunio'r gwlyptir mewn modd sensitif oherwydd cyfyngiadau gofodol y safle.

**11.54** Byddai angen i asesiad ecolegol o'r safle gael ei gynnal gan ecolegydd gyda'r holl waith safle'n cael ei oruchwylio o bosibl gan Glerc Gwaith Ecolegol (ECoW).

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**11.55** Nid oes angen rhyw lawer o waith cynnal a chadw ar wlyptiroedd ac nid oes ganddynt fawr iawn o gostau gweithredu, os o gwbl, gan nad oes angen pŵer arnynt ac maent yn systemau hunanaddasu dibynadwy ar y cyfan. Fodd bynnag, byddai angen cynnal a chadw ychydig o weithiau'r flwyddyn i dynnu malurion o unrhyw ollyngfeydd, ailosod unrhyw bibellau sydd wedi'u difrodi, cael gwared ar unrhyw rywogaethau planhigion goresgynnol a allai fod yn drech na'r planhigion gwlyptir, lleihau croniad gwaddodion a chadw llygad ar uniondeb strwythurol agweddau strwythurol y dyluniad. Byddai cytundebau parhaus gyda Dŵr Cymru neu ddeiliaid tir ar gyfer mynediad yn hanfodol.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**11.56** Yn amodol ar argaeledd cyllid, dylid monitro llwyddiant y prosiect drwy wyddoniaeth dinasyddion syml. Gallai technegau gynnwys monitro ansawdd dŵr gan ddefnyddio offer llaw syml, neu osod mesurydd ffrwd syml i fonitro llif ffrwd. Dylid hefyd edrych ar ymgysylltu â Dŵr Cymru er mwyn creu system fonitro i asesu dal a storio maetholion a digwyddiadau gorlif storm cyfun / amser gollwng.

## Camau nesaf

**11.57** Byddai cydweithio Dŵr Cymru yn hanfodol i sicrhau llwyddiant y prosiect hwn, ac felly'r cam cyntaf fyddai dechrau trafodaeth gyda Dŵr Cymru ac ymrwymo i gytundeb cydweithio. Gall hyn hefyd fod yn fodd o gael cyllid ar gyfer y prosiect, naill ai gyda Dŵr Cymru neu fel rhan o Gronfa Arloesi Ofwat.

**11.58** Ymgysylltu â thirfeddianwyr i ymrwymo i gytundebau i brynu neu rentu eu tir. Ymgysylltu â'r gymuned leol i greu cefnogaeth ac ymrwymiad i'r prosiect.

## Rhestr Hir o Brosiectau

### STD1 – Cyflenwi rhandiroedd / lle tyfu cymunedol newydd ar Ffordd Glasfryn

**11.59** Er mwyn bodloni'r galw mawr am randiroedd yn Nhyddewi, ceir cyfle i ddefnyddio gweddill y cae sydd heb ei ddatblygu ar Heol Glasfryn fel lle tyfu cymunedol. Gellid rheoli'r safle fel gardd gymunedol mewn partneriaeth ag Ysgol Penrhyn Dewi. Ceir cyfleoedd da i gael mynediad drwy lwybrau teithio llesol a gwelliannau ychwanegol i gynefinoedd, gan gynnwys cyflwyno ymylon caeau, coridorau peillwyr, pyllau, gwrychoedd a ffosydd.

### STD2 – Cyflwyno gwyrddu trefol o fewn ardaloedd preswyl presennol

**11.60** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

### STD3 – Gwella cysylltiadau â Llwybr Arfordir Penfro

**11.61** Dylid dynodi llwybrau'n well a gwella cyflwr arwynebau llwybrau ar hawliau tramwy cyhoeddus presennol rhwng Pen-y-Garn a Santes Non. Ceir cyfle i ddynodi llwybrau'n well a hyrwyddo'n lleol y llwybr beicio presennol rhwng Heol y Bryn a Heol yr Afr fel cyswllt beicio diogel rhwng Santes Non a Thyddewi (cylch 4 munud). Dylid ystyried gosod gorsafoedd gwefru beiciau

trydan mewn lleoliadau ar hyd y llwybr. Dylid cefnogi hefyd ddefnyddio Ffordd Porth Clais fel llwybr beicio diogel ac uniongyrchol i lawr i Harbwr Porthclais (5 munud ar feic, 20 munud ar droed). Dylai arwyddion dynodi llwybrau fod yn glir a chynnwys pellteroedd ac amseroedd cerdded / beicio.

## STD4 – Darparu cyswllt teithio llesol i Draeth Mawr

**11.62** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## STD5 – Gwella mynediad sensitif i ACA Tiroedd Comin Gogledd-orllewin Sir Benfro a Thir Comin Dowrog

**11.63** Dylid gweithredu llwybr beicio oddi ar y ffordd, gydag arwyddion a dynodi llwybrau tuag at ochr dde-orllewin Tir Comin Dowrog (yn Waun Fawr). Dylid hefyd sefydlu a hyrwyddo llwybr cylchol o amgylch perimedr y tir mynediad agored hwn hyd at y lôn ym Mynydd Du. Fel cynefin rhostir gwarchodedig Ewropeaidd, dylai'r cynigion ymgorffori uwchraddiadau llwybr sensitif ac arwyddion addysgol i sicrhau bod cŵn yn cael eu cadw ar dennyn ac y cyfyngir ar weithgareddau sy'n cynyddu risg tanau awyr agored.

## STD6 – Gwella safle Eglwys Gadeiriol a Llys Esgob Tyddewi i beillwyr

**11.64** Nodweddir tiroedd Eglwys Gadeiriol Tyddewi a Llys yr Esgob gan leiniau ymyl ffordd o laswellt a dorrir yn fyr y gellid eu gwella ar gyfer peillwyr trwy lacio’r drefn torri gwair a hau hadau blodau gwyllt. Dylid hefyd ystyried sefydlu dolydd blodau gwyllt ar lethrau serth sy'n anhygyrch i beiriant torri gwair. Ar ben

hynny, mae ardaloedd tawelach o gwmpas y tiroedd yn cynnig y cyfle i gyflwyno ardaloedd nas aflonyddir arnynt ar gyfer pentyrrau boncyffion.

## STD7 – Datblygu darpariaeth peillwyr yng Nghanolfan Groeso ac Oriel y Parc

**11.65** Gellid gwella'r cloddiau presennol i ddarparu ardaloedd pridd moel ar gyfer peillwyr a chloddiau glöynnod byw. Byddai gwella'r ardaloedd hyn yn creu cynefin gwerth uchel i beillwyr ym mhob cyfnod bywyd, gan gynnwys darparu ffynonellau bwyd larfaol. Gellid hefyd gwella nifer o gloddiau a waliau cerrig sychion a llystyfiant ar eu pennau o fewn y maes parcio cyfagos i ddarparu mwy o amrywiaeth o blanhigion blodeuol. Yr ardal hon hefyd yw man cychwyn y llwybr peillwyr a byddai ei gwella ymhellach yn cryfhau statws caru gwenyn yr ardal.

## STD8 – Gwella potensial cynefin caeau chwarae yn Ysgol Penrhyn Dewi

**11.66** Ceir potensial i blannu coed o amgylch perimedr y safle i wella cysylltedd cynefinoedd, yn enwedig ar hyd yr A487. Dylid hefyd edrych ar blannu coed ar ymylon caeau i ddarparu cysgod a strwythur ychwanegol i'r tiroedd. Yn ogystal, dylid hau hadau blodau gwyllt, paratoi’r ddaear yn briodol a llacio’r drefn torri gwair gyda’r nod o greu ardaloedd 'gwylltach' ar gyfer peillwyr ar ymylon caeau.

## STD9 – Cyfoethogi’r cynefin presennol ym Maes Parcio Merivale / Llys yr Esgob

**11.67** Dylid gwarchod a gwella'r cynefin presennol yn y lleoliad hwn ar gyfer peillwyr trwy blannu ychwanegol, llacio’r drefn torri gwair a rheoli ymylon coetir.

Dylid gwella'r rhannau presennol o ferddwr hefyd i ymgorffori lagwnau pryfed hofran.

## STD10 – Mynd i’r afael â’r bylchau yn Llwybr Peillwyr Tyddewi

**11.68** Mae'r llwybr peillwyr y rhoddwyd statws 'Caru Gwenyn' i Dyddewi o’i herwydd wedi dirywio ers ei achrediad a cheir cyfle i adfywio'r rhwydwaith o gafnau plannu uchel. Er mwyn ailgyflawni’r statws hwn, dylid gwella The Meadow, Quality Cottages a Wild About Pembrokeshire trwy waith i uwchraddio'r cafnau plannu gyda blodau lluosflwydd sy’n denu peillwyr.

## STD11 – Gwyrddu Heol Non ymhellach

**11.69** Mae'r clawdd glaswellt ar y troad rhwng Heol Non a Mount Gardens yn cynnig cyfle i sefydlu grwpiau coed. Ymhellach ar hyd Heol Non lle mae graddiant y llain laswellt yn cynyddu, dylid hau'r ardal â dôl blodau gwyllt i greu cynefin peillwyr ychwanegol a chynyddu diddordeb esthetig. Dylid hefyd edrych ar sefydlu coed stryd ychwanegol yn yr arwynebau caled sy'n gwahanu'r ffordd gerbydau a'r cilfachau parcio ger y gyffordd â Heol Newydd.

## STD12 – Hyrwyddo cyfleoedd i dyfu bwyd cymunedol yn lleol

**11.70** Mae Gardd Gymunedol Erw Dewi yn esiampl o’r ffordd y gall garddio sy'n denu bywyd gwyllt gynnal bioamrywiaeth a sicrhau cyfleoedd i dyfu bwyd cymunedol. Dylai'r lle hwn barhau i gael ei reoli a'i hyrwyddo'n lleol er budd bywyd gwyllt a'r gymuned.

## STD13 – Cyflwyno rhwydwaith o goed stryd ar Heol Newydd a Stryd Fawr yr A487

**11.71** Archwilio’r cyfle i gyflwyno rhwydwaith o goed stryd cadarn yn amgylchedd y cyhoedd ar Heol Newydd a Stryd Fawr yr A487. Oherwydd cyfyngiadau gofodol, gallai'r opsiynau gynnwys defnyddio coed wrth fynedfa'r stryd i fframio golygfeydd yn ogystal â defnyddio ffurfiau canopi pigfain i gynnal gwelededd da a sicrhau digon o uchder clirio i gerddwyr.

## STD14 – Creu gwlyptiroedd wrth ymyl Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Tyddewi

**11.72** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## STD15 – Ailgysylltu gorlifdiroedd a phlannu coed

**11.73** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi nodi nifer o ardaloedd i fyny'r afon o Dyddewi ar hyd Afon Alun, lle mae potensial i gysylltu ardaloedd hanesyddol o orlifdir â sianel bresennol yr afon. Nod y gwaith hwn fyddai darparu storfa llifddwr a lleihau risg llifogydd i lawr yr afon. Ar ben hynny, mae'r potensial yn bodoli i gyfuno ailgysylltiad y gorlifdir ag ardaloedd o blannu coed i liniaru effaith llifogydd yn well. Dylid hefyd plannu coed mewn ardaloedd o orlifdir heb goed yn fodd o helpu i leddfu glawiad a lleihau risg llifogydd, gan ddarparu cynefin gwerthfawr i fywyd gwyllt.

## STD16 – Creu cyswllt i gerddwyr sy’n cysylltu Tyddewi a Phorthclais wrth ymyl Afon Alun

**11.74** Gweithio gyda thirfeddianwyr lleol i sefydlu llwybr strategol i gerddwyr sy'n cysylltu'r ardal o fynediad agored yn Pit Street gyda Phorth Clais, drwy goridor Afon Alun. Cynigia’r llwybr y potensial i gysylltu â'r rhannau presennol o'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus, gan gynnwys llwybr ceffylau sy'n croesi Afon Alun wrth y Waun Isaf. Byddai'r coridor yn cynnig gwerth hamdden ac yn cynnig cysylltiadau ehangach gyda Llwybr Arfordir Penfro.

## STD17 – Datblygu rhwydwaith o lwybrau cerdded cylchol ar y tir o amgylch Llys yr Esgob

**11.75** Archwilio cyfleoedd i greu teithiau cerdded cylchol sy'n dyrannu’r ardal o dir mynediad agored i'r de-orllewin o Lys yr Esgob, gan groesi coridor Afon Alun a ffurfio cysylltiadau ehangach â Merry Vale. Ceir cyfle hefyd i ddefnyddio'r ardal o goetir i'r gogledd o Lys yr Esgob i ailsefydlu llwybrau coetir ar gyfer buddion hamdden lleol..

# Pennod 12

Dinbych-y-pysgod

**Ffigur 12.1: Dinbych-y-pysgod**



## Portread o Seilwaith Gwyrdd Dinbych-y-pysgod


**12.1** Tref gaerog ganoloesol ar arfordir de Sir Benfro yw Dinbych-y-pysgod. Wedi'i hadeiladu ar hyd y clogwyn ac wedi'i hamgylchynu gan draethau

tywodlyd, mae'r dref yn gyrchfan boblogaidd i dwristiaid. Mae Muriau Tref hynafol Dinbych-y-pysgod yn amgylchynu'r craidd hanesyddol sydd wedi ei ddynodi'n Ardal Gadwraeth. Mae strydoedd cul y craidd hanesyddol, strydoedd cefn sy’n cydgysylltu a nifer o adeiladau rhestredig yn helpu'r dref i gadw cymeriad morwrol unigryw. Mae Castell Dinbych-y-pysgod o'r 12fed ganrif ac Ynys Catrin a chaer ar ei phen o'r 19eg ganrif yn cynnig elfennau penodol yng nghymeriad morlun Dinbych-y-pysgod. Mae Dinbych-y-pysgod o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

**12.2** Er bod llawer o forlin y dref wedi’i drefoli, mae Dinbych-y-pysgod yn gartref i fwy nag un traeth cyhoeddus sy'n ffinio â'r dref i'r gogledd ac i'r de. Mae'r darn poblogaidd hwn o forlin hefyd yn gartref i Lwybr Cenedlaethol Llwybr Arfordir Penfro sy'n cysylltu Dinbych-y-pysgod â thirwedd ehangach Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Yn gyffredinol, mae mannau agored cyhoeddus eraill yn Ninbych-y-pysgod i'r gorllewin o ganol y dref, gyda mannau gwyrdd yn y craidd hanesyddol wedi’i anheddu’n ddwys wedi’u cyfyngu’n bennaf i fynwent eglwys y Santes Fair. I'r de-orllewin o ganol y dref, mae Afon Rhydeg a'i gorlifdir isel llydan yn llifo i gyfeiriad y dwyrain tua'r môr. Mae'r ddyfrffordd gorsiog hon yn cynnig ardaloedd ychwanegol o gyfle hamdden oherwydd nifer o hawliau tramwy cyhoeddus. Mae lleiniau o goetir hynafol a Ffen Rhydeg, a ddynodwyd yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), yn gwneud y dyffryn hwn yn goridor bywyd gwyllt pwysig. Caiff amgylchedd morol Dinbych-y-pysgod ei gydnabod yn rhyngwladol ac yn genedlaethol trwy ei ddynodiad o dan Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Dynesfeydd Môr Hafren, ACA Bae Caerfyrddin a’i Aberoedd, Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Bae Caerfyrddin, SoDdGA Clogwyni Dinbych-y-pysgod ac Ynys Catrin, ynghyd â SoDdGA Penrhyn Lydstep i Dwyni Dinbych-y-pysgod. Ar y cyfan, prin yw’r gorchudd coed o fewn craidd yr anheddiad, a llawer o'r coetir wedi'i leoli ar ymylon y dref, neu ar hyd coridorau'r rheilffordd ac afonydd.

**12.3** Mae gan Ddinbych-y-pysgod gysylltiadau trafnidiaeth a hamdden cryf â'r rhanbarth ehangach drwy ei gorsaf drenau, llwybrau cerdded a hyrwyddir a chysylltiadau beicio. Mae cysylltiadau llwybr troed yn cysylltu Dinbych-y-pysgod â chefn gwlad ehangach y gogledd, y de a'r gorllewin, yn ogystal â Llwybr Arfordir Penfro. Daw'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN) 4 hefyd trwy’r dref a defnyddia lonydd oddi ar y ffordd a llwybrau arfordirol i'r gogledd a'r de.

## Ffigur 12.2: Cyfleoedd SG yn Ninbych-y-pysgod




- TEN1 Hyrwyddo gwyrddu'r Hyb Trafnidiaeth
- TEN2 Gwella safle Gorsaf Dinbych-y-pysgod
- TEN3 Cyflenwi ymyriadau gwyrddu ym Mur y Dref
- TEN4 Hyrwyddo gwyrddu'r Stryd Fawr a St Julian's Street
- TEN5 Cyflwyno llwybr cerdded cylchol i Dŷ Scots-borough
- TEN6 Gwella gerddi Battery Gardens i beillwyr
- TEN7 Annog planhigion blodeuog sy'n denu peillwyr i sefydlu yng Ngerddi Jiwbilî
- TEN8 Cynyddu bioamrywiaeth yn Eglwys y Santes Fair
- TEN9 Cyflwyno planhigion brodorol ar hyd y Promenâd
- TEN10 Darparu hafan i beillwyr yng Nghastell Dinbych-y-pysgod
- TEN11 Gwella a hyrwyddo Golygfa Allen
- TEN12 Cryfhau cysylltiadau gwyrdd strategol ar y tir rhwng Ystâd Ddiwydiannol Salterns ac Afon Rhydeg
- TEN13 Hyrwyddo mecanweithiau teithio llesol a llwybrau diogel i ysgolion
- TEN14 Gwella dynodi llwybrau ac arwyneb NCN
- TEN15 Creu clawdd peillwyr yn Ysgol Greenhill
- TEN16 Cyflenwi lle tyfu yn Ysgol Gynradd Sant Teilo
- TEN17 Cyflwyno plannu coed mewn ardaloedd preswyl
- TEN18 Hyrwyddo gwyrddu trefol llwybrau allweddol
- TEN19 Cyflwyno pwll, gwalau a seilwaith Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) ger y Corsydd
- TEN20 Creu ardaloedd gwlyptir ger Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Dinbych-y-pysgod
- TEN21 Ailgysylltu'r gorlifdir a'r amgylchedd torlan-nol ar lannau afonydd
- TEN22 Hyrwyddo tyfu bwyd cymunedol yn Ninbych-y-pysgod

# Prosiectau Cicdanio

## TEN12 – Cryfhau cysylltiadau gwyrdd strategol ar y tir rhwng Ystâd Ddiwydiannol Salterns ac Afon Rhydeg

**12.4** Ar hyn o bryd, mae’r tir rhwng y Salterns a Lower Park Road / Quarry Road yn cynnal mosaig o laswelltir gwlyb, coed a chynefin corstir. Mae'r tir, sy'n eiddo i Gyngor Sir Penfro (CSP), yn ffinio ag Afon Rhydeg i'r dwyrain ac mae'n ffurfio cysylltiad pwysig o'r gogledd i'r de rhwng y coridor rheilffordd coediog, Clwb Golff Dinbych-y-pysgod a choetir yn y twyni, gydag ardaloedd strategol o fannau gwyrdd o amgylch Ysgol Greenhill, Marsh Road a Heywood Lane. Ar hyn o bryd, nid yw’r lle’n cael ei reoli ryw lawer ac mae'n cynnig y potensial i greu mosaig mwy amrywiol o gynefin torlannol. Gellid hefyd edrych ar gyfleoedd i gael mynediad sensitif i lan yr afon i gefnogi rhyngweithio lleol â natur, llwybrau anffurfiol a nodweddion chwarae naturiolaidd. Dylid cyflwyno nodweddion cynefin, megis pentyrrau boncyffion a thai infertebratau, hefyd i ddarparu cyfleoedd ychwanegol i archwilio natur.

**12.5** Eistedda'r safle o fewn ardal lle mae risg uchel o lifogydd, gyda'r man gwyrdd, yr unedau diwydiannol cyfagos ar Ystâd Ddiwydiannol Salterns a rhai tai cyfagos yn perthyn i Barth Llifogydd 3. Dylid ystyried creu gwalau gwlyptir ychwanegol, plannu coed priodol a defnyddio mannau storio llifogydd naturiol fel ateb seiliedig ar natur i lifogydd. Mae lleoliad strategol y lle’n golygu y gellid ei ddarparu mewn partneriaeth â busnesau, trigolion ac ysgolion cyfagos. Ar ben hynny, mae'r lle’n rhoi cyfle i wella cysylltiad teithio llesol allweddol rhwng canol y dref a'r orsaf drenau. Dylid cadw llinellau gweld clir i mewn ac allan o'r lle ar gyfer gwyliadwriaeth anffurfiol, yn ogystal â llinellau gweld o eiddo cyfagos.

## Ffigur 12.3: TEN12




# Buddion y prosiect

**12.6** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 12.4 isod, mae:

- Lleihau risg llifogydd
- Darparu cyfleoedd teithio llesol
- Gwella ansawdd dŵr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Chwarae, addysg a rhyngweithio â natur
- Rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant cymunedol
- Gwella iechyd a lles

### Ffigur 12.4: Buddion




## Mecanweithiau cyflawni

**12.7** Mae angen ymdrech gychwynnol sylweddol i gael y lle i gyflwr rheoli cadarnhaol, a hynny'n fwyaf tebygol ar y cyd â Thîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP, grwpiau cymunedol neu grwpiau cadwraeth eraill fel yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt. Yna dylid ymgorffori gwaith rheoli parhaus y safle mewn rhaglenni cynnal a chadw blynyddol.

**12.8** Wrth blannu coed newydd, dylid darparu gofal a rheolaeth barhaus ar gyfer y cyfnod sefydlu 60 mis ar ôl plannu i sicrhau eu hannibyniaeth lwyddiannus o fewn y dirwedd. Dylai hyn gynnwys dyfrio yn ystod tymhorau sych, llacio'r polion coed ac edrych yn rheolaidd am goed a ddadwreiddiwyd gan y gwynt.

**12.9** Gallai rhan o'r cynllun, er enghraifft plannu coed ac unrhyw ardaloedd bywyd gwyllt neu fylbiau, gael ei chyflawni trwy raglen Tyfu Mannau Gwyrdd Trefol 2022 - 2023.

## Partneriaid posibl

- Tîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP
- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru

- Partneriaeth Natur Sir Benfro
- Wardeniaid coed Sir Benfro
- Cyngor Tref Dinbych-y-pysgod
- Cymdeithas Cadwraeth Mannau Gwyrdd Dinbych-y-pysgod
- Ysgolion lleol
- Busnesau lleol

## Cost amlinellol

Cost isel = <£250k

**12.10** Gan ddibynnu ar y graddau y caiff y gymuned ei chynnwys mewn ymgyrchoedd rheoli cychwynnol a gwaith cynnal a chadw parhaus, byddai'r prosiect yn gymharol gost-effeithiol yn y tymor hir. Byddai cyflwyno llwybrau anffurfiol, seddi a nodweddion chwarae naturiol yn cyflwyno cost cyfalaf pe byddai'r rhain yn cael eu ceisio.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Cronfa Rhwydweithiau Natur
- Rhaglen Tyfu Mannau Gwyrdd Trefol 2022 – 2023

## Amserlen

Cam cyflym ymlaen = <1 flwyddyn

**12.11** Gellid cyflawni ymdrechion cychwynnol i gael y man gwyrdd i gyflwr rheoli cadarnhaol yn gymharol gyflym. Fodd bynnag, byddai angen parhau i reoli'r lle yn gadarnhaol drwy gydol ei oes.

## Cyfyngiadau posibl

**12.12** Mae lleoliad y safle a'r prinder gwyliadwriaeth naturiol yn cyflwyno risg ymddygiad gwrthgymdeithasol. Trwy agor llinellau gweld a golygfeydd ar draws Afon Rhydeg o eiddo cyfagos, gellir lleihau hyn.

**12.13** Er mwyn cynnal a chadw'r lle’n barhaus i sicrhau bod y mosaig cynefinoedd yn cael ei gadw, byddai angen mewnbynnau adnoddau parhaus bob blwyddyn. Gall hyn fod yn anodd i Dîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP ymgorffori yn eu rhaglen reoli heb gymorth ychwanegol gan wirfoddolwyr.

**12.14** Gellir canfod bod mannau 'gwyllt' yn anniben neu'n flêr. Gellir defnyddio arwyddion i gyfleu pwysigrwydd gadael mannau i fyd natur er mwyn cynyddu addysg a dealltwriaeth.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**12.15** Byddai angen cynnal a chadw blynyddol parhaus ar y lle drwy gydol tymhorau gwahanol. Byddai angen i unrhyw goed newydd a blannir gael gofal rheolaidd ar gyfer y cyfnod sefydlu 60 mis ar ôl eu plannu. Dylai hyn gynnwys dyfrio yn ystod misoedd sychach yr haf, llacio polion wrth iddynt dyfu, archwilio’r coed a'r gardiau am ddifrod yn dilyn gwyntoedd cryfion.

**12.16** Byddai angen rheoli rhywogaethau trech a goresgynnol yn rheolaidd a'u torri'n ôl, er enghraifft mieri a Jac y Neidiwr. Gall hyn fod yn eithaf llafurus ond gallai timau gwirfoddol wneud y gwaith hwn.

**12.17** Dylid osgoi defnyddio gwrtaith, plaladdwyr a phryfleiddiaid, yn enwedig yn agos at y cwrs dŵr.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**12.18** Gellid defnyddio cynllun Gwyddoniaeth Dinasyddion i fonitro llwyddiant y man bywyd gwyllt newydd, er enghraifft, trwy ddiwrnodau cyfrif infertebratau neu fonitro ansawdd dŵr Afon Rhydeg.

## Camau nesaf

**12.19** Cynnal arolwg ecolegol / cynefin Cam 1 o'r cynefin presennol yn y lle.

**12.20** Cysylltu â Thîm Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP i drafod opsiynau rheoli ac i ba raddau y byddai angen cymorth grŵp cymunedol neu gadwraeth.

**Ffigur 12.5: Dinbych-y-pysgod**



# TEN16 – Cyflenwi lle tyfu yn Ysgol Gynradd Teilo Sant

**12.21** Gweithio gydag Ysgol Gynradd Gatholig Teilo Sant i ddarparu perllan gymunedol a lle tyfu yn ardal y glaswellt amwynder i'r gogledd o'r ysgol yn St. John's Hill. Byddai cyflwyno coed perllan yn y man hwn yn cefnogi peillwyr a bywyd gwyllt arall, gan hefyd ddarparu ffynonellau ffrwythau 'coeden i blât' uniongyrchol. Byddai blodau yn ystod y gwanwyn a chysgod yn ystod yr haf hefyd yn helpu i greu lle mwy chwareus a swyddogaethol. Mae gwelyau llysiau, cynwysyddion uwch, cafnau plannu a dringwyr fertigol yn cynnig cyfle i ddarparu detholiad amrywiol o ffrwythau a llysiau ar gyfer tyfu a bwyta trwy gydol y flwyddyn.

**12.22** Byddai nodweddion cynefin ychwanegol fel gwestai pryfed, pentyrrau boncyffion, blychau adar ac ardaloedd o sefydlu dôl yn cynnig cyfleoedd ychwanegol ar gyfer addysg ecolegol a rhyngweithio â natur. Mae sefydlu'r cyfleuster tyfu hefyd yn cynnig y potensial i weithio mewn partneriaeth â'r ysgol i integreiddio tyfu bwyd cynaliadwy fel rhan o'r cwricwlwm. Gan weithio yn unol ag amcanion y Strategaeth Peillwyr ar gyfer y dref, dylid hefyd archwilio’r rhan y gall y mannau hyn ei chwarae wrth ddarparu lloches i fywyd gwyllt drwy greu cynefinoedd ac arferion rheoli ecolegol, gan sicrhau bod digon o le yn cael ei gadw ar gyfer lle chwarae a dysgu awyr agored.

### Ffigur 12.6: TEN16




## Buddion y prosiect

**12.23** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 12.7 isod, mae:

- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Chwarae, addysg a rhyngweithio â natur
- Rhyngweithio cymdeithasol a chydlyniant cymunedol
- Gwella iechyd a lles

### Ffigur 12.7: Buddion




## Mecanweithiau cyflawni

**12.24** Byddai angen cyflawni mewn partneriaeth ag Ysgol Gynradd Gatholig Teilo Sant. Gallai llawer o'r gwaith sefydlu cychwynnol gael ei gwblhau mewn partneriaeth â'r ysgol, gan gynnwys plannu coed ac adeiladu eitemau fel gwestai infertebratau. Mae'n bosib y bydd angen ychydig o gyngor garddwriaethol a rheoli tirwedd gan Gyngor Sir Penfro (CSP) i oruchwylio hyn. Gallai'r ysgol wneud y tyfu a'r cynnal a chadw parhaus i raddau helaeth gyda rhywfaint o gymorth gan Dimau Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP.

## Partneriaid posibl

- Ysgol Gynradd Gatholig Teilo Sant
- Timau Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP

- Warden coed gwirfoddol Dinbych-y-pysgod (Wardeniaid Coed Sir Benfro)
- Partneriaeth Natur Sir Benfro
- Cyngor Tref Dinbych-y-pysgod
- Cymdeithas Cadwraeth Mannau Gwyrdd Dinbych-y-pysgod
- Rhwydwaith Bwyd Bendigaid
- Groundwork UK
- Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
- Ffederasiwn Ffermydd Dinas a Gerddi Cymunedol – Gwasanaeth Cynghori Tir Cymunedol yng Nghymru a phrosiect Tyfu Gyda'n Gilydd
- Gwyllt am Sir Benfro

## Cost amlinellol

### Cost isel = <£250k

**12.25** Gall ymyriadau fod yn weddol syml a chost isel. Dylid cynnwys sefydlu a rheoli yn y costau.

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Cyfraniadau datblygwyr

## Amserlen

### Tymor cyflym = 1-5 mlynedd

**12.26** Mae'n debygol y bydd y prosiect yn cymryd blwyddyn neu ddwy i fynd ar lawr gwlad oherwydd yr angen i ymgysylltu a chodi arian.

## Cyfyngiadau posibl

**12.27** Mae'r prosiect yn gofyn am ymrwymiad gan yr ysgol gan y bydd yn gaffaeliad sylweddol, ond gwerth chweil, i ymgymryd ag ef. Byddai sicrhau buddsoddiad priodol ar gyfer y lle tyfu yn hanfodol er mwyn ei gyflawni'n llwyddiannus. Ar ben hynny, bydd digon o adnoddau i helpu yn y sefydlu cychwynnol a’r cynnal a chadw parhaus yn hanfodol ar gyfer llwyddiant parhaus y lle tyfu, yn enwedig y rhai sydd â rhywfaint o wybodaeth arddwriaethol a rheoli tirwedd.

**12.28** Bydd angen paratoi’r ddaear yn briodol a phrofi’r pridd cyn y cyflenwi.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**12.29** Bydd y prosiect yn dibynnu ar gael yr ysgol yn bennaf gyfrifol am stiwardiaeth barhaus y lle tyfu. Gellid ymgorffori hyn mewn trefnau cynnal a chadw presennol, yn ogystal â thrwy ddysgu awyr agored a gweithgareddau ymarferol i'r plant. Dylid darparu cymorth ychwanegol gan Dimau Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP i sicrhau llwyddiant parhaus y lle, a hynny’n arddwriaethol ac ar gyfer bywyd gwyllt.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**12.30** Gallai'r safle gael ei gynnwys o fewn Cynllun Llesiant CSP. Gellid mesur mesurau trosolwg o ymateb y plant i'r lle tyfu, er enghraifft, amser a dreulir yn yr awyr agored, gwybod o ble mae bwyd yn dod, parodrwydd i roi cynnig ar ffrwythau a llysiau newydd, dealltwriaeth o beillwyr a phwysigrwydd bioamrywiaeth ac ati.

## Camau nesaf

**12.31** Ymgynghori ag Ysgol Gynradd Gatholig Teilo Sant i farnu’r awydd am y prosiect.

**12.32** Ymgysylltu â Thimau Cynnal a Chadw Amwynderau / Gofal Stryd CSP.

**12.33** Cynnal profion pridd ar y safle er mwyn sicrhau y byddai'r lle yn addas ar gyfer tyfu eitemau bwytadwy.

### Ffigur 12.8: Dinbych-y-pysgod





## TEN21 – Ailgysylltu'r gorlifdir a'r amgylchedd torlannol ar lannau afonydd

**12.34** O fewn Parth Llifogydd 3, mae tir ger Afon Rhydeg mewn perygl o ymchwyddiadau arfordirol a llifogydd afonol. Ceir cyfle i ailgysylltu amgylcheddau gorlifdir a thorlannol, gan adfer tir fferm âr ar hyd glan yr afon yn ôl i'w gyflwr naturiol.

**12.35** Byddai ailgysylltu'r gorlifdir, plannu coed a chynyddu'r rhwydwaith o gynefin torlannol ar hyd glannau Nant Knightston ac Afon Rhydeg yn helpu i leihau llifogydd dŵr wyneb yn yr ardal yn y dyfodol, gan helpu i adeiladu gwytnwch rhag yr hinsawdd. Ar ben hynny, byddai trosi tir amaeth âr yn gynefin gwlyptir yn cynyddu gwerth bioamrywiaeth yr ardal ymhellach yn ogystal â

darparu cyfleoedd twristiaeth neu bysgota. Byddai'r ymyriad hwn hefyd yn helpu i wella ansawdd dŵr, gan leihau costau trin dŵr a echdynnwyd i lawr yr afon.

### Ffigur 12.9: TEN21



## Buddion y prosiect

**12.36** Ymhlith buddion y prosiect, fel y'u darlunnir yn Ffigur 12.10 isod, mae:

- Lleihau risg llifogydd
- Gwella ansawdd dŵr
- Lle i fywyd gwyllt a gwytnwch ecolegol
- Gwella ansawdd aer a rheoleiddio sŵn

- Gwella iechyd a lles
- Dal a storio carbon a lliniaru effeithiau newid hinsawdd

**Ffigur 12.10: Buddion**




## Darparu atebion seiliedig ar natur a gwasanaethau ecosystemau

**12.37** Mae twf yn y boblogaeth a'r galw am dai wedi arwain at newid llawer o orlifdiroedd ledled y DU at ddefnyddiau tir preswyl, masnachol neu amaethyddol. Trowyd llawer o orlifdir Afon Rhydeg yn Ninbych-y-pysgod yn dir âr, gan ostwng y gorchudd coed a draeniad y tir er mwyn sicrhau bod y tir ffermio mor effeithlon â phosibl. Mae hyn wedi arwain at leihau cynefinoedd, a cholli gwlyptiroedd a chynefinoedd daearol gwlyb cysylltiedig. Fodd bynnag, mae risg llifogydd wedi cynyddu. Mae'r dirwedd bellach yn gallu amsugno llawer llai o ddŵr glaw ac felly'n cynnig llai o gapasiti i arafu a lleihau maint y dŵr sy'n llifo i lawr afonydd – mae'r dirwedd, felly, yn darparu llai o glustogfa mewn digwyddiadau glawiad maith. Mae lleihau cynefinoedd gwlyptir ac amgylcheddau torlannol hefyd yn arwain at lai o ddal a storio carbon o fewn yr ardal.

**12.38** Mae ailgyflwyno cynefinoedd gwlyptir a thorlannol yn creu storfa ar gyfer gormodedd o ddŵr ffo wyneb, gan leihau risg llifogydd, a chynyddu ansawdd

dŵr a dal a storio carbon ar y safle. Byddai ail-wlychu'r priddoedd gwlyptir hefyd yn cynyddu eu gallu i amsugno a chloi carbon. Mae ailgysylltu gorlifdiroedd yn creu cynefinoedd hanfodol i rywogaethau fel adar dŵr a meysydd magu pysgod ifainc, gan gyfrannu at fioamrywiaeth ehangach yr ardal

## Mecanweithiau cyflawni

**12.39** Byddai angen nodi safleoedd dethol gerllaw Afon Rhydeg a nant Knightston a'u cwmpasu ar gyfer eu haddasrwydd. Byddai angen asesiad ecolegol o bob safle. Gallai'r gwaith cwmpasu ac asesu hwn gael ei wneud gan wyddonwyr dinasyddion hyfforddedig, staff Cyngor Sir Penfro (CSP) neu ymgynghorwyr hyfforddedig. Byddai angen ymgysylltu â thirfeddianwyr a deiliaid / porwyr tir er mwyn cyflwyno'r cyfle hwn a thrafod eu heffeithiau ar ddefnydd tir presennol.

**12.40** Rhagwelwn y gallai'r ymyriadau a'r newidiadau ffisegol arfaethedig i reoli tir gael eu darparu gan y tirfeddianwyr eu hunain, neu gan gontractwyr amaethyddol allanol.

## Partneriaid posibl

- Deiliaid tir
- PLANED – Rhwydwaith Amaethyddiaeth Gynaliadwy Sir Benfro (PSAN)
- Cymdeithas Cadwraeth Mannau Gwyrdd Dinbych-y-pysgod
- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

## Cost amlinellol

### Cost isel = <£250k

**12.41** Byddai'r costau'n cynnwys ychydig o ffioedd cyngor arbenigol a ffioedd asiant tir cyfyngedig, costau tirlunio meddal a phlannu coed. Byddai adeiladu gwalau gwlyptir yn gofyn am gontractwyr a pheiriannau. Byddai angen i asesiad ecolegol o'r safle gael ei gynnal gan ecolegydd gyda'r holl waith safle'n cael ei oruchwylio o bosibl gan Glerc Gwaith Ecolegol (ECoW).

## Cyfleoedd ariannu posibl

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP)
- Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru sy'n dod i'r amlwg
- Rhaglen Grant Cymunedau Cydnerth
- Cronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
- Y Cyngor Coed
- Coedwig Genedlaethol Cymru – Y Grant Buddsoddi mewn Coetir (Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol – Cylch 1)
- Grantiau CNC
- Cronfa Rhwydweithiau Natur

## Amserlen

### Tymor canolig = 1-5 mlynedd

**12.42** Y prif gyfyngiadau i'r rhaglen ar gyfer y prosiect hwn fyddai cael cytundeb tirfeddianwyr. Gallai hyn fod yn broses hirfaith, ond pe bai'n dod i ben yn gyflym

yna gallai'r gweithredu fod yn gymharol gyflym.  Byddai angen i raglen ganiatáu amser i wneud gwaith modelu hydrolegol o'r dalgylch a chael y trwyddedau a'r caniatâd angenrheidiol er mwyn ymgymryd â'r gwaith. Gellid darparu ymyriadau ffisegol o fewn un tymor haf, gan ddibynnu ar argaeledd contractwyr.

**12.43** Un peth allweddol anhysbys i'r prosiect fyddai'r amser sydd ei angen i ennill cytundeb / caniatâd y tirfeddiannwr / deiliad tir / porwr.

## Cyfyngiadau posibl

**12.44** Un cyfyngiad allweddol ar gyfer y prosiect fyddai cytundebau tirfeddiannwr / deiliad tir / porwr, gan y gallai fod risg canfyddedig i hyfywedd fferm sy'n gysylltiedig â cholli rhywfaint o dir i amgylcheddau torlannol a chynefinoedd gwlyptir. Dylid gwrthddadlau'r pryderon hyn ag argaeledd taliadau amaethyddol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, ac felly mae'r oedi cyn lansio Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn gyfyngiad posibl yn hyn o beth.

## Cynnal a chadw a stiwardiaeth

**12.45** Byddai angen cynnal a chadw'r gwaith meddal a'r ardal o wlyptir fel rhan o'r cyfnod sefydlu 60 mis, gan gynnwys ailblannu coed aflwyddiannus.

## Monitro ar gyfer llwyddiant

**12.46** Yn amodol ar argaeledd cyllid, dylid monitro llwyddiant y prosiect drwy wyddoniaeth dinasyddion syml, gyda chymorth addas.

## Camau nesaf

**12.47** Ymgynghori â CSP a CNC i nodi a allai'r prosiect gydredeg â phrosiect yr Achos Amlinellol Strategol ar gyfer Afon Rhydeg sydd wedi cael cyllid gan Lywodraeth Cymru.

**12.48** Ymgysylltu â thirfeddianwyr / deiliaid / porwyr ac ymrwymo i gytundebau i ddarparu ymyriadau ar eu tir. Ymchwilio i'r potensial ar gyfer credydau maethol i wrthbwyso costau'r prosiect.

### Ffigur 12.11: Dinbych-y-pysgod



# Rhestr Hir o Brosiectau

## TEN1 – Hyrwyddo gwyrddu’r Hyb Trafnidiaeth

**12.49** Gwyrddu'r maes parcio aml-lawr ymhellach gyda wal werdd a gynhelir gan geblau (gan gynnwys rhaffau dur, rhwyll a phlanhigion dringo) i ddarparu lle i infertebratau ac adar, yn ogystal â thrapio mygdarthau gwacau. Dylid gwella safleoedd bws hefyd drwy ddefnyddio cafnau plannu uwch a’u hôl-osod â thoeau gwyrdd, gan sicrhau nad yw cynigion yn rhwystro mynediad i'r rhai sydd â nam ar eu symudedd. Lle mae digon o le, gellid codi llechfeini i ddarparu gerddi glaw hefyd. Ar ben hynny, dylid edrych ar blannu bylbiau a phlygiau o dan goed yn yr ardal o laswellt amwynder wrth ymyl y safle bws, yn ogystal â phlannu planhigion ychwanegol sy’n denu peillwyr yng Ngardd Cofeb Ryfel Dinbych-y-pysgod.

## TEN2 – Gwella safle Gorsaf Dinbych-y-pysgod

**12.50** Cyflwyno nodweddion gwyrddu trefol wrth fynedfa Gorsaf Dinbych-y-pysgod i greu porth mwy croesawgar. Ail-ffurfweddu'r ddarpariaeth barcio bresennol wrth y fynedfa i greu cafnau plannu uwch, plannu coed stryd a lloches parcio beiciau diogel gyda tho gwyrdd. Drwy ddynodi llwybrau’n well a gwella arwyddion, dylid hyrwyddo cysylltiadau â chanol y dref, Castell Dinbych-y-pysgod, Traeth y Castell a Harbwr Dinbych-y-pysgod ar hyd Warren Street, yn ogystal â thraeth De Dinbych-y-pysgod ar hyd Heol yr Orsaf. Dylai cynigion hefyd edrych i ymgorffori llwybr teithio llesol sy'n cysylltu’r Maes Glas â Gorsaf Dinbych-y-pysgod. Gan weithio gyda thrigolion ar hyd Warren Street, gellid hefyd nodi lleoliadau ar gyfer plannu coed stryd bychain.

## TEN3 – Cyflenwi ymyriadau gwyrddu ym Mur y Dref

**12.51** Ar un adeg, roedd Rhodfa’r De yn cynnal rhes o goed castan a gafodd eu heintio a'u tynnu oherwydd pryderon diogelwch. Dylid gosod coridor gwyrdd newydd sy'n cyflwyno gerddi glaw llinol yn ehangder gwreiddiol y pyllau coed blaenorol. Ni ddylai dyluniadau effeithio ar sefydlogrwydd y wal na sgrinio golygfeydd o'r ased treftadaeth. Byddai blodau lluosflwydd, llwyni bach a rhywogaethau coed i gyd yn darparu coridor peillwyr deniadol a chyfoethog. Dylid cynnal adolygiad o blanhigion eraill ar hyd Rhodfa’r De a Rhodfa St Florence hefyd i greu cynllun ar gyfer adnewyddu plannu llwyni.

## TEN4 – Hyrwyddo gwyrddu’r Stryd Fawr a St Julian’s Street

**12.52** Archwilio opsiynau i ad-drefnu'r gyffordd rhwng y Stryd Fawr, Stryd yr Eglwys a St Julian’s Street i adennill rhywfaint o ddarpariaeth parcio ar gyfer plannu coed a llwyni. Ar hyn o bryd, mae'r lle wedi’i led-bedestreiddio yn anniben â dodrefn stryd, gan gynnwys nifer fawr o folardiau, meinciau ac arwyddion. Ceir cyfle i gael gwared ar rai mannau parcio (gan gadw mannau i’r anabl, ar gyfer llwytho a mannau 20 munud) ar St Julian’s Street er mwyn cyflwyno parciau bach, cafnau plannu uwch, lle ychwanegol i gaffis a mannau eistedd cymdeithasol.

## TEN5 – Cyflwyno llwybr cerdded cylchol i Dŷ Scotsborough

**12.53** Heneb Gofrestredig yw adfeilion Tŷ Scotsborough o'r 17eg ganrif ac mae'n eistedd o fewn ardal o goetir hynafol tawel i'r gorllewin o Ddinbych-y-pysgod. Mae hawl tramwy cyhoeddus presennol yn cysylltu Dinbych-y-pysgod

â'r ased treftadaeth hwn o Scotsborough View a Serpentine Road. Ceir cyfle i ddynodi llwybrau'n well yn ogystal â chreu cyswllt hawl tramwy cyhoeddus hamdden rhwng y ddau lwybr troed sy'n rhedeg yn gyfochrog â'r dyffrynnoedd nant coediog.

## TEN6 – Gwella gerddi Battery Gardens i beillwyr

**12.54** Ar hyn o bryd mae Battery Gardens yn darparu nifer werthfawr o blanhigion blodeuol sy'n denu peillwyr. Fodd bynnag, byddai hyn yn cael ei wella ymhellach drwy dynnu rhai rhywogaethau addurnol a gosod yn eu lle blanhigion brodorol sy'n denu peillwyr a chyflwyno dôl blodau gwyllt ar gyrion y parc lle mae lleiniau o laswelltir amwynder yn bresennol.

## TEN7 – Annog planhigion blodeuog sy'n denu peillwyr i sefydlu yng Ngerddi Jiwbilî

**12.55** Ar hyn o bryd mae'r parc chwarae a'r parc sgrialu yng Ngerddi Jiwbilî wedi'u ffinio gan ymylon glaswelltog serth neu wynebau creigiog. Byddai torri gwair yn llai aml yn y lleoliadau hyn ac ychwanegu planhigion plwg sy'n goddef halen yn gwella atyniad y parc, heb gyfaddawdu ei swyddogaeth hamdden. Byddai hyn hefyd yn darparu cysylltedd pwysig i beillwyr.

## TEN8 – Cynyddu bioamrywiaeth yn Eglwys y Santes Fair

**12.56** Mae Eglwys y Santes Fair yn darparu nifer o gyfleoedd i ddarparu cynefin peillwyr ychwanegol yng nghanol hen dref Dinbych-y-pysgod. Ceir cyfle i wirfoddolwyr / grwpiau lleol helpu gyda'r gwaith o blannu blodau, creu pentyrrau coed marw a chloddiau pridd. Mae eglwysi yn aml yn rhoi cyfle i holl gylchoedd

bywyd peillwyr ac er bod y lle yng nghanol Dinbych y Pysgod, mae'n elwa ar gyn lleied â phosibl o aflonyddwch.

## TEN9 – Cyflwyno planhigion brodorol ar hyd y Promenâd

**12.57** Ar hyn o bryd mae pocedi o blanhigion addurnol yn bodoli yn y Promenâd, yn benodol yng ngerddi Atlantic Beach. Dylid gwella hyn i gynnwys mwy o rywogaethau blodeuol brodorol. Mae lleoliad cafnau plannu ychwanegol yng nghanol y dref yn cynnig cyfle i ddarparu cynefin peillwyr mwy addas. Byddai gwelliannau ar hyd y Promenâd hefyd yn ategu mentrau tebyg sy'n digwydd ar hyd hen Fur y Dref.

## TEN10 – Darparu hafan i beillwyr yng Nghastell Dinbych-y-pysgod

**12.58** Drwy gydweithio â Thimau Cynnal a Chadw Amwynderau Cyngor Sir Penfro (CSP), dylid estyn dolydd blodau gwyllt a chloddiau pridd ar gyfer peillwyr yn Castle Hill a Chastell Dinbych-y-pysgod i wella'r ddarpariaeth o gynefin peillwyr. Dylid cadw llinellau gweld yn y lleoliad hwn ar gyfer gwyliadwriaeth anffurfiol.

## TEN11 – Gwella a hyrwyddo Golygfa Allen

**12.59** Gan weithio gyda Chymdeithas Ddinesig Dinbych-y-pysgod, cyflwyno arferion rheoli sy'n amrywiaethu’r fflora daear coetir yn y safbwynt bryngaer coediog hwn. Ystyried dynodi llwybrau i hyrwyddo'r man cyhoeddus o Lwybr Arfordir Penfro a chefnogi cynigion ehangach i ddarparu cysylltiad teithio llesol o The Croft i faes parcio Traeth y Gogledd.

## TEN12 – Cryfhau cysylltiadau gwyrdd strategol ar y tir rhwng Ystâd Ddiwydiannol Salterns ac Afon Rhydeg

**12.60** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## TEN13 – Hyrwyddo mecanweithiau teithio llesol a llwybrau diogel i ysgolion

**12.61** Archwilio'r cyfle i ddefnyddio rhaglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau Llywodraeth Cymru a chyllid Teithio Llesol i gyflwyno ymyriadau gwyrddu fel rhan o gynlluniau teithio llesol yn y dref, yn arbennig ar hyd Heywood Lane.

## TEN14 – Gwella dynodi llwybrau ac arwyneb NCN

**12.62** Archwilio'r cyfle i osod arwyneb newydd ar lwybr 4 NCN wrth iddo fynd heibio i Fynwent Dinbych-y-pysgod i gynyddu hygyrchedd y llwybr i feicwyr. Gorwedda'r llwybr yn agos i safle'r datblygiad arfaethedig ym Mryn Hir a byddai'n darparu cyswllt teithio llesol allweddol â chanol y dref. Dylid hefyd dynodi llwybrau'n wel rhwng canol y dref, Bryn Hir a'r parc gwyliau yn New Hedges. Dylai cynigion eraill ystyried gosod llwybr teithio llesol sy'n cysylltu Slippery Back gyda Maes Parcio Traeth y Gogledd ac ymlaen tuag at Ddinbych-y-pysgod drwy The Croft.

# TEN15 – Creu clawdd peillwyr yn Ysgol Greenhill

**12.63** Gweithio mewn partneriaeth ag Ysgol Greenhill i archwilio cyfleoedd ar gyfer clawdd peillwyr i'r de o'r prif gampws sy'n ffinio â Marsh Road. Mae defnyddio'r ardal i'r gorllewin o'r llwybr troed presennol yn cynnig cyfle i greu ardal nas aflonyddir arni ar gyfer sefydlu dôl blodau gwyllt. Ceir cyfle hefyd i blannu coed ffiniol ychwanegol ar hyd Heywood Lane yng ngogledd y campws. Byddai hyn yn ategu'r coed aeddfed presennol o fewn y caeau chwarae.

# TEN16 – Cyflenwi lle tyfu yn Ysgol Gynradd Teilo Sant

**12.64** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

# TEN17 – Cyflwyno plannu coed mewn ardaloedd preswyl

**12.65** Gweithio gyda chymunedau i adnabod ardaloedd o laswellt amwynder o fewn ardaloedd preswyl sy'n addas i blannu coed. Annog perchnogaeth gymunedol ar y coed hyn i sicrhau eu sefydliad hirdymor e.e. dyfrio, llacio polion a thaenu gwellt. Er mwyn gwella'r ymdeimlad o berchnogaeth gymunedol, dylai trigolion fod yn rhan o'r broses o ddewis rhywogaethau a phlannu. Ymhlith y strydoedd addas mae Heywood Court, Rosemount Gardens, Newell Hill, The Gleve, Churchill Close a Tudor Way.

## TEN18 – Hyrwyddo gwyrddu trefol llwybrau allweddol

**12.66** Cefnogi defnyddio egwyddorion dylunio cydymdeimladol i gyflwyno mesurau gwyrddu trefol o fewn mannau caeth, megis o amgylch Eglwys y Santes Fair ac Upper Frog Street. Yn ogystal, archwilio'r cyfle i gryfhau cysylltiadau gwyrdd strategol allweddol, gan gynnwys y llwybr teithio llesol arfaethedig o Benalun i mewn i Ddinbych-y-pysgod.

## TEN19 – Cyflwyno pwll, gwalau a seilwaith Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) ger y Corsydd

**12.67** Mae'r ardal hon â risg uchel o lifogydd ac mae wedi dioddef llifogydd mawr yn y gorffennol. Byddai creu cyfres o byllau a gwalau yn yr ardal yn helpu i wella bioamrywiaeth yn ogystal â gweithredu i gadw gormodedd llifddwr efallai yn ystod digwyddiadau ymchwydd.

## TEN20 – Creu ardaloedd gwlyptir ger Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Dinbych-y-pysgod

**12.68** Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Dinbych-y-pysgod yn rheoli dŵr gwastraff o Ddinbych-y-pysgod a Saundersfoot ar hyn o bryd. Byddai creu gwlyptir ar dir gerllaw'r gwaith yn fodd o storio llifddwr a lleihau risg llifogydd i lawr yr afon. Byddai'r cynefin gwlyptir yn gweithredu fel clustogfa ar gyfer gollyngfa garthion mewn cyfnodau o gyfaint uchel ac yn cynorthwyo stripio maetholion. Byddai'r ymyriad hefyd yn helpu i leddfu rhyddhau llwythau maethol ymhellach i lawr yr afon.

## TEN21 – Ailgysylltu’r gorlifdir a’r amgylchedd torlannol ar lannau afonydd

**12.69** Cyfeirier at y Prosiectau Cicdanio.

## TEN22 – Hyrwyddo tyfu bwyd cymunedol yn Ninbych-y-pysgod

**12.70** Ceir cyfle i weithio gyda Chyngor Sir Penfro i ddewis safle priodol er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth rhandiroedd o fewn y dref. Dylai'r ymyriad annog perchnogion lleiniau i ddefnyddio llai o blaladdwyr a chwynladdwyr, gan ddewis yn hytrach gweithio'r tir yn organig. Dylid edrych hefyd ar gyfleoedd plannu coed a pherllannau ychwanegol. Os oes modd, dylid gadael ymylon plannu heb eu torri, gosod toeau byw ar siediau ac ychwanegu bwydwyr adar i ddenu bywyd gwyllt.

# Cyfeiriadau


1 https://www.sir-benfro.gov.uk/ffitrwydd-a-ffyniant/teithio-gweithredol

2 https://www.sir-benfro.gov.uk/ffitrwydd-a-ffyniant/teithio-gweithredol

3 https://www.arfordirpenfro.cymru/cynllunio/polisiau-cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2/

4 https://www.arfordirpenfro.cymru/cynllunio/polisiau-cynllunio/cynllun-datblygu-lleol-2/

# Adroddiad a luniwyd gan LUC

**Bryste**
12th Floor, Colston Tower, Colston Street, Bristol BS1 4XE
0117 929 1997
bristol@landuse.co.uk

**Caerdydd**
16A, 15fed Llawr, Tŷ Brunel, 2 Fitzalan Rd, Caerdydd CF24 0EB
0292 032 9006
cardiff@landuse.co.uk

**Caeredin**
Atholl Exchange, 6 Canning Street, Edinburgh EH3 8EG
0131 202 1616
edinburgh@landuse.co.uk

**Glasgow**
37 Otago Street, Glasgow G12 8JJ
0141 334 9595
glasgow@landuse.co.uk

**Llundain**
250 Waterloo Road, London SE1 8RD
020 7383 5784
london@landuse.co.uk

**Manceinion**
6th Floor, 55 King Street, Manchester M2 4LQ
0161 537 5960
manchester@landuse.co.uk

**landuse.co.uk**

Dylunio Tirwedd / Cynllunio ac Asesu Strategol
Cynllunio Datblygu / Dylunio ac Uwchgynllunio Trefol
Asesu Effaith Amgylcheddol / Cynllunio ac Asesu Tirwedd

**Adroddiad a luniwyd gan LUC**

Rheoli Tirwedd / Ecoleg / Amgylchedd Hanesyddol / Systemau Gwybodaeth Ddaearol a Delweddu